Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

**Mehefin 2025**

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Drysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei lunio a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Tachwedd 2024, ac mae Memorandwm diwygiedig bellach yn cael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 25 Tachwedd 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Mark Drakeford AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

**24 Mehefin 2025**

# Tudalen gynnwys


**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL .......... 3**

1.Disgrifiad .......... 3

2. Cymhwysedd Deddfwriaethol .......... 4

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael .......... 5

4. Ymgynghori .......... 17

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL .......... 41**

6.Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol .......... 41

7.Yr opsiynau .......... 46

8. Costau a manteision .......... 49

9. Asesiadau Effaith .......... 92

10. Adolygu ar ôl gweithredu .......... 98

11.Asesiad Fforddiadwyedd .......... 100

**Atodiad 1 .......... 103**

**Atodiad 2 .......... 135**

**Atodiad 3 .......... 139**

**Atodiad 4 .......... 185**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

Treth leol newydd a gaiff ei dylunio mewn ffordd sy'n gweithio i gymunedau lleol, busnesau, ac ymwelwyr â Chymru fydd ardoll ymwelwyr. Mae trethi lleol yn fuddsoddiad yn ein dyfodol i ariannu gwariant lleol; ni fyddai ein hasedau cyhoeddus heddiw – ffyrdd, canolfannau ymwelwyr, traethau glân, parciau, canolfannau hamdden na mannau trefol – yn bodoli heb drethi. Mae trethi lleol yn ffrydiau refeniw pwysig sy'n sicrhau bod gwasanaethau a seilwaith lleol yn parhau'n gynaliadwy i'n cymunedau.

Defnyddir y term 'ardoll' gan ei fod yn ymwneud â thaliad uniongyrchol i'r llywodraeth nad yw'n gysylltiedig â gwerth nwyddau a gwasanaethau. Mae'r ardoll yn dreth leol a fydd yn ariannu gwariant llywodraeth leol.

Bydd Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ("y Bil") yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi ardoll ar ymwelwyr dros nos sy'n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Bydd yr ardoll yn ddisgresiynol ei natur, gan mai mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylid ei chyflwyno, ar ôl ymgynghori â'u cymunedau a busnesau lleol. Bydd yn dâl fesul person, fesul noson, a fydd yn cael ei godi ar bawb sy'n talu i aros mewn llety dros nos. Bydd cap o 31 o ddiwrnodau ar nifer y nosweithiau y gellir codi amdanynt a bydd rhai arosiadau dros nos wedi'u heithrio neu'n destun ad-daliad. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Mae'r Bil hefyd yn sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr (darparwyr) sy'n gweithredu yng Nghymru, a fydd yn cynnwys manylion am y math o safle y maent yn ei weithredu a'i leoliad ledled Cymru. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofrestru, ni waeth a yw'r ardal awdurdod lleol y maent yn gweithredu ynddi wedi gweithredu'r ardoll ai peidio.

ACC fydd yn sefydlu, yn cynnal ac yn cyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Efallai y bydd yr wybodaeth hon o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae gan Senedd Cymru (“y Senedd”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ‘gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth’. Cafodd y gwaith hwn ei ddatblygu fel rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mai 2024. Roedd yn cynnwys llunio'r polisi, ymgynghori, a phenderfynu ar y dull cyffredinol o ymdrin â'r cynigion.

3.1.2 Mae'r cynigion a osodir gerbron y Senedd yn seiliedig ar ardoll ymwelwyr ddisgresiynol leol. Mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr os caiff y darpariaethau perthnasol eu cymeradwyo gan y Senedd.

3.1.3 Mae'r economi ymwelwyr yn ffynhonnell bwysig o ran swyddi a thwf economaidd ledled Cymru. Ein huchelgais yw tyfu twristiaeth er budd Cymru drwy gefnogi cymunedau lleol mewn ffordd sy'n gynaliadwy ar gyfer amgylchedd a phobl Cymru.

3.1.4 Mewn hinsawdd economaidd hynod heriol ar ôl pandemig ac argyfwng costau byw, mae gwasanaethau lleol yng Nghymru yn parhau i fod o dan bwysau. Bydd yr ardoll ymwelwyr yn sicrhau y bydd ymwelwyr yn talu cyfraniad bach ond cymesur y gellir ei ailfuddsoddi yn yr ardaloedd lleol hyn wedyn. Mae egwyddor tegwch yn sail i ardollau ymwelwyr ac yn sicrhau y caiff y costau eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr. Mae nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus yn rhan annatod o'r profiad cyffredinol i ymwelwyr, a gall ardoll ymwelwyr helpu i'w hariannu, gan annog ffordd fwy cynaliadwy o ymdrin â thwristiaeth. Gallai'r ardoll hefyd gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer buddsoddi gan awdurdodau lleol drwy ddarparu refeniw ychwanegol.

3.1.5 Nod y polisi ardoll ymwelwyr yw sicrhau y bydd costau ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol sydd o fudd i ymwelwyr yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr, a galluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu refeniw ychwanegol y gellir ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol i gefnogi twristiaeth a chefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, wrth gynyddu Gwerth Ychwanegol Gros twristiaeth yng Nghymru.

3.1.6 Bydd yr ardoll yn cael ei chodi ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr, a bydd yn dreth a hunanasesir. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gadw cyfrif o bob ymwelydd, gan godi'r ardoll fesul ymwelydd, a ffeilio ffurflen a thaliad i ACC, neu fel arall wynebu cosbau am fethu â gwneud hynny.

3.1.7 Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Mae'r gofrestr yn fan cychwyn ar gyfer nodi darparwyr llety ymwelwyr a llety

ymwelwyr ledled Cymru. Bwriedir i'r wybodaeth gael ei defnyddio ar draws sawl maes polisi: trethiant, twristiaeth a thrwyddedu statudol.

3.1.8 I grynhoi, bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol i fabwysiadu ardoll ymwelwyr ddisgresiynol leol newydd. Mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr, ar ôl ymgynghori â'u hardal leol. Nod y gofrestr yw helpu ACC i gasglu a gweinyddu'r ardoll, helpu awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau a darparu data a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi gwaith i ddatblygu polisi yn y dyfodol.

3.1.9 Mae darpariaethau'r Bil fel a ganlyn:

- **Dyletswydd, ar ran ACC, i sefydlu a chynnal cofrestr** o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.
- **Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig:** rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr fod yn gofrestredig mewn cysylltiad â'r llety ymwelwyr y mae'n ei ddarparu neu'n cynnig ei ddarparu.
- **Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i ddiweddaru eu cofnod yn y gofrestr.**
- **Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i wneud cais i dynnu eu hunain oddi ar y gofrestr pan nad ydynt yn ddarparwyr llety ymwelwyr mwyach.**
- **Dyletswydd ar ACC i gyhoeddi adrannau penodol o'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.**
- **Pŵer i osod ardoll:** rhoi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol i'w galluogi i godi ardoll ymwelwyr.
- **Atebolrwydd i dalu:** darparwr llety ymwelwyr fydd yn atebol am gyflwyno ffurflenni a thalu'r ardoll. Efallai y bydd yn dewis trosglwyddo'r costau hynny i ymwelwyr.
- **Sail yr ardoll a'r dull o'i chyfrifo:** tâl fesul person, fesul noson ar lety dros nos. Bydd y gyfradd yn cael ei gosod yn genedlaethol gan Weinidogion Cymru a fydd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Ni fydd y rhai sy'n aros mwy na 31 o nosweithiau yn atebol i dalu'r ardoll.
- **Casglu:** rhaid i bersonau atebol gyflwyno ffurflen i ACC bob chwarter, neu caniateir iddynt wneud hynny bob blwyddyn yn dibynnu ar swm yr ardoll yr amcangyfrifir ei gasglu (gall y darparwyr hynny sy'n amcangyfrif atebolrwydd o lai na £1000 ar draws y flwyddyn dreth gyflwyno'n flynyddol).

- **Defnyddio enillion net:** rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio enillion net ardoll ymwelwyr i hwyluso'r gwaith o gyflawni amcanion sy'n ymwneud â "rheoli a gwella cyrchfannau".
- **Adrodd ac Adolygu:** rhaid i awdurdodau lleol gadw cyfrif ar wahân ar gyfer yr ardoll ymwelwyr. Rhaid iddynt adrodd yn flynyddol ar faint o arian a gesglir a sut y mae'r refeniw wedi'i ddefnyddio.
- **Cyflwyno a Gweinyddu'r Ardoll:** mae'r Bil yn sicrhau bod rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori cyn penderfynu cyflwyno ardoll ymwelwyr.
- **Tâl ychwanegol:** mae'r Bil yn darparu ar gyfer y gallu i awdurdodau lleol i godi swm ychwanegol yn ddiweddarach ar ôl i'r ardoll gael ei chyflwyno.
- **Sefydlu Fforymau Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr:** mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i unrhyw brif gyngor sy'n cyflwyno ardoll hefyd sefydlu fforwm partneriaeth i sicrhau bod sefydliadau a busnesau twristiaeth yn clywed cyngor ac argymhellion ar gyfer yr ardoll.
- **Esemptiadau**: bydd rhai arosiadau dros nos yn cael eu heithrio, er enghraifft, arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol ar gyfer y rhai sy'n ddigartref, llety i geiswyr lloches, ysbytai preifat, safleoedd sipsiwn a theithwyr a phlant o dan 18 oed mewn arosiadau cyfradd is.
- **Ad-daliadau:** bydd rhai arosiadau dros nos yn destun ad-daliad. Er enghraifft, pan fydd person wedi darparu gofal, cymorth neu gefnogaeth i berson arall sy'n cael budd-daliadau anabledd cymwys, ymhlith eraill.
- **Gorfodi:** bydd pwerau presennol ACC yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn cael eu hestyn fel y gellir eu defnyddio mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr a'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Er enghraifft, pwerau sy'n ymwneud â chael gwybodaeth, cynnal arolygiadau, gosod cosbau a sicrhau uniondeb y system dreth.
- **Apelau:** mae'r Bil yn darparu pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau ACC.
- **Pŵer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd:** caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori'n briodol, estyn y Ddeddf i fod yn gymwys i ddocfeydd ac angorfeydd.

## 3.2 Y cefndir a'r achos dros newid

*Effeithiau Cadarnhaol Twristiaeth*

3.2.1 Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi yng Nghymru. Gwnaed mwy na 69 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2023, gan arwain at gyfanswm gwariant o fwy na £4.95 biliwn. Roedd 8.65 miliwn o'r ymweliadau hyn yn cynnwys aros dros nos, gan arwain at wariant o £2.02 biliwn[1]. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ymyriadau sylweddol i gefnogi'r sector yn ystod hinsawdd economaidd anodd ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, tanlinellir natur fregus y galw am dwristiaeth yng Nghymru gan y ffaith bod un o bob tri busnes wedi adrodd llai o ymwelwyr yn 2024 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn amlygu pa mor fregus yw'r sector i batrymau teithio newidiol a phwysau economaidd[2]. Rydym am helpu'r diwydiant i godi'n ôl ar ei draed er mwyn sicrhau y bydd yr economi ymwelwyr yn ffynnu unwaith eto.

3.2.2 Mae twristiaeth yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol. Er enghraifft, mae twristiaeth yn dod â budd drwy ddarparu swyddi, gyrfaoedd, twf economaidd, cyfleoedd addysgol a diogelu safleoedd a henebion hanesyddol. Mae'n gwneud cyfraniad economaidd sylweddol at economi Cymru. Yn 2022, amcangyfrifwyd bod Gwerth Ychwanegol Gros y sector yn £3.8 biliwn (neu 5.1% o gyfanswm y Gwerth Ychwanegol Gros ledled Cymru)[3].

3.2.3 Gall ymwelwyr â Chymru fwynhau amrywiaeth o weithgareddau, o gerdded mynyddoedd a threulio diwrnod ar y traeth, i fwynhau ein dinasoedd a'n trefi bywiog. Mae gennym arlwy cyfoethog o dirweddau unigryw a phrydferth ac amrywiaeth o atyniadau ymwelwyr sy'n parhau i ddenu miliynau o ymwelwyr i'n gwlad bob blwyddyn. Mae'r ymweliadau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at economïau lleol, ac mae twristiaeth yn cyflogi 159,000 o bobl yng Nghymru, sef cyfanswm o 11.8% o'r gweithlu[4]. Mae'r economi ymwelwyr yn amrywio o ran maint ledled Cymru ac, felly, mae cyfran lawer uwch o'r gweithlu yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth mewn rhai ardaloedd. Felly, mae'r ardaloedd hyn yn cael llawer mwy o fudd o dwristiaeth o'i gymharu ag ardaloedd ag economïau ymwelwyr llai (a niferoedd llai o ymwelwyr).

3.2.4 Nod yw Bil hwn yw cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer buddsoddi gan awdurdod lleol drwy ddarparu refeniw ychwanegol. Bydd yn rhoi'r awdurdod i awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau yn unol ag anghenion eu cymunedau. Mae hyn yn cyd-fynd â dull polisi ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi lleol.

[1] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): 2022 i 2023 (diwygiedig) | LLYW.CYMRU; Ymweliadau a gwariant rhyngwladol gan ymwelwyr â Chymru [HTML] | LLYW.CYMRU;
[2] Baromedr Twristiaeth: cam mis Chwefror 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU
[3] Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024 | LLYW.CYMRU
[4] Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024 | LLYW.CYMRU

3.2.5 Cydnabyddir yn eang bod twristiaeth yn effeithio ar gyrchfannau twristiaid mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, gan gwmpasu dimensiynau economaidd, diwylliannol-gymdeithasol ac amgylcheddol. Mae tystiolaeth yn dangos y gall effeithiau negyddol gynnwys y canlynol:

- Costau amgylcheddol wrth i'r amgylchedd naturiol gael ei or-ecsbloetio:
    - Colli bioamrywiaeth[5],[6] wrth i amgylcheddau naturiol gael eu herydu neu eu difetha gan draffig cerddwyr a'r amgylchedd adeiledig.
    - Erydiad pridd a llwybrau troed, wrth i nifer mawr o dwristiaid ymweld â safleoedd twristiaid poblogaidd[7].
    - Heriau o ran rheoli sbwriel a gwastraff, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu yn ogystal â lefelau sbwriel a'r effaith ar wasanaethau rheoli gwastraff.
    - Tagfeydd, pan na fo seilwaith trafnidiaeth yn gallu cefnogi traffig ymwelwyr mewn cyrchfannau poblogaidd[8,9].
    - Allyriadau carbon a achosir gan deithio sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Yn 2016, amcangyfrifwyd bod yr allyriadau hyn yn cyfrif am 5% o holl allyriadau carbon y byd[10].
- Costau cymdeithasol a achosir gan brinder cyflenwad tai wrth i gartrefi gael eu prynu fel ail gartrefi gan ymwelwyr[11]:
    - Gall hyn arwain at golli cymuned a threftadaeth, wrth i bobl gael eu prisio allan o ardal lle na allant fforddio byw ynddi mwyach.

3.2.6 Ar hyn o bryd, mae methiant yn y farchnad dwristiaeth ar draws y byd, gan fod y galw cynyddol yn cynyddu gweithgarwch cynhyrchu a chystadleuaeth heb ystyried yr effaith amgylcheddol neu'r effaith ar adnoddau naturiol[12]. Mae ffenomena 'gordwristiaeth' neu dwristiaeth anghytbwys yn tyfu, oherwydd wrth i'r galw gan ddefnyddwyr gynyddu, felly hefyd y cyflenwad o wasanaethau i ateb y galw hwnnw. Mae

---

[5] CEP-SS_Sustainable_Tourism.IP_.03.e.pdf (unece.org)
[6] The biodiversity implications of changes in coastal tourism due to climate change | Environmental Conservation | Cambridge Core
[7] Tourism_Impacts_employment_gender_income_A_Lemma.pdf (publishing.service.gov.uk)
[8] The economic contribution of the tourism economy in the UK.pdf (visitbritain.org)
[9] Cornwall hit by 'tourist overcrowding' amid UK heatwave - BBC News, 2018 https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/EconomicCaseforTourism.pdf
[10] Tourism's Carbon Emissions Measured in Landmark Report Launched At COP25 (unwto.org)
[11] Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth | LLYW.CYMRU
[12] On the need for sustainable tourism consumption - Richard Sharpley, 2021 (sagepub.com)

Fenis[13] a Gwlad yr Iâ[14] yn enghreifftiau o gyrchfannau sydd wedi profi ystod o effeithiau wrth i dwristiaeth dyfu. Mae'r effeithiau negyddol hefyd wedi cael eu cydnabod gan rai sefydliadau fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sy'n nodi bod diffyg cyllid yng Ngwlad yr Iâ wedi peri problem wrth liniaru'r effeithiau negyddol ar ecosystemau bregus a seilwaith[15].

3.2.7 Gwelwyd achosion o golli bioamrywiaeth a lefelau taflu sbwriel uchel wrth i nifer yr ymwelwyr ffynnu mewn cyrchfannau poblogaidd yn ystod pandemig COVID-19. Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymchwil i ystyried yr effeithiau hyn a deall y ffordd y mae natur yn ymateb i nifer cynyddol o ymwelwyr. Dangosodd yr ymchwil fod sbwriel, erydu a lleihad mewn bioamrywiaeth i gyd yn effeithiau a gynyddodd wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu[16].

3.2.8 Yn olaf, dylid cydnabod bod costau hefyd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau a seilwaith a ddefnyddir gan ymwelwyr. Er enghraifft, bydd ymwelwyr yn defnyddio seilwaith ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, meysydd parcio, goleuadau stryd, gwasanaethau rheoli gwastraff, toiledau cyhoeddus, canolfannau croeso, gwasanaethau brys ac iechyd, llwybrau troed, seddi, a seilwaith adeiledig arall. Mae trethi'n ariannu'r elfennau hanfodol hyn, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw beth yn y system drethu sy'n cyfrif yn uniongyrchol am ddefnydd ymwelwyr o'r gwasanaethau hyn.

3.2.9 Mae darparu seilwaith a gwasanaethau lleol yn costio. Mewn ardaloedd lle mae llawer iawn o dwristiaeth, nid yw'r gost honno'n cael ei dosbarthu'n deg rhwng ymwelwyr a thrigolion. Er y gallai busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fel darparwyr llety ymwelwyr fod yn talu Ardrethi Annomestig, felly hefyd busnesau eraill yn yr ardal a allai fod yn ymwneud llai â'r arlwy twristiaeth. Felly, nid yw'r system drethu leol bresennol yn ystyried yr allanoldebau negyddol unigryw a achosir gan dwristiaeth.

3.2.10 Gallwn weld, felly, fod cost yn gysylltiedig â thwristiaeth ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd diogelu a chynnal asedau naturiol a seilwaith lleol. Ar gyfer ardaloedd sy'n profi llawer iawn o ymwelwyr, mae'r pwysau ar wasanaethau awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn uwch, ac felly hefyd y costau. Ar hyn o bryd, mae'r costau hyn yn cael eu talu o gyllidebau presennol awdurdodau lleol (wedi'u hariannu gan gymysgedd o drethi lleol, benthyca a chyllid Llywodraeth Cymru drwy broses y Gyllideb[17]).

[13] The end of tourism? | Travel | The Guardian
[14] (PDF) Social sustainability of tourism in Iceland: A qualitative inquiry (researchgate.net)
[15] Iceland must balance growth in power and tourism industries with nature conservation, OECD says - OECD
[16] Bywyd Gwyllt Dan Glo | Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)
[17] Microsoft Word - QG08-0006.dochttps://senedd.wales/media/0xzblz3g/qg08-0006-english.pdf

3.2.11 Gwyddom fod ymwelwyr â Chymru yn mwynhau ein harlwy cyfoethog o natur a golygfeydd ysblennydd. Yr atyniadau mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn 2021 yn ôl cyfran o'r ymwelwyr oedd "gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur" a oedd â chyfran o 28% (4.8 miliwn o ymweliadau) a "pharciau gwledig/gerddi" a oedd â chyfran o 18% (3.1 miliwn o ymweliadau). Mae atyniadau am ddim, ar draws pob categori, hefyd yn denu cyfran fwy o ymweliadau (64%) nag atyniadau a thâl (34%). Fel y nodwyd yn Arolwg Atyniadau Ymwelwyr (2021), cododd cyfran yr ymweliadau â'r ddau gategori a grybwyllir uchod o 26% ar y cyd yn 2019 i uchafbwynt o 46% yn 2021. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn fel cyfran sefydlog o ymwelwyr, ac wrth inni symud ymhellach i ffwrdd o gyfnod COVID-19, mae'n debygol y bydd cyfran yr ymwelwyr â'r ardaloedd hyn yn gostwng yn agosach at y cyfartaledd yn 2019.

**Tabl 1 - Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o fynediad (2021)[18]**

| Admission type | Base | % of attractions | No. of visits | % of visits |
|---|---|---|---|---|
| Free | 128 | 46% | 11,177,283 | 64% |
| Paid | 150 | 54% | 6,251,012 | 36% |
| Total | 278 | 100% | 17,428,295 | 100% |

Base: attractions that provided data (278)

3.2.12 Roedd amgylchedd naturiol a golygfeydd Cymru yn thema allweddol mewn ymchwil flaenorol ynghylch pam yr oedd pobl yn ymweld â hi. Drwy ymchwil ansoddol, nodwyd bod ein hanes, ein hiaith, ein hamgylchedd a'n golygfeydd i gyd yn gryfderau allweddol sy'n gwneud i Gymru deimlo'n unigryw o'i gymharu â chyrchfannau gwyliau eraill y DU[19]. O blith yr ymwelwyr sy'n aros dros nos o'r DU, y prif reswm dros aros a roddwyd oedd mwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / y traeth (42%)[20]. Yr ail brif reswm oedd cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon (18%)[21].

3.2.13 Yn fwy cyffredinol, mae awydd i dyfu twristiaeth yng Nghymru mewn modd cynaliadwy. Gallwn weld, felly, os nad yw'r amodau galluogi ar gyfer twristiaeth yn cael eu diogelu, y gallai hyn arwain at leihad yn nifer yr ymwelwyr. Gall ymwelwyr effeithio'n negyddol ar y dirwedd a'r harddwch naturiol sy'n denu ymwelwyr i Gymru. Os nad oes cyllid ar gael i liniaru'r effeithiau, gallai fod effaith ar atyniadau twristiaeth gan arwain at ddirywiad tymor hwy twristiaeth. Yn ogystal, efallai y bydd rhai ardaloedd yn dymuno gwella eu harlwy lleol neu'r gwasanaethau a

[18] Ymweliadau ag atyniadau twristiaeth: 2021 | LLYW.CYMRU tud.22, Ffig 6.1
[19] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019: Canfyddiadau'r Ymchwil Ansoddol (llyw.cymru) tud.9
[20] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU (llyw.cymru) ffigur 3.6
[21] Ibid.

ddarperir ganddynt, ond nad oes ganddynt yr adnoddau i wneud hyn ar hyn o bryd.

3.2.14 Nid oes gan y sector twristiaeth yng Nghymru un ffynhonnell ddata ar hyn o bryd i ddarparu asesiad cywir o faint o lety ymwelwyr sydd ar gael ledled y wlad, a'u math. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn wedi rhwystro dadansoddiad cywir o'r effaith (cadarnhaol a negyddol) y mae twristiaeth yn ei chael ar gymunedau lleol. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol asesu ac ystyried yn iawn pa ymyriadau a allai fod o fudd i'w cymunedau ac ymwelwyr.

3.2.15 Mae'r cyd-destun economaidd ehangach yn cyflwyno rhagolwg heriol i awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda'r pwysau o ran chwyddiant yn parhau, pwysau ar gyflogau, costau ynni uchel yn ogystal â galw cynyddol am wasanaethau, yn arwain at benderfyniadau cyllidol anodd ar bob lefel o lywodraeth. Ar lefel awdurdod lleol, heb ddigon o adnoddau, gall y gallu i ariannu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli cyrchfannau, gael ei rwystro hefyd. Gallai hyn arwain at danariannu neu doriadau i gyllid ar lefel leol mewn meysydd gwariant sy'n bwysig i fywiogrwydd yr economi ymwelwyr. Mae hyn oherwydd y gall y gwariant hwn gael ei asesu'n flaenoriaeth is o'i gymharu ag anghenion lleol eraill.

*Cyllid a gwariant awdurdodau lleol ar dwristiaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth*

3.2.16 Ar hyn o bryd, nid yw ymwelwyr yn gwneud unrhyw gyfraniad 'uniongyrchol' drwy drethiant tuag at y costau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'u hymweliad. Mae ymwelwyr yn dod â budd i ardal drwy eu gweithgarwch gwario sy'n cefnogi llawer o economïau lleol ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw allanoldebau (effeithiau negyddol) twristiaeth ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys ym mhris gwasanaethau a ddarperir gan y farchnad, gan nad oes treth nac ardoll yn bodoli ar hyn o bryd i helpu i gyfrif am hyn.

3.2.17 Mae Tabl 2 yn dangos bod gwariant cyfredol net awdurdodau lleol yng Nghymru ar dwristiaeth wedi lleihau 44 y cant mewn termau real rhwng 2013-14 a 2023-24 ac wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2016-17[22]. Mae'r gwariant hwn yn ymwneud â gwariant i annog pobl i ymweld â'r ardal fel y caniateir gan adran 144 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969[23].

[22] Crynodeb o wariant alldro refeniw, yn ôl gwasanaeth (£ mil)

[23] Bydd hyn yn cynnwys costau: (1) datblygu polisïau i hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal (2) hyrwyddo a hysbysebu'r ardal i ymwelwyr posibl (3) cyfraniadau i Fwrdd Croeso Cymru (4) grantiau a benthyciadau a roddir i gefnogi sefydliadau sy'n cynnig atyniadau neu gyfleusterau eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth (5) swyddfeydd gwybodaeth (canolfannau ymwelwyr) a chanolfannau ar gyfer darparu gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys costau darparu unrhyw ddeunyddiau darllen i ymwelwyr, er enghraifft mapiau, canllawiau i dwristiaid a thaflenni 'beth sy' mlaen', etc

**Tabl 2 - Gwariant (cyfredol) net awdurdodau lleol yng Nghymru ar dwristiaeth, £m (prisiau 2024-25)**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | *Change from 13-14 to 23-24* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tourism | 18.4 | 14.7 | 12.5 | 11.1 | 10.7 | 10.5 | 10.6 | 10.4 | 10.1 | 11.0 | 10.3 | *-44%* |

Ffynhonnell: Alldro Refeniw, Llywodraeth Cymru

3.2.18 Gall gwariant awdurdodau lleol ar feysydd eraill, fel mentrau amgylcheddol (mae tystiolaeth dda, er enghraifft, y gall sbwriel a llygredd gael effaith negyddol ar dwristiaeth a'r profiad i ymwelwyr[24],[25]) yn ogystal â llecynnau agored a gwasanaethau diwylliant a threftadaeth[26], hefyd helpu i wella pa mor ddeniadol yw ardal i ymwelwyr.

3.2.19 Fodd bynnag, er y bydd gwariant awdurdodau lleol ar y meysydd hyn yn amrywio'n naturiol o flwyddyn i flwyddyn, mae gwariant cyfredol net cyfunol awdurdodau lleol yng Nghymru ar y meysydd hyn wedi lleihau mewn termau real dros y 10 mlynedd diwethaf (gweler Tabl 3).

**Tabl 3 - Gwariant (cyfredol) net awdurdodau lleol yng Nghymru ar feysydd eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, £m (prisiau 2024-25)**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | *Change from 13-14 to 23-24* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Open spaces | 82.9 | 78.0 | 75.8 | 75.4 | 75.4 | 68.7 | 66.1 | 67.1 | 72.4 | 75.7 | 73.5 | *-11%* |
| Cultural and heritage services | 56.8 | 53.3 | 45.8 | 43.6 | 45.0 | 42.8 | 39.8 | 43.6 | 43.6 | 38.8 | 38.2 | *-33%* |
| Environmental initiatives | 11.9 | 9.3 | 7.4 | 7.1 | 6.3 | 5.8 | 6.3 | 8.4 | 8.4 | 9.7 | 11.8 | *-1%* |

Ffynhonnell: Alldro Refeniw, Llywodraeth Cymru

## 3.3 Nodau'r polisi

3.3.1 Nodau'r polisi ardoll ymwelwyr yw:

- Sicrhau y bydd costau ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol sydd o fudd i ymwelwyr yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr.
- Galluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu refeniw ychwanegol y gellir ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol sy'n gallu cefnogi twristiaeth.
- Cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer twristiaeth gynaliadwy[27].

3.3.2 Nod cynllun cofrestru cenedlaethol hefyd yw:

[24] The Effects of Marine Debris on Beach Recreation and Regional Economies in Four Coastal Communities: A Regional Pilot Study (noaa.gov)
[25] Marine Litter Issues, Impacts and Actions (www.gov.scot)
[26] Sylwer: Caiff gwasanaethau diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru hefyd eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, sef diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cymru Greadigol ac eraill, a chefnogaeth i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (Cyllideb derfynol 2023 i 2024: cynnig (llyw.cymru))
[27] Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025 | LLYW.CYMRU

- Helpu ACC i gasglu a gweinyddu'r ardoll ymwelwyr gan alluogi rheolaeth weithredol fwy effeithiol ar gyfer yr ardoll drwy ddarparu gwybodaeth am bwy y gellir disgwyl ffurflenni ganddynt, nifer y darparwyr, a'r safle y maent yn gweithredu ohono.
- Helpu awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau, gan gynnwys galluogi asesiadau effaith mwy effeithiol drwy ddata gwell.
- Darparu data a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi twristiaeth a'r gwaith o ddatblygu meysydd polisi eraill yn y dyfodol; a
- Darparu sylfaen ar gyfer cynllun trwyddedu yn y dyfodol. Bydd cofrestru yn fan cychwyn ar gyfer nodi darparwyr llety ymwelwyr a llety ymwelwyr ledled Cymru.

3.3.3 Mae'r ardoll ymwelwyr hefyd yn cysylltu â'r uchelgeisiau ehangach a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu, sef:

- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu[28].
- Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.
- Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau.

[28] Prif gynghorau fydd yn penderfynu sut yn union y caiff refeniw ei ddefnyddio. Mae ymdrechion o ran yr iaith Gymraeg yn un o'r meysydd y gellir dyrannu refeniw iddo.

## 3.4 Ardollau ymwelwyr mewn gwledydd eraill

3.4.1 Caiff ardollau ymwelwyr eu defnyddio ledled y byd er budd cymunedau lleol ac ymwelwyr. Cânt eu defnyddio ar lefelau daearyddol amrywiol, o ardaloedd trefol mawr i ranbarthau gwledig llawer llai. Defnyddir ardollau ymwelwyr mewn cannoedd o gyrchfannau ledled y byd, gan gynnwys Amsterdam, Ynysoedd Baleares, Ffrainc, yr Almaen, Catalwnia, Califfornia, yr Eidal, Gwlad Groeg, rhannau o Ganada, a Seland Newydd.

3.4.2 Mae mwy o gyrchfannau yn y DU yn ceisio cyflwyno ardollau ymwelwyr. Pasiwyd Bil Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban)[29] ar 28 Mai 2024. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gallu i gynghorau lleol yn yr Alban i godi ardoll ar lety ymwelwyr dros nos os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Disgwylir y bydd cynghorau'n gallu dechrau codi'r ardoll o fis Ebrill 2026 ymlaen.

3.4.3 Ar 1 Ebrill 2023, cyflwynodd Manceinion Dâl Ymweld â'r Ddinas[30] ar gyfer ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety penodol. Mae'r tâl wedi codi £2.8 miliwn yn ei flwyddyn gyntaf ac mae'r refeniw wedi'i fuddsoddi mewn glanhau strydoedd, ymgyrchoedd marchnata a digwyddiadau mawr. Mae llawer o drefi a dinasoedd eraill Lloegr yn mabwysiadu dull tebyg, gan gynnwys Caer, Bournemouth, Christchurch a Poole sy'n ystyried cynlluniau ar gyfer tâl ymwelwyr.

3.4.4 Fersiwn o ardoll ymwelwyr a weithredir yn gyffredin yw ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety twristiaeth. Mae dyluniad ardoll dwristiaeth, ei chyfraddau, a'r dull o'i chymhwyso yn amrywio'n rhyngwladol. Mewn modelau rhyngwladol, mae'r ardoll yn amrywio o £0.50 i £5.00 y noson. Yn aml, caiff ei chodi fesul person, ac mae'n tueddu i amrywio yn ôl y math o lety neu'r gost.

3.4.5 Prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod ardollau ymwelwyr yn cael effaith negyddol ar yr economi. Tystiolaeth gyfyngedig a geir hefyd ynghylch effeithiau dadleoli. Ceir ymchwil economaidd ehangach sy'n gysylltiedig ag elastigedd pris y galw am dwristiaeth mewn rhai cyrchfannau. Fodd bynnag, dim ond un newidyn o gost twristiaeth yw ardoll ymwelwyr, ac felly nid oes ymchwil na gwerthusiad diffiniol sy'n ynysu ardoll ymwelwyr fel newidyn sy'n achosi effeithiau negyddol.

3.4.6 Mae nifer o enghreifftiau yn fyd-eang, sy'n dangos sut y mae ardoll ymwelwyr yn cael ei defnyddio i gynhyrchu arian sy'n cefnogi mannau gwyrdd, strydoedd taclus, gwasanaethau i ymwelwyr, cymunedau lleol, gwaith diogelu tirnodau, a thrafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, ers 2016, mae Ynysoedd Baleares wedi bod yn gweithredu Treth

[29] Bill as passed (parliament.scot)
[30] Home - Manchester ABID

Gynaliadwy i ariannu 'cronfa i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy'. Mae'r dreth wedi helpu i gwblhau 168 o brosiectau, gwerth cyfanswm o €263 miliwn. Yn 2023, cafodd 27 o brosiectau newydd eu cymeradwyo, gwerth cyfanswm o €138 miliwn[31]. Mae'r prosiectau a ariennir yn ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys yr amgylchedd, twristiaeth gynaliadwy, treftadaeth ddiwylliannol, ymchwil wyddonol, hyfforddiant a chyflogaeth, a thai rhent cymdeithasol[32].

3.4.7 Yng Ngwlad yr Iâ, rhwng 2012 a 2021, ariannwyd cyfartaledd o ychydig o dan 80 o brosiectau y flwyddyn, gyda grant cyfartalog o ychydig dros 8 miliwn ISK (tua £47,000). Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau a ariennir gan y Gronfa Gwarchod Safleoedd Twristiaid yn ymwneud â mynediad i atyniadau twristiaid naturiol a'r gwaith o'u diogelu. Mae prosiectau nodweddiadol yn cynnwys adeiladu llwybrau troed a llwybrau eraill; rampiau mynediad, pontydd, a rheiliau llaw; llwyfannau gwylio a rhwystrau diogelwch; cyfleusterau parcio a thoiledau; ac arwyddion a byrddau gwybodaeth[33].

---

[31] https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-effeithiau-ardollau-ymwelwyr-mewn-cyrchfannau-byd-eang
[32] http://www.illessostenibles.travel.
[33] https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-effeithiau-ardollau-ymwelwyr-mewn-cyrchfannau-byd-eang

# 4. Ymgynghori

## 4.1 Ymgynghoriad ar ardoll ymwelwyr ddisgresiynol i awdurdodau lleol

4.1.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar ein cynigion cychwynnol ar gyfer ardoll ymwelwyr ddisgresiynol i awdurdodau lleol rhwng 20 Medi 2022 a 13 Rhagfyr 2022. Roedd dogfen ymgynghori ddwyieithog ar gael ar-lein, ynghyd â fersiwn "hawdd ei deall" a fersiwn ddarluniadol a symlach ar gyfer pobl ifanc, a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol.

4.1.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ateb cwestiynau ar faterion yn ymwneud â dyluniad a phroses weithredu ardoll ymwelwyr gan gynnwys:

- Egwyddor a diben ardoll ymwelwyr
- Pwy ddylai dalu ardoll ymwelwyr?
- Pwy ddylai godi a chasglu ardoll ymwelwyr?
- Sut y gellid cymhwyso ardoll ymwelwyr?
- Pa bwerau disgresiynol y gallai awdurdod lleol eu cael ar gyfer gweithredu ardoll ymwelwyr?
- Pa wybodaeth y gallai fod ei hangen i weinyddu ardoll ymwelwyr?
- Sut y gellid gorfodi ardoll ymwelwyr?
- Sut y gellid defnyddio refeniw o ardoll ymwelwyr a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o sut y caiff y refeniw ei ddefnyddio a'r manteision?

4.1.3 Cynhaliwyd pedwar digwyddiad wyneb yn wyneb rhwng mis Medi 2022 a mis Tachwedd 2022, ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru, ac un digwyddiad rhithiwr. Daeth dros 300 o randdeiliaid i'r digwyddiadau hyn, ac yn eu plith roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant twristiaeth, busnesau, llywodraeth leol, grwpiau cymunedol, grwpiau amgylcheddol a'r trydydd sector.

4.1.4 Cafwyd cyfanswm o 1,200 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y prif ymatebwyr o'r sector llety ymwelwyr. Cawsom hefyd ymatebion gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Darparodd y Parciau Cenedlaethol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cynrychioliadol eraill ymatebion hefyd.

4.1.5 Er na fu ymgynghoriad ar wahân yn benodol ar gronfa ddata neu gofrestr, cynhaliwyd ymgyngoriadau ar gynllun statudol ehangach ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr. Ym mis Gorffennaf 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru Strategic Research and Insights (SRI) o Gaerdydd i gynnal ymarfer cwmpasu mewn cysylltiad â sefydlu cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr. Cynhaliodd

SRI 37 o gyfweliadau manwl a naw grŵp ffocws rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021 gydag adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cynrychioliadol a darparwyr llety. Roedd un cwestiwn a godwyd yn ymwneud â manteision a rhesymeg cael cynllun o'r fath. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith y byddai polisi sy'n ymwneud â llety twristiaid yn elwa ar gael cofrestr o weithredwyr, gan awgrymu y byddai angen rhyw fath o gronfa ddata mewn rhai achosion, fel ardoll dwristiaeth.

4.1.6 Cafodd cwestiwn hefyd ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar yr ardoll yn gofyn a ddylai fod rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar gael i'r awdurdod treth i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r ardoll. Mwyafrif bychan o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn oedd yn anghytuno â chreu rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr (53% neu 444 o ymatebwyr), o'i gymharu â'r rhai a oedd yn cytuno (47% neu 401 o ymatebwyr). Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig dan sylw oedd y farn y byddai cynllun cofrestru yn hwyluso trefniadau effeithiol o ran monitro a gorfodi'r ardoll. Roedd cytundeb hefyd y byddai cynllun cofrestru yn hwyluso'r gwaith o weinyddu'r ardoll yn effeithiol ac y byddai'n sicrhau cysondeb wrth ei chymhwyso ar draws darparwyr llety ac ardaloedd.

## 4.2 Crynodeb o’r Ymatebion

4.2.1 Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2023[34]. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn erbyn y cynigion (78% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn '*Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai awdurdodau lleol gael pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr er mwyn cynnig sylfaen decach ar gyfer ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol rhwng trigolion ac ymwelwyr*?').[35]

4.2.2 Yn dilyn ymgysylltu â'r sector twristiaeth yn ystod y cyfnod cyn yr ymgynghoriad, roeddem yn rhag-weld pryderon ac yn disgwyl ymateb negyddol ar y cyfan i'r ymgynghoriad oherwydd y nifer mawr o ymatebion gan ddarparwyr llety ymwelwyr (46% o'r holl ymatebion) a sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector, fel Cynghrair Twristiaeth Cymru, UK Hospitality a Chymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU.

4.2.3 Adlewyrchwyd tair thema gyffredinol yn gyson yn yr ymgynghoriad. Y gyntaf oedd pwysigrwydd sicrhau bod ardoll yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd deg, er mwyn osgoi dylunio ardoll ag effeithiau a allai fod yn ostyngraddol (megis effeithio'n anghymesur ar unigolion ar incwm

[34] Cynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol (llyw.cymru)
[35] Ibid. tud.18

isel), a phryderon ynghylch rhoi baich sylweddol o ran cost a gwaith gweinyddol ar ddarparwyr llety llai.

4.2.4 Sicrhau bod dyluniad a phroses weithredu'r ardoll yn syml ac yn glir oedd yr ail thema gyffredinol, a hynny er mwyn lleihau'r baich gweinyddol a roddir ar ddarparwyr llety ac awdurdodau lleol, yn ogystal â gwella cydymffurfedd.

4.2.5 Trydedd thema gyffredinol a welwyd oedd ffafriaeth i'r ardoll gael ei gweinyddu ar sail rannol ganoledig o leiaf. Cydnabuwyd y gallai diffyg dull gweithredu canoledig arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys ychwanegu cymhlethdod i fusnesau. Cydnabu ymatebwyr eraill fanteision gweinyddu'r ardoll yn lleol, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o'r sylfaen dreth yn lleol a allai gefnogi unrhyw gamau gorfodi.

4.2.6 Darperir rhagor o fanylion am yr ymatebion i'r ymgynghoriad a sut y mae'r adborth hwn wedi helpu i lywio dyluniad a chwmpas yr ardoll mewn pedwar maes allweddol yn yr adran nesaf.

<u>Cysondeb</u>

4.2.7 Pwynt a godwyd gan nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys llawer o awdurdodau lleol, oedd yr angen i ardoll gael ei rhoi ar waith yn gyson. Ystyriodd cwestiwn 3 yr ymgynghoriad pa annibyniaeth leol y dylid ei rhoi ar gyfer codi ardoll. Roedd 66% o'r ymatebwyr yn anghytuno ag unrhyw agwedd ar annibyniaeth leol, gan gredu y byddai dull gweithredu mwy canoledig yn fuddiol.

4.2.8 Gan ystyried yr adborth ar y pwynt hwn, mae dyluniad y polisi wedi'i seilio ar gyflwyno fframwaith cenedlaethol i weithredu'r ardoll ymwelwyr ar draws yr awdurdodau lleol hynny sy'n dewis ei chyflwyno. Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu yw 'caniatáu' i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr. Mae disgresiwn a gwneud penderfyniadau'n lleol yn baramedrau pwysig ar gyfer y polisi. Felly, awdurdodau lleol fydd yn penderfynu a ddylid cyflwyno ardoll a sut i ddefnyddio'r refeniw. Pe bai awdurdodau lleol yn optio i mewn, byddent yn ddarostyngedig i'r fframwaith cenedlaethol a sefydlir ar gyfer yr ardoll. Bydd ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll ymwelwyr ar ran yr awdurdodau lleol hynny sy'n optio i mewn. Bydd hyn yn lleihau costau gweinyddu ac yn galluogi arbedion maint ar gyfer unrhyw broses ganoledig o gasglu. Yn ogystal, bydd yn sicrhau y gall y rhai hynny yr effeithir arnynt fanteisio ar ddull cyfathrebu mwy effeithiol, sydd wedi'i ddatblygu'n strategol i'w helpu i ddeall yr ardoll.

<u>Math o gyfradd</u>

4.2.9 Ystyriodd yr ymgynghoriad yr amrywiol opsiynau ar gyfer y math priodol o gyfradd ar gyfer ardoll ymwelwyr, gan gynnwys cyfradd fesul

ystafell/llety, fesul noson; cyfradd fesul person, fesul noson; a chanran o'r tâl am lety. Nid oedd consensws ymhlith yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch pa fath o gyfradd sydd orau, er mai tâl fesul person, fesul noson oedd yr opsiwn a ffefrid fwyaf ar y cyfan. Roedd yr ymatebwyr o blaid opsiynau gwahanol. Roedd consensws y dylai'r un math o gyfradd fod ar waith ar draws pob ardal awdurdod lleol sy'n gweithredu ardoll.

4.2.10 Er mwyn sicrhau bod yr ardoll mor syml a chlir â phosibl, mae dyluniad y polisi ardoll wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar gyfradd safonol fesul person, fesul noson.

4.2.11 Er mwyn cydnabod y gallai trethi uwch atal teithwyr sy'n teithio ar gyllideb neu unigolion ar incwm is, mae strwythur y dreth yn y Bil wedi'i ddylunio gyda dwy gyfradd mewn golwg, sef cyfradd is a chyfradd uwch. Codir y cyfraddau fesul person, fesul noson, sef £1.30 ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety, a chyfradd is o £0.75 ar gyfer hosteli a safleoedd gwersylla. Cyflwynwyd y gyfradd is i gydnabod bod y mathau hyn o lety yn cael eu darparu, ar gyfartaledd, am gost is o'i gymharu ag eraill. Sylwer bod hyn yn lleihau natur ostyngraddol yr ardoll. Y nod yw sicrhau bod y dreth mor syml â phosibl i'w gweinyddu o safbwynt cydymffurffedd, sy'n golygu y bydd yn fwy costeffeithiol dros y tymor hwy.

4.2.12 Mae'r Bil wedi'i ddiwygio yng Nghyfnod 2 i gynnwys pŵer gwneud rheoliadau newydd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu i brif gynghorau ychwanegu swm ychwanegol at yr ardoll. Bydd y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn sicrhau y gallwn ddarparu mwy o hyblygrwydd i'r prif gynghorau o ran yr ardoll ymwelwyr yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol i godi swm ychwanegol i gyfraddau'r ardoll yn ddiweddarach, ar ôl i'r ardoll gael ei chyflwyno. Byddwn yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid ac ystyried adborth cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch galluogi newidiadau i gyfraddau lleol a phennu swm ychwanegol a ganiateir.

<u>Esemptiadau</u>

4.2.13 Cynigiwyd cyfres o esemptiadau yn yr ymgynghoriad, a oedd yn seiliedig ar waith a wnaed i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol. Roeddem wedi nodi senarios ar gyfer rhai ymwelwyr, pan na fyddai'n gymesur codi ardoll. Yn ogystal, gwnaethom gydnabod yr angen i sicrhau bod rhai mathau o lety y tu allan i gwmpas y polisi. Nodwyd y rhain yn yr ymgynghoriad ac fe'u datblygwyd fel rhan o'r cynigion deddfwriaethol.

4.2.14 Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cyfres o esemptiadau posibl, gan gynnwys ar gyfer y rhai sy'n ddigartref, safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gwasanaethau a ddarperir gan elusennau i roi lloches i unigolion. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r ddeddfwriaeth sefydlu esemptiadau clir yn genedlaethol. Bydd hyn yn golygu, pan fo esemptiad yn cael ei nodi yn y ddeddfwriaeth, y bydd yr esemptiad yn gymwys i bob ardal sy'n defnyddio ardoll ymwelwyr. Prin oedd yr awydd a'r dystiolaeth dros yr angen am bwerau disgresiynol i esemptio.

4.2.15 Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, cydnabuwyd bod angen diffinio'n well yr iaith a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad ynghylch arosiadau sydd y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth ac esemptiadau er mwyn bod yn gyson â therminoleg mewn deddfau eraill am drethi lleol a datganoledig. Felly, rydym wedi penderfynu nodi dau gategori o arosiadau mewn perthynas â'r ardoll yn y ddeddfwriaeth a fydd naill ai'n cael eu hesemptio neu eu had-dalu:

- Esemptiadau yw'r achosion hynny pan nad ydym yn bwriadu i'r ardoll gael ei chodi. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol ar gyfer y rhai sy'n ddigartref, llety i geiswyr lloches, ysbytai preifat, mangreoedd sydd wedi'u cymeradwyo, cartrefi gofal a safleoedd sipsiwn a theithwyr. Mae eithriad wedi'i gyflwyno yng Nghyfnod 2 fel na fydd plant o dan 18 oed yn cael eu cynnwys yn y tâl ardoll ymwelwyr cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is. [Mae data yn gyfyngedig ynghylch oedran yr ymwelwyr dros nos â Chymru. Fodd bynnag, gallai cyflwyno'r eithriad hwn leihau nifer y nosweithiau a arhosir yng Nghymru sy'n atebol i dalu'r ardoll o oddeutu miliwn (gweler Atodiad 4 am y rhagdybiaethau a'r manylion). Gan y gallai'r eithriad hwn leihau'r refeniw a ragwelir o'r ardoll hyd at £1 miliwn y flwyddyn ledled Cymru gyfan, mae'r gyfradd ardoll uwch wedi'i chynyddu 5 ceiniog. Bydd hyn yn sicrhau y gellid codi refeniw o oddeutu £33 miliwn y flwyddyn o'r ardoll o hyd ledled Cymru gyfan, wrth barhau i ddarparu eithriad rhag yr ardoll i'r bobl hynny o dan 18 oed sy'n aros mewn llety cyfradd is].

- Gall ACC ddarparu ad-daliadau pan nad yw'n bosibl darparu esemptiad. Mae hyn yn cynnwys arosiadau pan fo risg i iechyd, diogelwch neu les unigolyn pe bai wedi aros yn ei unig breswylfa neu yn ei brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer personau agored i niwed neu pan fo tân, llifogydd neu drychineb arall wedi gwneud eiddo yn amhosibl byw ynddo neu pan fo'r gwasanaethau brys wedi cynghori yn erbyn aros yn yr eiddo am resymau o'r fath), arosiadau pan

oedd unigolyn yn ddigartref (ac nad oedd yr arhosiad wedi'i esemptio), ac arosiadau gan bersonau anabl pan fo gofalwr wedi mynd gyda nhw ar yr arhosiad. Yn dilyn gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r cyfnod ar gyfer hawlio ad-daliad wedi'i estyn i 3 mis o 1 mis ar ôl diwedd yr arhosiad.

4.2.16 Mae darpariaethau wedi'u nodi yn y Bil ar gyfer creu esemptiadau neu ad-daliadau pellach yn y dyfodol, pe bai tystiolaeth ychwanegol yn dod i'r amlwg ynghylch yr angen i wneud hynny. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn addasu a diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol.

4.2.17 At ddibenion cofrestru, bydd rhaid i ddarparwr gofrestru os yw'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth fel llety ymwelwyr, ni waeth beth fo statws ardolladwy'r arhosiad dros nos. Mae pwerau ychwanegol wedi'u nodi i ganiatáu i ddarparwyr gael eu hesemptio rhag yr angen i fod yn gofrestredig.

<u>Neilltuo</u>

4.2.18 Mewn perthynas â'r cwestiwn a ddylid neilltuo refeniw, roedd 481 o ymatebwyr (74%) yn cytuno y dylid neilltuo unrhyw refeniw a godir gan yr ardoll ymwelwyr. Codwyd y cysyniad o 'ychwanegedd' yn gyson hefyd, lle na ddylai unrhyw ardoll ddisodli cyllid presennol ac y dylai ddarparu budd ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddarperir eisoes.

4.2.19 Gall neilltuo arwain at well ymwybyddiaeth o ddibenion yr ardoll (pan gaiff refeniw ei neilltuo at ddibenion twristiaeth) a chreu cysylltiad cliriach rhwng yr ardoll a'r gwasanaeth a ddarperir. Gall hefyd helpu i ategu'r negeseuon i ymwelwyr a thrigolion, gan fod cysylltiad cryfach rhwng yr ardoll a'r gwasanaethau a dderbynnir.

4.2.20 O ran y dull a ddilynir mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, bydd y refeniw yn cael ei neilltuo'n fras at ddibenion 'rheoli a gwella cyrchfannau'. Ystyr rheoli a gwella cyrchfannau yw unrhyw un o'r canlynol:

- lliniaru effaith ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo'r defnydd o’r Gymraeg;
- hyrwyddo neu gefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i’w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i’w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio).

4.2.21 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fanylion ynglŷn â sut y dyrannwyd y

refeniw o'r ardoll ymwelwyr tuag at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau.

4.2.22 Yn dilyn gwelliant yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i unrhyw brif gyngor sy'n cyflwyno ardoll sefydlu fforwm partneriaeth i sicrhau bod sefydliadau a busnesau twristiaeth yn clywed cyngor ac argymhellion ar gyfer yr ardoll. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod safbwyntiau'r diwydiant twristiaeth yn cael eu hystyried wrth benderfynu sut y dylid dyrannu refeniw a gynhyrchir o ardoll ymwelwyr.

## 4.3 Ymchwil defnyddwyr annibynnol

4.3.1 Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad ac i gasglu barn y cyhoedd ymhellach ynghylch y cynigion polisi, comisiynwyd ymchwil a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr[36], rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023.

4.3.2 Lluniwyd yr ymchwil i gael barn trigolion Cymru a defnyddwyr gwyliau domestig y DU ar y posibilrwydd o ardoll ymwelwyr ddisgresiynol. Edrychodd ar eu barn ynghylch y cwestiynau a ganlyn: a ddylai ymwelwyr gyfrannu drwy ardoll, a yw ymwelwyr yn fodlon talu ardoll ac a fyddai ymwelwyr yn newid eu hymddygiad petai ardoll yn cael ei chyflwyno.

4.3.3 Cwblhaodd mwy na 2,500 o ymatebwyr yr arolwg, gan gynnwys 1,005 o Gymru. Cynhaliwyd cyfweliadau manwl gydag 16 o unigolion hefyd. Roedd y canlyniadau'n adlewyrchu cefnogaeth eang i egwyddor ardoll ymwelwyr. Pan gyflwynwyd y cysyniad o ardoll ymwelwyr mewn man lle y maent yn mynd ar wyliau neu yn eu hardal, roedd yr ymatebwyr yn fwy cadarnhaol na negyddol. Roedd 45% yn gadarnhaol a 25% yn negyddol, a chynyddodd positifrwydd ymysg pobl gyda llawer o dwristiaeth yn eu hardal.

4.3.4 Ar y cyfan, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi egwyddor ardoll ymwelwyr. Roedd y mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt, gan godi ymhlith pobl sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal – yng Nghymru (66%) a’r DU (72%). Ychydig iawn (13%) o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cysyniad o gyfrannu tuag at gostau.

4.3.5 Er bod yr ymatebion yn fwy cadarnhaol na negyddol, pan gafodd yr ardoll ymwelwyr ei throi o fod yn gysyniad haniaethol (h.y. i dwristiaid gyfrannu at ardaloedd twristiaeth) i fod yn gysyniad diriaethol (ardoll

[36] Cyflwyniad PowerPoint (llyw.cymru)

ymwelwyr go iawn mewn ardaloedd y maent yn ymweld â nhw neu'n byw ynddynt), cynyddodd negyddoldeb, ac yn achos rhai ymatebwyr, roedd negyddoldeb yn amlwg. Ymhellach, ar gyfer y rhai o aelwydydd ag incwm is, gostyngodd positifrwydd yn sylweddol, gan awgrymu bod modd ariannol yn ysgogi ymateb cadarnhaol.

4.3.6 Teimlai bron pob cynulleidfa ei bod yn bwysig eu bod yn cael gwybod ble y byddai'r arian yn cael ei wario, yn enwedig trigolion o Gymru a oedd yn byw mewn ardaloedd lle'r oedd twristiaeth yn weithgarwch economaidd sylweddol. 'Diogelu'r amgylchedd lleol' a 'chynnal gwasanaethau a seilwaith lleol' oedd y prif ffyrdd yr oedd pobl ar eu gwyliau a phobl leol yn teimlo y dylid gwario'r arian, er eu bod wedi nodi trefn flaenoriaeth wahanol.

## 4.4 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.4.1 Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil. Mae gweithgarwch ymgysylltu wedi digwydd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben drwy'r fforymau twristiaeth rhanbarthol rheolaidd a drefnir gan Croeso Cymru.

4.4.2 Mae gweithgarwch ymgysylltu penodol ag awdurdodau lleol hefyd wedi digwydd drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil. Cynhaliwyd gweithdai ym mis Gorffennaf 2023 i drafod ystyriaethau o ran llywodraethiant, archwilio ac adrodd, a phrosesau ac effeithiau lleol gweithredu'r model gweithredol arfaethedig ar gyfer yr ardoll. Helpodd y trafodaethau hyn i fireinio dyluniad yr ardoll ymhellach.

4.4.3 Sefydlwyd gweithgor ardoll ymwelwyr i sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o heriau posibl gweithredu ardoll, ac i ddeall yr effeithiau'n fanwl a sut y gellir eu lliniaru. Sefydlwyd y grŵp ym mis Rhagfyr 2023 ac mae'n cynnwys cymysgedd o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol, darparwyr llety ymwelwyr, arbenigwyr annibynnol ym maes trethi a chyrff sy'n cynrychioli twristiaeth. Mae'r gweithgor wedi canolbwyntio ar drafod pynciau canllawiau a nodi effeithiau, sydd wedi helpu i gyfrannu at wybodaeth a chanllawiau y mae swyddogion wedi'u llunio ar gyfer gweithredu'r ardoll.

4.4.4 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r gweithgor cenedlaethol ar gyfer Cofrestr ac Ardoll Ymwelwyr yn 2025, ochr yn ochr â pharhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch costau posibl (ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 6).

4.4.5 Gwnaethom hefyd ymgysylltu'n eang, yn fewnol ac yn allanol, â rhanddeiliaid, yn benodol mewn meysydd i lywio ein dealltwriaeth o'r effaith bosibl ar grwpiau agored i niwed, fel rhan o ddatblygu ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ein Hasesiad o'r Effaith ar

Hawliau Plant, ein Hasesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol a'n Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg[37].

4.4.6 Yn ogystal, fel rhan o'u gwaith darganfod ar gyfer yr ardoll ymwelwyr, mae ACC wedi cynnal ymchwil defnyddwyr ac wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr llety ymwelwyr, asiantau teithio ar-lein ac eraill sy'n ymwneud â'r sector llety ymwelwyr.

## 4.5 Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft

4.5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi ardoll ymwelwyr – cyn lansio'r ymgynghoriad, yn ystod yr ymgynghoriad a hyd at gyflwyno'r Bil i'r Senedd.

4.5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi profi goblygiadau ymarferol yr ardoll arfaethedig, a'r trefniadau casglu a rheoli, drwy drafodaethau manwl gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, darparwyr llety ymwelwyr, ACC, arbenigwyr annibynnol ym maes trethi a chyrff sy'n cynrychioli twristiaeth.

4.5.3 Roedd yr ymgynghoriad yn helaeth ei natur, ac mae wedi ystyried pob agwedd ar ddyluniad ardoll ymwelwyr. Cawsom ymatebion manwl i'r ymgynghoriad sydd wedi helpu i lywio dyluniad yr ardoll. Felly, o ystyried manylder yr ymgynghoriad hwnnw, ni theimlwyd bod ymgynghoriad pellach ar fil drafft yn gymesur. Mae'r darpariaethau a geir yn y Bil yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae'r cynigion penodol wedi'u mireinio ymhellach ar ôl hynny, gydag arbenigedd a mewnbwn gan randdeiliaid.

[37] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-effaith-integredig

# 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

i. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
ii. ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
iii. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
iv. y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad ar ôl ffurfioli'r cynigion.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y weithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhan 1, adran 2(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ddiwygio adran 2 i:<br>(a) darparu bod, neu nad yw, math o lety, neu lety o ddisgrifiad penodol, yn llety ymwelwyr;<br>(b) amrywio'r disgrifiad o fath o lety. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gallu adlewyrchu newidiadau yn y sector ac unrhyw newidiadau mewn polisi yn y dyfodol. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar unrhyw newidiadau arfaethedig, o ystyried y byddant yn effeithio ar y dyletswyddau a osodir ar bersonau a chysylltiad y personau hynny ag unrhyw gosbau cysylltiedig am gofrestru a'r ardoll ymwelwyr. |
| Rhan 2, adran 5(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i esemptio person o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau rhag y gofyniad i gofrestru fel darparwr llety ymwelwyr.<br><br>Mae'r pŵer yn angenrheidiol i sicrhau | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd bleidleisio ar esemptio personau rhag y gofyniad i gofrestru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bod y ddeddfwriaeth yn parhau i gael yr effaith polisi a fwriedir drwy sicrhau gallu Gweinidogion Cymru i esemptio rhag y gofyniad i gofrestru unrhyw bersonau o ddisgrifiad na fwriedir iddynt gael eu cwmpasu gan y gofyniad i gofrestru. | | |
| Rhan 2, adran 25(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ynghylch y gofrestr a'r gofynion cofrestru gan gynnwys:<br><br>(a) yr wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys ar y gofrestr neu na chaniateir ei chynnwys ar y gofrestr;<br><br>(b) ei gwneud yn ofynnol, neu wahardd, cyhoeddi gwybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr ac o fath a bennir yn y rheoliadau; | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu ar fanylion unrhyw reoliadau arfaethedig, a chynnal dadl arnynt, i sicrhau bod y llywodraeth yn gweithredu mewn modd cymesur ac atebol a bod cyfreithiau Cymru yn addas. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (c) esemptio person rhag y gofyniad i roi hysbysiad am newidiadau ac anghywirdebau o fath a bennir yn y rheoliadau;<br><br>(d) y cosbau yn Rhan 2 gan gynnwys darpariaeth ar gyfer—<br>(i) newid swm cosb, (ii) newid sut y caiff cosb ei chyfrifo neu (iii) gweithdrefnau ynghylch asesu cosbau;<br><br>(d) pa benderfyniadau gan ACC sy'n destun adolygiad neu apêl neu nad ydynt yn destun adolygiad neu apêl.<br><br>Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr llety ymwelwyr i gofrestru a darparu gwybodaeth drwy'r broses gofrestru honno. Rydym yn ymwybodol o natur y | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | sector sy'n esblygu o hyd a'r angen i'r ddeddfwriaeth gyd-fynd â newidiadau yn y sector llety ymwelwyr fel ei bod yn adlewyrchu ac yn portreadu'r sector yn gywir.<br><br>Mae angen y pwerau gwneud rheoliadau hyn i sicrhau gweithrediad effeithiol cynllun cofrestru cenedlaethol. | | |
| Rhan 3, adran 28(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau pryd y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd neu pryd nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gallu adlewyrchu newidiadau yn y sector ac | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar atebolrwydd i dalu'r ardoll. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | unrhyw newidiadau mewn polisi yn y dyfodol. | | |
| Rhan 3, adran 28(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth am y ffyrdd y gellir profi na ddigwyddodd arhosiad dros nos o dan 28(2)(b) (gan gynnwys y ddogfennaeth neu'r wybodaeth arall y gellid dibynnu arni a dyroddi talebau). | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar atebolrwydd i dalu'r ardoll. |
| Rhan 3, adran 30(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol am bobl nad ydynt i'w cynnwys yn y cyfrifiad o swm yr ardoll sy'n daladwy. Gall y diwygiadau hyn ymwneud ag arosiadau dros nos sy'n ddarostyngedig i'r gyfradd uwch neu is, neu'r ddwy gyfradd. Mae angen y pŵer hwn i sicrhau bod y personau sy'n talu'r ardoll ymwelwyr ar y gyfradd is ac uwch yn parhau i gyd-fynd â bwriad y polisi. Mae hefyd | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar atebolrwydd i dalu'r ardoll. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn darparu hyblygrwydd. Bydd hyn yn hyrwyddo tegwch wrth gymhwyso ac yn dileu unrhyw rwystrau anfwriadol posibl ar gyfer grwpiau penodedig. | | |
| Rhan 3, adran 31(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i adolygu cyfraddau'r ardoll ymwelwyr a bennir mewn deddfwriaeth. Mae'n bwysig bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i amrywio cyfraddau'r ardoll ymwelwyr i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cyd-destun macro-economaidd ehangach, yn parhau i gyflawni nodau'r polisi ac yn sicrhau bod digon o refeniw'n cael ei gynhyrchu. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar atebolrwydd i dalu'r ardoll. |
| Rhan 3, adran 32(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ychwanegu mathau newydd o lety ymwelwyr y mae pob cyfradd yn gymwys iddynt, neu ddiwygio neu ddileu'r | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mathau presennol. Mae angen y pŵer hwn i sicrhau bod y cyfraddau ardolladwy ar gyfer mathau o lety yn parhau i gyd-fynd â bwriad y polisi. Mae hefyd yn darparu hyblygrwydd. Bydd hyn yn hyrwyddo tegwch wrth gymhwyso ac yn dileu unrhyw rwystrau anfwriadol posibl ar gyfer grwpiau penodedig. | | atebolrwydd i dalu'r ardoll. |
| Rhan 3, adran 33(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ganiatáu i brif gynghorau ychwanegu swm ychwanegol o ardoll at naill ai'r cyfraddau is neu uwch yn eu hardaloedd. Caiff rheoliadau o dan adran 33(1) hefyd ganiatáu i brif gyngor ychwanegu swm o ardoll sy'n llai na'r swm a bennir yn y rheoliadau, a/neu ganiatáu i brif gyngor ychwanegu swm ychwanegol i rannau penodol o'i ardal yn unig | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar atebolrwydd i dalu'r ardoll. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | neu symiau gwahanol i wahanol ardaloedd. Caiff rheoliadau hefyd bennu cyfnod amser pan nad yw'r swm ychwanegol yn gymwys. Mae adran 33(4) yn cynnwys gofyniad i ymgynghori. Cydnabyddir y bydd gan ardaloedd lleol yng Nghymru anghenion amrywiol mewn perthynas â chynhyrchu refeniw i gyfrif am y costau a'r buddsoddiad yn y cynnyrch twristiaeth lleol. Felly, mae'n briodol galluogi prif gynghorau i gymhwyso swm ychwanegol o ardoll ar ben y cyfraddau a bennir mewn deddfwriaeth. | | |
| Rhan 3, adran 34(8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ychwanegu, dileu neu newid y disgrifiadau o amgylchiadau pryd y caniateir neu y mae rhaid i ACC ad-dalu ardoll ac i ddiwygio'r diffiniad o fudd-dal anabledd. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio (yn anuniongyrchol) ar atebolrwydd i dalu'r ardoll. Yn ogystal, |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gallu adlewyrchu newidiadau yn y sector ac unrhyw newidiadau mewn polisi yn y dyfodol. | | gall newidiadau i ad-daliadau leihau neu gynyddu costau gweinyddol i fusnesau ac ACC. |
| Rhan 3, adran 36(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ddiwygio trothwy'r swm o ardoll pan ganiateir i ddarparwr llety ymwelwyr gyflwyno ffurflen flynyddol ac i wneud darpariaeth am yr wybodaeth y caniateir neu y mae rhaid ei darparu i ACC os yw darparwr llety ymwelwyr yn dymuno dychwelyd ffurflen flynyddol. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol oherwydd mae'n debygol y bydd cyfraddau'r ardoll yn cael eu hadolygu yn y dyfodol gan fod y symiau a bennir mewn deddfwriaeth yn ymwneud ag adeg benodol. Felly, mae angen hyblygrwydd i | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar ddarparwyr llety ymwelwyr ac ACC. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | addasu'r ffigur hwn i gyfrif am unrhyw newidiadau yn y cyd-destun economaidd yn y dyfodol.<br>Mae'r elfen darparu gwybodaeth o'r pŵer yn gymesur i alluogi ACC i gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr yn effeithiol a chydbwyso lefel y risg treth. | | |
| Rhan 3, adran 43(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ddiwygio adran 43 mewn cysylltiad â chynnwys, nifer, amlder a dyddiad cyhoeddi'r adroddiadau y mae rhaid i brif gynghorau eu cyhoeddi ar enillion yr ardoll a sut y maent wedi cael eu defnyddio tuag at reoli a gwella cyrchfannau. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar y rheoliadau hyn gan y byddant yn effeithio ar weithrediad yr ardoll ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru. |
| Rhan 3, adran 51(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ynghylch y gofynion o ran hysbysebu a bilio ar gyfer yr ardoll ymwelwyr. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol oherwydd er bod disgwyl | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn gosod gofynion newydd ar ddarparwyr llety |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | y bydd darparwyr llety ymwelwyr yn dwyn yr ardoll i sylw ymwelwyr, os daw tystiolaeth i'r amlwg nad yw hyn yn digwydd, bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â'r mater. | | ymwelwyr gan gynnwys sancsiynau sifil. |
| Rhan 4, adran 55 | Gweinidogion Cymru | Rheoliad | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig.<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gofynion cofrestru priodol ac atebolrwydd priodol i dalu trethi yn cael eu neilltuo ar gyfer strwythurau cwmnïau a chorfforaethau gwahanol. Mae hwn yn bŵer arferol mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â threthi. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar ofynion cofrestru personau penodol a'u hatebolrwydd i dalu trethi. |
| Rhan 4, adran 57(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth bellach | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd.<br><br>Mae hwn yn bŵer arferol i sicrhau bod y gofrestr yn gweithredu'n effeithiol, bod atebolrwydd i dalu trethi yn cael ei neilltuo'n effeithiol a bod y system dreth yn cael ei gweithredu'n effeithiol ar gyfer achosion arbennig. | | reoliadau a fydd yn effeithio ar weithrediad y gofrestr ac atebolrwydd personau penodol i dalu trethi. |
| Rhan 4, adran 58(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol.<br><br>Mae hwn yn bŵer arferol i sicrhau bod y gofrestr yn gweithredu'n effeithiol, bod atebolrwydd i dalu trethi yn cael ei neilltuo'n effeithiol a bod y system dreth yn cael ei gweithredu'n effeithiol ar gyfer achosion arbennig. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn effeithio ar weithrediad y gofrestr ac atebolrwydd personau penodol i dalu trethi. |
| Rhan 4, adran 60 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i estyn y darpariaethau cofrestru ac | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ardoll i ddocfeydd ac angorfeydd. | | reoliadau a fydd yn estyn cwmpas y darpariaethau cofrestru ac ardoll. |
| Rhan 4, adran 61(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth sy’n ddeilliadol, neu’n atodol, neu’n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, ac i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf. | Negyddol os yw'n diwygio, yn addasu neu'n diddymu is-ddeddfwriaeth.<br><br>Cadarnhaol drafft os yw'n diwygio, yn addasu neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol. | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar unrhyw ddiwygiadau sy'n effeithio ar ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| Mae paragraff 23 o Ran 2 o Atodlen 2 yn mewnosod adran newydd 24A yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (pŵer gwneud rheoliadau yn is-adran (5)) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i benderfynu pa gostau gweithredu a thaliadau a fydd yn cael eu didynnu o unrhyw dderbyniadau ardoll a gesglir cyn eu trosglwyddo i brif gynghorau, a sut y bydd hynny'n digwydd. | Cadarnhaol drafft | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd bleidleisio ynghylch y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo costau a thaliadau i'w didynnu o dderbyniadau ardoll cyn eu hanfon ymlaen at brif gynghorau, gan y byddai'n golygu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | newid sylweddol i'r ffordd y gweithredir yr ardoll ac yn cyflawni bwriad y polisi i'r ardoll ariannu ei hun. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i gyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)**

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Y ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Y weithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhan 4, 59(1) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch y Ddeddf hon ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon, ond cyn dyroddi unrhyw ganllawiau o’r fath rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol. | Dim gweithdrefn | Nid oes unrhyw weithdrefn. Nod y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac unrhyw is-ddeddfwriaeth. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

### Tabl A

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi crynodeb o gostau a manteision y Bil yn ei gyfanrwydd. Lluniwyd y tabl i roi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

Yn sgil yr ansicrwydd ynghylch pa awdurdodau lleol fydd yn gweithredu'r ardoll (a pha bryd) ac er mwyn cyflwyno amcangyfrif o gostau cyfanredol, bu'n rhaid inni ragdybio'n syml y bydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Mae'r costau i ACC, awdurdodau lleol a darparwyr llety ymwelwyr, a'r refeniw o'r ardoll, wedi eu cyfrifo ar y sail hon.

Mae'r data sydd gennym ar nifer yr ymwelwyr â Chymru yn weddol gadarn ac, felly, mae gennym fwy o hyder wrth gyflwyno amcangyfrif pwynt sengl ar gyfer y refeniw o'r ardoll. Ar y llaw arall, mae'r data sydd gennym ar nifer y darparwyr llety ymwelwyr a'r costau y byddant yn eu hysgwyddo yn llawer llai sicr. Cyflwynir y costau i ACC a darparwyr llety ymwelwyr mewn ystodau eang i adlewyrchu'r ansicrwydd hwn.

<table>
<tr><td colspan="3">Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i roi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol i weithredu ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.</td></tr>
<tr><td>Cyfnod: Ar ôl Cyfnod 2</td><td>Cyfnod Gwerthuso: 2025-26 – 2034-35</td><td>Blwyddyn sail brisiau: 2023-24</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm Cost<br>Cyfanswm: £321.9m i £582.8m<br>Gwerth presennol: £260.3m i £474.2m</td><td>Cyfanswm Manteision<br>Cyfanswm: £264.0m<br>Gwerth presennol: £211.8m</td><td>Gwerth Presennol Net:<br>£-48.5m i £-262.4m</td></tr>
</table>

## Costau gweinyddu

| |
|---|
| **Costau:**<br>Mae cyfanswm y costau i ACC sy'n gysylltiedig â datblygu, casglu a rheoli'r ardoll dros gyfnod o 10 mlynedd yn amrywio rhwng £17.123m a £22.670m. Er y bwriedir i'r gofrestr fod yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y caiff ei dirprwyo i ACC, awgrymwyd y gallai cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r gofrestr dros gyfnod o 10 mlynedd amrywio rhwng £12.997m - £17.575m. Felly, mae ystod y costau cyfunol ar gyfer casglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr a gweithredu a chynnal a chadw'r gofrestr fel a ganlyn: £30.121m - £40.244m dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035.<br><br>Amcangyfrifir y gallai'r costau pontio i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau, cynnal ymgyrch gyfathrebu a marchnata a chynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu fod rhwng £44,000 a £54,000 yn 2025-2026, a £20,000 y flwyddyn o 2027-2028 ymlaen. Mae'r costau cyfunol ar gyfer yr elfen hon fel a ganlyn: £0.204m £0.214 dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035.<br><br>Er mwyn cyflwyno amcangyfrif o gyfanswm y gost, pe bai pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, byddai'r costau ymlaen llaw oddeutu £831,300 a byddai costau parhaus blynyddol o oddeutu £937,600. Cydnabyddir bod hyn yn debygol o oramcangyfrif cyfanswm y gost, gan na ddisgwylir i bob awdurdod lleol ddewis gweithredu'r ardoll. Mae'r costau cyfunol ar gyfer yr elfen hon fel a ganlyn: £8.33m dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035. Rhagdybir yr eir i gostau untro yn 2025-26 a 2026-27 ac yr eir i gostau parhaus blynyddol o 2027-28 ymlaen (h.y. blwyddyn 8 y cyfnod gwerthuso). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £8.5m i £10.7m** | **Rheolaidd: £30.2m i £38.1m** | **Cyfanswm: £38.7m i £48.8m** | **Gwerth Presennol: £32.4m i 40.8m** |
| **Arbedion costau:**<br>Nid oes unrhyw arbedion o ran costau gweinyddu wedi eu canfod. | | | |
| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth Presennol: £0** |
| **Cost gweinyddu net: £38.7m i £48.8m** | | | |

## Costau cydymffurfio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r costau cyfanredol untro i Ddarparwyr Llety Ymwelwyr presennol sy'n gysylltiedig â chofrestru yn amrywio rhwng £40,000 ac £815,000. Amcangyfrifir costau parhaus o rhwng £3,000 a £163,000 y flwyddyn. Mae'r costau cyfunol ar gyfer yr elfen hon fel a ganlyn: £0.06m - £1.955m dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd. Rhagdybir y bydd y costau untro yn cael eu lledaenu rhwng 2026-27 a 2028-29, ac yr eir i gostau parhaus o 2028-29 ymlaen.<br><br>Ar gyfer yr ardoll ymwelwyr, mae'r amcangyfrifon o gostau yn seiliedig, unwaith eto, ar y rhagdybiaeth y bydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn dewis gweithredu'r ardoll cyn gynted â phosibl. Amcangyfrifir y bydd y costau cyfanredol untro i ddarparwyr rhwng £5.1m a £37.9m ac yr eir iddynt yn 2026-27. Bydd costau parhaus blynyddol yn amrywio rhwng £1.76m a £28.8m ac eir i'r rhain o 2027-28 ymlaen. Mae'r union gostau yn ansicr iawn o ystyried diffyg unrhyw gymharydd uniongyrchol a'r ansicrwydd ynghylch union nifer y sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru a pha awdurdodau lleol a fydd yn dewis defnyddio'r ardoll. Mae'r cyfanswm cyfunol ar gyfer yr elfen hon fel a ganlyn: £19.2m - £268.0m dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035.<br><br>Yn seiliedig ar y symiau amcangyfrifedig o refeniw, byddai'r gost i ymwelwyr oddeutu £33 miliwn y flwyddyn pe bai pob awdurdod lleol yn dewis cyflwyno ardoll yr eid iddi o 2027-28 ymlaen. Byddai'r cyfanswm dros gyfnod o wyth mlynedd hyd at 2034-35 yn £264m. Arian a drosglwyddir o ymwelwyr / darparwyr llety i awdurdodau lleol yw'r ardoll. Mae Tabl 21 yn rhoi rhai enghreifftiau o ystod y symiau posibl o ardoll ymwelwyr a fyddai'n daladwy gan grwpiau gwahanol o ymwelwyr yn seiliedig ar y gyfradd uwch neu'r gyfradd is. | | | |
| **Pontio: £5.2m i £38.7m** | **Rheolaidd: £278.1m i £495.3m** | **Cyfanswm: £283.3m i £534.0m** | **Gwerth Presennol: £227.9m i £433.4m** |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Amherthnasol* | | | |
| **Pontio: £ -** | **Rheolaidd: £ -** | **Cyfanswm: £ -** | **Gwerth Presennol: £ -** |

## Costau neu anfanteision heb eu meintoli

| |
|---|
| Gallai fod lleihad yn nifer yr ymwelwyr â Chymru neu ag awdurdod lleol penodol sy'n mabwysiadu'r ardoll (yr effaith ar y galw). Ni ellir mesur hyn yn gywir. Rhagdybir y caiff hyn ei wrthbwyso gan y refeniw ychwanegol a godir gan yr ardoll (yr effaith ar y cyflenwad) – gweler adran 8.6. Amcangyfrifir y bydd yr effaith gymdeithasol yn niwtral, a byddai'r union effeithiau yn dibynnu ar y ffordd y caiff refeniw canlyniadol ei wario gan awdurdodau lleol. Mae'n bosibl y byddai manteision amgylcheddol heb eu meintoli pe bai'r ardoll yn arwain at newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yng Nghymru. |

## Manteision

| | |
|---|---|
| Yn seiliedig ar y cyfraddau arfaethedig a nodir yn y Bil, disgwylir refeniw amcangyfrifedig o oddeutu £33 miliwn y flwyddyn pe bai pob awdurdod lleol yn dewis cyflwyno ardoll. Y flwyddyn gynharaf y bydd ardoll ymwelwyr yn daladwy yw 2027-28 (blwyddyn 3 y cyfnod gwerthuso) felly gallai'r **ardoll gynhyrchu hyd at £264m o refeniw dros y cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd (h.y. 8 mlynedd o 2027-28 hyd at 2034-35)**. Mae'r defnydd o fannau a gwasanaethau cyhoeddus yn rhan annatod o brofiad cyffredinol ymwelwyr a gall buddsoddi yn y rhain, a'u cynnal, wella enw da'r gyrchfan, gan arwain at fanteision i ymwelwyr, trigolion a busnesau. Byddai'r ardoll yng Nghymru yn codi arian newydd i gymunedau lleol ac yn sicrhau bod costau'n cael eu rhannu'n fwy cyfartal i ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol. Gellid ailfuddsoddi refeniw ychwanegol mewn gwasanaethau a seilwaith lleol i gefnogi twristiaeth gynaliadwy ac yn ei dro rhoi hwb i Werth Ychwanegol Gros twristiaeth yng Nghymru.<br><br>Bydd y gofrestr yn helpu i benderfynu pwy ddylai dalu'r ardoll o fewn ardal awdurdod lleol a bodloni anghenion cofrestru'r cynllun, gan helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr. Yn ogystal, bydd yn cynnig set ddata gynhwysfawr, gywir a chyfredol o'r holl lety ymwelwyr yng Nghymru. | |
| **Cyfanswm: £264.0m** | **Gwerth Presennol: £211.8m** |

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Cafwyd amcangyfrifon o gostau gan ACC a dau awdurdod lleol ynghylch costau gweinyddu ar gyfer yr ardoll ymwelwyr. At hynny, cynhaliodd ACC ymarfer gyda darparwyr llety ymwelwyr er mwyn nodi costau pontio sy'n gysylltiedig â diweddaru prosesau a systemau a chostau cydymffurfio parhaus.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru sawl darn o ymchwil annibynnol er mwyn deall yn well effaith economaidd ac aneconomaidd cyflwyno ardoll yng Nghymru, sy'n cynnwys y canlynol:

- Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, yr Athro Calvin Jones, Prifysgol Caerdydd
- Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr
- Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor
- Adolygiad tystiolaeth o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics
- Dadansoddiad cymharol o'r systemau trethiant sydd yn effeithio ar yr economi ymwelwyr mewn gwledydd dethol, Prifysgol Bangor

# 7. Yr opsiynau

## 7.1 Datblygu ac opsiynau

7.1.1 Ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi drwy’r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a gweithgarwch ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol ochr yn ochr â’r ymgynghoriad a nododd dri opsiwn ac is-opsiynau ac a asesodd eu costau, eu manteision a’u hanfanteision posibl.

7.1.2 Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu yw ‘caniatáu’ i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr gan y cydnabyddir nad yw pob ardal yn dymuno defnyddio ardoll ymwelwyr. Mae’r egwyddor o wneud penderfyniadau’n lleol yn bwysig ar gyfer cyd-destun yr ardoll. Mae maint a natur llety ymwelwyr yn amrywiol iawn ar draws ardaloedd prif gynghorau, felly rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai awdurdodau lleol yn dymuno defnyddio ardoll.

## 7.2 Opsiynau amgen i ardoll ymwelwyr

Ardal Gwella Busnes Llety

7.2.1 Ystyriwyd a fyddai Ardal Gwella Busnes Llety yn opsiwn ac yn gymharydd priodol ag ardoll ymwelwyr. Mae’n bwysig cadarnhau bod Ardal Gwella Busnes Llety ar wahân i ardoll ymwelwyr ac yn wahanol iddi am y rhesymau a ganlyn:

- Ni chaiff Ardal Gwella Busnes Llety ei chymhwyso i bob ymwelydd sy’n aros dros nos mewn llety ymwelwyr, dim ond i’r rhai o fewn ardal ddiffiniedig yr Ardal Gwella Busnes Llety neu o fewn cwmpas yr Ardal Gwella Busnes Llety, er enghraifft dim ond llety dros werth ardrethol penodol sydd wedi ei gynnwys yn Ardal Gwella Busnes Llety Manceinion[38].
- Caiff Ardal Gwella Busnes Llety ei llywodraethu, ei rheoli, ei harwain a’i chynnig gan fusnesau. Gall cyrff yn y sector cyhoeddus megis awdurdodau lleol gymryd rhan, ond ni allant fynnu bod Ardal Gwella Busnes Llety yn cael ei chyflwyno. Mae busnesau a fyddai’n cael eu cwmpasu gan yr Ardal Gwella Busnes Llety yn pleidleisio ar p’un a ddylid cyflwyno ardal o’r fath ai peidio. Byddai ardoll yn ofyniad gorfodol wedi ei nodi mewn deddfwriaeth ac a fyddai’n cael ei chyflwyno gan awdurdodau lleol yn hytrach na mesur y byddai busnesau yn pleidleisio arno.

[38] https://manchesterabid.com/manchester-abid-zone/

- Er mwyn cyflwyno a phennu trethi neu ardollau newydd, mae angen deddfwriaeth.

7.2.2 Yn sgil y gwahaniaethau sylfaenol rhwng Ardal Gwella Busnes Llety a threth, nid yw'n briodol defnyddio Ardal Gwella Busnes Llety fel opsiwn ar gyfer cymharydd. Nid yw trefniadau gwirfoddol yn gymaryddion addas ychwaith gan nad yw'n bosibl nodi maint na chwmpas trefniadau o'r fath ac, felly, nad yw'n sicr â beth y byddem yn cymharu. Sut bynnag, ni allwn amcangyfrif costau na manteision trefniant gwirfoddol, am ei fod yn wirfoddol ei natur ac nad yw'n hysbys pwy a allai gyfrannu a phwy na fyddai'n cyfrannu.

<u>Ymwelwyr Undydd</u>

7.2.3 Ymhlith rhai o'r opsiynau eraill a ystyriwyd, ond nad ymchwiliwyd ymhellach iddynt, roedd cymhwyso ardoll i 'ymwelwyr undydd'. Trwy ein gwaith ymchwil a'n gweithgarwch ymgysylltu â gwledydd eraill, gwelsom fod ardollau ar 'ymwelwyr undydd' yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd â ffiniau daearyddol caled a phwyntiau mynediad sy'n cael eu monitro. Er enghraifft, cyflwynodd Fenis dreth ar ymwelwyr undydd yn 2024 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymwelwyr undydd archebu ar-lein a thalu ffi yn ystod cyfnodau twristiaeth prysur iawn[39]. Caiff camau gorfodi eu hwyluso drwy blatfform digidol lle y mae ymwelwyr yn cofrestru ac yn cael cod QR fel prawf talu, y mae rhaid ei ddangos wrth brif fynedfeydd y ddinas. Mae'r math hwn o system yn gofyn am seilwaith cadarn a phersonél i fonitro cydymffurfiaeth wrth fynedfeydd y ddinas. O ganlyniad, ystyriwyd bod dull gweithredu o'r fath yng Nghymru yn anghymesur.

7.2.4 Fel arfer, mae ardoll 'ymwelwyr undydd' hefyd yn cael ei chodi ar deithwyr llongau mordeithio neu fferïau, am fod modd cysylltu teithwyr llongau mordeithio neu fferïau ag 'ymweliad undydd' yn effeithiol. Mae ardaloedd fel Amsterdam, Rotterdam a Chatalonia yn codi ardoll 'ymwelwyr undydd' ar deithwyr llongau mordeithio a fferïau am fod llawer o ymwelwyr yn defnyddio'r dulliau teithio hyn i wneud eu hymweliad. Ledled y DU, mae gennym ryddid i symud ac mae gan Gymru ffin feddal â Lloegr ac, felly, heb bwyntiau mynediad penodol sy'n cael eu monitro, byddai'n anodd iawn codi ardoll ymwelwyr ar 'ymwelwyr undydd'.

7.2.5 Ymhlith y mathau eraill o drethi yn y maes hwn mae 'trethi adloniant'. Mae 'treth adloniant' yn targedu atyniadau ymwelwyr a digwyddiadau mewn ardal leol. Ni welwyd llawer o enghreifftiau o'r math hwn o dreth yn rhyngwladol, ond mae Amsterdam yn enghraifft amlwg. Caiff y 'dreth adloniant' yn Amsterdam ei chodi ar weithredwyr teithiau cychod,

[39] Ffi Fynediad Fenis | Pàs Dinas VeneziaUnica

rhentwyr canŵau a chychod pedal, trefnwyr teithiau a theithiau dinas[40]. Mae hefyd yn codi 'treth adloniant' ar ddigwyddiadau a gwyliau mewn mannau cyhoeddus â mwy na 500 o ymwelwyr[41], ochr yn ochr â'i 'threth bresennol ar dwristiaeth' ar arosiadau dros nos.

7.2.6 Yn gyffredinol, ystyrir bod y math hwn o dreth yn dreth ar wahân i ardoll ymwelwyr a godir am aros dros nos. Pan gaiff trethi adloniant eu defnyddio, cânt eu codi ar bawb fel arfer. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn amhosibl codi treth ar ymwelwyr mewn modd detholus heb ddull o gadarnhau prif breswylfa unigolyn. Mae'n debygol na fyddai system o'r fath yn ddichonadwy oherwydd byddai'n golygu bod angen i unigolion fynd â phrawf adnabod gyda nhw ac y byddai'r busnesau neu awdurdodau wedyn yn gwirio'r wybodaeth hon. Yn absenoldeb dulliau gwirio effeithiol, gall trethi adloniant effeithio ar drigolion, gan fynd yn groes i nodau ein polisi ar gyfer ardoll ymwelwyr. Y rheswm dros hyn yw bod cysylltiad gwannach â'r sylfaen drethu arfaethedig. Yn 2021, roedd ychydig dros hanner yr ymwelwyr ag atyniadau yng Nghymru yn ymwelwyr lleol[42]. Ceir llawer iawn o atyniadau i ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau a digwyddiadau am ddim a rhai y codir tâl amdanynt. Mae'r effaith ar drigolion yn llai o broblem yn achos ardoll ar lety ymwelwyr. Er y bydd trigolion hefyd yn defnyddio llety ymwelwyr yn lleol, cyfran fach o gyfanswm y bobl sy'n aros dros nos fyddai'r rhain.

7.2.7 Felly, yn dilyn yr ymgynghoriad a'r gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym bellach yn cynnig dau opsiwn i'w hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, sef:

- **Opsiwn 1:** Busnes fel arfer – ni chyflwynir deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol i weithredu ardoll ymwelwyr ac, felly, ni fydd gan unrhyw awdurdod lleol y pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr.

- **Opsiwn 2:** Cyflwyno deddfwriaeth i roi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol i weithredu ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. **(Yr opsiwn a ffefrir).**

7.2.8 Mae'r gwerthusiad llawn o opsiynau wedi ei nodi ym Mhennod 8. Cyflwynir y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael. Mae'r wybodaeth hon wedi ei pharatoi drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

[40] Treth adloniant – Dinas Amsterdam
[41] Treth adloniant ar gyfer digwyddiadau – Dinas Amsterdam
[42] Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2021 (llyw.cymru)

# 8. Costau a manteision

8.1.1 Aseswyd costau a manteision dros gyfnod gwerthuso o 10 mlynedd, rhwng 2025-2026 a 2034-2035. Ystyrir bod y cyfnod hwn o amser yn ddigonol i awdurdodau lleol ystyried a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr a nodi unrhyw gostau gweithredu dilynol.

8.1.2 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau a manteision wedi eu talgrynnu i'r fil o bunnau agosaf. Efallai na fydd rhai o'r ffigurau mewn tablau yn gwneud cyfanswm oherwydd y broses dalgrynnu hon. Mae costau a manteision wedi eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%.

## Opsiwn 1: Busnes fel arfer

## 8.2 Disgrifiad

8.2.1 Yn Opsiwn 1, nid yw'r sefyllfa bresennol yn newid ac ni chyflwynir deddfwriaeth i sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr nac i roi pŵer dewisol i awdurdodau lleol i weithredu ardoll ymwelwyr. Felly, ni all unrhyw awdurdod lleol weithredu ardoll ymwelwyr ac ni cheir cofrestr o lety ymwelwyr yng Nghymru.

8.2.2 Mae'r adran hon yn cyflwyno gwerthusiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o'r costau a'r manteision i wahanol grwpiau a sectorau os nad yw ardoll a bennir yn lleol yn opsiwn, ac os na all unrhyw awdurdod lleol gynhyrchu refeniw drwy drethu ymwelwyr â'u hardal sy'n aros dros nos.

## 8.3 Costau a Manteision

8.3.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac, felly, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ACC na darparwyr llety ymwelwyr yn gysylltiedig â chofrestru, casglu a gweinyddu'r ardoll. Ni fyddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei gynhyrchu o'r ardoll i'w wario mewn ardaloedd awdurdodau lleol.

<u>Darparwyr llety ymwelwyr</u>

8.3.2 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'n rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr gofrestru na thalu ardoll ymwelwyr felly byddent yn osgoi unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweinyddu ardoll. Ni fyddai effaith negyddol ar refeniw pe bai'r penderfyniad i gyflwyno ardoll yn effeithio ar y galw. Fodd bynnag, ni fyddai darparwyr llety ymwelwyr yn gweld y

manteision o ganlyniad i'r arian a fyddai'n cael ei godi a'i wario yn yr ardal leol i wella'r gwasanaethau a gynigir i ymwelwyr. Pe bai'r gwelliannau hyn yn helpu i gynnal lefel yr ymwelwyr, neu ddenu rhagor o ymwelwyr, ni fyddai darparwyr llety ymwelwyr yn gweld y manteision.

Ymwelwyr

8.3.3 Ni fyddai'n rhaid i ymwelwyr dalu ardoll ychwanegol er mwyn aros dros nos mewn llety ymwelwyr. Felly, ni fyddai unrhyw effaith negyddol bosibl ar wariant nac ymddygiad ymwelwyr. Ni fyddai ychwaith unrhyw ddryswch yn cael ei achosi i ymwelwyr a allai wynebu ardoll ymwelwyr mewn un ardal awdurdod lleol ond nid mewn un arall.

8.3.4 Fodd bynnag, ni fyddai ymwelwyr yn gweld manteision yr arian a fyddai'n cael ei godi a'i wario i wella'r gwasanaethau a gynigir i ymwelwyr a thrigolion.

Awdurdodau Lleol

8.3.5 Ni fyddai awdurdodau lleol yn ysgwyddo costau ychwanegol sy'n deillio o ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch ardoll ymwelwyr. Fodd bynnag, efallai y byddai rhai awdurdodau lleol yn parhau i wynebu heriau o ran cynnal cyllid i ymateb i bwysau sy'n deillio o ymwelwyr ac ni fyddent yn cael unrhyw ffrwd refeniw ychwanegol i'w hailfuddsoddi'n lleol er mwyn cefnogi cymunedau a'r economi ehangach.

Llywodraeth Cymru / ACC

8.3.6 Ni fyddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid i unrhyw gorff a ddirprwyir fel yr awdurdod cofrestru nac ACC. Ni fyddai unrhyw ofynion ar gyfer costau sefydlu / gweithredu sy'n gysylltiedig â datblygu ac adeiladu unrhyw wasanaethau digidol, darparu adnoddau ar gyfer timau newydd a'r prosesau sydd ynghlwm wrth greu system ar gyfer casglu a rheoli treth newydd. Ni fyddai'r awdurdod cofrestru nac ACC yn ysgwyddo costau 'gweinyddu' parhaus ychwaith, h.y. costau casglu a rheoli, sy'n cyfeirio at weithgarwch parhaus a fydd yn ofynnol i weinyddu'r ardoll ymwelwyr ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith.

Y gymuned fusnes (heb gynnwys darparwyr llety ymwelwyr)

8.3.7 Ni fyddai unrhyw effeithiau canlyniadol posibl ar fasnach busnesau o ganlyniad i gyflwyno ardoll. Er enghraifft, pe bai'r galw yn lleihau o ganlyniad i ddefnyddio ardoll gyda llai o ymwelwyr yn dod i Gymru neu awdurdod lleol penodol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fyddai busnesau

yn gweld y manteision a fyddai'n deillio o'r ffordd y byddai'r ardoll yn cael ei gwario, er enghraifft pe bai awdurdod lleol yn dewis defnyddio'r arian i wella'r amwynderau lleol lle y gallai hyn ddenu mwy o ymwelwyr a gwella amodau busnes.

Trigolion

8.3.8 Pe na châi ardoll ei chyflwyno, gallai pwysau ar y ddarpariaeth cyllid mewn rhai awdurdodau lleol arwain at heriau i gynnal ansawdd a darpariaeth amwynderau cyhoeddus. Ni fyddai'n helpu i leddfu unrhyw densiynau rhwng trigolion ac ymwelwyr ychwaith. Ni fyddai trigolion yn gweld y manteision a fyddai'n deillio o refeniw ychwanegol i'w hardaloedd lleol.

## Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth i roi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol i weithredu ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

## 8.4 Disgrifiad

8.4.1 Mae Opsiwn 2 yn cynnwys cyflwyno Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Mae'r Bil yn sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ac mae hefyd yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i godi ardoll ar ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr. O dan yr opsiwn hwn, mae'r dadansoddiadau o gostau a manteision yn gysylltiedig â'r mesurau a gyflwynir gan y Bil.

## 8.5 Costau a Manteision

Ffynonellau Data a'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer amcangyfrif costau

8.5.1 Nodweddir yr economi ymwelwyr yng Nghymru gan nifer mawr o fusnesau bach a microfusnesau, o ystyried ei heconomi lai o faint o gymharu â gwledydd cyfatebol byd-eang[43]. Mae'n anodd mesur y sylfaen drethu ar gyfer yr ardoll ymwelwyr gan y bydd y cynigion yn gymwys i fusnesau sy'n cyrraedd y trothwy TAW a busnesau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy hwnnw. Mae'r Gofrestr Busnes Ryngadrannol yn nodi bod tua 1,810 o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru sydd wedi eu cofrestru i dalu TAW[44].

8.5.2 Mae'n llawer anoddach amcangyfrif darparwyr llety nad ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW, megis person sy'n gosod un ystafell neu

[43] Twristiaeth (Senedd Cymru)
[44] https://www.llyw.cymru/proffil-economi-ymwelwyr-cymru-2024

un eiddo drwy hwylusydd ar-lein fel Airbnb. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad data ynghylch y stoc welyau ym mis Awst 2022, sy'n rhoi uchafswm nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfer pob darparwr llety yng Nghymru. Nododd yr adroddiad fod 16,600 o sefydliadau llety yng Nghymru a bod 12,145 ohonynt yn sefydliadau llety hunanddarpar.[45] Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cyfateb yn uniongyrchol i'r nifer y disgwylir iddynt dalu'r ardoll oherwydd, er enghraifft, gallai sefydliadau lluosog fod o dan berchnogaeth a rheolaeth un busnes, ond cânt eu cyfrifo'n unigol fel sefydliadau llety yn y data ynghylch y stoc welyau.

8.5.3 Cyflenwr data trydydd parti yw Lighthouse, sy'n darparu data ar lety gosod tymor byr a gesglir o bedair sianel archebu, sef Airbnb, Vrbo, Tripadvisor a Booking.com. Er bod Lighthouse a Visit Britain yn gwirio ansawdd y data hyn ac yn eu prosesu, ni ddylid eu defnyddio fel cyfrif swyddogol o eiddo. Mae'r ymarfer casglu data, a gynhaliwyd gan Lighthouse yn 2022, yn awgrymu y gallai fod hyd at 55,000 o safleoedd llety ymwelwyr yng Nghymru.

8.5.4 Mae dadansoddiad pellach o gipolwg o'r data a gasglwyd gan Lighthouse dros gyfnod cynrychioladol o 12 mis yn dangos bod tua 20% o'r eiddo a restrir yn ystod y cyfnod hwnnw heb unrhyw nosweithiau wedi eu harchebu. Mae'n bwysig nodi bod y ffigur hwn yn gyd-destunol iawn, ac yn debygol o amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond mae'n arwydd o lefel yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â defnyddio'r data hyn i gael syniad o gyfansoddiad y sector a'r refeniw tebygol sydd ar gael.

8.5.5 Mae natur amrywiol iawn y farchnad Llety Gosod Tymor Byr, gydag eiddo yn cael eu gosod ar y farchnad ac yna'n cael eu tynnu oddi arni yn aml drwy gydol y flwyddyn, yn ei gwneud hi'n anodd rhag-weld yn gywir ymddygiad y farchnad yn y dyfodol yn seiliedig ar ddata o dueddiadau hanesyddol. Fel y nodwyd, ni chaiff y data a grybwyllir yma gan Lighthouse eu defnyddio ar hyn o bryd fel ystadegau swyddogol ac nid ydynt o reidrwydd yn gofnod diffiniol o nifer y llety gosod tymor byr sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf gan Lighthouse ar gyfer y DU, gan gynnwys dadansoddiad ar lefel Cymru, i'w gweld ar wefan Visit Britain[46].

8.5.6 Mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o lety gosod tymor byr drwy blatfformau economi cydweithredol ar-lein yn awgrymu bod rhwng 22,040 a 26,990 o ddarparwyr wedi darparu llety gosod tymor byr yng Nghymru yn 2023, a gwelwyd bod y duedd yn dangos cynnydd

[45] Crynodeb o Ddata ynghylch Stoc Welyau Cymru: y sefyllfa ym mis Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU
[46] UK short-term rentals | VisitBritain.org

graddol drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod dyblygu tebygol yn y ffigurau hyn o ganlyniad i ddarparwyr yn hysbysebu ar sawl sianel.[47]

8.5.7 Mae'r diffyg data sectoraidd cywir ynghylch nifer y darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn un o'r rhesymau dros gynnwys cofrestr o lety ymwelwyr yn y ddeddfwriaeth.

8.5.8 Gan ystyried yr anghysondebau a'r ansicrwydd o ran y data sydd ar gael ynghylch y sector, penderfynwyd amcangyfrif y costau yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar rhwng 16,000 a 55,000 o ddarparwyr llety. Mae hyn yn golygu y caiff y costau amcangyfrifedig eu darparu fel ystod drwy gydol yr asesiad, ac mae'r pwynt canol yn cynrychioli amcangyfrif tebygol.

8.5.9 Yn ogystal, gan fod y Bil yn cyflwyno pŵer disgresiynol i roi ardoll ymwelwyr ar waith ar gyfer arosiadau dros nos, mae'n debygol mai dim ond rhai o'r awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd yn cyflwyno ardoll ymwelwyr. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod y sylfaen drethu (gwariant ymwelwyr ar lety masnachol) mewn nifer o awdurdodau lleol yn gymharol fach, sy'n golygu y gallai unrhyw refeniw a gynhyrchid fod yn fach mewn rhai ardaloedd o gymharu â'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno a gweinyddu ardoll ymwelwyr.

8.5.10 Mae'n dilyn na fydd unrhyw gostau gweinyddu a chydymffurfio ychwanegol a fyddai'n deillio o'r Bil mewn perthynas â'r ardoll yn cael eu talu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru neu bob darparwr llety yng Nghymru. Mater i awdurdodau lleol unigol fydd penderfynu yn seiliedig ar eu hamgylchiadau lleol. Felly, ni fyddai'n briodol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ragdybio y byddai penderfyniadau penodol yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol, ynghylch p'un a ddylent gyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardal ai peidio.

8.5.11 Felly, er mwyn cyflwyno cost gyfanredol, rydym wedi darparu amcangyfrifon yn seiliedig ar bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, pan nad yw'r canlyniad hwn yn debygol mewn gwirionedd. Cydnabyddir felly bod y costau a gyflwynir yn debygol o **oramcangyfrif y gost wirioneddol.** Dylid dehongli'n ofalus y ffigurau a gyflwynir yn y ddogfen hon drwyddi draw gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr union ffigurau a'r newidynnau sy'n dylanwadu.

[47] Short-term lets through online collaborative economy platforms, UK – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

8.5.12 Bydd ACC (sef adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru), y corff y bwriedir iddo gasglu a rheoli ardoll ymwelwyr ac at ddibenion arbedion maint, yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o lety ymwelwyr yng Nghymru. Bydd costau yn gysylltiedig â datblygu, gweithredu a gweinyddu'r gwasanaeth cofrestru a'r ardoll ymwelwyr. Mae'r amcangyfrifon cost ar gyfer y gwasanaeth cofrestru a'r ardoll ymwelwyr wedi eu cyflwyno ar wahân. Rhoddir crynodeb o'r costau ar gyfer y gwasanaeth cofrestru yn nhabl 7. Rhoddir crynodeb o'r costau ar gyfer yr ardoll ymwelwyr yn nhabl 13.

8.5.13 Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y timau sydd eu hangen i weithredu gwasanaeth cofrestru ac i ddatblygu a gweithredu'r ardoll ymwelwyr ac mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar drafodaethau polisi manwl â swyddogion Trysorlys Cymru a'r gwaith darganfod a wnaed gan ACC.

Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

*Rhagdybiaethau a rhagolygon costau amrywiol*

8.5.14 Mae sawl rhagdybiaeth wedi ei gwneud er mwyn amcangyfrif y costau hyn, sy'n cynnwys y canlynol:

- Y bydd ACC yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr.
- Ni chodir unrhyw dâl am gofrestru.
- Byddai cofrestru yn dechrau yn ystod yr hydref yn 2026. Bwriedir i bob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru gael ei gofrestru erbyn diwedd 2028.
- Mae costau ar gyfer ymgyrch gyfathrebu wedi eu cynnwys.
- Gellid rhannu rhai o staff digidol a staff gweithredol y gwasanaeth cofrestru â'r ardoll ymwelwyr (dim ond rhan o'u cost a ailgodir), fel arall gellid codi'r gost lawn.

8.5.15 Mae sawl ffactor a allai gynyddu'r gost sy'n gysylltiedig â rhoi'r gwasanaeth cofrestru ar waith. Mae'r prif newidynnau fel a ganlyn:

- Er bod y ddeddfwriaeth yn rhoi manylion am y gofynion, mae rhai gofynion gweithredol yn anhysbys, a dim ond yn ystod y cam gweithredu y bydd y rhain yn dod yn gliriach.
- Rhagdybir y bydd pobl yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r broses gofrestru; fodd bynnag, os ceir ymddygiad gwahanol gan bobl, bydd costau cydymffurfio yn debygol o gynyddu.

- Nid oes ffynhonnell gadarn o ddata i nodi nifer yr unedau o lety a'r math o lety a geir mewn awdurdodau lleol. Dim ond wrth i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno y bydd hyn yn dod yn glir.
- Gall recriwtio staff digidol a data mewnol fod yn broblemus, oherwydd cyfyngiadau ar gyflogau, felly efallai y bydd yn ofynnol i gontractwyr lenwi'r bwlch sgiliau, sy'n cael ei fodelu drwy'r senario cost uchel.
- Unrhyw newidiadau sylweddol a wneir yn ystod y broses ddeddfwriaethol.
- Mae'r rhagolwg hwn ar gyfer cynllun cofrestru cenedlaethol, ac mae'n rhagdybio y caiff rhai adnoddau eu rhannu â'r ardoll ymwelwyr. Gallai hyn fod yn gyfle i leihau'r costau gweithredol sy'n gysylltiedig â chofrestru yn sylweddol os bydd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn dewis gweithredu'r ardoll ymwelwyr.

*Y fethodoleg ar gyfer amcangyfrif*

8.5.16 Mae'r amcangyfrif o'r costau i ACC wedi ei lunio yn seiliedig ar y timau sydd eu hangen i ddatblygu a gweithredu'r gwasanaeth cofrestru. Gwahaniaethwyd rhwng costau datblygu a chostau gweithredol. Mae costau wedi eu hystyried o dan y rhagdybiaethau a ganlyn, sy'n seiliedig ar y data ynghylch stoc welyau Cymru[48] ar gyfer yr amcangyfrif is a'r data ar nifer y llety gosod tymor byr drwy blatfformau economi cydweithredol ar-lein ar gyfer yr amcangyfrif uchel.[49]

| | **Amcangyfrif Isel** | **Amcangyfrif Uchel** |
|---|---|---|
| **Cofrestriadau** | 16,000 | 55,000 |

8.5.17 Mae'r amcangyfrif isel yn rhagdybio y caiff yr holl adnoddau mewnol eu recriwtio ar amser. Mae'r gwerth uchel yn rhagdybio mai dim ond 50% o'r adnoddau a gaiff eu recriwtio ac y bydd contractwyr yn cymryd eu lle, yn seiliedig ar arferion gweithredu hanesyddol. Ni wahaniaethir rhwng costau cyfalaf a chostau refeniw. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd costau datblygu yn galw am gyfalaf i raddau helaeth, tra bydd y costau gweithredol parhaus yn cael eu talu o gostau refeniw. Amcangyfrifir y bydd tua 5-15% o fusnesau llety newydd bob blwyddyn, ac y bydd rhwng 5-10% o safleoedd llety yn cau bob blwyddyn, yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol yn nata demograffeg busnes y DU[50].

*Costau Datblygu*

8.5.18 Bydd tri phrif faes cost yn gysylltiedig â datblygu'r systemau digidol, sef:

[48] Crynodeb o Ddata ynghylch Stoc Welyau Cymru: y sefyllfa ym mis Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU
[49] Short-term lets through online collaborative economy platforms, UK – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[50] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), cyhoeddwyd 22 Tachwedd 2023, gwefan SYG, bwletin ystadegol, Business demography, UK: 2022

- **Costau Staff:** Bydd y costau hyn yn gysylltiedig â staff ACC a fydd yn ymwneud â datblygu'r gwasanaeth digidol a'i roi ar waith. Caiff rhai o'r aelodau hyn o staff eu cyflogi'n benodol ar gyfer y gwasanaeth cofrestru a bydd rhai yn aelodau presennol o staff ACC. Mae'n debygol y bydd rhai o'r aelodau hyn o staff yn gweithio ar y gwasanaeth cofrestru a'r ardoll ymwelwyr yn ystod y cyfnodau o'u gweithredu. Felly, rydym wedi rhannu'r costau yn y sefyllfaoedd hyn. Dim ond cyfran y gwasanaeth cofrestru a gyflwynir yma ac, os na fydd hyn yn digwydd, bydd y costau hyn yn uwch.

- **Costau Contractwyr:** Bydd angen cyflogi contractwyr i helpu i ddatblygu'r system ddigidol, yn bennaf i gymryd lle staff na ellir eu recriwtio neu i ddarparu sgiliau penodol sydd eu hangen am gyfnodau byr o amser.

- **Costau Seilwaith:** Yn ystod y cam datblygu bydd angen creu seilwaith er mwyn cefnogi'r gwaith o brofi'r amgylchedd datblygu, perfformiad a diogelwch. Byddai'r gost hon yn cynnwys y gofynion trwyddedu digidol sydd eu hangen i gefnogi seilwaith y gwasanaeth. Mae cost seilwaith yn cynnwys trwyddedu a chyfarpar ar gyfer y gwasanaeth cofrestru ond nid trwyddedu cyfarpar fel un o gyflogeion ACC.

***Costau Cyfathrebu***

8.5.19 Bydd angen i bob darparwr llety ymwelwyr fod yn ymwybodol o'r polisi, yr amserlenni o dan sylw a pha gamau gweithredu y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni. Bydd angen ymgyrchoedd cyfathrebu parhaus yn ystod y cyfnod gweithredu hanfodol.

8.5.20 Er ei bod yn bosibl cyrraedd rhai darparwyr llety drwy sianeli cyfathrebu presennol er enghraifft gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus, cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol â'r diwydiant twristiaeth, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y gofrestr yn cael ei lledaenu'n eang, bydd costau hefyd ar gyfer defnyddio sianeli cyfathrebu y telir amdanynt.

8.5.21 Rhagwelir y bydd y gwariant amcangyfrifedig ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd, a gomisiynir gan ACC, yn £175,000 yn 2026/27. Bydd y costau hyn yn cynnwys ymchwil gynulleidfa gynhwysfawr, dewis strategol o sianeli, a gwerthuso.

8.5.22 Bydd gwariant ar ymgyrchoedd cyfathrebu effeithiol yn sicrhau lefelau uchel o gydymffurfiaeth wirfoddol, yn lleihau costau gorfodi, yn cynnal cysylltiadau cadarnhaol â'r diwydiant ac yn sefydlu'r sylfaen ddata gadarn sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r ardoll ymwelwyr yn 2027.

8.5.23 Mae Tablau 4 a 5 yn dadansoddi'r costau datblygu yn amcangyfrifon isel ac uchel, ynghyd â'r staff gweithredol a fydd yn gweithio ochr yn ochr â nhw.

**Tabl 4: Costau datblygu'r gwasanaeth cofrestru (Amcangyfrif Isel)**

| **Staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)** | **Costau (£)** | **2025-26 FTE** | **2025-26 Cyfanswm (£)** | **2026-27 FTE** | **2026-27 Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| TS | £39,463 | 2.00 | £78,926 | 5.00 | £197,315 |
| EO | £50,334 | 0.50 | £25,167 | 1.50 | £75,501 |
| HEO | £61,848 | 4.25 | £262,854 | 5.00 | £309,240 |
| SEO | £77,694 | 7.50 | £582,707 | 7.50 | £582,707 |
| G7 | £100,941 | 3.50 | £353,292 | 3.50 | £353,292 |
| G6 | £123,966 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 |
| Staff Datblygu | | 14.50 | £1,100,445 | 14.50 | £1,100,445 |
| Staff Gweithredol | | 3.75 | £264,484 | 8.50 | £479,593 |
| **Cyfanswm costau staff** | | **18.25** | **£1,364,929** | **23.00** | **£1,580,038** |
| Seilwaith | | | £25,000 | | £60,000 |
| Ymgynghorwyr | | | £200,000 | | £300,000 |
| Cyfathrebu | | | £175,000 | | - |
| **Cyfansymiau** | | | **£1,764,929** | | **£1,940.038** |

**Tabl 5: Costau datblygu'r gwasanaeth cofrestru (Amcangyfrif Uchel)**

| **Staff FTE** | **Costau (£)** | **2025-26 FTE** | **2025-26 Cyfanswm (£)** | **2026-27 FTE** | **2026-27 Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| TS | £39,463 | 2.00 | £78,926 | 8.00 | £315,704 |
| EO | £50,334 | 0.50 | £25,167 | 1.50 | £75,501 |
| HEO | £61,848 | 4.25 | £262,854 | 7.00 | £432,935 |
| SEO | £77,694 | 7.50 | £582,707 | 7.50 | £582,707 |
| G7 | £100,941 | 3.50 | £353,292 | 3.50 | £353,292 |
| G6 | £123,966 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 |
| Staff Datblygu | | 14.50 | £1,100,445 | 14.50 | £1,100,445 |
| Staff Gweithredol | | 3.75 | £264,484 | 13.50 | £721,678 |
| **Cyfanswm costau staff** | | **18.25** | **£1,364,929** | **28.00** | **£1,822,123** |
| Seilwaith | | | £25,000 | | £60,000 |
| Ymgynghorwyr | | | £700,000 | | £800,000 |
| Cyfathrebu | | | £175,000 | | - |
| **Cyfansymiau** | | | **£2,264,929** | | **£2.682,123** |

*Costau Gweithredol*

8.5.24 Mae'r adnoddau (rolau FTE) a ddisgrifir yn yr adran hon yn defnyddio amcangyfrifon 2027-28 i ddangos gweithgareddau ac adnoddau, gan mai hon fydd y flwyddyn lawn gyntaf o weithgarwch gweithredol (dim datblygiadau mawr mewn gwasanaethau).

8.5.25 Mae ymchwil i'r diwydiant yn nodi'r galw am wasanaeth di-lol a syml, sy'n caniatáu cofrestru eiddo yn gyflym ac yn effeithlon. Mae angen cyllid amserol i fuddsoddi yn y broses ddylunio. Heb wasanaeth digidol effeithiol, bydd angen cynyddu nifer y personél, gan gynnwys staff cymorth cwsmeriaid i helpu defnyddwyr ac adnoddau ychwanegol i reoli gweithdrefnau gweithredol â llaw sy'n aneffeithlon. Bydd angen i'r gwasanaeth digidol wneud y canlynol:

- caniatáu i bobl greu cyfrif defnyddiwr
- rhoi gwybodaeth am lety ymwelwyr a dynameg y berchnogaeth
- gweithredu fel pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau eraill yn y dyfodol (e.e. ardoll ymwelwyr)
- sicrhau bod y broses gofrestru yn arwain at wasanaethau eraill, e.e. cofrestr gyhoeddus

8.5.26 Mae'n hanfodol bod systemau byw yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Rhaid cyflawni amrywiaeth o dasgau i reoli gwasanaethau digidol, gan gynnwys:

- Patsio, diweddariadau, seiberddiogelwch
- Cynnal safonau hygyrchedd
- Newidiadau sydd eu hangen yn unol â newidiadau i ddyluniad polisi / cyfraddau ac ati
- Profi a chymorth rhag ofn y bydd y systemau yn stopio gweithio
- Ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, a gwneud gwelliannau iteraidd (yn hytrach na newidiadau mawr, sylweddol bob rhyw ddwy flynedd)
- Cyflwyno mwy o awtomeiddio mewn ymateb i gynnydd yn nifer y tasgau rhannol awtomataidd.

8.5.27 Mae hyn yn gofyn am dîm bach o bobl ar gyfer pob elfen o'r gwasanaeth – cofrestru ac atebolrwydd. Fodd bynnag, mae ACC wedi ei strwythuro i alluogi'r gwasanaethau i ymdrin â nifer o feysydd. Felly, bydd y gwasanaeth cofrestru yn elwa ar sawl person a all weithio ar draws pob un o'r meysydd, ond telir dim ond am gyfran ohonynt (yn hytrach na chael staff penodol ar gyfer pob maes).

8.5.28 Mae'r mathau o rolau sydd yma yn cynnwys dadansoddwr busnes, perchennog gwasanaeth, dylunydd gwasanaeth, profwr, datblygwyr, ymchwilydd i ddefnyddwyr, rheolwr profiad defnyddwyr a chyflawni, gwybodaeth a seiberddiogelwch, pensaer data, a rheolwr data ac

integreiddiadau. Nid yw hyn yn cynnwys rhai costau rheoli llinell lle rheolir staff drwy fatrics, os nad yw'r rheolwyr llinell yn cyfrannu'n weithredol at roi'r ardoll ar waith.

*Cefnogi darparwyr llety ymwelwyr / gweithio gydag asiantaethau*

8.5.29 Disgwylir y bydd angen cymorth ar ddarparwyr yn ystod y broses gofrestru er gwaethaf ansawdd y canllawiau a'r systemau sydd ar gael. Mae ACC wedi ymrwymo i helpu unigolion i gwblhau eu cofrestriad yn gywir o'r dechrau, gan gynnig cymorth rhagweithiol, yn arbennig yn ystod camau cychwynnol y gweithredu. Bydd cymorth drwy'r broses gofrestru yn cael effeithiau buddiol ar wasanaethau dilynol, fel yr ardoll ymwelwyr.

8.5.30 Rhagwelir y gallai fod angen estyn oriau gweithredu presennol ACC (oriau busnes o ddydd Llun i ddydd Gwener) i gynnwys nosweithiau a'r penwythnos, ond mae hyn yn amodol ar os cyflwynir dyddiadau cau rhagnodol ar gyfer pa bryd y mae rhaid i ddarparwyr gofrestru. Bydd angen cynyddu neu leihau rhai adnoddau wrth inni ddysgu rhagor am nifer y darparwyr llety a nifer y dadgofrestriadau a chofrestriadau newydd, i ddelio ag ymholiadau ac ystyried achosion o ddiffyg cydymffurfio.

8.5.31 Gall desg gymorth bresennol ACC helpu i gynllunio ar gyfer rheoli cyfnodau prysur a thawel yn ystod y flwyddyn drwy gael staff i weithio ar draws y gwasanaeth cofrestru, yr ardoll ymwelwyr, a'r trethi datganoledig eraill, a fydd yn sicrhau bod y gwasanaeth cofrestru'n gweithio'n effeithlon.

*Staff ACC*

8.5.32 Bydd o leiaf pedwar aelod o staff desg gymorth cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar lefel cymorth tîm (TS) (y bydd o leiaf dau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg), a fydd yn ateb galwadau ac yn ymateb i negeseuon e-bost / ymholiadau 'cysylltu â ni' gan ddarparwyr llety ymwelwyr ac asiantaethau, gan ddelio â chymaint ag y gallant / uwchgyfeirio yn ôl yr angen, ac ymgymryd â dyletswyddau gweinyddu. Byddant hefyd yn gyfrifol am anfon llythyrau cofrestru'n hwyr, diwygiadau a gohebu â chwsmeriaid a'u hannog yn gyffredinol. Gallai hyn gynyddu i saith yn y sefyllfa uchel er mwyn delio â'r cynnydd posibl mewn gweithgarwch (3 aelod ychwanegol o staff FTE).

8.5.33 Byddai datblygwr iau (0.5 FTE ar TS) yn helpu i ddiwallu anghenion parhaus y gwasanaeth digidol, yn enwedig mewn perthynas â'r cynhyrchion digidol y gallai fod eu hangen mewn cysylltiad â chofrestru, e.e. ar gyfer datblygu cofrestr gyhoeddus.

8.5.34 Ar radd Swyddog Gweithredol (EO), gallai hyn gynnwys swyddog gwybodaeth (0.5 FTE) a fyddai'n goruchwylio'r agweddau ar

lywodraethiant gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chofrestru, megis gweithgarwch diogelu data a rheoli cofnodion. Mae hyn wedi ei estyn i gynnwys 2 swyddog cydymffurfiaeth FTE i gefnogi'r gwaith o gynnal y cynllun cofrestru o ddydd i ddydd. Byddant hefyd yn helpu i nodi risgiau a chyfleoedd cydymffurfio ac yn ymchwilio i wybodaeth sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio.

8.5.35 Ar radd Swyddog Gweithredol Uwch (HEO), ceir amrywiaeth o rolau gwahanol gan gynnwys rolau Digidol, Data a Thechnoleg megis rheolwr data (0.5 FTE), datblygwr (0.5 FTE), peiriannydd profi (0.5 FTE), swyddog rheoli prosiectau (0.5 FTE) a dylunydd (0.5 FTE). Byddai'r staff hyn yn gweithio ar gynnal a chadw'r gwasanaeth digidol a ddarperir er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a'r sefydliad. Byddai gweddill y rolau yn cyflawni rolau gweithredol megis goruchwyliwr gweithrediadau (1 FTE) ac adnodd Adnoddau Dynol (0.5 FTE). Byddai'r swyddi hyn ar waith er mwyn cefnogi'r gwaith o gasglu'r ardoll a'i gorfodi a sicrhau ei bod yn cael ei thalu ac y cydymffurfir â hi. Mae'r rhagdybiaeth bresennol o fewn y senario cost uchel yn cynnwys 2 aelod ychwanegol o staff FTE er mwyn cefnogi gweithgarwch cydymffurfiaeth unwaith y bydd y lefelau cydymffurfiaeth wedi eu deall yn well.

8.5.36 Mae rolau Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) yn cynnwys swyddi megis arweinydd polisi (0.5 FTE), dylunydd gwasanaeth (0.5 FTE), uwch-ddatblygwr meddalwedd (0.5 FTE), peiriannydd profi (0.5 FTE), arweinydd cyfathrebu (0.5 FTE), ymchwilydd i ddefnyddwyr (0.5 FTE), dadansoddwr busnes (0.5 FTE), dylunydd profiad defnyddwyr (0.5 FTE), rheolwr cyflawni (0.5 FTE), rheolwr cysylltiadau â chwsmeriaid (0.5 FTE) ac arweinydd seiberddiogelwch (0.5 FTE).

8.5.37 Byddai'r swyddi Gradd 7 a 6 yn cynnwys 3.5 aelod o staff FTE yn 2027-28, gan gynnwys swyddi fel prif swyddog digidol (0.5 FTE), uwch-reolwr cyflawni (0.5 FTE), arweinydd data (0.5 FTE), prif bensaer meddalwedd (0.5 FTE), arweinydd rhanddeiliaid (0.5 FTE), cyfreithiwr (0.5 FTE) a rheolwr cynnyrch (0.5 FTE). Gan mai'r bwriad yw cyflwyno'r broses gofrestru fesul cam, bydd angen rhai swyddi yn y flwyddyn gyntaf i nodi anghenion defnyddwyr a gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Yn ystod yr ail flwyddyn, bydd rhai o'r rolau hyn yn trosglwyddo i feysydd eraill o'r busnes.

8.5.38 Ni chaiff rhai costau rheoli llinell eu cynnwys pan reolir staff drwy fatrics, os nad yw'r rheolwyr llinell yn cyfrannu'n weithredol at roi'r ardoll ar waith. Caiff yr amser a dreulir gan aelodau bwrdd / uwch-arweinwyr ACC ei hepgor hefyd gan fod y cyllid ar gyfer amser aelodau bwrdd / uwch-arweinwyr ACC eisoes wedi ei seilio ar gostau craidd ACC, ac ni ragwelir y bydd y rhain yn cynyddu'n sylweddol. Yn yr un modd, nid yw gorbenion TG fel costau darparu offer a thrwyddedau i

staff wedi cael eu hystyried gan nad yw'r rhain yn glir ar hyn o bryd, e.e. maent yn amodol ar brofiad penodol, sgiliau a gofynion y staff.

8.5.39 Yn ogystal â chostau staff, mae'r rhagolygon 10 mlynedd yn cynnwys y gwariant parhaus i dalu am gost seilwaith ac ymgynghorwyr, yn debyg i'r hyn a ddisgrifir yn yr adran ddatblygu.

**Tabl 6: Nifer Amcangyfrifedig y Staff FTE (2027-2028)**

| Gradd | Cyflog Gros Blynyddol (£) | Isel | | Uchel | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **FTE** | **Cyfanswm** | **FTE** | **Cyfanswm** |
| TS | £39,463 | 4.50 | £177,584 | 7.50 | £295,973 |
| EO | £50,334 | 2.50 | £125,835 | 2.50 | £125,835 |
| HEO | £61,848 | 4.00 | £247,392 | 6.00 | £371,087 |
| SEO | £77,694 | 5.50 | £427,318 | 5.50 | £427,318 |
| G7 | £100,941 | 3.00 | £302,822 | 3.00 | £302,822 |
| G6 | £123,966 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 |
| **Cyfanswm** | | **20.00** | **£1,342,934** | **25.00** | **£1,585,019** |

**Tabl 7: Cyfanswm yr amcangyfrifon ar gyfer datblygu a gweithredu gwasanaeth cofrestru ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr**

*£000oedd*

| | **2025-26** | | **2026-27** | | **2027-28** | | **2028-29** | | **2029-30** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* |
| Costau Datblygu | 1,500 | 2,000 | 1,460 | 1,960 | - | - | - | - | - | - |
| Costau Gweithredol | 264 | 264 | 480 | 722 | 1,508 | 1,925 | 1,112 | 1,529 | 1,112 | 1,529 |
| **Cyfanswm** | **1,765** | **2,265** | 1,940 | **2,682** | **1,508** | **1,925** | **1,112** | **1,529** | **1,112** | **1,529** |

| | **2030-31** | | **2031-32** | | **2032-33** | | **2033-34** | | **2034-35** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* |
| Costau Datblygu | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau Gweithredol | 1,112 | 1,529 | 1,112 | 1,529 | 1,112 | 1,529 | 1,112 | 1,529 | 1,112 | 1,529 |
| **Cyfanswm** | **1,112** | **1,529** | **1,112** | **1,529** | **1,112** | **1,529** | **1,112** | **1,529** | **1,112** | **1,529** |

**Tabl 8: Crynodeb o'r Rhagolwg 10 Mlynedd**

**Rhagolwg Costau 10 Mlynedd**

*£000oedd*

| | ***Isel*** | ***Uchel*** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 12,997 | 17,575 |

Ardoll ymwelwyr

*Amcangyfrifon a rhagdybiaethau*

8.5.40 Mae sawl rhagdybiaeth wedi eu gwneud er mwyn amcangyfrif y costau hyn, sy'n cynnwys y canlynol:

- Bydd awdurdodau lleol yn gallu optio i mewn i'r ardoll ymwelwyr o fis Mawrth 2026 ymlaen.
- Ni fydd y fframwaith deddfwriaethol yn newid ac, felly, ni fydd yn bosibl dechrau casglu'r ardoll ymwelwyr tan fis Ebrill 2027.

8.5.41 At hynny, mae sawl ffactor a allai newid y gost sy'n gysylltiedig â rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith. Mae'r prif newidynnau fel a ganlyn:

- Er bod y ddeddfwriaeth yn rhoi manylion am y ffordd y bydd yr ardoll ymwelwyr yn gweithio, mae llawer o ofynion gweithredol nad ydynt yn hysbys o hyd ond a ddaw'n gliriach yn ystod y cam gweithredu.
- Nid yw'r data ar nifer yr unedau o lety ymwelwyr a'r math o lety ymwelwyr a geir mewn awdurdodau lleol yn gywir. Dim ond wrth i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno y caiff hyn ei gadarnhau.
- Pa awdurdodau lleol a fydd yn optio i mewn i'r ardoll ymwelwyr a pha bryd y byddant yn gwneud hynny.
- Recriwtio staff digidol a staff data mewnol – efallai y bydd angen lwfansau ychwanegol er mwyn cadw staff a / neu ddefnyddio staff dan gontract i lenwi'r bwlch sgiliau. Adlewyrchir hyn yn yr ystod o gostau a gallai materion o'r fath gynyddu'r costau tuag at ben uchaf y rhagolwg.

8.5.42 Mae'r amcangyfrif wedi ei lunio yn seiliedig ar y timau sydd eu hangen i ddatblygu a gweithredu'r ardoll ymwelwyr. Gwahaniaethwyd rhwng costau datblygu a chostau gweithredol. Fodd bynnag, dylid nodi, yn ystod gweithgarwch gweithredu cynnar (2026-27 i 2027-28) yr ardoll ymwelwyr, y bydd cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng costau datblygu a chostau gweithredol.

8.5.43 Bydd costau hefyd yn dibynnu ar nifer yr awdurdodau lleol a fydd yn optio i mewn i ardoll a nifer y darparwyr llety ymwelwyr mewn ardal awdurdod lleol. Bydd costau hefyd yn dibynnu ar nifer y ffurflenni treth a gyflwynir gan fusnesau. Gan fod cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â faint o awdurdodau lleol a fydd yn rhoi'r ardoll ar waith a nifer y darparwyr llety ymwelwyr ym mhob ardal awdurdod lleol, mae amcangyfrifon isel ac uchel wedi eu defnyddio.

8.5.44 At hynny, mae'r amcangyfrif isel yn rhagdybio y caiff yr holl adnoddau mewnol eu recriwtio ar amser. Mae'r gwerth uchel yn rhagdybio mai dim ond 50% o'r adnoddau a gaiff eu recriwtio ac y bydd contractwyr yn cymryd eu lle. Ni wahaniaethir rhwng costau cyfalaf a chostau refeniw.

*Costau sefydlog*

8.5.45 Gan y bydd yr ardoll ymwelwyr yn cael ei datblygu fel system genedlaethol, bydd y costau datblygu fwy neu lai yr un peth, ni waeth faint o awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu'r ardoll ymwelwyr. Mae'r un peth yn wir am y costau rhedeg gweithredol. Mae costau sefydlog sylweddol yn gysylltiedig â rhedeg y system na fyddant yn cael eu cynnwys.

8.5.46 Mae'r costau wedi eu rhannu'n gostau datblygu cychwynnol ac yn gostau gweithredol dilynol.

*Costau Datblygu*

8.5.47 Bydd tri phrif faes cost yn gysylltiedig â datblygu'r systemau digidol, sef:

- **Costau Staff**: Bydd y costau hyn yn gysylltiedig â staff ACC a fydd yn ymwneud â datblygu'r gwasanaeth digidol a'i roi ar waith. Caiff rhai o'r aelodau hyn o staff eu cyflogi'n benodol ar gyfer yr ardoll ymwelwyr a bydd rhai yn aelodau presennol o staff ACC. Mae'n debygol y bydd rhai o'r aelodau hyn o staff yn parhau i weithio ar wasanaeth yr ardoll ymwelwyr yn ystod ei gyfnod gweithredol. Tybiwyd y bydd rhywfaint o'r adnodd hwn hefyd yn gweithio ar wasanaeth cofrestru ac, felly, y bydd yn adnodd a rennir lle y caiff y costau eu rhannu. Dim ond cyfran yr ardoll ymwelwyr a gyflwynir yma i sicrhau na chaiff y costau eu dyblygu gyda'r costau a gyflwynir ar gyfer cofrestru.
- **Costau Contractwyr**: Bydd angen cyflogi contractwyr i helpu i ddatblygu'r system ddigidol, yn bennaf i gymryd lle staff na allwn eu recriwtio neu i ddarparu sgiliau penodol sydd eu hangen am gyfnodau byr o amser.
- **Costau Seilwaith:** Yn ystod y cyfnod datblygu bydd angen creu seilwaith er mwyn cefnogi'r gwaith o brofi'r amgylchedd datblygu, perfformiad a diogelwch. Byddai'r gost hon yn cynnwys y gofynion trwyddedu sydd eu hangen i gynnal seilwaith y gwasanaeth. Mae cost seilwaith yn cynnwys trwyddedu a chyfarpar ar gyfer yr ardoll ymwelwyr ond nid trwyddedu cyfarpar fel un o gyflogeion ACC.

8.5.48 Mae Tablau 9 a 10 yn dadansoddi'r costau datblygu yn amcangyfrifon isel ac uchel, law yn llaw â'r staff gweithredol a fydd yn gweithio ochr yn ochr â nhw.

**Tabl 9: Costau datblygu (Amcangyfrif isel)**

| Staff FTE | Costau (£) | 2025-26 FTE | 2025-26 Cyfanswm (£) | 2026-27 FTE | 2026-27 Cyfanswm (£) | 2027-28 FTE | 2027-28 Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TS | £39,463 | 1.00 | £39,463 | 2.00 | £78,926 | 5.00 | £197,315 |
| EO | £50,334 | 0.50 | £25,167 | 0.50 | £25,167 | 0.50 | £25,167 |
| HEO | £61,848 | 4.50 | £278,316 | 6.50 | £402,011 | 8.00 | £494,783 |
| SEO | £77,694 | 7.00 | £543,860 | 9.75 | £757,519 | 10.50 | £815,790 |
| G7 | £100,941 | 4.50 | £454,233 | 6.00 | £605,644 | 6.50 | £656,114 |
| G6 | £123,966 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 |
| Staff Datblygu | | 15.50 | £1,173,916 | 18.50 | £1,402,776 | 18.50 | £1,402,776 |
| Staff Gweithredol | | 2.50 | £229,105 | 6.75 | £528,475 | 12.50 | £848,376 |
| **Cyfanswm costau staff** | | **18.00** | **£1,403,021** | **25.25** | **£1,931,250** | **31.00** | **£2,251,152** |
| Seilwaith | | | £0 | | £40,000 | | £60,000 |
| Ymgynghorwyr | | | £200,000 | | £300,000 | | £75,000 |
| **Cyfansymiau** | | | **£1,603,021** | | **£2,271,250** | | **£2,386,152** |

**Tabl 10: Costau datblygu (Amcangyfrif uchel)**

| Staff FTE | Costau (£) | 2025-26 FTE | 2025-26 Cyfanswm (£) | 2026-27 FTE | 2026-27 Cyfanswm (£) | 2027-28 FTE | 2027-28 Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TS | £39,463 | 1.00 | £39,463 | 2.00 | £78,926 | 8.00 | £315,704 |
| EO | £50,334 | 0.50 | £25,167 | 0.50 | £25,167 | 1.50 | £75,501 |
| HEO | £61,848 | 4.50 | £278,316 | 6.50 | £402,011 | 10.00 | £618,479 |
| SEO | £77,694 | 7.00 | £543,860 | 9.75 | £757,519 | 10.50 | £815,790 |
| G7 | £100,941 | 4.50 | £454,233 | 6.00 | £605,644 | 7.50 | £757,055 |
| G6 | £123,966 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 | 0.50 | £61,983 |
| Staff Datblygu | | 15.50 | £1,173,916 | 18.50 | £1,402,776 | 18.50 | £1,402,776 |
| Staff Gweithredol | | 2.50 | £229,105 | 6.75 | £528,475 | 19.50 | £1,241,736 |
| **Cyfanswm costau staff** | | **18.00** | **£1,403,021** | **25.25** | **£1,931,250** | **38.00** | **£2,644,512** |
| Seilwaith | | | £0 | | £40,000 | | £60,000 |
| Ymgynghorwyr | | | £700,000 | | £800,000 | | £250,000 |
| **Cyfansymiau** | | | **£2,103,021** | | **£2,771,250** | | **£2,954,512** |

*Costau gweithredol*

8.5.49 Mae’r adnoddau a ddisgrifir yn yr adran hon yn defnyddio amcangyfrifon 2028-29 i ddangos gweithgarwch ac adnoddau. 2028-29 fyddai’r

flwyddyn lawn gyntaf o weithgarwch gweithredol (dim datblygiadau mawr mewn gwasanaethau).

8.5.50 Mae'r gwasanaethau digidol:

- yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i gofrestru gan ddilyn proses lai manwl (rhywbeth sy'n debycach i fewngofnodi o bosibl), ac yn darparu gwybodaeth fel y byddant yn gwybod pa bryd i gwblhau ffurflen
- yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i hunanasesu a chyflwyno eu ffurflen ar gyfer yr ardoll ymwelwyr
- yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i dalu'r ardoll ymwelwyr
- yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i wneud diwygiadau i'w ffurflenni ar gyfer yr ardoll ymwelwyr
- yn galluogi ymwelwyr i ddelio'n uniongyrchol ag ACC a hawlio ad-daliad yn ôl yr angen

8.5.51 Mae gwaith cynnal a chadw gwasanaethau digidol yn cynnwys:

- Patsio, diweddariadau, seiberddiogelwch
- Cynnal safonau hygyrchedd
- Newidiadau sydd eu hangen yn unol â newidiadau i ddyluniad polisi / cyfraddau ac ati
- Profi
- Cymorth rhag ofn y bydd y systemau yn stopio gweithio
- Ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, a gwneud gwelliannau iteraidd
- Cyflwyno mwy o awtomeiddio mewn ymateb i gynnydd yn nifer y tasgau rhannol awtomataidd.

8.5.52 Mae hyn yn gofyn am dîm bach o bobl ar gyfer pob gwasanaeth – talu, cofrestru ac atebolrwydd. Fodd bynnag, mae ACC wedi ei strwythuro i alluogi'r gwasanaethau i ymdrin â nifer o drethi ac, o bosibl, y broses gofrestru. Bydd yr ardoll felly yn elwa ar sawl person a all weithio ar draws pob un o'r gwasanaethau ond dim ond am gyfran ohonynt y bydd yn talu. Mae'r costau hyn yn gymharol sefydlog ni waeth faint o drafodiadau sy'n cael eu prosesu.

8.5.53 Mae'r mathau o rolau yn cynnwys dadansoddwr busnes, dylunydd gwasanaeth, profwr, datblygwyr, ymchwilydd i ddefnyddwyr, rheolwr profiad defnyddwyr a chyflawni, gwybodaeth a seiberddiogelwch, pensaer data, dadansoddwr data ac integreiddiadau.

*Helpu trethdalwyr / gweithio gydag asiantaethau*

8.5.54 Bydd ystyriaethau ar gyfer helpu darparwyr llety ymwelwyr a gweithio gydag asiantaethau er mwyn sicrhau y bodlonir y gofynion ar gyfer ardoll ymwelwyr yn cynnwys yn bennaf y canlynol:

- Cymorth ymlaen llaw er mwyn helpu pobl i addasu i'r ardoll newydd. Cynorthwyo a meithrin gwybodaeth a gallu, a fydd yn lleihau'r ymdrech gydymffurfio sydd ei hangen ar ôl i ffurflenni gael eu cyflwyno.
- Disgwylir y bydd cyfnodau prysur a thawel o weithgarwch – bydd dyddiad y bydd angen i'r mwyafrif o ddarparwyr llety ymwelwyr gyflwyno eu ffurflenni bob blwyddyn, er y bydd rhai trethdalwyr sy'n talu cyfraddau uwch yn cyflwyno eu ffurflenni bob chwarter, sy'n golygu y bydd un cyfnod prysur o gyflwyno ffurflenni a thri chyfnod llai prysur drwy gydol y flwyddyn.
- Rhagwelir y gallai fod angen estyn oriau gweithredu presennol (oriau busnes o ddydd Llun i ddydd Gwener) i gynnwys nosweithiau a'r penwythnos, oherwydd terfynau amser ar gyfer cyflwyno ffurflenni a phatrymau gwaith trethdalwyr. Gallai hyn gynyddu rhai o'r costau gweithredol.
- Bydd nifer yr adnoddau sydd eu hangen yn dibynnu ar faint o awdurdodau lleol sy'n dewis cymryd rhan yn yr ardoll. Mae'n rhesymol disgwyl, yn sgil rhagor o drafodiadau, y gallai fod cynnydd mewn gweithgarwch megis helpu mwy o ddarparwyr llety ymwelwyr, prosesu mwy o ffurflenni, rheoli achosion lle y ceir mwy o risg, ehangu allgymorth ac ymdrechion addysgol i fwy o ardaloedd awdurdodau lleol a phrosesu data ychwanegol o Asiantaethau Teithio Ar-lein.
- Gallai costau cyfle godi gan fod gan ACC ddesg gymorth eisoes a ddefnyddir i reoli cyfnodau prysur a thawel drwy gydol y flwyddyn drwy gael staff a all weithio ar draws y gwahanol drethi y mae ACC yn eu casglu a'u rheoli, a fydd yn sicrhau bod yr ardoll ymwelwyr yn gweithio'n effeithlon.

*Staff ACC*

8.5.55 Bydd o leiaf pedwar aelod o staff desg gymorth cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar lefel cymorth tîm (TS) (y bydd o leiaf dau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg) yn gyfrifol am ateb galwadau ac ymateb i negeseuon e-bost gan drethdalwyr ac asiantaethau / Asiantaethau Teithio Ar-lein. Byddant hefyd yn gyfrifol am anfon llythyrau cyflwyno ffurflenni'n hwyr, ad-daliadau, diwygiadau a gohebu â chwsmeriaid a'u hannog yn gyffredinol. Gallai hyn gynyddu i saith yn y sefyllfa uchel er mwyn delio â'r cynnydd posibl mewn gweithgarwch (3 aelod ychwanegol o staff FTE). Byddai datblygwr iau (0.5 FTE ar TS) yn helpu i ddiwallu anghenion parhaus y gwasanaeth digidol yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaethau digidol sy'n gysylltiedig â thaliadau.

8.5.56 Ar radd Swyddog Gweithredol byddai swyddog gwybodaeth (0.5 FTE) yn goruchwylio'r agweddau ar lywodraethiant gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ardoll ymwelwyr, megis gweithgarwch diogelu data a rheoli cofnodion. Mae hyn wedi ei estyn i gynnwys swyddog cydymffurfiaeth.

8.5.57 Ar radd Swyddog Gweithredol Uwch (HEO), ceir amrywiaeth o rolau gwahanol gan gynnwys rolau Digidol, Data a Thechnoleg megis data (0.25 FTE), datblygwr (1 FTE), peiriannydd profi (1 FTE) a dylunydd (0.5 FTE) sy'n gweithio ar gynnal a chadw'r gwasanaeth digidol a ddarperir er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a'r sefydliad. Byddai gweddill y rolau yn cyflawni rolau gweithredol megis swyddog cyllid (1 FTE), goruchwyliwr gweithrediadau (1 FTE) ac adnodd Adnoddau Dynol (0.5 FTE). Byddai'r swyddi hyn ar waith er mwyn cefnogi'r gwaith o gasglu'r ardoll a'i gorfodi a sicrhau ei bod yn cael ei thalu ac y cydymffurfir â hi. Gallai hyn gynyddu drwy ychwanegu 2 aelod o staff FTE er mwyn cefnogi gweithgarwch cydymffurfiaeth (neu fwy) unwaith y bydd dealltwriaeth well o lefelau diffyg cydymffurfiaeth ac y bydd technegau ac adnoddau cydymffurfiaeth ar gyfer yr ardoll ymwelwyr wedi eu datblygu ac, yn yr un modd, gallai leihau pe bai lefelau cydymffurfiaeth yn uchel.

8.5.58 Mae rolau Uwch-swyddog Gweithredol yn cynnwys swyddi megis cyfathrebu (0.5 FTE), uwch-ddatblygwr meddalwedd (0.25 FTE), rheolwr cyflawni (1 FTE), ymchwilydd i ddefnyddwyr (1 FTE), uwch-swyddog cyllid (1 FTE) a dylunydd (0.5 FTE), datblygwr rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid (0.5 FTE), seiberddiogelwch (0.5 FTE) a rheolwr cysylltiadau ag awdurdodau lleol (1 FTE).

8.5.59 Arweinydd treth G7 fydd yn gyfrifol am weinyddu a chasglu treth yr ardoll ymwelwyr. Bydd yn arwain yr holl waith sy'n gysylltiedig â'r ardoll ac yn arwain y tîm, gan gynnwys:

- arwain y gwaith o gyflwyno'r ardoll ymwelwyr a sicrhau bod hynny'n digwydd ar draws y sylfaen cwsmeriaid a'r sector, cynnal ymdrechion o ran addysg, llunio, perchenogi a diweddaru'r canllawiau ar yr ardoll ymwelwyr ac arwain gwaith y timau digidol ar ddatblygu system dreth sy'n addas at y diben, ac yna cynnal a chadw'r system a'i gwella'n barhaus er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid a / neu ymateb i newidiadau i bolisi.
- darparu hyfforddiant ar reolau technegol treth yr ardoll ymwelwyr i'w dîm er mwyn sicrhau y gall helpu cwsmeriaid a gweithio achosion gorfodi a chydymffurfiaeth yn gywir.
- delio ag achosion cymhleth a chynorthwyo mewn achosion cynhennus, a allai gynnwys achosion mewn Tribiwnlysoedd.

- cynyddu effeithlonrwydd gweithredol i'r eithaf drwy dargedu risgiau treth er mwyn sicrhau y caiff mwy o dreth ei chasglu.
- gweithio'n agos gyda pholisi er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio fel y'i bwriadwyd a helpu i roi unrhyw bolisi / newidiadau mewn cyfraddau ar waith.

8.5.60 Bydd cyfreithiwr G7 yn darparu cymorth os bydd ei angen ar gyfer achosion sy'n destun apêl neu a gyflwynir i Dribiwnlys ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r dreth, canllawiau a materion ymarferol sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth ac uwchgyfeirio. Efallai y bydd angen i hyn gynyddu i ddau dros amser.

8.5.61 Bydd arweinydd cyllid G7 yn cefnogi'r gwaith o gasglu'r ardoll ymwelwyr a sicrhau ei bod yn cael ei thalu. Byddai'r gweithgareddau hyn yn cynnwys monitro refeniw o'r ardoll ymwelwyr, cysoni symiau'r ardoll â phob awdurdod lleol a nodi lefel y ddyled a chymorth ad-daliadau sydd angen ei nodi yng nghyfrifon ACC. Bydd perchennog cynhyrchion / gwasanaethau G7 (0.5 FTE) yn gyfrifol am gynnal gwasanaeth yr ardoll ymwelwyr a'i wella'n barhaus. Bydd yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector a'r llywodraeth er mwyn datblygu gweledigaeth y gwasanaeth dros amser. Bydd dadansoddwr busnes G7 (0.5 FTE) yn hwyluso'r sbrintiau ochr yn ochr â helpu'r tîm i reoli'r prosesau ac yn gweithio gyda phob rhan o'r sefydliad i nodi anghenion busnes. Bydd arweinydd rhanddeiliaid (0.5 FTE) yn cefnogi gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu â darparwyr llety, asiantaethau archebu ar-lein a chyrff twristiaeth.

8.5.62 Bydd rhai gorbenion – gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, amser aelodau'r Bwrdd / Uwch-arweinwyr, yr Adran Adnoddau Dynol, gorbenion TG, costau darparu cyfarpar a thrwyddedau TG i'r staff, ymgyrchoedd cyfathrebu, teithio a chynhaliaeth ac ati. Nid yw'r costau hyn wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon gan na ragwelir y byddant yn cynyddu, er nad yw hyn yn glir ar hyn o bryd, e.e. maent yn amodol ar brofiad penodol, sgiliau a gofynion y staff.

**Tabl 11: Nifer Amcangyfrifedig y Staff FTE yn 2028-2029**

| Gradd | Cyflog Gros Blynyddol (£) | Isel | | Uchel | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | FTE | Cyfanswm | FTE | Cyfanswm |
| TS | £39,463 | 4.50 | £177,584 | 7.50 | £295,973 |
| EO | £50,334 | 0.50 | £25,167 | 1.50 | £75,501 |
| HEO | £61,848 | 5.25 | £324,702 | 7.25 | £448,397 |
| SEO | £77,694 | 6.25 | £485,589 | 6.25 | £485,589 |
| G7 | £100,941 | 4.00 | £403,762 | 5.00 | £504,703 |
| **Cyfanswm** | | **20.50** | **£1,416,804** | **27.50** | **£1,810,163** |

**Tabl 12: Cyfanswm yr Amcangyfrifon ar gyfer Datblygu a Gweithredu'r Ardoll Ymwelwyr**

*£000 oedd*

| | 2025-26 | | 2026-27 | | 2027-28 | | 2028-29 | | 2029-30 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* |
| Costau Datblygu | 1,374 | 1,874 | 1,743 | 2,243 | 1,538 | 1,713 | - | - | - | - |
| Costau Gweithredol | 229 | 229 | 528 | 528 | 848 | 1,242 | 1,552 | 2,120 | 1,552 | 2,120 |
| **Cyfanswm** | **1,603** | **2,103** | **2,271** | **2,771** | **2,386** | **2,955** | **1,552** | **2,120** | **1,552** | **2,120** |

| | 2030-31 | | 2031-32 | | 2032-33 | | 2033-34 | | 2034-35 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* |
| Costau Datblygu | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau Gweithredol | 1,552 | 2,120 | 1,552 | 2,120 | 1,552 | 2,120 | 1,552 | 2,120 | 1,552 | 2,120 |
| **Cyfanswm** | **1,552** | **2,120** | **1,552** | **2,120** | **1,552** | **2,120** | **1,552** | **2,120** | **1,552** | **2,120** |

**Tabl 13: Crynodeb o'r Rhagolwg 10 Mlynedd**

| **Crynodeb o'r Rhagolwg Costau 10 Mlynedd** | | |
|---|---|---|
| | | £000oedd |
| | ***Isel*** | ***Uchel*** |
| Cost Llywodraeth Cymru | 6,260 | 7,829 |
| Cost Awdurdodau Lleol | 10,863 | 14,841 |
| **Cyfanswm** | **17,123** | **22,670** |

8.5.63 Bwriad y Bil yw y bydd yr ardoll ymwelwyr yn codi refeniw ychwanegol i'r awdurdodau lleol hynny sy'n dewis ei rhoi ar waith. Rhagwelwn na fydd modd cyflwyno ardoll ymwelwyr mewn unrhyw ran o Gymru tan 2027. Felly, o 1 Ebrill 2028 ymlaen, y bwriad yw y caiff unrhyw gostau gweinyddu parhaus eu hadennill o dderbyniadau ardoll a gesglir gan ACC cyn eu talu i awdurdodau lleol. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gost net barhaus i gyllidebau Llywodraeth Cymru.

8.5.64 Fodd bynnag, er mwyn lliniaru'r risg bod costau gweithredu uchel yn uwch na derbyniadau'r ardoll, mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru 'gapio' didyniadau refeniw ACC i gyfrif am eu costau gweithredu. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r costau sefydlu a'r costau gweinyddu parhaus. Golyga hyn y bydd costau ACC dim ond yn cael eu didynnu o refeniw, felly ceir mân gostau ymlaen llaw i brif gyngor sy'n ceisio cyflwyno ardoll.

8.5.65 Ceir risg ei bod yn bosibl na fydd modd adennill digon o dderbyniadau ardoll i dalu costau gweinyddu os na fydd digon o awdurdodau lleol yn dewis defnyddio'r ardoll neu os bydd refeniw yn llai na chostau gweithredu ACC. Pe bai'r sefyllfa hon yn codi, byddai angen i Lywodraeth Cymru dalu gweddill y costau gweinyddu fel y corff sy'n gyfrifol o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 am gyllido swyddogaethau ACC.

**<u>Llywodraeth Cymru – costau eraill</u>**

8.5.66 Y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ysgwyddo rhai costau pontio, gan gynnwys:

- Llunio canllawiau i awdurdodau lleol ar roi'r ardoll ymwelwyr ar waith
- Gweithgarwch marchnata ar gyfer cofrestru a'r ardoll ymwelwyr
- Monitro a gwerthuso ar ôl gweithredu

*Canllawiau i awdurdodau lleol*

8.5.67 Rhagwelir y bydd costau i Lywodraeth Cymru wrth lunio canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith. Nodir y gost cyfle hon yn nhabl 14 isod a rhagwelir yr eir i gostau yn 2025-2026.

8.5.68 Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau bandiau cyflog cyfartalog ar gyfer 2023-2024.

**Tabl 14: Llunio canllawiau i awdurdodau lleol ar roi'r ardoll ymwelwyr ar waith**

| Cost staff | Cost Gros Flynyddol Cyflogau (£) | Cost Gros Fisol (£) | Yr amser sydd ei angen Required | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|
| G7 | £92,844 | £7,737 | 1 mis | £7,737 |
| SEO | £71,380 | £5,948 | 1 mis | £5,948 |
| HEO | £57,059 | £4,755 | 1 mis | £4,755 |
| Cyfieithydd (SEO) | £71,380 | £5,948 | 1 mis | £5,948 |
| | | | **Cyfanswm** | **£24,000** |

*Gweithgarwch cyfathrebu a marchnata*

8.5.69 Bydd ACC yn goruchwylio'r gweithgarwch cyfathrebu ar gyfer y gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety ymwelwyr, gan ddefnyddio cyllidebau presennol i fodloni eu rhwymedigaethau cyflawni polisi.

8.5.70 Disgwylir hefyd y bydd rhywfaint o gostau yn gysylltiedig â datblygu deunyddiau marchnata ar gyfer yr ardoll ymwelwyr, gan ddefnyddio tîm dylunio mewnol Llywodraeth Cymru i ddatblygu deunydd brandio'r ardoll. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cadw gwariant mor isel â phosibl gan greu ymddangosiad a naws gorfforaethol ar gyfer yr ardoll ymwelwyr y gellir eu defnyddio'n gyson lle y caiff ei rhoi ar waith.

8.5.71 Caiff deunyddiau marchnata eu profi'n ymarferol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben wrth gyfathrebu ag ymwelwyr a busnesau. Byddai cost untro o ryw £20,000 – £30,000 yn gysylltiedig â'r ymchwil hon a gomisiynwyd. Rhagwelir yr ysgwyddir y gost hon yn ystod 2025-26.

8.5.72 Nid ydym yn rhag-weld costau yn gysylltiedig â rhannu canllawiau ag awdurdodau lleol a darparwyr llety. Byddem yn defnyddio sianeli cyfathrebu presennol, megis gwefan a chylchlythyrau Llywodraeth Cymru i roi cyhoeddusrwydd i ganllawiau a byddwn yn gweithio gyda Croeso Cymru ac ACC i dargedu busnesau yn uniongyrchol. Byddai Croeso Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'r ardoll ymhlith ymwelwyr rhyngwladol drwy ei sianeli sefydledig.

*Monitro a Gwerthuso*

8.5.73 Treth ddisgresiynol yw'r ardoll ymwelwyr. Mae'n anodd felly nodi amserlen a'r costau cysylltiedig ar gyfer adolygiad ffurfiol ar ôl gweithredu gan y gallai gymryd sawl blwyddyn i awdurdodau lleol gofrestru ar gyfer y cynllun.

8.5.74 Yn ogystal, bydd canlyniadau'r ddeddfwriaeth yn cael eu monitro'n barhaus, gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys monitro economi Cymru a dangosyddion cyflenwad / galw. Defnyddir data presennol a gesglir o arolygon perthnasol Croeso Cymru a Baromedr Twristiaeth a gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol ag awdurdodau lleol a'r sector twristiaeth er mwyn deall effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth.

8.5.75 Disgwylir i rywfaint o ddata pwrpasol gael eu casglu gyda'r diwydiant unwaith y bydd yr ardoll yn weithredol mewn un neu ragor o ardaloedd, gyda chost amcangyfrifedig arolwg dros y ffôn i ddarparwyr llety o tua £20,000 y flwyddyn.

8.5.76 Yn sgil y ffaith mai dim ond pan fyddai un neu ragor o awdurdodau lleol wedi rhoi'r ardoll ar waith y byddai angen casglu'r data pwrpasol

ac, felly, rhagdybir nad eir i’r costau hyn tan o leiaf 2027-28. Nodir y costau hyn yn nhabl 15 isod.

**Tabl 15: Crynodeb o’r costau pontio disgwyliedig i Lywodraeth Cymru**

| | 2025-2026 (£) | 2026-2027 (£) | 2027-2028 (£) | 2028-2029 (£) | 2029-2030 (£) | 2030-2031 (£) | 2031-2032 (£) | 2032-2033 (£) | 2033-2034 (£) | 2034-2035 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio canllawiau** | 24,000 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | 20,000 – 30,000 | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| **Monitro a Gwerthuso** | - | - | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| **Cyfanswm** | **44,000 – 54,000** | **0** | **20,000** | **20,000** | **20,000** | **20,000** | **20,000** | **20,000** | **20,000** | **20,000** |

**Awdurdodau lleol**

8.5.77 Gan fod y Bil yn pennu gofyniad i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad ac asesu effeithiau cyn y gwneir penderfyniad i roi ardoll ymwelwyr ar waith, a bod cyfnod hysbysu o 12 mis yn ofynnol ar gyfer darparwyr llety ac ymwelwyr, rhagdybir na ellid rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru tan o leiaf 2027.

8.5.78 Rhagdybir felly, yn ystod blynyddoedd ariannol 2025-26 a 2026-27, y bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo rhai costau untro yn gysylltiedig ag ymgynghori ac ymgysylltu a datblygu prosesau a systemau sydd eu hangen i gasglu a thalu ardoll ymwelwyr. Adlewyrchir y rhagdybiaethau hyn yn y costau a gyflwynir yn yr asesiad hwn. Fodd bynnag, dylid nodi y gall awdurdodau lleol ddewis cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ddiweddarach.

8.5.79 Gan mai pŵer disgresiynol yw hwn, dim ond awdurdodau lleol sy’n dewis ystyried cyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardal a fydd yn ysgwyddo unrhyw gostau sy’n gysylltiedig â’r Bil. Bwriad y Bil yw y bydd ardoll ymwelwyr yn codi refeniw ychwanegol i’r awdurdodau lleol hyn. Er y bydd angen i’r costau ymlaen llaw sy’n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau gael eu talu o gyllidebau presennol awdurdodau lleol, caiff y costau rhedeg parhaus sy’n gysylltiedig â chasglu’r ardoll eu talu’n ganolog drwy ACC gyda chost hyn yn cael ei gwrthbwyso yn erbyn refeniw o’r ardoll ymwelwyr. Yna, caiff enillion net o’r ardoll ymwelwyr eu buddsoddi gan yr awdurdodau lleol mewn meysydd sy’n helpu i reoli a gwella cyrchfannau.

8.5.80 Mewn ymateb i argymhelliad 15 y Pwyllgor Cyllid yn ystod Cyfnod 1 y Bil, gwnaeth Llywodraeth Cymru drafod â CLILC y costau sy’n gysylltiedig â’r ardoll ar gyfer awdurdodau lleol. Mae’r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer awdurdodau lleol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adlewyrchu canlyniad ymarfer diwygiedig ar y cyd

rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol, er mwyn nodi a chadarnhau ystod o amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer y costau gweinyddu a'r costau cydymffurfio tebygol sy'n gysylltiedig â rhoi ardoll ymwelwyr ar waith. Darparodd 14 o awdurdodau lleol amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer y costau ymgynghori a'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â gweinyddu ardoll ymwelwyr yn y dyfodol. Roedd yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ardoll arfaethedig ac yn canolbwyntio ar feysydd gan gynnwys adrodd, ymgynghori, newidiadau i systemau ac ymgysylltu parhaus drwy fforwm partneriaeth ardoll ymwelwyr.

8.5.81 Mae'r Bil yn amlinellu gwahanol ofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni cyn cyflwyno ardoll ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i ymgynghori â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid lleol perthnasol eraill. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi unrhyw asesiadau effaith sy'n ofynnol o dan ddyletswyddau statudol presennol i ymgynghori ac ystyried grwpiau a chymunedau. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sy'n cyflwyno ardoll sefydlu fforwm partneriaeth i sicrhau y caiff cyngor ac argymhellion ynghylch yr ardoll eu clywed gan sefydliadau twristiaeth a busnesau.

8.5.82 Mae cost unrhyw ymarfer ymgynghori yn debygol o amrywio yn dibynnu ar fformat yr ymgynghoriad, nifer y cwestiynau a ofynnir, nifer yr ymatebion a ddaw i law, nifer yr ymgysylltiadau wyneb yn wyneb a gynhelir ac a gaiff yr ymgynghoriad ei gynnal yn fewnol neu ei osod ar gontract allanol i drydydd parti. Ceir rhywfaint o ansicrwydd felly ynglŷn â'r costau a allai godi i awdurdod lleol penodol. Bydd y gofyniad i gynnal asesiadau effaith hefyd yn ychwanegu at y costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau.

8.5.83 Cafwyd ystod o gostau gan awdurdodau lleol ynghylch y gost amcangyfrifedig ar gyfer cynnal ymgyngoriadau a'r gofyniad ychwanegol i gynnal asesiad effaith a'i gyhoeddi. Yn seiliedig ar yr ymatebion gan awdurdodau lleol, disgwylir i gost untro ar gyfer cynnal ymgynghoriad ac adrodd ar y penderfyniad amrywio rhwng £5,000 a £30,000+. Mae'r amrywiad mewn costau amcangyfrifedig yn adlewyrchu maint y sector twristiaeth ledled Cymru. Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol yn dymuno cynnal rhagor o weithgarwch ymgysylltu neu ymgynghori cyn cyflwyno ardoll ymwelwyr, neu efallai y bydd angen iddynt wneud hynny. Mae'r costau hyn yn adlewyrchu dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar faint a graddfa'r economi twristiaeth leol.

8.5.84 Adroddodd y mwyafrif o awdurdodau lleol nad oeddent yn rhag-weld yr angen i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i systemau craidd y cyngor o ganlyniad i'r ardoll a nodwyd y byddai unrhyw newidiadau yn fân newidiadau gan adlewyrchu cost flynyddol o hyd at £5,000. Fodd bynnag, nododd rhai awdurdodau lleol y byddai'r gost yn fwy na'r swm hwn. Nododd dau awdurdod lleol y byddai'r gost ddisgwyliedig yn fwy na £30,000.

8.5.85 Mae awdurdodau lleol a fydd yn dewis rhoi ardoll ymwelwyr ar waith hefyd yn debygol o ysgwyddo'n flynyddol, gostau cylchol parhaus isel iawn yn gysylltiedig â gwneud hynny. Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar y swm o refeniw a gynhyrchir gan yr ardoll a'r hyn y caiff ei wario arno. Unwaith eto, mae ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrifon o gostau ar gyfer y gweithgarwch hwn a fydd yn amrywio yn dibynnu ar faint a graddfa'r sector twristiaeth lleol. Disgwylir y byddai costau yn uwch i awdurdodau lleol lle y mae angen mwy o staff neu pan fo angen cyflwyno adroddiad manylach. Felly, mae'r amcangyfrifon bras gan awdurdodau lleol ynghylch costau llunio a chyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn yn amrywio o £0 i £30,000+.

8.5.86 Roedd y costau amcangyfrifedig ar gyfer sefydlu a chynnal fforwm partneriaeth ardoll ymwelwyr yn amrywio rhwng £5,000 a £30,000 y flwyddyn, sydd unwaith eto yn adlewyrchu'r dull gweithredu gwahanol y gall pob awdurdod lleol ei roi ar waith. Nododd rhai awdurdodau lleol y gallent ddefnyddio adnoddau a staff presennol i gadw costau mor isel â phosibl, ond ar y llaw arall, roedd awdurdodau lleol eraill yn teimlo y gallai hwyluso cyfarfodydd o'r fforwm a sicrhau ysgrifenyddiaeth ar eu cyfer gostio hyd at £30,000 y flwyddyn.

8.5.87 Er mwyn cyflwyno'r amcangyfrif gorau o'r gost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae cyfartaledd pwysedig o'r gost ar draws y pedwar categori wedi ei gyfrifo. Mae canolbwynt pob un o'r bandiau cost a gyflwynwyd i awdurdodau lleol wedi ei ddefnyddio yn y cyfrifiad hwn. Ar gyfer y band cost uchaf penagored (£30,000+), rhagdybiwyd ffigur o £50,000. Dangosir y cyfartaleddau pwysedig ar draws y pedwar categori cost yn Nhabl 16.

**Tabl 16: Tabl cryno o'r costau disgwyliedig i awdurdod lleol unigol sy'n gysylltiedig ag ardoll ymwelwyr (£)***

| | 2025 – 2026 | 2026 – 2027 | 2027 – 2028 | 2028 – 2029 | 2029 – 2030 | 2030 – 2031 | 2031 – 2032 | 2032 – 2033 | 2033 – 2034 | 2034 – 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghori a gwneud penderfyniad | 25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Newidiadau i systemau | 0 | 12,800 | | | | | | | | |
| Costau fforwm partneriaeth | 0 | 0 | 11,700 | 11,700 | 11,700 | 11,700 | 11,700 | 11,700 | 11,700 | 11,700 |
| Adroddiad blynyddol | 0 | 0 | 30,900 | 30,900 | 30,900 | 30,900 | 30,900 | 30,900 | 30,900 | 30,900 |
| **Cyfanswm** | **25,000** | **12,800** | **42,600** | **42,600** | **42,600** | **42,600** | **42,600** | **42,600** | **42,600** | **42,600** |

***Noder: Mae hyn yn dangos y blynyddoedd y byddai'r awdurdod lleol yn ysgwyddo costau pe bai'n dewis ymgynghori ar yr ardoll yn ystod 2025 - 2026. Os bydd awdurdod lleol yn dewis cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ddiweddarach, bydd yn ysgwyddo costau yn ddiweddarach.

8.5.88 Ar hyn o bryd, nid yw'n glir faint o awdurdodau, na pha rai, a fydd yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu. Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan rai awdurdodau lleol yn rhan o'r gweithgarwch ymgynghori, ond ar ddiwedd y dydd, bydd angen i awdurdodau lleol ymgynghori ac ystyried yn lleol cyn penderfynu a ddylid defnyddio ardoll. Er mwyn cyflwyno amcangyfrif o gyfanswm y gost, pe bai pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei rhoi ar waith, byddai'r costau ymlaen llaw oddeutu £831,300 a byddai'r costau parhaus blynyddol oddeutu £937,600. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y ffigurau cost cyfartalog pwysedig a gyflwynir uchod. Cydnabyddir bod hyn yn debygol o oramcangyfrif cyfanswm gwirioneddol y gost.

**Tabl 17: Cost os bydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ymwelwyr ac yn ei gweithredu**

| | **Amcangyfrif costau i Awdurdod Lleol** |
|---|---|
| Costau ymlaen llaw (£) | 831,300 |
| Costau parhaus blynyddol (£) | 937,600 |

### *Refeniw a gynhyrchir o'r ardoll ymwelwyr*

8.5.89 Bwriedir i'r ardoll rymuso awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar eu hanghenion eu hunain.
make decisions based on their own needs. Mae'r ardoll yn ddisgresiynol, sy'n golygu mai mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylent roi ardoll ar waith, a hynny ar ôl ymgynghori yn eu hardaloedd lleol. I'r awdurdodau lleol hynny a fydd yn dewis rhoi ardoll ar waith, gellir defnyddio'r refeniw a godir drwy'r ardoll i gynnal

gwasanaethau a seilwaith cyhoeddus ac ailfuddsoddi ynddynt neu gynnal tirweddau sensitif sy'n ecolegol werthfawr.

8.5.90 Mae'r Bil yn deddfu ar gyfer cyfradd sefydlog sy'n seiliedig ar gyfradd fesul person, fesul noson o £0.75 y pen ar gyfer pebyll ar safleoedd gwersylla a llety ar ffurf hostelau a £1.30 y pen ar gyfer pob math arall o lety. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio cyfraddau'r ardoll ymwelwyr a bennir mewn deddfwriaeth. Bydd y refeniw a godir o'r ardoll yn dibynnu ar nifer yr awdurdodau lleol a fydd yn mabwysiadu ardoll yn eu hardal.

8.5.91 O dan ragdybiaethau symleiddio, a phe bai'n cael ei rhoi ar waith gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, amcangyfrifir y gallai ardoll **godi refeniw gwerth oddeutu £33 miliwn y flwyddyn**. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddata ar nifer y nosweithiau a dreulir gan ymwelwyr rhyngwladol a domestig yng Nghymru fel y'i cofnodir gan broffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol Llywodraeth Cymru[51]. Mae hefyd yn cynnwys rhagdybiaethau (sy'n seiliedig ar y data) ynghylch cyfran y nosweithiau a dreulir mewn llety masnachol a sut y caiff y rhain eu dadgyfuno rhwng y ddau fath o lety a gwmpesir gan gyfraddau gwahanol yr ardoll, yn ogystal â rhagdybiaeth ynghylch faint o nosweithiau na chodir ardoll amdanynt gan eu bod yn ymwneud â phersonau o dan 18 sy'n aros mewn llety cyfradd is. Dangosir y dull o gyfrifo'r amcangyfrif yn fanwl yn Atodiad 4. Dylid ystyried bod yr amcangyfrif hwn o refeniw yn uchafswm, gan nad yw'n cynnwys y canlynol:

(i) lwfans ar gyfer ymatebion ymddygiadol gan ymwelwyr i'r ardoll,
(ii) didyniadau ar gyfer cost casglu'r ardoll neu esemptiadau rhag yr ardoll,
(iii) rhagdybiaeth y cydymffurfir yn llawn â'r ardoll a phob un o'i gofynion.

8.5.92 Fodd bynnag, er mwyn darparu ystod, pe bai dim ond un awdurdod lleol yn penderfynu cyflwyno ardoll, a bod yr awdurdod lleol hwnnw wedi ei leoli mewn rhan o Gymru sy'n cael llai o ymweliadau o ran nifer y nosweithiau a dreulir gan ymwelwyr mewn llety masnachol, yna gallai'r refeniw amcangyfrifedig o'r ardoll fod yn llai nag £1 miliwn y flwyddyn. Fel arall, pe na bai unrhyw awdurdod lleol yn defnyddio'r ardoll, byddai'r budd yn £0. Gan ragdybio bod awdurdod lleol sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr yn un sydd ymhlith y chwarter uchaf o awdurdodau lleol yng Nghymru o ran arosiadau dros nos, yna efallai y bydd disgwyl i awdurdod lleol o'r fath godi dros £2 miliwn mewn refeniw

[51] Proffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol: 2017 i 2019 | LLYW.CYMRU

o'r ardoll bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrif hwn yn ddarostyngedig i'r un cafeatau â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer y prif amcangyfrif o refeniw ar gyfer Cymru a gyflwynir yn Atodiad 4. Rhagwelir felly y bydd y refeniw amcangyfrifedig o fewn yr ystod o oddeutu £33 miliwn y flwyddyn. Pe bai hanner y nosweithiau a dreulir mewn llety masnachol yng Nghymru bob blwyddyn mewn ardaloedd lle caiff yr ardoll ei defnyddio, gallai'r refeniw amcangyfrifedig o'r ardoll fod hyd at £17 miliwn y flwyddyn fel amcangyfrif canolog. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, ni wyddys faint o awdurdodau lleol, na pha rai, a fydd yn defnyddio'r pŵer newydd o godi ardoll ymwelwyr.

8.5.93 Gan y bydd yr ardoll ymwelwyr yn cael ei chyflwyno ar lefel awdurdod lleol fel y nodwyd uchod, mae'n bwysig cydnabod bod maint yr economi ymwelwyr yn amrywio o ran ei phwysigrwydd rhwng gwahanol rannau o Gymru. Byddai refeniw yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdod lleol gan adlewyrchu'r amrywiad hwn, a mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu ar eu hasesiad eu hunain o'r effeithiau y gallai ardoll ymwelwyr eu cael yn lleol yn eu hardaloedd. Byddai ceisio rhag-weld refeniw o ardoll ymwelwyr yn eu hardal cyn iddi gael ei rhoi ar waith gan yr awdurdodau lleol hynny sy'n awyddus i ddefnyddio'r pŵer newydd yn cael ei annog. Mae'r Compendiwm o ffynonellau data ar ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr[52], yn rhoi cyd-destun pellach sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, gan roi data ar niferoedd ymwelwyr, nifer y nosweithiau, gwariant ymwelwyr a ffigurau cyflenwi llety ar gyfer mathau o sefydliadau (Llety â Gwasanaeth, Llety Hunanddarpar, Gwersylla / Carafanau, Hostelau a Llety Amgen), nifer y sefydliadau a chyfanswm y lleoedd gwely.

8.5.94 Mae'r ardoll yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol godi incwm ychwanegol a allai, gan ystyried yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni, helpu i gynnal gwasanaethau lleol sydd eisoes o dan bwysau mewn meysydd sy'n ymwneud â gwariant ar reoli cyrchfannau.

**Darparwyr llety ymwelwyr**

8.5.95 Mae'r adran hon yn rhoi manylion am y rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r costau cyfartalog dangosol o ran cofrestru, sefydlu a chydymffurfio'n barhaus y mae darparwyr llety yn debygol o'u hwynebu. Dim ond darparwyr mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd wedi dewis gweithredu ardoll ymwelwyr a fydd yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig ag ardoll.

Cofrestru

8.5.96 Bydd gofyn i bob darparwr llety ymwelwyr sy'n gweithredu yng Nghymru gofrestru. Bydd hyn yn cynnwys darparu manylion personol

[52] Compendiwm o ffynonellau data ar ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr (llyw.cymru)

fel eu henw, eu henw masnachu neu enw eu busnes a chyfeiriad y llety ymwelwyr.

8.5.97 Bydd cofrestru am ddim, ond gan y bydd hwn yn ofyniad newydd mae cost cyfle disgwyliedig. Mae hyn yn adlewyrchu gwerth yr amser a dreulir yn cwblhau'r broses gofrestru a gwerth yr amser sy'n ofynnol gan ddarparwyr i ddarllen canllawiau a deall pa gamau y mae angen iddynt eu cymryd. Mae amcangyfrif o'r costau i ddarparwyr ar gyfer cofrestru wedi eu sefydlu drwy ACC. Er mwyn gallu amcangyfrif y costau hyn, mae rhai rhagdybiaethau sylfaenol, sy'n cynnwys:

- Proses gofrestru ddigidol yn unig
- Defnyddir platfformau presennol ar gyfer creu cyfrifon
- Dim ond gwybodaeth sylfaenol fydd ei hangen yn yr iteriad cyntaf o'r broses gofrestru
- Ni fydd rhaid i ddarparwyr ailgofrestru, ond bydd mecanweithiau ar waith i gadarnhau a yw eu manylion yn gywir o hyd.

8.5.98 Er mwyn cymharu, mae gwasanaethau eraill gan y llywodraeth, fel creu cyfrif ar gyfer porth y llywodraeth, sy'n ofynnol er mwyn gallu cofrestru â gwasanaethau eraill, yn cymryd 5 munud[53]. Mae gwasanaethau eraill gan y llywodraeth, fel cofrestru i bleidleisio, fel arfer yn cymryd 5 munud[54] ac mae cofrestru â meddyg teulu yn cymryd 15 munud[55]. Fodd bynnag, prosesau cofrestru unigol yw'r rhain. Mae gan Rhentu Doeth Cymru brosesau cofrestru ar wahân ar gyfer landlordiaid ag un eiddo a landlordiaid â mwy nag un eiddo. Ar gyfer eu gwasanaeth, mae eu dadansoddiad yn amcangyfrif ei bod yn cymryd oddeutu 30 munud i landlordiaid ag un eiddo gofrestru a hyd at oddeutu 1 awr i landlordiaid â 10 neu ragor o eiddo gofrestru.

8.5.99 Amcangyfrifir felly y bydd darparwyr llety ar gyfartaledd yn cymryd rhwng 10 munud ac 1 awr i ymgyfarwyddo â'r gofynion ac i gwblhau eu cofrestriad. Gallent wneud hyn ar un tro neu dros sawl diwrnod. Gan ddefnyddio'r enillion cyfartalog fesul awr o £14.81 yr awr[56], byddai hyn felly yn amrywio rhwng £2.47 a £14.81 fesul busnes.

8.5.100 Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon isel ac uchel ar gyfer y ffigurau cofrestru a geir yn yr adran costau i ACC yn 8.5.16, amcangyfrifir y bydd cyfanswm y costau cydymffurfio ar gyfer y stoc bresennol o ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gysylltiedig â chofrestru yn amrywio rhwng £40,000 a £237,000 ar gyfer yr amcangyfrif isel a rhwng £136,000 ac £815,000

[53] Gwasanaeth Gofal Plant | Porth y Llywodraeth: mewngofnodi neu gofrestru (tax.service.gov.uk)
[54] Cofrestru i bleidleisio - GOV.UK (www.gov.uk)
[55] Dod o hyd i feddyg teulu - NHS (www.nhs.uk)
[56] Gross median hourly earnings for accommodation and food service activities, managers, directors, and senior officials, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), cyhoeddwyd 1 Tachwedd 2023, Employee earnings in the UK: 2023

ar gyfer yr amcangyfrif uchel. Mae'r ystodau eang hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch nifer y darparwyr llety ymwelwyr y bydd angen iddynt gofrestru a faint o amser y bydd hynny'n ei gymryd iddynt.

8.5.101 Disgwylir i gam cyntaf y broses gofrestru ddechrau yn 2026 ac i'r gwaith o gofrestru pob darparwr presennol gael ei ledaenu'n gyfartal dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd ACC yn monitro'r amser a gymerir i gwblhau'r manylion cofrestru wrth iddynt ddatblygu'r gwasanaeth, drwy weithio ochr yn ochr â'r diwydiant.

8.5.102 Yn sgil y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â modelu'r gofynion parhaus i ddiweddaru'r gofrestr, y rhagdybiaeth yw na fydd y mwyafrif o'r darparwyr yn gwneud unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, pan fyddant yn gwneud hynny, dim ond ychydig iawn o'u gwybodaeth y byddant yn ei newid, fel eu manylion cyswllt a / neu eu cyfeiriadau gohebu. Rhagwelir y byddai hyn yn cymryd 50% yn llai o amser i ddarparwyr na'r broses gofrestru wreiddiol (hyd at 30 munud). Felly, amcangyfrifir y gallai hyn amrywio rhwng £0 a £7.41 i bob busnes, bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw ACC wedi gallu dod o hyd i dystiolaeth i ategu'r rhagdybiaethau hyn ar hyn o bryd. Bydd ACC yn parhau i ddylunio a chydweithio â busnesau i leihau'r baich gweinyddol ar ei ddefnyddwyr.

8.5.103 Yn ogystal â'r stoc bresennol o ddarparwyr llety ymwelwyr, mae disgwyl hefyd y bydd rhywfaint o fynd a dod gyda rhai darparwyr newydd yn agor a rhai yn dewis gadael y sector yn ystod y cyfnod gwerthuso. Fel y nodwyd ym mharagraff 8.5.6, mae tueddiadau diweddar yn awgrymu y bydd nifer y darparwyr llety newydd a fydd yn agor bob blwyddyn rhwng 5% a 15% o'r stoc bresennol. Yn yr un modd, amcangyfrifir y bydd nifer y darparwyr a fydd yn cau bob blwyddyn rhwng 5% a 15% o'r stoc bresennol. Rhagdybir y bydd angen yr un faint o amser ar ddarparwyr newydd i gofrestru ag sydd ei angen ar ddarparwyr presennol. Rhagdybir mai'r amser sydd ei angen ar y darparwyr hynny sy'n gadael y sector i ddadgofrestru yw hanner yr amser y mae'n ei gymryd i gofrestru ar y dechrau. Ar y sail hon, amcangyfrifir y bydd y gost barhaus i ddarparwyr newydd a darparwyr sy'n gadael rhwng £3,000 a £163,000 y flwyddyn. At ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, rhagdybir mai o 2028-29 ymlaen yr eir i'r costau hyn.

**Tabl 18: Amcangyfrif o gyfanswm y costau cyfle sy'n gysylltiedig â chofrestru ar gyfer Darparwyr Llety Ymwelwyr**

*£000 oedd*

| | 2025-26 | | 2026-27 | | 2027-28 | | 2028-29 | | 2029-30 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* |
| Cofrestriadau busnesau presennol | - | - | 10 | 204 | 20 | 407 | 10 | 204 | - | - |
| Cofrestriadau busnesau newydd | - | - | - | - | - | - | 2 | 122 | 2 | 122 |
| Dadgofrestriadau | - | - | - | - | - | - | 1 | 41 | 1 | 41 |
| **Cyfanswm** | - | - | 10 | 204 | 20 | 407 | 13 | 367 | 3 | 163 |

| | 2030-31 | | 2031-32 | | 2032-33 | | 2033-34 | | 2034-35 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* | *Isel* | *Uchel* |
| Cofrestriadau busnesau presennol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cofrestriadau busnesau newydd | 2 | 122 | 2 | 122 | 2 | 122 | 2 | 122 | 2 | 122 |
| Dadgofrestriadau | 1 | 41 | 1 | 41 | 1 | 41 | 1 | 41 | 1 | 41 |
| **Cyfanswm** | 3 | 163 | 3 | 163 | 3 | 163 | 3 | 163 | 3 | 163 |

Ardoll Ymwelwyr

8.5.104 Bydd yr ardoll ymwelwyr arfaethedig hefyd yn gosod gofynion ychwanegol ar ddarparwyr llety yng Nghymru sy'n gweithredu mewn awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r ardoll. Gallai darparwyr llety ysgwyddo costau ar ffurf costau sefydlu ymlaen llaw a chostau gweinyddu parhaus.

8.5.105 Bydd profiad pob busnes o roi ardoll ar waith yn wahanol sy'n ei gwneud hi'n anodd cyfrifo'r union gostau gweinyddu. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon isod yn ceisio rhoi syniad o'r costau ymlaen llaw a'r costau parhaus y gallai busnesau eu hwynebu. Bydd y costau cydymffurfio gwirioneddol a allai godi ar gyfer busnes penodol yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau a allai fod yn unigryw i bob busnes. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd costau yn is i ddarparwyr yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Pan gyfrifir yr ardoll yn seiliedig ar wybodaeth y mae'r darparwr eisoes yn ei chasglu (h.y. nid oes angen unrhyw newidiadau sylweddol)
- Pan fo darparwyr yn manteisio ar arbedion maint drwy ddefnyddio asiantaethau teithio ar-lein / trydydd partïon – e.e. mae gan Airbnb a Booking.com nodwedd bresennol y gellir ei throi ymlaen gan arwain at gostau untro is i ddarparwyr ddiweddaru eu meddalwedd (byddem yn rhagdybio bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio cyfryngwyr i gymryd archebion)
- Pan fo darparwyr yn defnyddio darparwyr meddalwedd tebyg ac, felly manteisir ar arbedion maint pe bai'n rhaid i ddarparwyr meddalwedd ddiweddaru eu systemau i gyfrif am ardoll (gan arwain at gostau cyffredinol is ar gyfer pob darparwr o gymharu â defnyddio meddalwedd archebu / cyfrifon unigryw)

8.5.106 Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y gall costau fod yn uwch mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft i'r busnesau hynny sy'n defnyddio meddalwedd unigryw neu'n cymryd y rhan fwyaf o'u harchebion yn uniongyrchol.

8.5.107 Bydd angen i ddarparwyr llety ddiweddaru eu systemau a'u prosesau er mwyn sicrhau bod darpariaeth i hysbysu ymwelwyr am yr ardoll a'u galluogi i'w chasglu. O safbwynt darparwr llety, gallai'r costau ymlaen llaw hyn gynnwys tasgau megis y canlynol:

- Ymgyfarwyddo â'r hyn sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r canllawiau ar yr ardoll ymwelwyr;
- Cyflawni neu gomisiynu'r gwaith sydd angen ei wneud i ddiweddaru neu newid systemau rheoli eiddo presennol a ddefnyddir i reoli archebion neu lunio anfonebau;
- Darparu hyfforddiant i aelodau presennol o staff ar systemau newydd neu newidiadau sydd wedi eu gwneud i system bresennol;
- Profi neu dreialu unrhyw systemau newydd cyn bod angen casglu ardoll ymwelwyr;
- Ailnegodi contractau presennol â thrydydd partïon (megis platfformau archebu trydydd parti neu asiantaethau teithio ar-lein) pan fo comisiwn yn seiliedig ar bris llety a werthir;
- Newid rhestrau prisiau neu fodelau prisio er mwyn cyfrif am yr ardoll ymwelwyr.

8.5.108 Unwaith y cyflwynir yr ardoll ymwelwyr mewn awdurdod lleol, bydd yn ofynnol i ddarparwyr llety gyflawni tasgau parhaus, megis y rhai a ganlyn:

- Paratoi ffurflen ardoll i ACC (er enghraifft, ffurflen chwarterol neu flynyddol);
- Cysoni a gwiriadau diwydrwydd dyladwy, er enghraifft, bod cyfradd gywir yr ardoll ymwelwyr yn cael ei nodi mewn anfonebau;
- Gweithgareddau cadw cofnodion ychwanegol, er enghraifft, os bydd unrhyw esemptiadau neu ad-daliadau posibl a bod angen dangos tystiolaeth ohonynt i ACC os cânt eu cwestiynu;
- Esbonio i gwsmeriaid pam y mae ardoll ymwelwyr wedi ei hychwanegu at fil eu llety.

8.5.109 Er mwyn pennu'r costau cyfartalog dangosol o ran sefydlu a chydymffurfio'n barhaus, mae'r ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban yn ei Memorandwm[57] ar gyfer Bil Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) a'r ffigurau a gyhoeddwyd gan CThEF ar gyfer eu rhaglen Troi Treth yn Ddigidol wedi cael eu defnyddio i ddarparu amcangyfrif o'r costau posibl. Roedd y rhaglen Troi Treth yn Ddigidol yn cynnwys y costau pontio i fusnesau a masnachwyr hunangyflogedig sy'n gysylltiedig â chadw cofnodion digidol, cyflwyno diweddariadau chwarterol a chyflwyno ffurflenni drwy feddalwedd gytûn. Er nad oes modd cymharu'r rhaglen hon yn uniongyrchol â'r Ardoll Ymwelwyr, mae'n darparu meincnod cymharol a defnyddiol ar gyfer costau dangosol tebygol.

8.5.110 Amcangyfrifodd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Ardoll Ymwelwyr (yr Alban) y byddai'r costau ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â chyflwyno ardoll yn amrywio rhwng £150 a £1,100 ar gyfer microfusnes ac yn amrywio rhwng £3,000 a £10,000 ar gyfer busnes bach a chanolig ei faint. Amcangyfrifwyd y byddai'r costau parhaus yn amrywio rhwng £200 ac £850 ar gyfer microfusnes ac yn amrywio rhwng £300 a £400 ar gyfer busnes bach a chanolig ei faint.

8.5.111 Mae sawl adroddiad a phapur ymchwil wedi eu cyhoeddi gan CThEF ynghylch y costau i fusnesau yn sgil y rhaglen Troi Treth yn Ddigidol. Mae'r adroddiad ar y costau a'r manteision i gwsmeriaid yn ystod camau nesaf y rhaglen Troi Treth yn Ddigidol yn amlygu bod y costau pontio cyfartalog i fusnesau o ganlyniad i estyn y rhaglen ar gyfer TAW yn oddeutu £330 a bod y gost flynyddol i bob busnes sydd o fewn cwmpas yn £35. Amcangyfrifodd ffigurau mwy diweddar y rhaglen ar gyfer Hunanasesiad Treth Incwm gost bontio o £320 a chost barhaus flynyddol o £110 i unig fasnachwyr a landlordiaid[58]. Er nad oes modd

[57] Bil Ardoll Ymwelwyr yr Alban Memorandwm Ariannol | Gwefan Senedd yr Alban
[58] Making Tax Digital for Income Tax Self Assessment for sole traders and landlords - GOV.UK (www.gov.uk)

cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol, maent yn cynnig syniad o ystod bosibl yr amcangyfrifon cost. Bydd y costau yn amrywio'n fawr fesul darparwr yn unol â'u hamgylchiadau. Bydd y costau'n uwch ar gyfer y canlynol:

- Darparwyr sy'n ymwneud â gwasanaethau trydydd parti fel cyfrifydd neu asiant trethi
- Darparwyr sy'n gweithredu meddalwedd cyfrifyddu pwrpasol
- Darparwyr sy'n berchen ar fusnes mwy (gan y bydd hyn yn cynyddu maint a chymhlethdod y ffurflenni)

8.5.112 Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai costau amcangyfrifedig ar gyfer darparwyr yn yr Alban fod yn uwch gan y bydd cyfraddau'r ardoll yn cael eu gweinyddu ar sail canran (y caiff ei lefel ei phenderfynu gan awdurdodau lleol unigol). Bydd penderfyniadau ynghylch esemptiadau hefyd yn cael eu gwneud fesul awdurdod lleol sy'n golygu y gallai fod cymhlethdodau ychwanegol i fusnesau yn yr Alban o gymharu â Chymru lle mae'r darpariaethau yn y Bil yn nodi cyfradd sefydlog ar gyfer yr ardoll ac esemptiadau ar sail genedlaethol.

8.5.113 Defnyddiwyd amcangyfrif canolog o ystodau'r Alban yn y cyfrifiadau isod ochr yn ochr â'r costau cyfartalog a gyhoeddwyd gan CThEF (costau ymlaen llaw o £320-£625 ar gyfer microfusnesau a £320-£6,500 ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint a chostau parhaus o £110-£525 ar gyfer microfusnesau a £110-£350 ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint).

8.5.114 Gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch nifer a maint y darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru, caiff yr amcangyfrifon ar gyfer y costau ymlaen llaw a'r costau parhaus posibl yr eir iddynt gan y sector eu cyflwyno o reidrwydd mewn ystodau eang.

8.5.115 Mae'r costau i ACC ar gyfer Cofrestr Genedlaethol yn seiliedig ar amcangyfrif bod rhwng 16,000 a 55,000 o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Defnyddir yr un niferoedd yma yn sail ar gyfer amcangyfrif y costau cydymffurfio yr eir iddynt gan ddarparwyr. Yn ogystal, cyflwynir ffigur canolog neu ffigur yn y canol o 35,500 o ddarparwyr. Mae'r Gofrestr Busnes Ryngadrannol ar 'unedau lleol' yn awgrymu bod 595 o fusnesau bach a mawr yn y sector (gyda'r gweddill yn ficrofusnesau)[59]. Felly, mae'r amcangyfrifon isod wedi eu cyfrifo ar y sail hon.

[59] UK business: activity, size and location - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

**Tabl 19: Amcangyfrif o gyfanswm y costau ar gyfer Darparwyr Llety Ymwelwyr**

| Nifer y darparwyr | 16,000 | 35,500 | 55,000 |
|---|---|---|---|
| **Costau ymlaen llaw (£)** | | | |
| Isafswm | 5,120,000 | 11,360,000 | 17,600,000 |
| Uchafswm | 13,496,000 | 25,683,000 | 37,871,000 |
| **Costau parhaus (£)** | | | |
| Isafswm | 1,760,000 | 3,905,000 | 6,050,000 |
| Uchafswm | 8,296,000 | 18,533,000 | 28,771,000 |

8.5.116 Fel y gwelir o'r tabl, mae'r cyfrifiadau yn awgrymu uchafswm costau ymlaen llaw o rhwng £5.1m a £37.9m a chostau parhaus blynyddol o rhwng £1.7m a £28.8m. Mae'r union gostau yn ansicr iawn o ystyried diffyg unrhyw gymharydd uniongyrchol.

8.5.117 Yr amcangyfrif yn y canol yw ein hamcangyfrif gorau. Gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch union nifer y sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru a'u haliniad ar lefel busnes / menter, credwn fod y rhagdybiaeth hon yn rhesymol. O ganlyniad, mae'r amcangyfrifon a ddarperir yn debygol o arwain at oramcangyfrif sylweddol o gostau. Mae'r ffigur hwn hefyd yn rhagdybio y bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu ardoll ymwelwyr, er ei bod yn ansicr o hyd faint fydd yn dewis gwneud hynny mewn gwirionedd.

8.5.118 Yn dilyn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, mae'n debygol y bydd angen cynnal adolygiad gweithredu llawn er mwyn deall y ffigurau hyn ymhellach a gwerthuso cyfanswm y costau i ddarparwyr.

<u>**Ymwelwyr**</u>

8.5.119 Os bydd darparwyr llety yn trosglwyddo cost ardoll i ymwelwyr, bydd y rhai sy'n defnyddio llety dros nos yn y rhannau hynny o Gymru lle y mae ardoll ymwelwyr wedi ei chyflwyno yn talu pris uwch am lety nag o'r blaen. Bydd hyn yn cynyddu cost ymweld â'r ardaloedd hyn ac, felly, gallai arwain at newidiadau yn ymddygiad ymwelwyr fel y trafodwyd uchod.

8.5.120 Mae'r Bil yn deddfu ar gyfer cyfradd sefydlog sy'n seiliedig ar gyfradd fesul person, fesul noson o £0.75 y pen ar gyfer pebyll ar safleoedd

gwersylla a llety ar ffurf hostelau a £1.30 y pen ar gyfer pob math arall o lety. Fel yr amlinellir yn adran 8.5.86, o dan ragdybiaethau symleiddio, a phe bai'n cael ei rhoi ar waith gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, amcangyfrifir y gallai ardoll ymwelwyr godi refeniw gwerth oddeutu £33 miliwn y flwyddyn. Caiff y refeniw o'r ardoll ei godi drwy gost i ymwelwyr, sy'n golygu y gallai'r gost i ymwelwyr yn gyffredinol fod oddeutu £33 miliwn y flwyddyn.

8.5.121 Mae Tabl 20 isod yn rhoi rhai enghreifftiau o ystod y symiau posibl o ardoll ymwelwyr a fyddai'n daladwy gan grwpiau gwahanol o ymwelwyr yn dibynnu ar y math o lety ac a yw'n perthyn i gategori'r gyfradd uwch neu gategori'r gyfradd is.

**Tabl 20 – Enghreifftiau o'r ardoll ymwelwyr a fyddai'n daladwy mewn senarios gwahanol yn seiliedig ar y gyfradd uwch a'r gyfradd is.**

Categori 1 – Y gyfradd is

| Sefyllfa | Hostelau, Safleoedd Gwersylla (lleiniau pebyll) / Y gyfradd is: £0.75 (£0.90) |
|---|---|
| Teithiwr unigol yn aros 3 noson | £2.25 (£2.70) |
| Teithiwr unigol yn aros 7 noson | £5.25 (£6.30) |
| Cwpl yn aros 3 noson | £4.50 (£5.40) |
| Cwpl yn aros 7 noson | £10.50 (£12.60) |
| Teulu o bedwar yn aros 3 noson | £4.50 (£5.40) |
| Teulu o bedwar yn aros 7 noson | £10.50 (£12.60) |

Noder – mae cromfachau yn dynodi cost sy'n cynnwys TAW (ar 20%)
Noder – caiff y rhai o dan 18 oed eu hesemptio rhag yr ardoll am arosiadau yn y gyfradd is.

Categori 2 – Y gyfradd uwch

| Sefyllfa | Pob math arall o lety / Y gyfradd uwch: £1.30 (£1.56) |
|---|---|
| Teithiwr unigol yn aros 3 noson | £3.90 (£4.68) |
| Teithiwr unigol yn aros 7 noson | £9.10 - £10.92 |
| Cwpl yn aros 3 noson | £7.80 (£9.36) |
| Cwpl yn aros 7 noson | £18.20 - £21.84 |
| Teulu o bedwar yn aros 3 noson | £15.60 (£18.72) |
| Teulu o bedwar yn aros 7 noson | £36.40 (£43.68) |

Noder – mae cromfachau yn dynodi cost sy'n cynnwys TAW (ar 20%)

8.5.122 Er bod y costau i ymwelwyr sy'n aros dros nos yn debygol o gynyddu ychydig yn yr ardaloedd hynny sy'n dewis rhoi ardoll ar waith, gallai fod manteision ehangach i ymwelwyr yn dibynnu ar sut y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r refeniw ychwanegol a godir i gynnal a chefnogi'r economi ymwelwyr yn lleol. Gellid defnyddio buddsoddiadau o'r fath i wella arlwy twristiaeth Cymru, gan helpu i reoli a gwasanaethu ymwelwyr yn well ac ychwanegu at natur unigryw Cymru fel cyrchfan, a allai liniaru, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, effaith unrhyw gynnydd bach mewn prisiau a sicrhau manteision tymor hwy.

8.5.123 Ceir tystiolaeth bod ymwelwyr yn rhoi gwerth cynyddol ar dalu trethi ychwanegol os dangosir bod arian yn cael ei ddefnyddio i wella cymunedau lleol. Yn yr arolwg defnyddwyr diweddar[60], a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r cyrchfannau lle maent yn aros a buddsoddi ynddynt. Ychydig iawn (13%) o'r rhai hynny a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn anghytuno â'r cysyniad o gyfrannu at gostau. Mae defnyddio mannau a gwasanaethau cyhoeddus yn rhan annatod o brofiad cyffredinol ymwelwyr. Gall buddsoddi yn y rhain, a'u cynnal a'u cadw, wella enw da cyrchfannau, a fydd o fudd i ymwelwyr, trigolion a busnesau.

**<u>Crynodeb o'r costau yn Opsiwn 2</u>**

8.5.124 Mae Tabl 21 yn rhoi crynodeb o'r gost sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2. Fel y nodwyd yn flaenorol, gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch nifer a maint y darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru, caiff yr amcangyfrifon ar gyfer y costau posibl eu cyflwyno o reidrwydd mewn ystodau eang. Mae'r costau cyfanredol hefyd yn seiliedig ar bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, pan nad yw'r canlyniad hwn yn debygol mewn gwirionedd. Cydnabyddir felly bod y costau a gyflwynir yn debygol o oramcangyfrif y gost wirioneddol. Dylid dehongli'r ffigurau a gyflwynir yn ofalus o ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr union ffigurau a'r newidynnau sy'n dylanwadu.

[60] Cyflwyniad PowerPoint (llyw.cymru)

## Tabl 21: Crynodeb o'r costau yn Opsiwn 2

| | | | | | | | | | | *£000oedd* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2025 – 2026** | **2026 – 2027** | **2027 – 2028** | **2028 – 2029** | **2029 – 2030** | **2030 – 2031** | **2031 – 2032** | **2032 – 2033** | **2033 – 2034** | **2034 - 2035** |
| **ACC (Cofrestru)** | 1,765 2,265 | 1,940 – 2,682 | 1,508 – 1,925 | 1,112 -1,529 | 1,112 – 1,529 | 1,112 – 1,529 | 1,112 – 1,529 | 1,112 – 1,529 | 1,112 – 1,529 | 1,112 – 1,529 |
| **ACC (Ardoll Ymwelwyr)** | 1,603 – 2,103 | 2,271 – 2,771 | 2,386 – 2,955 | 1,552 – 2,120 | 1,552 – 2,120 | 1,552 – 2,120 | 1,552 – 2,120 | 1,552 – 2,120 | 1,552 – 2,120 | 1,552 – 2,120 |
| **Llywodraeth Cymru** | 44-54 | - | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| **Awdurdodau Lleol** | 550 | 281 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 |
| **Darparwyr Llety Ymwelwyr (Cofrestru)** | - | 10–204 | 20–407 | 13–367 | 3–163 | 3–163 | 3–163 | 3–163 | 3–163 | 3–163 |
| **Darparwyr Llety Ymwelwyr (Ardoll Ymwelwyr)** | - | 5,120 – 37,871 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 | 1,760 – 28,771 |
| **Ymwelwyr** | 0 | 0 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 |
| **Cyfanswm y gost** | 3,962 – 4,972 | 9.622 – 43,809 | 39,632 – 68,015 | 38,394 – 66,744 | 38,385 – 66,541 | 38,385 – 66,541 | 38,385 – 66,541 | 38,385 – 66,541 | 38,385 – 66,541 | 38,385 – 66,541 |

## 8.6 Effaith Economaidd

8.6.1 Mae a wnelo cost bosibl arall sy'n gysylltiedig â'r ardoll â'r effaith economaidd. Mae effaith ardoll ymwelwyr ar ddarparwyr llety yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis a fydd darparwyr llety yn trosglwyddo'r gost i ymwelwyr drwy gynyddu pris llety ac ar ymateb ymddygiadol ymwelwyr i newid ym mhrisiau llety.

8.6.2 Mae'r rhyngweithio rhwng trethi, gwariant, buddsoddi a thwf yn gymhleth ac yn ffynhonnell llawer o ymchwil a thrafod. Trwy ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, rhannwyd pryder allweddol yn ymwneud â'r effaith economaidd bosibl y gallai ardoll ymwelwyr ei chael yng Nghymru. Mewn ymateb i hyn, gwnaethom gomisiynu ymchwil[61] i ystyried yr effaith economaidd gadarnhaol a negyddol bosibl os bydd y galw ym maes twristiaeth yn cynyddu neu'n lleihau mewn ardaloedd sy'n cyflwyno ardoll.

8.6.3 Ar y cyfan, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod ardollau ymwelwyr ar eu pen eu hunain yn lleihau'r galw, er bod hyn yn dibynnu ar gyfradd absoliwt yr ardoll a bennir. Er enghraifft, mae'r mwyafrif o ardollau (mewn gwledydd eraill) yn daliadau bach y bwriedir iddynt gynyddu'r dreth a gesglir ac, ar yr un pryd, leihau unrhyw effeithiau negyddol ar y galw. Mae'r galw ym maes twristiaeth yn parhau i fod yn uchel yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, gellid dadlau y gallai twristiaeth fod wedi cynyddu'n fwy pe na bai'r ardollau hynny wedi bod ar waith. Cyfeirir at Ynysoedd Baleares yn aml yn enghraifft o dreth dwristiaeth a gafodd effaith negyddol ar y galw ym maes twristiaeth, pan gafodd ei chyhoeddi yn 2001[62]. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sy'n ategu'r honiad hwnnw yn amhendant, yn sgil lleihad byd-eang ehangach mewn twristiaeth rhwng 2001 a 2004[63]. Yn wir, 2001 oedd y flwyddyn gyntaf ers 1982 pan welwyd twf negyddol yn y galw, gydag Ewrop yn cofnodi lleihad o 0.7% yn y galw.[64]

8.6.4 Mae'r *Adolygiad o Effeithiau Ardollau Ymwelwyr Mewn Cyrchfannau Byd-eang[65],* a gyhoeddwyd gan Brifysgol Bangor, yn edrych ar saith astudiaeth achos o gyrchfannau ledled y byd lle y mae ardollau ymwelwyr ar waith. Ym mhob un o'r cyrchfannau a astudiwyd, mae twristiaeth yn parhau i fod yn gymharol sefydlog, gyda thwf canolig yn yr ardaloedd hynny sy'n defnyddio ardollau ymwelwyr.

[61] https://www.llyw.cymru/effeithiau-posibl-ardoll-ymwelwyr-yng-nghymru-ar-yr-economi-a-nwyon-ty-gwydr
[62] Elasticities relevant to tourism in Scotland: evidence review - gov.scot (www.gov.scot)
[63] UNWTO Tourism Highlights, 2002 Edition (e-unwto.org)
[64] *Ibid.*
[65] https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-effeithiau-ardollau-ymwelwyr-mewn-cyrchfannau-byd-eang

8.6.5 Mewn erthygl ddiweddar arall, nododd academyddion o Brifysgol Bangor fod y cysylltiad rhwng ardollau ymwelwyr a nifer yr ymwelwyr yn gymhleth ac yn aml yn amhendant. Mae sawl astudiaeth wedi dod i gasgliadau gwahanol, gyda rhai yn awgrymu bod ardollau twristiaeth wedi rhwystro twristiaeth ryngwladol tra bod eraill wedi dangos bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n gyson mewn cyrchfannau twristiaeth poblogaidd lle mae ardoll ar waith. Fodd bynnag, mae'r erthygl yn nodi, yn y cyrchfannau a astudiwyd, fod trethi twristiaeth wedi eu rhoi ar waith yn llwyddiannus ac mai prin yw'r dystiolaeth eu bod wedi peri i dwristiaid beidio ag ymweld â'r ardaloedd hyn[66].

8.6.6 Er mwyn deall ymhellach effaith economaidd bosibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru, comisiynwyd yr Athro Calvin Jones o Ysgol Fusnes Caerdydd i nodi amcangyfrifon o effaith economaidd bosibl yr ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr[67]. Ym mis Mehefin 2025, diweddarwyd y dadansoddiad i ymgorffori'r esemptiadau a'r cyfraddau ardoll diwygiedig yn dilyn gwelliannau i'r Bil yn ystod Cyfnod 2[68].

8.6.7 Mae'r amcangyfrifon yn yr adroddiad wedi eu cyfrifo drwy gymhwyso data swyddogol a chanlyniadau adolygiad o dystiolaeth gan Alma Economics at Fodel Mewnbwn-Allbwn hirsefydlog Cymru sydd wedi ei adolygu'n helaeth gan gymheiriaid ac wedi ei ddiweddaru.

8.6.8 Er mwyn sicrhau bod y gwaith modelu yn ddichonadwy, gwnaed nifer o ragdybiaethau allweddol, fel a ganlyn:

- caiff yr ardoll ei rhoi ar waith gan bob awdurdod lleol ac, felly, ni fydd unrhyw achosion o newid cyrchfannau ymwelwyr o fewn Cymru. (Er bod y naill a'r llall yn annhebygol iawn o ddigwydd yn ymarferol, mae'r rhagdybiaeth hon yn golygu bod yr amcangyfrifon yn rhai gofalus.)
- Pennir cyfraddau'r ardoll ar £1.30 a £0.75 ar gyfer y gyfradd uwch a'r gyfradd is, yn y drefn honno. Yna, ychwanegir TAW.
- Bydd busnesau yn trosglwyddo holl gostau'r ardoll i ymwelwyr.
- Ni fydd ffactorau eraill sy'n rheoli'r galw ym maes twristiaeth yn newid.
- Costau ffrithiannol neu weinyddol a allai godi o ganlyniad i gyflwyno unrhyw ardoll newydd. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, o ran eu maint na'u natur.

---

66 Why you should expect to pay more tourist taxes – even though the evidence for them is unclear (theconversation.com)
67 https://www.llyw.cymru/effeithiau-posibl-ardoll-ymwelwyr-yng-nghymru-ar-yr-economi-a-nwyon-ty-gwydr
68 https://www.llyw.cymru/effeithiau-posibl-ardoll-ymwelwyr-yng-nghymru-ar-yr-economi-a-nwyon-ty-gwydr-dadansoddiad-diwygiedig

- Caiff refeniw o'r ardoll ei wario gan awdurdodau lleol yng Nghymru, net o TAW, gyda hanner y refeniw yn cael ei wario ar gynnal neu ehangu gwasanaethau presennol a hanner yn cael ei wario ar seilwaith neu ddatblygiadau cyfalaf.

8.6.9 Roedd un o'r rhagdybiaethau allweddol hefyd yn ymwneud ag ymateb ymwelwyr i'r ardoll – sef elastigedd pris y galw. Gan fod cryn ansicrwydd o hyd ynglŷn ag elastigedd pris y galw ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, gan nad oes unrhyw astudiaethau sy'n benodol i Gymru y gallwn gyfeirio atynt a chan mai prin iawn yw'r ymchwil a'r amcangyfrifon ar gyfer elastigedd pris y galw ledled y DU gyfan, mae'r adroddiad yn cyflwyno tri senario yn seiliedig ar ganlyniad adolygiad Alma Economics o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru[69], sef senario optimistaidd, senario niwtral a senario pesimistaidd.

**Tabl 23: *Effaith Flynyddol Net Amcangyfrifedig Gwariant y Sector Cyhoeddus ar yr Economi Gyfan o Ganlyniad i Gyflwyno Ardoll***

| *Pob Effaith Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023m* | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | £19.7 | £3.6 | -£13.3 |
| Incwm Gwario | £5.3 | £1.1 | -£3.5 |
| Gwarged Gweithredu Gros | £3.0 | -£0.1 | -£3.3 |
| Treth Incwm a Threth Hunangyflogaeth, Pensiynau | £3.0 | £1.6 | £0.1 |
| Trethi, Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchu | -£0.2 | -£0.5 | -£0.9 |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) | £11.1 | £2.1 | -£7.5 |
| *Canran GYG Economi Cymru (ffigurau bras)* | *0.013%* | *0.002%* | *-0.009%* |
| Cyflogaeth Gyfwerth ag Amser Llawn | 100 | -140 | -400 |
| *Canran Gweithlu Cymru (ffigurau bras)* | *0.007%* | *-0.010%* | *-0.028%* |

*Ffynhonnell: Jones. C, Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr: Dadansoddiad Diwygiedig (Mehefin 2025), Tabl 7*

8.6.10 Fel y dangosir yn Nhabl 23, mae amcangyfrifon ar gyfer gweithgarwch economaidd, a fesurwyd yn ôl Gwerth Ychwanegol Gros (GYG), yn fach iawn ar draws pob senario, yn amrywio o +£11.1m i -£7.5m o GYG y flwyddyn (ym mhrisiau 2023).

8.6.11 Mae amcangyfrifon ar gyfer y newidiadau mewn cyflogaeth yn amrywio o gynnydd net o 100 o swyddi FTE yn y senario optimistaidd i leihad net o tua 400 o swyddi FTE yn y senario pesimistaidd.

[69] Adolygiad tystiolaeth o elastigedd sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru (llyw.cymru)

8.6.12 Mae'n anochel bod y canlyniadau hyn yn ansicr a'u bod yn seiliedig ar effaith net gyffredinol am fod cynnydd yn nifer y swyddi FTE o ganlyniad i wario refeniw o'r ardoll ymwelwyr sy'n gwrthbwyso colledion. Er mwyn modelu'r effaith ar allbwn economaidd a chyflogaeth, bu'n rhaid gwneud sawl rhagdybiaeth (a nodir yn 8.6.8) nad ydynt, o bosibl, yn ddilys mewn gwirionedd. Bydd ffactorau megis y tywydd, beth mae cyrchfannau eraill yn ei wneud a chyflwr yr economi oll yn effeithio ar ymddygiad ymwelwyr. Er enghraifft, ym Maromedr Twristiaeth Haf 2023, y ddau brif reswm a nodwyd gan fusnesau twristiaeth dros y lleihad yn nifer yr archebion oedd y tywydd a'r ffaith bod gan bobl lai o incwm gwario[70]. Mae ymatebion ymddygiadol unigol, yn ôl eu natur, yn anrhagweladwy ac, felly, dim ond ymatebion tebygol ymhlith y mwyafrif y gallwn eu hystyried.

8.6.13 O ganlyniad, y casgliadau allweddol y gellir dod iddynt ar sail yr ymchwil hon, yn seiliedig ar dystiolaeth o wledydd eraill, set resymol o ragdybiaethau a'r hyn a wyddom am yr economi yng Nghymru, yw bod effaith economaidd yr ardoll (y newidiadau mewn allbwn a chyflogaeth) yn debygol o fod yn fach o gymharu â maint yr economi yng Nghymru ac yn fach o gymharu â maint y sector twristiaeth yng Nghymru.

[70] Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023: Adroddiad Cam yr Haf (llyw.cymru)

# 9. Asesiadau Effaith

9.1 Mae Asesiadau Effaith penodol wedi eu cynnal sy'n cwmpasu'r Bil yn ei gyfanrwydd. Mae asesiadau effaith wrthi'n cael eu diweddaru i adlewyrchu gwelliannau i'r Bil yn ystod Cyfnod 2. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig llawn ynghyd ag asesiadau effaith penodol yn cael eu cyhoeddi ar wahân.[71]. Rhoddir crynodeb o'r effeithiau isod.

**9.2 Hawliau Plant**

9.2.1 Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

9.2.2 Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael mewn fersiwn gymunedol a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei deall. Ym mis Mai 2022, cynhaliodd swyddogion polisi ddigwyddiad gyda Plant yng Nghymru, gan ymgysylltu â phlant a phobl ifanc rhwng 12 a 17 oed er mwyn ceisio eu barn ar yr ardoll ymwelwyr drwy drafodaethau ac ymarfer chwarae rôl. Ymgysylltodd swyddogion hefyd ag 28 o blant a phobl ifanc mewn digwyddiad wyneb yn wyneb yn Llanwrtyd a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru. Roedd y digwyddiad wedi darparu ffordd wedi ei harwain a rhyngweithiol i bobl ifanc ddysgu rhagor am yr ardoll a mynegi eu barn am sut y gallai'r ardoll effeithio arnynt.

9.2.3 Dengys canlyniad ein hasesiad ar hawliau plant[72] na fydd yr ardoll yn cael unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol. Rhagwelwn effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc o ganlyniad i gynhyrchu refeniw ychwanegol, y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i wella'r gwasanaethau a'r seilwaith lleol yn eu hardal. Gellid defnyddio refeniw i wella amrywiaeth o amwynderau a fydd yn fuddiol i drigolion ac ymwelwyr.

9.2.4 Gallai fod effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is o ganlyniad i'r cynnydd yng nghostau arosiadau dros nos. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn, mae'r Bil yn cynnig dwy gyfradd sef cyfradd is ar gyfer hosteli a gwersyllfeydd a chyfradd uwch ar gyfer mathau eraill o lety. Yn ogystal, o ganlyniad i welliant yng Nghyfnod 2, mae'r rhai o dan 18 oed wedi eu hesemptio rhag y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is. Ni wnaethom nodi unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai ardoll ymwelwyr yn cael yr effaith

[71] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-effaith-integredig
[72] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant

negyddol honno. Byddai cyfanswm cost y daith yn pennu lefel fforddiadwyedd ac, felly, pe bai ardoll yn cynyddu cyfanswm y gost, gallai gael mwy o effaith ar unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n dewis ymweld â'r cyrchfan sy'n defnyddio ardoll. Rydym yn cydnabod y bydd ymwelwyr yn ystyried cyllideb a fforddiadwyedd wrth benderfynu ble i fynd ar wyliau ac y gallent ddewis aros mewn lleoliadau eraill lle na chodir yr ardoll neu gwtogi ar hyd eu harhosiad er mwyn lleihau'r gost ychwanegol.

### 9.3 Cydraddoldeb

9.3.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyladwy' i amrywiaeth o ofynion sy'n ymwneud â dileu neu leihau anfanteision i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a dileu rhwystrau i gymryd rhan.

9.3.2 Cynhaliwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb[73] er mwyn ystyried effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

9.3.3 Nododd yr ystyriaeth a roesom i effeithiau posibl y Bil ar bobl â nodweddion gwarchodedig fod y darpariaethau yn annhebygol o effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

9.3.4 Mae'r ystyriaeth a roesom i'r effaith ar bobl anabl yn un maes lle y gallai costau fod yn uwch, am fod y dystiolaeth yn awgrymu, mewn rhai senarios, y gallai pobl anabl wynebu costau uwch am aros mewn llety ymwelwyr[74]. Gallai trefnu gwyliau arwain at gostau ychwanegol i bobl anabl yn gysylltiedig â dod o hyd i lety ac opsiynau trafnidiaeth hygyrch a fforddiadwy a'r ffaith bod prinder ystafelloedd hygyrch, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell ac yn ystod tymhorau prysur[75],[76]. Fodd bynnag, mae pob darparwyr llety ymwelwyr yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a rhaid iddo sicrhau bod ei lety yn hygyrch (oni bai bod rhesymau pam nad yw hyn yn bosibl – h.y. statws adeilad rhestredig).

9.3.5 Gwnaethom ystyried a ddylai pobl anabl sydd angen gofalwr am ofal a chymorth i hwyluso ymweliad, fod yn atebol i dalu'r ardoll. O ganlyniad, bydd y Bil yn darparu y bydd ACC yn gallu rhoi ad-daliadau i berson

---

[73] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb
[74] Cost of living for people with disabilities – Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (parliament.uk)
[75] Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 [HTML] | LLYW.CYMRU
[76] Disability Price Tag 2023: the extra cost of disability | Disability charity Scope UK

anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys ac sydd wedi talu ardoll ymwelwyr ar arhosiad mewn llety ymwelwyr a phan fydd gofalwr wedi mynd gydag ef. Yn ystod Cyfnod 2, diwygiwyd y Bil i estyn y cyfnod ar gyfer hawlio ad-daliad o 1 mis i 3 mis ar ôl i'r arhosiad ddod i ben.

9.3.6 Mae cysondeb y Bil â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi ei ystyried cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Nododd y dadansoddiad hwnnw fod y Bil yn annhebygol o gynnwys darpariaethau sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**9.4 Prawfesur Gwledig**

9.4.1 Gall twristiaeth ddarparu ffordd bwysig o adnewyddu diwydiannau traddodiadol ac ysgogi datblygu economaidd lleol drwy greu gwasanaethau a chyfleoedd gwaith. Er enghraifft, mae twristiaeth wledig yn dod â manteision i gymunedau lleol drwy ddarparu ffynhonnell ychwanegol o incwm i'r sector ffermio a'r sector gwasanaethau.

9.4.2 Amlygodd Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig[77] broblemau sy'n ymwneud â chysylltedd digidol a'r posibilrwydd y gallai'r ardoll gael mwy o effaith ar ficrofusnesau a busnesau bach. Fodd bynnag, mae i'r ardoll gynllun syml ac mae'r baich yn debygol o fod yn fach iawn gan y bydd y mwyafrif o fusnesau yn cyflwyno ffurflenni ac yn talu'r ardoll yn llai aml. At hynny, mae'n bosibl y bydd y refeniw a godir o'r ardoll yn gwrthbwyso'r effaith, neu hyd yn oed yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau.

**9.5 Data**

9.5.1 Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data[78] wedi ei gynnal gan fod y Bil yn cyflwyno systemau newydd ar gyfer casglu a phrosesu data personol a data categori arbennig. Mae'r Bil yn cyflwyno ardoll ymwelwyr ddisgresiynol y gall awdurdodau lleol ddewis ei gweithredu ai peidio. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr fod yn gofrestredig.

9.5.2 Bydd y pwerau cofrestru yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion personol am y darparwr a'r math o lety ymwelwyr, er mwyn helpu ACC i gasglu a gweinyddu'r ardoll ymwelwyr. Gall gwybodaeth sy'n deillio o'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd, er tryloywder gwybodaeth i ymwelwyr. Bydd cyflwyno'r gofrestr yn weithredol yn destun sgrinio pellach o'r effeithiau ar ddiogelu data.

[77] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-effaith-prawf-gwledig
[78] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-or-effaith-ar-ddiogelu-data

9.5.3 Bydd yr ardoll ymwelwyr yn cael ei chasglu a'i rheoli'n ganolog gan ACC yn un o'i swyddogaethau ar ran awdurdodau lleol. Bydd angen i ACC gael data cyfunol gan dalwyr yr ardoll ar nifer yr ymwelwyr sy'n aros, er mwyn cynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth. Ochr yn ochr â hyn, bydd gan ACC bwerau i ymchwilio i dalwyr yr ardoll. Lle bo angen, er enghraifft, er mwyn atal twyll, efallai y bydd angen i ACC brosesu rhywfaint o ddata categori arbennig. Bydd ACC yn rheoli data'r ardoll ymwelwyr yn ddiogel er mwyn diogelu gwybodaeth am dalwyr yr ardoll fel y gwna ar gyfer ei drethi presennol. Er mwyn sicrhau hyn, bydd ACC yn cyflwyno ei Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei hun.

**9.6 Y Gymraeg**

9.6.1 Daeth yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg[79] i'r casgliad na fydd y ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y defnydd o'r Gymraeg na chymunedau Cymraeg.

9.6.2 Prin yw'r ymchwil gyfredol sy'n ymwneud ag effaith twristiaeth ar y Gymraeg ac nid oes fawr ddim tystiolaeth empeiraidd, ac ni ddarparodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fawr ddim tystiolaeth ffeithiol, os o gwbl, ar y pwnc hwn.

9.6.3 Gallai ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg, yn dibynnu ar sut y caiff ei llunio, ei rhoi ar waith a'i defnyddio. Gellid defnyddio'r refeniw i gefnogi mentrau Cymraeg a gwella gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth a all greu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu. Caiff refeniw o'r ardoll ei neilltuo'n gyffredinol at ddibenion 'Rheoli a Gwella Cyrchfannau'.

9.6.4 Gallai fod effaith negyddol ar y Gymraeg pe bai'r ardoll neu'r dreth yn atal ymwelwyr rhag dod i Gymru, yn enwedig y rhai sydd â diddordeb yn y Gymraeg a diwylliant Cymru, neu pe bai'n gwneud y sector twristiaeth, sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol, yn llai cystadleuol a phroffidiol. Gallai hyn leihau'r galw am wasanaethau a chynhyrchion Cymraeg a'r cyflenwad ohonynt, yn ogystal â'r incwm a'r cyfleoedd economaidd i siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gan y byddai'r ardoll ymwelwyr yn dreth ddisgresiynol, byddai'r union effeithiau yn dibynnu ar ba ardaloedd sy'n defnyddio ardoll a pha newidiadau ymddygiadol a fyddai'n deillio o ddefnyddio ardoll, os o gwbl.

[79] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg

## 9.7 Bioamrywiaeth

9.7.1 Daeth yr ystyriaeth a roesom i effaith y ddyletswydd ar fioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac adnoddau naturiol, i'r casgliad er na fwriedir i'r ardoll ymwelwyr a gyflwynir gael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd, y gallai ei chyflwyno gael effeithiau eilaidd, pe bai'r galw ym maes twristiaeth yn cynyddu neu'n lleihau mewn ardaloedd sy'n cyflwyno'r ardoll.

## 9.8 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

9.8.1 Lluniwyd Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol[80] er mwyn nodi'r effaith amcangyfrifedig ar anghenion pobl sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn cynnal busnes yng Nghymru. Mae tystiolaeth i awgrymu bod cydberthynas gadarnhaol rhwng parodrwydd unigolyn i dalu ardoll ymwelwyr mewn gwledydd eraill a'i statws economaidd-gymdeithasol, sy'n awgrymu bod pobl dan anfantais yn fwy tebygol o gael eu hatal rhag ymweld â Chymru neu awdurdod lleol sy'n mabwysiadu ardoll yn ei ardal. Mae'n bosibl y bydd y rhai o oedran sy'n gysylltiedig ag incwm is fel arfer (er enghraifft, pobl ifanc) yn llai abl i fforddio cost ychwanegol llety sy'n gysylltiedig â'r ardoll.

9.8.2 Er mwyn lleihau'r risg a nodwyd bod yr ardoll yn rhwystr i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol rhag mynd ar wyliau yng Nghymru, diwygiwyd y Bil yn ystod Cyfnod 2 i eithrio'r rhai o dan 18 oed rhag y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru adolygu'r polisi a'r cyfraddau i ystyried a yw'n bodloni'r amcanion ac yn parhau i fod yn deg.

## 9.9 Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

9.9.1 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn crynhoi canlyniad y gweithgarwch ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru fydd y gofrestr o lety ymwelwyr a weinyddir yn ganolog. Rydym hefyd wedi dewis model cyflawni a weinyddir yn ganolog ar gyfer yr ardoll ymwelwyr ac yn bwriadu i ACC gyflwyno'r ardoll ymwelwyr am mai ACC sy'n casglu ac yn rheoli'r trethi datganoledig yng Nghymru. Daeth yr asesiad i'r casgliad ei bod yn debygol na fydd y cynigion yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y system gyfiawnder.

[80] https://www.llyw.cymru/bil-llety-ymwelwyr-cofrestr-ac-ardoll-cymru-asesiad-or-ddyletswydd-economaidd-cymdeithasol

### 9.10 Asesu'r Gystadleuaeth

9.10.1 Gan fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhoi pwerau caniataol i awdurdodau lleol, nid yw'n bosibl cynnal asesiad cynhwysfawr o'r effaith ar gystadleuaeth. Y rheswm dros hyn yw nad yw'n hysbys pa awdurdodau lleol a allai ddefnyddio ardoll ymwelwyr. Rydym yn cynghori awdurdodau lleoli i ystyried a oes angen cynnal asesiad o'r effaith ar gystadleuaeth yn rhan o'u proses gwneud penderfyniadau ar gyfer defnyddio ardoll ymwelwyr.

9.10.2 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi ei gwblhau ar gyfer y ddeddfwriaeth ac fe'i cyflwynir isod:

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch √ neu X** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | X |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | X |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | X |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | X |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | X |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | X |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | X |
| **C8**: A yw newid technolegol sydyn yn un o nodweddion y sector? | X |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | X |

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Yn sgil y ffaith bod yr ardoll ymwelwyr yn ddisgresiynol, bydd yn anodd ymrwymo i gynnal adolygiad ffurfiol ar ôl gweithredu gan y gallai gymryd sawl blwyddyn i awdurdodau lleol benderfynu a ydynt am fabwysiadu ardoll yn eu hardal, ar ôl ymgynghori â'u cymunedau. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu mabwysiadu ardoll, bydd yn ofynnol iddo hysbysu ei fusnesau a'i gymunedau am y penderfyniad a rhoi'r cyfnod rhybudd gofynnol (h.y. 12 mis). Felly, caiff effeithiolrwydd y cynllun ei fonitro a'i asesu dros amser ac mae'n debygol y bydd y ffordd y gwneir hyn yn datblygu wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg.

10.3 Bydd gwybodaeth am berfformiad yr ardoll a'r defnydd a wneir o refeniw ar gael gan awdurdodau bob blwyddyn. Mae'r Bil yn nodi gofyniad i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar faint o refeniw a gynhyrchwyd o'r ardoll a gwybodaeth am sut y defnyddiwyd yr ardoll tuag at ddibenion rheoli cyrchfannau yn gynaliadwy. Bydd swyddogion yn datblygu canllawiau i awdurdodau lleol a fydd yn rhoi cyngor ac yn nodi arferion gorau ar gyfer monitro a gwerthuso effaith yr ardoll.

10.4 Caiff canlyniad y ddeddfwriaeth ei fonitro'n barhaus hefyd, gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys monitro economi Cymru a dangosyddion cyflenwad / galw. Defnyddir data presennol a gesglir o arolygon perthnasol Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth a gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol ag awdurdodau lleol a'r sector twristiaeth er mwyn deall effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth.

10.5 Rhagwelir y bydd ACC yn monitro ac yn adolygu'n barhaus pa mor effeithiol y gweinyddir y gofrestr a'r ardoll drwy ymgysylltu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol a busnesau twristiaeth. Ochr yn ochr â hyn, bydd yn ystyried pa ddata y dylid adrodd arnynt, megis faint o refeniw a gasglwyd.

10.6 Mae'r Bil yn cynnwys pwerau (ymhlith eraill – gweler tudalennau 26 - 41 am restr lawn o bwerau gwneud rheoliadau) i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud y canlynol:

- adolygu cyfraddau'r ardoll ymwelwyr a bennir mewn deddfwriaeth.
- ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau pryd y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd neu pryd nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd.
- diwygio pa arosiadau sy'n ddarostyngedig i ba gyfradd, h.y. y gyfradd is neu'r gyfradd uwch.

- ychwanegu at y rhestr o senarios lle y gallai fod yn gymwys ad-dalu ardoll ymwelwyr i ymwelwyr os bydd unrhyw effeithiau negyddol neu broblemau nas nodwyd yn flaenorol yn codi.

10.7 Bwriedir i’r dull hwn o weithredu roi hyblygrwydd i addasu’r ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu a chasglu tystiolaeth parhaus.

# 11. Asesiad Fforddiadwyedd

11.1 Er bod yr asesiad effaith rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac yn cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, dim ond asesiad ariannol yw'r asesiad fforddiadwyedd hwn. Felly, dim ond costau o ran arian parod a manteision o ran rhyddhau arian parod sydd wedi eu cynnwys. Mae unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol a chostau economaidd ehangach a nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil wedi eu dileu o'r asesiad fforddiadwyedd hwn. Mae costau cyfle hefyd wedi eu dileu.

11.2 Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod o amser ag a ystyriwyd gan yr asesiad effaith rheoleiddiol, sef 2025-26 i 2034-35, ac mae wedi ei gynnal gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi a yw'r Bil yn fforddiadwy i'r sefydliad.

11.3 Mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr asesiad hwn wedi cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod gwerthuso. Gwnaed yr addasiad hwn ar sail amcanestyniadau datchwyddydd cynnyrch domestig gros a nodir yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025[81]. Roedd amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ymestyn i 2029-30 yn unig. Gan fod y rhagolygon yn sefydlogi o gwmpas 1.9% tuag at ddiwedd cyfnod rhagolwg y Swyddfa, rhagdybiwyd bod y gyfradd hon yn parhau ar gyfer gweddill y cyfnod gwerthuso. Er bod chwyddiant yn weddol sefydlog erbyn hyn, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â beth fydd yn digwydd iddo yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

11.4 Dylid nodi, er bod costau wedi eu pennu i sefydliadau a phartneriaid cyflawni unigol, mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am ariannu unrhyw ofynion cyllidebol ychwanegol, yn arbennig mewn perthynas â rôl ACC o ran casglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr ar ran yr awdurdodau lleol hynny sy'n dewis ei mabwysiadu.

[81] CP 1289 – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Rhagolygon economaidd a chyllidol – Mawrth 2025

## Awdurdod Cyllid Cymru

11.5 Bydd costau yn gysylltiedig â datblygu a gweinyddu'r gwasanaeth cofrestru a'r ardoll ymwelwyr. Caiff costau datblygu neu 'sefydlu' eu hariannu drwy'r prosesau cyllidebol blynyddol arferol yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu ac adeiladu unrhyw wasanaethau digidol, darparu adnoddau ar gyfer timau newydd a'r prosesau sydd ynghlwm wrth greu system ar gyfer cofrestru darparwyr llety ymwelwyr a chasglu a rheoli treth newydd.

11.6 Bwriad y Bil yw y bydd ardoll ymwelwyr yn codi refeniw ychwanegol i'r awdurdodau lleol hynny sy'n dewis ei rhoi ar waith. Felly, bwriedir i unrhyw gostau gweithredol parhaus gael eu hadennill o dderbyniadau ardoll a gesglir gan ACC cyn eu talu i awdurdodau lleol. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gost net barhaus i gyllidebau Llywodraeth Cymru.

11.7 Mae risg ei bod yn bosibl na fydd modd adennill digon o dderbyniadau ardoll i dalu costau gweinyddu os na fydd digon o awdurdodau lleol yn dewis defnyddio'r ardoll neu os bydd refeniw yn llai na chostau gweithredu ACC. Pe bai'r sefyllfa hon yn codi, byddai angen i Lywodraeth Cymru dalu gweddill y costau gweinyddu fel y'u nodir yn ein cyfrifoldeb o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 am gyllido swyddogaethau ACC.

**Tabl 24: Amcangyfrif o'r costau i ACC**

*£000oedd*

| | 2025 – 2026 | 2026 – 2027 | 2027 – 2028 | 2028 – 2029 | 2029 – 2030 | 2030 – 2031 | 2031 – 2032 | 2032 – 2033 | 2033 – 2034 | 2034 – 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gost** | 3,368 – 4,368 | 4,211 – 5,453 | 3,894 – 4,880 | 2,664 – 3,649 | 2,664 – 3,649 | 2,664 – 3,649 | 2,664 – 3,649 | 2,664 – 3,649 | 2,664 – 3,649 | 2,664 – 3,649 |
| **Cyfanswm a addaswyd ar gyfer chwyddiant** | **3,588 – 4,654** | **4,561 – 5,907** | **4,304 – 5,393** | **3,002 – 4,111** | **3,058 – 4,189** | **3,116 – 4,268** | **3,175 – 4,349** | **3,236 – 4,432** | **3,297 - 4,516** | **3,360 – 4,602** |

## Llywodraeth Cymru

11.8 Bydd y costau pontio i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â gweithgarwch cyfathrebu a marchnata a gwerthusiad ar ôl gweithredu yn cael eu talu o ddyraniadau cyllideb presennol.

**Tabl 25: Amcangyfrif o’r costau i Lywodraeth Cymru**

*£000oedd*

| | 2025 – 2026 | 2026 – 2027 | 2027 – 2028 | 2028 – 2029 | 2029 – 2030 | 2030 – 2031 | 2031 – 2032 | 2032 – 2033 | 2033 – 2034 | 2034 - 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gost** | 44-54 | - | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| **Cyfanswm a addaswyd ar gyfer chwyddiant** | **47–58** | **-** | **22** | **23** | **23** | **23** | **24** | **24** | **25** | **25** |

### Awdurdodau Lleol

11.9 Yn seiliedig ar ystod o gostau amcangyfrifedig a ddarperir gan awdurdodau lleol, disgwylir i’r gost untro fesul awdurdod lleol ar gyfer cynnal ymgynghoriad ac adrodd ar y penderfyniad amrywio rhwng £5,000 a £30,000+. Mae’r amcangyfrifon bras gan awdurdodau lleol o ran costau llunio a chyhoeddi’r adroddiad blynyddol hwn yn amrywio rhwng £0 a £30,000+. Roedd y costau amcangyfrifedig ar gyfer sefydlu a chynnal fforwm partneriaeth ardoll ymwelwyr yn amrywio rhwng £5,000 a £30,000 y flwyddyn.

11.10 Ar hyn o bryd, nid yw’n glir faint o bobl, na pha awdurdodau lleol a fydd yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu. Er mwyn cyflwyno amcangyfrif o gyfanswm y gost, pe bai pob un o’r 22 o awdurdodau lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, byddai’r costau ymlaen llaw oddeutu £831,300 a byddai’r costau parhaus blynyddol oddeutu £937,600. Cydnabyddir bod hyn yn debygol o oramcangyfrif cyfanswm gwirioneddol y gost.

**Tabl 26: Amcangyfrif o’r costau i Awdurdodau Lleol**

*£000oedd*

| | 2025 – 2026 | 2026 – 2027 | 2027 – 2028 | 2028 – 2029 | 2029 – 2030 | 2030 – 2031 | 2031 – 2032 | 2032 – 2033 | 2033 – 2034 | 2034 - 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gost** | 550 | 281 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 | 938 |
| **Cyfanswm a addaswyd ar gyfer chwyddiant** | **586** | **304** | **1,037** | **1,057** | **1,077** | **1,097** | **1,118** | **1,139** | **1,161** | **1,183** |

11.11 Mae manteision ariannol y Bil hefyd wedi eu hasesu ac mae’r gost net, ar ôl ystyried manteision, wedi ei chynnwys er mwyn rhoi darlun llawn o’r gofynion cyllidebol terfynol.

# ATODIAD 1

## NODIADAU ESBONIADOL

# BIL LLETY YMWELWYR (COFRESTR AC ARDOLL) ETC. (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**
Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ("y Bil") a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 25 Tachwedd 2024, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Fe'u lluniwyd gan Drysorlys Cymru Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

**CRYNODEB**
Mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) sefydlu cofrestr o bersonau sy'n darparu llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru; i roi'r pŵer i brif gynghorau i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardaloedd; i ACC gasglu a rheoli ardoll ymwelwyr ar ran prif gynghorau gan ddefnyddio eu pwerau, eu hawliau a'u dyletswyddau perthnasol a roddir yn eu deddfwriaeth lywodraethol, sef Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") ac i wneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf 2016.

Mae'r Bil yn cynnwys 65 adran a 2 Atodlen ac mae wedi ei rannu'n bedair Rhan fel a ganlyn:

Rhan 1 - Trosolwg o'r Ddeddf a Thermau Allweddol a Ddefnyddir yn y Ddeddf

Rhan 2 - Cofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

Rhan 3 - Ardoll Ymwelwyr

Rhan 4 - Darpariaeth Amrywiol a Chyffredinol

Atodlen 1 – Yr Wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Gofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

Atodlen 2 – Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhannau 2 a 3.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 1- Trosolwg o'r Ddeddf a Thermau Allweddol a Ddefnyddir yn y Ddeddf

**Adran 1 – Trosolwg o'r Ddeddf hon**

1. Mae'r trosolwg o'r Bil yn dangos sut y mae Rhannau'r Bil wedi eu trefnu ac yn rhoi disgrifiad byr o'r hyn y mae pob Rhan yn ei wneud.

**Adran 2 – Llety ymwelwyr**

2. Mae'r adran yn diffinio llety ymwelwyr ar gyfer y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a'r ardoll ymwelwyr. Mae'n manylu ar beth yw llety ymwelwyr, ynghyd ag eithriadau penodol. Mae hefyd yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o lety ymwelwyr.

3. **Mathau o lety ymwelwyr**

Mae llety ymwelwyr yn cynnwys:

a. llety mewn gwestai, tai llety, llety gwely a brecwast, neu lety tebyg arall;

b. llety mewn hosteli ieuenctid, byncdai, neu lety tebyg arall;

c. llain neu ardal a ddarperir ar gyfer gwersylla, neu lain neu ardal a ddarperir ar gyfer cartref symudol nad yw wedi ei leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle (er enghraifft, llain neu ardal a ddarperir ar gyfer pabell neu gartref modur);

d. llety mewn parciau gwyliau, canolfannau gwyliau neu mewn lleoedd eraill tebyg;

e. llety mewn cartrefi symudol, llestrau neu gerbydau eraill sydd wedi eu lleoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle ac sydd wedi eu cynnig, ar sail tymor byr, ar gyfer teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol;

f. llety hunanddarpar sydd wedi ei gynnig, ar sail tymor byr, ar gyfer teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol;

g. unrhyw fath arall o lety sydd wedi ei gynnig, ar sail tymor byr, ar gyfer teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol.

4. Nid yw llety a restrir yn is-adran (1)(e) i (g) o'r adran hon ond yn llety ymwelwyr at ddibenion y Bil os yw'n cael ei gynnig ar sail tymor byr ar gyfer arosiadau o 31

o nosweithiau neu lai (ac at y diben hwnnw, nid oes gwahaniaeth a yw'r nosweithiau yn olynol).

5. Mae'r adran yn eithrio mathau penodol o lety rhag bod yn llety ymwelwyr. Nid yw llety yn llety ymwelwyr os yw ar safle Sipsiwn a Theithwyr, llain neu ardal a ddarperir ar gyfer cartref symudol, llestr neu gerbyd arall sydd wedi ei leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle neu mewn cartrefi symudol neu lestrau nad ydynt wedi eu lleoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle. Mae "safle Sipsiwn a Theithwyr" a "cartref symudol" yn dermau a ddiffinnir yn yr adran.

6. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn darparu bod math o lety, neu lety o ddisgrifiad penodol, yn llety ymwelwyr neu ddim yn llety ymwelwyr, ac amrywio'r disgrifiad o fath o lety.

**Adran 3 – Darparwr llety ymwelwyr**

7. Mae'r adran hon yn datgan bod person yn ddarparwr llety ymwelwyr (DLlY) at ddibenion y Bil hwn os yw'r person hwnnw, yng nghwrs masnach neu fusnes, yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru, ac yn feddiannydd ar y fangre. Mae person yn darparu llety ymwelwyr os yw'r person hwnnw yn ymrwymo i gontract y mae gan un neu ragor o bobl hawlogaeth i breswylio yn y llety am un neu ragor o nosweithiau odano neu o ganlyniad iddo. Nid yw hyn yn cynnwys contractau gwasanaeth, contractau prentisiaeth, na chontractau y mae'r person sydd â hawlogaeth i breswylio yn darparu gwasanaethau i'r DLlY odano.

8. Mae'r adran hefyd yn nodi bod "person" yn yr adran hon yn cynnwys dau berson neu ragor sy'n gweithredu mewn partneriaeth (yn ogystal â dau berson neu ragor sy'n gweithredu fel corff anghorfforedig, neu gorff corfforedig).

9. Mae'r adran hon hefyd yn nodi bod y term "yn cynnig darparu" mewn perthynas â llety ymwelwyr yn cynnwys hysbysebu'r llety, ei farchnata neu wneud unrhyw berson yn ymwybodol fel arall fod y llety ar gael ar gyfer arosiadau. Mae hefyd yn nodi bod cyfeiriadau at "darparwr llety ymwelwyr" (neu "DLlY") yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, berson sydd wedi ei gofrestru o dan y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, ni waeth a yw'r person hwnnw yn dod o fewn y diffiniad yn is-adran (2) ar unrhyw adeg benodol.

Rhan 2 - Cofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

**Adran 4 - Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr**

10. Mae'r adran yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

11. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn manylu ar yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghofnod darparwr llety ymwelwyr yn y gofrestr.

12. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gyhoeddi, mewn unrhyw fodd y mae'n ystyried ei fod yn briodol, yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr yn rhinwedd Atodlen 1.

13. Mae dau eithriad i'r gofyniad hwn. Mae'r rhain mewn perthynas ag enw darparwr llety ymwelwyr ("DLlY") sy'n unigolyn (gan gynnwys unrhyw unigolyn sy'n aelod o bartneriaeth sy'n DLlY), pan nad yw'r DLlY hwnnw wedi ei gofrestru ond mewn cysylltiad â mangre sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r unigolyn hwnnw, ac mewn cysylltiad â chyfeiriad busnes DLlY.

14. O dan yr amgylchiadau hyn, ni chaniateir cyhoeddi enw DLlY oni bai bod yr unigolyn yn cydsynio i'w enw gael ei gyhoeddi neu fod enw cyntaf a chyfenw'r unigolyn yn rhan o enw busnes yr unigolyn.

15. Ni chaniateir cyhoeddi cyfeiriad busnes DLlY oni bai bod y DLlY yn cydsynio i'w gyfeiriad busnes gael ei gyhoeddi neu fod y cyfeiriad yn gyfeiriad mangre lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.

16. Caiff y gofrestr hefyd gynnwys gwybodaeth arall sy'n briodol ym marn ACC. Caiff ACC gyhoeddi'r wybodaeth hon, oni bai bod ACC wedi ei wahardd rhag ei chyhoeddi drwy unrhyw ddeddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol.

**Adran 5 – Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig**

17. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i DLlYau fod yn gofrestredig yn y gofrestr a gedwir gan ACC mewn cysylltiad â phob mangre yng Nghymru lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.

18. Mae'r adran hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio personau o ddisgrifiadau penodol rhag y gofyniad i gofrestru drwy gyfeirio at y math o lety ymwelwyr a ddarperir; natur neu gynnwys y contractau y darperir y llety odanynt; natur neu statws y DLlY, neu unrhyw nodwedd benodol arno; natur neu statws y bobl y darperir llety iddynt gan y DLlY, neu unrhyw nodwedd benodol ar y bobl y darperir llety iddynt gan y DLlY; neu unrhyw fater arall.

19. Mae'r adran hefyd yn nodi, os gwneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru sy'n defnyddio'r pwerau yn yr adran hon i esemptio person rhag y gofyniad i gofrestru, yna ni fydd y rheolau ar gyfer cosbau mewn cysylltiad â cheisiadau a chosbau yn adrannau **7 (cosbau am fethu â chofrestru)** ac **8 (pŵer i gofrestru personau pan na fo cais wedi ei wneud i ACC)** yn gymwys i'r person hwnnw ychwaith.

**Adran 6 – Ceisiadau i fod yn gofrestredig**

20. Mae is-adran (1) yn caniatáu i berson wneud cais i fod yn gofrestredig cyn iddo ddechrau darparu neu gynnig darparu llety ymwelwyr.

21. Mae is-adran (2) yn nodi'r gofynion ar gyfer cais i fod yn gofrestredig.

22. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gofrestru person sy'n gwneud cais sy'n cydymffurfio ag is-adran (2) a dyroddi hysbysiad cofrestru i'r person hwnnw oni bai bod y person hwnnw eisoes yn gofrestredig.

23. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC, os yw'n penderfynu peidio â chofrestru person, ddyroddi hysbysiad i'r person hwnnw yn pennu'r rheswm pam ac yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

24. Mae is-adran (5) yn darparu nad yw person yn agored i gosb o dan **adran 7** mewn perthynas â mangre lle y mae'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person yn gwneud cais i fod yn gofrestredig mewn cysylltiad â'r fangre honno, ac sy'n dod i ben â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad i'r person hwnnw o dan is-adran (3)(b) neu (4).

**Adran 7 – Cosbau am fethu â chofrestru**

25. Mae'r adran hon yn nodi bod person yn agored i gosb os yw'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr, ac nad yw'n gofrestredig mewn cysylltiad â'r fangre, neu'r mangreoedd, lle y darperir neu y cynigir y llety ymwelwyr.

26. Y gosb gychwynnol yw £100 am bob mangre nad yw'n gofrestredig. Bydd ACC yn dyroddi hysbysiad cosb i berson yn pennu pob mangre y mae'r hysbysiad cosb yn berthnasol iddi. Yna bydd gan y person 30 diwrnod o'r diwrnod y dyroddir hysbysiad cosb i gofrestru unrhyw fangre a nodwyd gan ACC cyn ei fod yn agored i gosb bellach. Cyfeirir at y cyfnod hwn o 30 o ddiwrnodau fel y cyfnod cosbi cychwynnol.

27. Os, ar ôl y cyfnod cosbi cychwynnol, nad yw'r fangre yn gofrestredig, mae'r person yn agored i gosb o £10 am bob mangre sy'n parhau'n anghofrestredig am bob diwrnod y mae'r person yn darparu neu'n cynnig darparu llety ymwelwyr. Ar yr 31ain diwrnod (ar ôl y cyfnod cosbi cychwynnol) y mae'r person yn darparu neu'n cynnig darparu llety ymwelwyr nad yw'n gofrestredig, mae'r person yn agored i gosb o £1000 am bob mangre nad yw'n gofrestredig.

28. Nid yw'r cyfnod cosbi cychwynnol yn ystyried unrhyw ddiwrnod pan fo penderfyniad sy'n ymwneud â'r gosb yn destun adolygiad neu apêl sy'n parhau.

**Adran 8 – Pŵer i gofrestru personau pan na fo cais wedi ei wneud i ACC**

29. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i ACC i gofrestru person nad yw wedi gwneud cais os yw ACC yn ystyried bod y person hwn yn DLlY neu wedi bod yn DLlY ar unrhyw adeg yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol.

30. Cyn i ACC gofrestru person, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad yn nodi'r wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys yn y gofrestr ac yn pennu unrhyw

wybodaeth nad oes gan ACC mohoni neu wybodaeth y mae ACC yn ystyried ei bod yn anghywir. Rhaid i'r hysbysiad roi gwybod i'r person y bydd ACC yn cofrestru'r person ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, sef o leiaf 14 diwrnod ar ôl dyroddi'r hysbysiad, oni bai bod y person yn cofrestru ei hun, neu fod ACC wedi ei fodloni nad yw'n ofynnol i'r person gofrestru. Rhaid nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio yn yr hysbysiad hwn hefyd.

31. Ni fydd person yn cael ei drin fel person nad yw'n gofrestredig at ddibenion yr adran hon nes bod y person hwnnw yn darparu unrhyw wybodaeth i ACC i sicrhau bod ei gofnod yn gyflawn ac yn gywir neu ei fod yn cadarnhau bod y cofnod a wnaed gan ACC yn gyflawn ac yn gywir, neu'n gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr.

**Adran 9 – Dyletswydd i hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau**

32. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar DLlY i roi hysbysiad i ACC am unrhyw newid yn ei amgylchiadau sy'n peri i gofnod y DLlY yn y gofrestr fod yn anghywir, neu am unrhyw anghywirdeb yng nghofnod y DLlY yn y gofrestr, a hynny cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r newid mewn amgylchiadau yn digwydd neu â'r diwrnod pan ddaeth y DLlY i wybod gyntaf, neu pan ddylai fod wedi gwybod, am yr anghywirdeb.

33. Os yw ACC yn cael hysbysiad cydymffurfio gan DLlY, rhaid i ACC gywiro'r gofrestr a dyroddi hysbysiad i'r DLlY yn pennu'r cywiriadau a wnaed, oni bai bod ACC eisoes wedi gwneud y cywiriadau hynny o dan adran 11. Os yw ACC yn penderfynu peidio â gwneud newidiadau i'r gofrestr a bennir gan y DLlY, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad sy'n nodi'r rheswm pam ac yn darparu gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

**Adran 10 – Cosbau am fethu â hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau**

34. Mae is-adran (1) yn darparu bod DLlY yn agored i gosb o £100 os yw DLlY yn methu â hysbysu ACC am newidiadau mewn amgylchiadau neu anghywirdebau yn y gofrestr yn unol ag adran **9(1).**

35. Bydd ACC yn dyroddi hysbysiad cosb i DLlY yn pennu'r wybodaeth y mae ACC yn ystyried ei bod yn anghywir. Yna bydd gan DLlY 30 o ddiwrnodau o ddyddiad dyroddi hysbysiad cosb i roi'r hysbysiad sy'n ofynnol gan adran 9(1)(a) neu (b) i ACC cyn dod yn agored i gosbau pellach. Cyfeirir at y cyfnod hwn o 30 o ddiwrnodau fel y cyfnod cosbi cychwynnol.

36. Os nad yw'r DLlY wedi rhoi'r hysbysiad gofynnol i ACC erbyn diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, mae'r DLlY yn agored i gosb bellach o £10 am bob diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, hyd at a chan gynnwys y 30ain diwrnod y mae'r methiant i roi hysbysiad yn parhau. Mae DLlY sy'n parhau i fethu â darparu'r hysbysiad gofynnol yn agored i gosb o £1000 am yr 31ain diwrnod (ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol) y mae'r methiant yn parhau.

37. Mae’r adran hon hefyd yn nodi na ddylai’r cyfnod cosbi cychwynnol ystyried unrhyw ddiwrnod y mae penderfyniad sy’n ymwneud â’r gosb o dan is-adran (1) yn destun adolygiad neu apêl sy’n parhau.

**Adran 11 - Pŵer i newid y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi i ACC**

38. Mae’r adran hon yn rhoi’r pŵer i ACC i newid cofnod DLlY yn y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi gan y DLlY o dan adran 9 (dyletswydd i hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau) os yw ACC yn ystyried bod y cofnod yn anghywir.

39. Cyn y caiff ACC newid cofnod yn y gofrestr, bydd ACC yn dyroddi hysbysiad i DLlY yn pennu’r wybodaeth y mae ACC yn ystyried ei bod yn anghywir ac yn nodi a yw ACC yn bwriadu hepgor yr wybodaeth honno neu wneud newidiadau penodedig eraill i’r cofnod. Hefyd, rhaid i’r hysbysiad roi gwybod i DLlY y bydd ACC yn newid y gofrestr ar ddyddiad penodedig oni bai bod y DLlY, cyn y dyddiad hwnnw, yn rhoi’r hysbysiad sy’n ofynnol o dan adran 9(1)(a) neu (b) (dyletswydd i hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau) neu fod ACC wedi ei fodloni nad oes angen newid y gofrestr. Rhaid i’r hysbysiad hefyd nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

40. Mae’r adran yn nodi bod rhaid i’r dyddiad a bennir mewn unrhyw hysbysiad a anfonir gan ACC yn unol â’r adran hon fod o leiaf 30 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

41. Yn olaf, mae’r adran yn nodi bod rhaid i DLlY roi gwybod i ACC os yw ei gofnod yn anghywir. Hyd nes y bydd y DLlY yn gwneud hynny, mae’n parhau i fod yn agored i gosbau, ond mae’r DLlY i’w drin fel pe bai wedi rhoi’r hysbysiad angenrheidiol o’r adeg y mae’r cywiriad yn cael ei wneud neu fod y DLlY yn cadarnhau bod y cofnod yn gywir.

**Adran 12 - Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol**

42. Mae’r adran hon yn nodi bod gan ACC y pŵer i ofyn i bersonau a bennir yn yr adran ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau. Mae enghreifftiau o ddogfennau y gellid gofyn amdanynt yn cynnwys cyfriflyfrau, gwybodaeth archebu neu dderbynebau er mwyn gweinyddu’r gofrestr.

43. Os oes gan berson sydd wedi cael hysbysiad fynediad at yr wybodaeth neu’r ddogfen o dan sylw, rhaid iddo ddarparu’r wybodaeth neu’r ddogfen erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad neu unrhyw ddyddiad arall y cytunir arno gan ACC a’r person y mae’r hysbysiad wedi ei gyfeirio ato.

44. Hefyd, rhaid i’r hysbysiad nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio. Os yw person yn apelio yn erbyn hysbysiad, mae’r gofynion i ddarparu gwybodaeth erbyn unrhyw ddyddiadau a bennir yn yr hysbysiad yn peidio â bod yn gymwys hyd nes y bo’r apêl wedi dod i ben.

**Adran 13 - Cosbau am fethu â chydymffurfio â hysbysiad o dan adran 12**

45. Mae is-adran (1) yn darparu y bydd person yn agored i gosb o £100 os nad yw'n darparu i ACC wybodaeth neu ddogfennau y gofynnwyd amdanynt yn unol ag adran 12(3).

46. Yna bydd gan berson 30 o ddiwrnodau o'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad cosb i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan adran 12(3) i ACC cyn dod yn agored i gosbau pellach. Cyfeirir at y cyfnod hwn o 30 o ddiwrnodau fel y cyfnod cosbi cychwynnol.

47. Os nad yw person wedi rhoi'r wybodaeth ofynnol i ACC erbyn diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, mae'r person yn agored i gosb bellach o £10 am bob diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, hyd at a chan gynnwys y 30ain diwrnod y mae'r methiant i ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen yn parhau. Mae person sy'n parhau i fethu â darparu'r wybodaeth neu'r ddogfen yn agored i gosb o £1000 am yr 31ain diwrnod (ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol) y mae'r methiant yn parhau.

48. Mae'r adran hefyd yn nodi na ddylai'r cyfnod cosbi cychwynnol ystyried unrhyw ddiwrnod y mae penderfyniad sy'n ymwneud â'r gosb o dan is-adran (1) yn destun adolygiad neu apêl sy'n parhau.

**Adran 14 – Dileu person o'r gofrestr ar gais i ACC**

49. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson wneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr cyn yr 31ain diwrnod yn olynol nad yw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre.

50. Os yw person yn gwneud cais cydymffurfiol, rhaid i ACC ddileu'r person o'r gofrestr a dyroddi hysbysiad sy'n cadarnhau dyddiad dileu'r person o'r gofrestr.

51. Os yw ACC yn penderfynu peidio â dileu person o'r gofrestr, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad yn pennu'r rheswm pam a rhoi gwybod i'r person am ei hawliau adolygu ac apelio.

52. Mae'r adran hefyd yn darparu beth yw ystyr "nid yw person wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre."

**Adran 15 – Cosbau pan fo person yn methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr**

53. Mae'r adran hon yn nodi, os bydd person yn methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr pan fo hynny'n berthnasol, yn unol ag adran 14(1), y bydd yn agored i gosb.

54. Y gosb gychwynnol yw £100. Bydd ACC yn dyroddi hysbysiad cosb i berson. Yna bydd gan berson 30 o ddiwrnodau o'r diwrnod y dyroddir hysbysiad cosb i wneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr cyn ei fod yn agored i gosb bellach.

55. Os, erbyn diwedd yr hysbysiad cychwynnol a'r 30 o ddiwrnodau, nad yw person wedi gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr ac nad yw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr yn ystod y cyfnod hwn, bydd y person, am 30 o ddiwrnodau ychwanegol, yn agored i ddirwy o £10 y dydd. Os bydd person yn methu â'i ddileu ei hun o'r gofrestr ar ôl yr ail gyfnod hwn 30 o ddiwrnodau, yna bydd person nad yw'n darparu neu'n cynnig darparu llety ymwelwyr yn agored i gosb ychwanegol o £1000.

56. Mae'r adran hefyd yn nodi na ddylai'r cyfnod cosbi cychwynnol ystyried unrhyw adolygiadau neu apelau sydd yn yr arfaeth.

**Adran 16 –Pŵer i ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud**

57. Mae'r adran hon yn nodi y caiff ACC ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud os nad yw'r person hwnnw wedi darparu neu wedi cynnig darparu llety ymwelwyr yn y 30 diwrnod blaenorol.

58. Cyn i ACC ddileu person o'r gofrestr, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad yn pennu'r rhesymau pam mae ACC yn ystyried ei bod yn briodol dileu'r person o'r gofrestr a rhoi gwybod i'r person am y dyddiad y bydd yn cael ei ddileu o'r gofrestr oni bai bod y person, cyn y dyddiad hwnnw, yn gwneud cais i ddileu ei hun o'r gofrestr yn unol ag adran 14(2). Ni fydd y broses o ddileu person o'r gofrestr yn mynd rhagddi os yw ACC yn fodlon nad yw'n ofynnol i'r person wneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr. Rhaid nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio yn yr hysbysiad hwn hefyd. Rhaid i'r dyddiad dileu yn yr hysbysiad a ddyroddir gan ACC fod o leiaf 30 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad gael ei ddyroddi.

59. Bydd person sy'n cael ei ddileu o'r gofrestr o dan yr adran hon yn parhau i fod yn agored i gosbau o dan adran 15. Ond mae'r person i'w drin, at ddibenion yr adran honno, fel pe bai wedi gwneud cais i gael ei ddileu o'r adeg y mae'r person yn rhoi hysbysiad i ACC yn nodi'r dyddiad y mae'r person yn ei ystyried fel y dyddiad y peidiodd y person â bod yn DLlY, neu yn gwneud cais i fod yn gofrestredig.

**Adran 17 – Esgus rhesymol**

60. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer achosion pan nad yw person yn agored i gosb Rhan 2 os yw'r person yn bodloni ACC (neu, ar apêl, y tribiwnlys) fod esgus rhesymol am y methiant. Mae'r adran yn darparu rhai amgylchiadau nad ydynt yn cael eu trin fel esgus rhesymol.

**Adran 18 – Pwerau i ostwng cosbau, eu hepgor neu eu gohirio**

61. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ACC ostwng cosb sydd wedi ei chymhwyso os yw ACC yn ystyried ei bod yn iawn gwneud hynny oherwydd amgylchiadau arbennig. Nid yw'r amgylchiadau arbennig y caniateir gostwng y gosb odanynt yn cynnwys gallu'r person i dalu.

**Adran 19 – Asesu cosbau**

62. Pan fo person yn agored i gosb o dan Ran 2 o'r Bil, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ACC asesu'r gosb a dyroddi hysbysiad i'r person am y gosb a aseswyd. Mae manylion asesiad y gosb gan ACC wedi eu nodi yn yr adran hefyd. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ACC asesu cosbau o fewn terfynau amser penodol.

**Adran 20 – Talu cosbau**

63. Mae'r adran hon yn nodi bod rhaid talu cosb o dan Ran 2 o fewn 30 o ddiwrnodau i ACC ddyroddi'r hysbysiad cosb i'r person, oni bai bod adolygiad neu apêl, pan fydd adran 182 o Ddeddf 2016 yn gymwys.

**Adran 21 – Gwahardd cosbi ddwywaith**

64. Mae'r adran hon yn nodi nad yw person yn agored i gosb o dan Ran 2 os yw'r person wedi cael euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â'r mater a sbardunodd y gosb.

**Adran 22 – Atebolrwydd cynrychiolwyr personol**

65. Os yw person sy'n agored i gosb yn marw, mae'r adran hon yn darparu ar gyfer asesu unrhyw gosb ar gynrychiolwyr personol y person hwnnw. Mae cosb a asesir yn y modd hwn i'w thalu o ystad yr ymadawedig.

**Adran 23 – Adolygiadau ac apelau**

66. Mae'r adran hon yn diwygio'r rhestr o benderfyniadau apeliadwy yn adran 172 o Ddeddf 2016 er mwyn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â chofrestru person o dan Ran 2, dyroddi hysbysiadau o dan adran **12** a phenderfyniadau sy'n ymwneud â chosbau o dan Ran 2.

67. Mae'r adran hefyd yn diwygio adran 178 o Ddeddf 2016 er mwyn darparu cyfyngiadau ar apelau o dan Ran 2.

**Adran 24 – Dehongli'r Rhan**

68. Mae'r adran hon yn esbonio pryd y dyfernir yn derfynol ynghylch apêl; yn diffinio hysbysiad am gasgliadau adolygiad; yn rhoi cyfeiriad ar gyfer ystyr ysbysiad cosb; ac yn nodi bod "person" yn cynnwys dau berson neu ragor sy'n gweithredu mewn partneriaeth (yn ogystal â dau berson neu ragor sy'n gweithredu fel corff anghorfforedig, neu gorff corfforedig).

**Adran 25 - Cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol**

69. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch y gofrestr a gofynion cofrestru, gan gynnwys darpariaeth ynghylch gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y gofrestr neu na chaniateir ei chynnwys yn y gofrestr; darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth, neu'n gwahardd cyhoeddi gwybodaeth; darpariaeth am esemptiadau rhag y gofyniad i roi hysbysiad i ACC; darpariaeth ynghylch cosbau; a darpariaeth ynghylch pa un a yw penderfyniadau yn ddarostyngedig i adolygiadau ac apelau ai peidio.

**Adran 26 - Diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 etc.**

70. Mae'r adran hon yn amlinellu bod Rhan 1 o Atodlen 2 yn cynnwys y diwygiadau i yr Ddeddf 2016, ac i Ddeddfau eraill er mwyn hwyluso'r Rhan hon o'r Bil.

Rhan 3 - Ardoll Ymwelwyr

**Adran 27 – Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr**

71. Mae'r adran hon yn nodi y caiff prif gyngor gyflwyno "ardoll ymwelwyr" ("yr ardoll") ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr sydd wedi ei leoli yn ei ardal. Mae'r ardoll i'w chasglu a'i rheoli ar ran prif gyngor gan ACC. Rhaid i ACC gasglu a rheoli'r ardoll yn unol â'r Ddeddf hon a Deddf 2016.

**Adran 28 – Arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr**

72. Mae'r adran hon yn diffinio arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr. Mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr mewn mangre yn ardal prif gyngor sydd wedi cyflwyno'r ardoll yn digwydd pan fydd unigolion yn preswylio am un neu ragor o nosweithiau o dan gontract, pan ddarperir y llety ymwelwyr yng nghwrs masnach neu fusnes, ac nad yw'r llety yn unig breswylfa neu brif breswylfa'r unigolion.

73. Mae is-adran (2) yn rhestru amgylchiadau pan nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys arosiadau am fwy nag 31 o nosweithiau a llety sydd wedi ei drefnu o dan y ddeddfwriaeth benodol a restrir. Mae'r adran hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r disgrifiadau o amgylchiadau pryd y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd neu pryd nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd. Mae is-adran (3) yn diffinio ystyr "contract" at ddibenion yr adran.

74. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch ffyrdd y caniateir profi na ddigwyddodd arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr oherwydd bod y llety yn dod o fewn is-adran (2)(b). Gallai hyn gynnwys darpariaeth ynghylch dogfennau neu wybodaeth arall y gellir dibynnu arnynt neu arni i brofi na ddigwyddodd arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr; a gwneud trefniadau ar gyfer dyroddi talebau y gellir eu defnyddio i brofi na ddigwyddodd arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr.

**Adran 29 – Atebolrwydd am dalu'r ardoll**

75. Mae'r adran hon yn nodi mai'r person sy'n atebol am dalu'r ardoll ar arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yw'r darparwr llety ymwelwyr. Mae atebolrwydd am dalu'r ardoll yn codi pan fo'r hawlogaeth o dan y contract i breswylio yn y llety yn dod i ben. Yn gyffredinol, dyma fydd pwynt ymadael yr ymwelydd olaf sydd â hawlogaeth o dan y contract i breswylio.

**Adran 30 – Cyfrifo swm yr ardoll sy'n daladwy**

76. Mae'r adran hon yn nodi'r dull ar gyfer cyfrifo swm yr ardoll sydd i'w godi mewn cysylltiad ag arhosiad. Cyfrifir swm yr ardoll drwy, yn gyntaf, ddyfarnu cyfanswm nifer y nosweithiau ardolladwy a lluosi'r rhif hwnnw â chyfradd yr ardoll sy'n gymwys i bob un o'r nosweithiau ardolladwy. Mae'r ddwy gyfradd wedi eu nodi yn adran 31 (y cyfraddau is neu uwch).

77. Pan mai un person yn unig sydd â hawlogaeth i breswylio o dan y contract, cyfanswm nifer y nosweithiau ardolladwy yw nifer y nosweithiau yr oedd gan y person hwnnw hawlogaeth i aros. Pan fydd gan fwy nag un person hawlogaeth i aros o dan y contract, rhaid cyfrifo nifer y nosweithiau ardolladwy ar gyfer pob person ac yna adio'r niferoedd at ei gilydd er mwyn rhoi'r cyfanswm o nosweithiau ardolladwy.

78. At ddibenion atebolrwydd am dalu'r ardoll, mae personau o dan 18 oed sy'n aros mewn llety ymwelwyr cyfradd is wedi eu heithrio rhag cael eu cynnwys yn y cyfrifiad o gyfanswm yr ardoll sy'n daladwy mewn perthynas â'r arhosiad.

79. Mae'r adran hefyd yn nodi, pe bai arhosiad o leiaf un person o dan gontract yn ddarostyngedig i'r gyfradd uwch a phe bai arhosiad o leiaf un person yn ddarostyngedig i'r gyfradd is, yna cyfrifir yr atebolrwydd drwy gyfrifo'r ddau atebolrwydd ar wahân ac yna adio'r ddau at ei gilydd.

80. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r adran hon i ychwanegu neu ddiwygio'r bobl nad ydynt wedi eu cynnwys mewn cyfrifiad o swm yr ardoll sy'n daladwy. Gall y diwygiadau hyn ymwneud ag arosiadau dros nos sy'n ddarostyngedig i'r gyfradd uwch neu'r gyfradd is.

**Adran 31 – Cyfraddau'r ardoll**

81. Mae'r adran hon yn nodi dwy gyfradd yr ardoll; y gyfradd is yw £0.80, a'r gyfradd uwch yw £1.30, yn ddarostyngedig i unrhyw swm ychwanegol a ychwanegir gan brif gyngor (gweler adran 33).

82. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r gyfradd is, y gyfradd uwch, neu'r ddwy gyfradd, drwy reoliadau.

**Adran 32 – Dyfarnu pa gyfradd sy'n gymwys**

83. Mae'r adran hon yn diffinio pa fathau o lety ymwelwyr sy'n ddarostyngedig i gyfradd is a chyfradd uwch yr ardoll. Mae'r gyfradd is yn gymwys i arosiadau mewn llety ymwelwyr sy'n llain neu'n ardal a ddarperir ar gyfer gwersylla, neu'n ystafell aml-wely neu'n ystafell arall neu'n ardal arall a ddarperir fel arfer ar y sail y gellir ei rhannu â phobl eraill sy'n preswylio yn yr ystafell aml-wely honno, yn yr ystafell arall honno neu yn yr ardal arall honno o dan gontract gwahanol. Mae'r gyfradd uwch yn gymwys i bob math arall o lety ymwelwyr.

84. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth er mwyn ychwanegu mathau o lety ymwelwyr neu lety o ddisgrifiad penodol, amrywio disgrifiad o lety ymwelwyr neu o fath o lety ymwelwyr, neu ddileu math o lety ymwelwyr neu lety o ddisgrifiad penodol, y mae pob cyfradd yn gymwys iddynt.

**Adran 33 – Ychwanegu swm ychwanegol at gyfradd ardoll**

85. Mae'r adran hon yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu y caiff prif gyngor ychwanegu swm ychwanegol o ardoll at gyfradd is a/neu gyfradd uwch yr ardoll a fydd yn gymwys yn ardal y prif gyngor.

86. Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon ganiatáu i brif gyngor ychwanegu swm o ardoll sy'n llai na'r swm a bennir yn y rheoliadau, a/neu ganiatáu i brif gyngor ychwanegu swm ychwanegol at rannau penodol o'i ardal yn unig, neu symiau gwahanol i wahanol ardaloedd. Caiff rheoliadau hefyd bennu cyfnod amser pan na fo'r swm ychwanegol yn gymwys, neu pan fo swm ychwanegol sy'n llai na'r swm a bennir yn y rheoliadau yn gymwys.

87. Mae is-adran (4) yn nodi gofynion ymgynghori cyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon.

**Adran 34 – Cais am ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll**

88. Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses ar gyfer gwneud cais am ad-daliad o swm sy'n gyfwerth â'r ardoll sy'n daladwy ("ad-daliad ardoll") mewn cysylltiad ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr sydd wedi digwydd - 'ad-daliad' o'r swm cyfan, neu ran ohono, i bob pwrpas.

89. Mae'r adran yn datgan y caiff ACC wneud ad-daliad ardoll os gwneir cais gan berson a ddarparodd gydnabyddiaeth o dan gontract, mewn cysylltiad ag arhosiad dros nos, ac y gwneir y cais cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r diwrnod olaf yr oedd gan berson hawlogaeth o dan y contract i aros.

90. Caiff person wneud cais i ACC am ad-daliad ardoll o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

   i. arhosodd person dros nos o dan y contract oherwydd nad oedd yn gallu preswylio yn ei unig breswylfa neu yn ei brif breswylfa oherwydd risg i'w iechyd, i'w ddiogelwch, neu i'w les,

   ii. arhosodd person dros nos o dan y contract oherwydd, ar adeg yr arhosiad, roedd yn ddigartref o fewn ystyr adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, neu

   iii. arhosodd person dros nos o dan y contract gyda pherson sy'n cael budd-dal anabledd (a ddiffinnir yn adran 34(7)) a darparodd ofal, cymorth neu gynhorthwy i'r person hwnnw.

91. Os caniateir y cais, bydd ACC yn ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll sy'n daladwy am yr arhosiad neu, yn achos arhosiad gan berson sy'n darparu gofal, cymorth a chynorthwy i berson sy'n cael budd-dal anabledd, swm sy'n gyfwerth â'r ardoll sy'n daladwy am arhosiad y gofalwr. Gall y swm sydd i'w ad-dalu amrywio gan ddibynnu ar nifer y bobl a arhosodd a nifer y nosweithiau. Os yw ACC yn ystyried na ddylid gwneud taliad mewn cysylltiad â phob person a/neu bob noson o'r arhosiad, rhaid i ACC dalu'r swm y mae'n ystyried y dylid ei dalu.

92. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r adran er mwyn ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau pryd y caiff ACC wneud ad-daliad o swm ardoll neu pryd y mae rhaid iddo wneud ad-daliad o swm ardoll, a diwygio'r diffiniad o "budd-dal anabledd".

**Adran 35 – Dyletswydd i ddychwelyd ffurflen ardoll mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu**

93. Rhaid i DLlY ddychwelyd ffurflen i ACC ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu, pa un a oes unrhyw arosiadau dros nos wedi digwydd ai peidio.

94. Rhaid i'r ffurflen gynnwys asesiad o swm yr ardoll sy'n daladwy am y cyfnod cyfrifyddu, a hefyd naill ai ddatganiad gan y DLlY fod yr wybodaeth yn y ffurflen yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf ei wybodaeth neu ardystiad gan asiant y DLlY fod y DLlY wedi gwneud datganiad o'r fath.

95. Rhaid i'r DLlY ddychwelyd ffurflen i ACC ar ddyddiad ffeilio'r ffurflen neu cyn hynny. Mae'r dyddiad ffeilio yn dibynnu ar a yw'r DLlY yn dychwelyd ffurflenni blynyddol neu chwarterol. Yn achos ffurflen flynyddol, y dyddiad ffeilio yw 30 Ebrill yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r ffurflen yn ymwneud â hi. Mae blwyddyn ariannol yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill mewn un flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol. Yn achos DLlY sy'n dychwelyd ffurflenni chwarterol, y dyddiad ffeilio yw 30 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod cyfrifyddu y mae'r ffurflen yn ymwneud ag ef (gweler **adran 38**).

**Adran 36 – Ffurflen flynyddol neu chwarterol**

96. Mae'r adran hon yn darparu y caiff DLlYau ddewis dychwelyd ffurflenni blynyddol neu ffurflenni chwarterol ar gyfer blwyddyn ariannol os na ddisgwylir i'w hatebolrwydd o ran yr ardoll fod yn fwy na £1000 ac, os dychwelodd y DLlY ffurflen mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol, nad oedd yn atebol am dalu swm o ardoll a oedd yn fwy na £1000 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Os oes disgwyl i atebolrwydd DLlY o ran yr ardoll fod yn fwy na £1000, neu os oedd yn fwy na £1000 yn y flwyddyn flaenorol, rhaid i'r DLlY ddychwelyd ffurflenni chwarterol.

97. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer drwy reoliadau i newid y swm o £1000 a'r wybodaeth y caiff DLlY ei darparu i ACC neu y mae rhaid iddo ei darparu i ACC os yw'n dymuno dychwelyd ffurflenni blynyddol.

98. Ni chaiff newid o rwymedigaeth i ddychwelyd ffurflen flynyddol i rwymedigaeth i ddychwelyd ffurflen chwarterol, neu i'r gwrthwyneb, gymryd effaith ond ar ddechrau blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, os oes gan DLlY un neu ragor o bwyntiau cosb, ni chaiff y DLlY newid pa mor aml y mae'n dychwelyd ffurflenni.

**Adran 37 – Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni blynyddol**

99. Mae'r adran hon yn diffinio'r cyfnod cyfrifyddu ar gyfer ffurflenni blynyddol fel y flwyddyn ariannol ac yn esbonio, pan fo DLlY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, beth yw cyfnod cyfrifyddu cyntaf y DLlY (gan nodi y gellir cyflwyno'r ardoll naill ai ar 1 Ebrill blwyddyn neu ar 1 Hydref yn unol ag adran 46).

100. Yn yr achos hwn, mae'r cyfnod cyfrifyddu yn dechrau ar y dyddiad y mae DLlY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy ac yn dod i ben â diwedd y flwyddyn ariannol y dechreuodd y cyfnod cyfrifyddu ynddi.

101. Mae'r adran hon yn diffinio, at ddibenion yr adran hon ac adran **38**, pryd mae person yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy.

**Adran 38 – Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni chwarterol**

102. Mae'r adran hon yn diffinio'r cyfnod cyfrifyddu ar gyfer DLlYau sy'n dychwelyd ffurflenni chwarterol fel chwarter calendr. Diffinnir chwarter calendr fel cyfnod o 3 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr. Mae'n esbonio, pan fo DLlY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, beth yw cyfnod cyfrifyddu cyntaf y DLlY.

**Adran 39 – Talu'r ardoll**

103. Mae'r adran yn nodi manylion y rheolau i'w dilyn gan ddarparwyr llety ymwelwyr ar gyfer talu'r ardoll ymwelwyr i ACC. Rhaid i'r DLlY dalu swm yr ardoll a bennir yn ei ffurflen ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny. Mae'r adran hefyd yn cyfeirio at ddarpariaethau ychwanegol yn Neddf 2016 sy'n ymdrin â thaliadau ardoll y mae'n ofynnol i DLlYau eu gwneud mewn sefyllfaoedd eraill, megis cywiriadau i ffurflen dreth, diwygiadau a wneir i ffurflen dreth yn ystod neu ar ôl cwblhau ymholiad, a dyfarniadau ac asesiadau ACC.

**Adran 40 – ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll**

104. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 2 o'r Atodlen i'r Ddeddf, sy'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf 2016 er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau ACC mewn perthynas â'r ardoll, a hefyd nifer o ddiwygiadau amrywiol eraill i'r Ddeddf honno.

**Adran 41 – Cyfrif prif gyngor ar gyfer enillion yr ardoll**

105. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr gynnal cyfrif ar wahân ar gyfer enillion yr ardoll honno. Mae'r adran hefyd yn darparu diffiniad o "enillion yr ardoll".

**Adran 42 – Defnyddio enillion yr ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfannau**

106. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif gyngor ddefnyddio enillion yr ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal. Enillion yr ardoll yw'r refeniw net y mae'r prif gyngor yn ei gael ar ôl didynnu'r costau casglu.

107. Mae is-adran (2) yn darparu rhestr, nad yw'n gynhwysfawr, o'r hyn y mae rheoli a gwella cyrchfannau yn ei gynnwys. Mae hyn yn cynnwys lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael, hybu'r Gymraeg, cefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a theithio, a darparu a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i ymwelwyr (hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio gan ymwelwyr yn unig).

**Adran 43 – Adroddiad ar ddefnyddio enillion yr ardoll**

108. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i gyhoeddi adroddiad ar enillion yr ardoll ar gyfer pob blwyddyn ariannol y mae'r ardoll yn cael effaith ynddi yn ei ardal. Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am swm yr ardoll a gasglwyd ac enillion yr ardoll. Rhaid i'r adroddiad hefyd nodi sut y mae'r enillion wedi cael eu defnyddio, neu sut y byddant yn cael eu defnyddio, at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau. Cyn ei gyhoeddi, rhaid i brif gyngor anfon adroddiad drafft at aelodau'r fforwm partneriaeth ardoll ac ymgynghori â hwy ar y drafft hwnnw.

109. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl 30 Mehefin yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, a heb fod yn hwyrach na diwedd y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

110. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i nodi gofynion ar gyfer cynnwys yr adroddiadau, ac i newid nifer yr adroddiadau y mae rhaid eu cyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol, pa mor aml y'u cyhoeddir a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyhoeddi.

**Adran 44 – Fforymau partneriaeth ardoll**

111. Mae'r adran hon yn nodi, os yw prif gyngor wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei ardal, fod rhaid iddo sefydlu fforwm ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr yn ardal y cyngor.

112. Mae'r adran yn manylu ar y meysydd y mae'r fforwm i ddarparu gwybodaeth a chyngor yn eu cylch, yn ogystal â'r ffaith bod prif gyngor i roi sylw i unrhyw wybodaeth neu unrhyw gyngor a ddarperir yn y fforwm yn unol ag is-adran (1).

113. Mae'r adran hefyd yn manylu ar y camau y mae rhaid i brif gyngor eu cymryd i hwyluso'r fforwm a'r darpariaethau ynghylch ei aelodaeth.

**Adran 45 – Ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll**

114. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth am y camau y mae rhaid i brif gyngor eu cymryd cyn iddo gyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll, neu ychwanegu, newid neu ddileu swm ychwanegol o ardoll (pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan adran 33 i wneud hynny), yn ei ardal.

115. Ni chaiff prif gyngor gymryd unrhyw gamau i newid yr ardoll yn ei ardal tan 12 mis ar ôl i'r ardoll ddod yn effeithiol yn ei ardal a bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau i alluogi hyn o dan adran 33.

116. Rhaid i'r prif gyngor hysbysu ACC am ei gynnig mewn cysylltiad â'r ardoll a chyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r cynnig.

117. Pan fo'r prif gyngor yn bwriadu cyflwyno'r ardoll, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys amcangyfrif o enillion yr ardoll yn ei blwyddyn ariannol lawn gyntaf ac amcangyfrif o'r costau y mae'r prif gyngor yn debygol o fynd iddynt.

118. Pan fo prif gyngor yn cynnig newid yr ardoll, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys amcangyfrif o enillion yr ardoll mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl newid yr ardoll.

119. Pan fo'r prif gyngor yn cynnig diddymu'r ardoll yn ei ardal, rhaid iddo ddarparu amcangyfrif o effaith diddymu'r ardoll ar ei refeniw yn y flwyddyn lawn gyntaf ar ôl i'r ardoll gael ei diddymu.

120. Ym mhob achos, rhaid i'r prif gyngor anfon ei adroddiad i ACC ac ymgynghori ag unrhyw ymgyngoreion gorfodol, ac unrhyw bersonau priodol eraill, ar ei adroddiad a'i gynigion mewn cysylltiad â'r ardoll.

121. Mae is-adran (6) yn diffinio'r ymgyngoreion gorfodol.

122. Rhaid i'r prif gyngor ystyried ei gynnig gan roi sylw i'r ymatebion a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad. Rhaid i'r prif gyngor wedyn hysbysu ACC ynghylch a yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'i gynigion mewn cysylltiad â'r ardoll, a rhaid iddo gyhoeddi adroddiad terfynol ac anfon yr adroddiad hwnnw i ACC.

123. Rhaid i'r adroddiad terfynol nodi bwriadau'r prif gyngor mewn cysylltiad â'i gynigion a, phan fo'n bwriadu bwrw ymlaen â'i gynnig, fanylion y cynnig hwnnw (gan gynnwys tynnu sylw at unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynnig o'r hyn yr ymgynghorwyd arno). Rhaid i'r adroddiad terfynol hefyd gynnwys crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad.

124. Mae is-adran (10) yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr adran hon sy'n ymwneud â'r ymgyngoreion gorfodol, yn ogystal â "rheoli a gwella cyrchfannau".

**Adran 46 – Cyflwyno'r ardoll a newid neu ddiddymu'r ardoll**

125. Mae'r adran yn amlinellu'r broses ar gyfer cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll ymwelwyr gan brif gyngor pan fo cyngor wedi cydymffurfio ag adran 45.

126. Rhaid i'r cyngor gyhoeddi hysbysiad sy'n nodi: pa un a yw'n cyflwyno, newid neu'n diddymu'r ardoll; cyfraddau'r ardoll, oni bai bod yr ardoll i'w diddymu; y dyddiad pryd y bydd yr ardoll naill ai'n dod yn effeithiol, yn peidio â chael effaith neu'n newid; ac unrhyw wybodaeth briodol arall. Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor ac mewn unrhyw fodd arall y mae'r cyngor yn ystyried ei fod yn briodol.

127. Rhaid i'r dyddiad y bydd cyflwyno neu ddiddymu'r ardoll yn dod yn effeithiol fod o leiaf 12 mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, neu gyfnod byrrach os cytunir arno gan y cyngor ac ACC, a rhaid mai naill ai 1 Ebrill neu 1 Hydref yw'r dyddiad hwnnw.

128. Rhaid i'r dyddiad y bydd newid i'r ardoll yn dod yn effeithiol fod o leiaf 6 mis ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi, a rhaid mai naill ai 1 Ebrill neu 1 Hydref yw'r dyddiad hwnnw.

129. Mae cyflwyno, diddymu neu newid yr ardoll yn dod yn effeithiol ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

**Adran 47 – Arosiadau dros nos nad effeithir arnynt gan gyflwyno neu newid yr ardoll**

130. Mae'r adran yn amlinellu effaith cyflwyno neu newid yr ardoll ar arosiadau dros nos presennol.

131. Nid yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd os gwnaed y contract perthnasol ar gyfer yr arhosiad dros nos cyn y dyddiad sydd chwe mis ar ôl y dyddiad y penderfynodd y prif gyngor gyflwyno'r ardoll.

132. Fodd bynnag, os yw contract o'r fath yn cael ei amrywio ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd mewn perthynas ag unrhyw bersonau sydd, o ganlyniad i'r amrywiad, â hawlogaeth i breswylio, a/neu unrhyw nosweithiau y mae gan berson, o ganlyniad i'r amrywiad, hawlogaeth i breswylio.

133. Os oes newid i'r ardoll (ychwanegu, newid neu ddileu swm ychwanegol - gweler adran 45(2)), nid yw'n gymwys i arhosiad dros nos os gwnaed y contract perthnasol cyn i'r prif gyngor benderfynu newid yr ardoll.

134. Mae'r "contract perthnasol" yn cyfeirio at y contract y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd odano, neu y byddai (oni bai am yr adran hon) yn digwydd odano, y mae gan un neu ragor o bobl hawlogaeth i breswylio yn y llety odano ac y mae'r DLlY yn barti iddo.

135. Mae is-adran (7) yn diffinio'r dyddiad y mae prif gyngor yn penderfynu cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll fel y dyddiad y mae'n cyhoeddi hysbysiad o dan adran 46(2).

**Adran 48 – Dehongli'r Bennod**

136. Mae'r adran hon yn diffinio neu fel arall yn esbonio termau a ddefnyddir yn y Bennod hon.

**Adran 49 – Llety ymwelwyr mewn mangre o fewn ardal mwy nag un prif gyngor**

137. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch trin mangre lle y darperir llety ymwelwyr nad yw'n gyfan gwbl o fewn ardal un prif gyngor. At ddibenion yr ardoll, mae mangre o'r fath i'w thrin fel pe bai yn yr ardal lle y mae'r rhan fwy neu'r rhan fwyaf o'r fangre.

**Adran 50 - Trefniadau â thrydydd parti i gasglu'r ardoll etc. ar ran y darparwr**

138. Mae is-adran (1) yn caniatáu i ddarparwr llety ymwelwyr wneud trefniadau i un neu ragor o bersonau gasglu'r ardoll, dychwelyd ffurflenni, talu'r ardoll i ACC neu wneud ad-daliadau, ar ei ran.

139. Mae is-adran (2) yn darparu nad yw gwneud trefniant o dan is-adran (1) yn effeithio ar rwymedigaethau DLlY o dan y Ddeddf neu Ddeddf 2016.

**Adran 51 - Pŵer Gweinidogion Cymru i osod gofynion o ran hysbysebu a bilio etc.**

140. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gosod gofynion ar DLlYau sy'n ymwneud â chynnwys mewn anfonebau, derbynebau a dogfennau eraill wybodaeth am swm yr ardoll ar gyfer arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr, a sut a phryd y mae'n ofynnol i'r DLlY roi gwybod i ymwelwyr am fodolaeth, natur a swm yr ardoll.

141. Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol, pan ddarperir y swm sy'n daladwy am arhosiad dros nos, fod y swm hefyd yn cynnwys swm yr ardoll sy'n daladwy am yr arhosiad; bod deunydd hyrwyddo, marchnata a deunydd perthnasol arall yn cynnwys manylion swm yr ardoll sy'n daladwy; a bod rhaid arddangos yn y llety ymwelwyr wybodaeth sy'n ymwneud â'r ardoll sy'n daladwy.

142. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau hefyd osod sancsiynau sifil, gan gynnwys cosbau ariannol penodedig, gofynion yn ôl disgresiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi, ar DLlY sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon, a gwneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn sancsiynau sifil o'r fath.

**Adran 52 - Prif gyngor yn arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon etc.**

143. Mae'r adran yn darparu nad yw swyddogaethau prif gyngor mewn cysylltiad â'r ardoll yn swyddogaethau gweithrediaeth prif gyngor.

144. Mae is-adran (2) yn datgymhwyso adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) o

swyddogaethau prif gyngor yn y Rhan hon ac adran 59(2), felly ni ellir dirprwyo swyddogaethau o'r fath i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i'r cyngor na chan gyngor arall. Nid yw hyn yn rhwystro, er enghraifft, swyddog i'r cyngor rhag lunio drafft o adroddiad i'r prif gyngor llawn ei ystyried a phenderfynu arno.

145. Mae'r adran hon yn diffinio "gweithrediaeth" a "trefniadau gweithrediaeth" ac yn ychwanegu swyddogaethau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr at y rhestr o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/399).

## Rhan 4 - Darpariaeth Amrywiol a Chyffredinol

**Adran 53 – Ystyr "busnes perthnasol" yn y Bennod hon**

146. Mae'r adran yn diffinio "busnes perthnasol" at ddibenion y Bennod. Ystyr "busnes perthnasol" yw busnes, neu ran o fusnes, y mae person, yng nghwrs y busnes hwnnw, yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru, ac yn feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr.

**Adran 54 – Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig**

147. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo'n ofynnol gwneud unrhyw beth, neu y caniateir gwneud unrhyw beth o dan y Ddeddf hon neu Ddeddf 2016, gan bersonau neu mewn perthynas â phersonau sydd mewn partneriaeth neu gorff anghorfforedig, rhaid iddo gael ei wneud gan bob person neu mewn perthynas â phob person sy'n bartner yn y bartneriaeth neu sy'n aelod rheoli o'r corff ar yr adeg y'i gwneir neu y mae'n ofynnol ei wneud. Fodd bynnag, caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob partner neu aelod rheoli gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt.

148. Mae aelodau rheoli corff anghorfforedig yn cynnwys pob aelod sy'n dal swydd llywydd, cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd, neu unrhyw swydd debyg. Os nad oes unrhyw swydd o'r fath, aelodau rheoli corff anghorfforedig yw pob aelod sy'n dal swydd aelod o bwyllgor sy'n rheoli materion y corff. Os nad oes unrhyw swydd na phwyllgor o'r fath, aelodau rheoli corff anghorfforedig yw pob aelod o'r corff.

149. Mae atebolrwydd am dalu swm perthnasol o ganlyniad i unrhyw beth a wneir neu nas gwneir gan bersonau sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig yn atebolrwydd ar y cyd ac unigol i bob person sy'n aelod o'r bartneriaeth neu'r corff ar yr adeg y gwneir y peth neu'r adeg nas gwneir.

150. Os yw person yn aelod o'r bartneriaeth neu'r corff am ran o gyfnod cyfrifyddu yn unig, atebolrwydd personol y person am yr ardoll sydd i'w chodi mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu yw'r gyfran o'r atebolrwydd sy'n ymwneud â busnes y bartneriaeth neu'r corff sy'n deg ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**Adran 55 – Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig**

151. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r gofrestr o dan Ran 2 neu'r ardoll ynglŷn ag achosion pan fo personau yn cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, i ddiddymu unrhyw ddarpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.

**Adran 56 – Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd**

152. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo person ("A") yn cynnal busnes perthnasol person arall ("B") sydd wedi marw, wedi mynd yn analluog, neu wedi dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i A hysbysu ACC ei fod yn cynnal y busnes perthnasol, a darparu manylion ynghylch natur a dyddiad y digwyddiad a arweiniodd at y sefyllfa hon, o fewn 30 o ddiwrnodau i'r diwrnod y dechreuodd A gynnal y busnes perthnasol.

153. Caiff ACC, unwaith y daw hysbysiad i law neu ar ei gymhelliad ei hun, drin A fel pe bai A yn B at ddibenion yr ardoll, gydag effaith o'r adeg y dechreuodd A gynnal y busnes perthnasol. Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i A (ac, os yw'n briodol, i B) am y penderfyniad i drin A fel pe bai'n B.

154. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth o ran pryd y mae rhaid i driniaeth o'r fath ddod i ben.

155. Os yw B yn peidio â bod yn analluog neu'n ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu os yw A yn peidio â chynnal busnes perthnasol B, rhaid i A hysbysu ACC am y ffaith honno a'r dyddiad y digwyddodd hynny. Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad hwnnw.

156. Rhaid i ACC beidio â thrin A fel pe bai'n B os yw ACC wedi ei fodloni bod y naill neu'r llall o'r amodau yn is-adran (6) wedi ei fodloni, ni waeth a yw A wedi rhoi hysbysiad ai peidio. Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i A (ac, os yw'n briodol, i B) am y penderfyniad i beidio â thrin A fel pe bai'n B.

**Adran 57 – Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd**

157. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r gofrestr o dan Ran 2 neu'r ardoll ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd, i ddiddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.

158. Caiff rheoliadau fynd i'r afael ag amgylchiadau pryd y mae person yn mynd yn analluog neu'n dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu'n peidio â bod yn analluog neu'n ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd. Cânt hefyd gwmpasu dyletswyddau, atebolrwyddau, a hawlogaethau sy'n ymwneud â'r gofrestr o dan

Ran 2 neu'r ardoll pan fo person wedi marw, wedi mynd yn analluog, neu wedi dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd.

159. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gymwys pa un a yw unrhyw un arall yn cynnal busnes perthnasol person ar ôl i'r person farw, fynd yn analluog neu ddod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd ai peidio.

160. Caiff y rheoliadau hefyd gynnwys cosbau am fethiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau neu â gofynion a osodir ar bersonau heblaw ACC. Cânt hefyd ddarparu ar gyfer adolygiadau ac apelau.

**Adran 58 – Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol**

161. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynglŷn â chymhwyso unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r gofrestr o dan Ran 2 neu'r ardoll mewn achosion pan fo busnes perthnasol wedi trosglwyddo o un person i un arall fel busnes gweithredol.

**Adran 59 – Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru**

162. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch y Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dano, ond cyn dyroddi canllawiau o'r fath rhaid iddynt ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

163. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gan Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaeth sy'n ymwneud â'r ardoll.

**Adran 60 – Pŵer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd**

164. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Bil hwn a Deddf 2016, drwy reoliadau, er mwyn cymhwyso neu atgynhyrchu Rhannau 2 a 3 o'r Bil hwn, gydag addasiadau neu hebddynt, mewn cysylltiad â docfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau.

**Adran 61 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.**

165. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer darpariaethau deilliadol, darpariaethau atodol, darpariaethiau canlyniadol, darpariaethiau trosiannol neu ddarpariaethiau arbed o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (1).

166. Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf).

**Adran 62 - Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

167. Mae'r adran hon yn darparu bod pob pŵer yn y Bil i wneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol.

168. Mae is-adran (2) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol, ac i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn addasu, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf).

169. Mae is-adran (4) yn darparu bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau sydd wedi eu rhestru yn y Bil i'w wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol (h.y. rhaid i ddrafft o'r offeryn gael ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad).

170. Mae is-adran (5) yn darparu bod offerynnau statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw bŵer arall yn y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Adran 63 – Dehongli**

171. Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau ac yn egluro ystyron termau a ddefnyddir yn y Ddeddf.

172. Mae'r adran yn darparu, pan fo'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i gyhoeddi penderfyniad, adroddiad neu ddogfen arall heblaw hysbysiad, fod rhaid i'r penderfyniad, yr adroddiad neu'r ddogfen arall gael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi ar wefan y prif gyngor, ac mewn unrhyw fodd arall y mae'r prif gyngor yn ystyried ei fod yn briodol, a chael ei roi ar gael i edrych arno, neu ei rhoi ar gael i edrych arni, (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd y prif gyngor am o leiaf 12 mis ar ôl iddo gael ei gyhoeddi neu iddi gael ei chyhoeddi gyntaf.

**Adran 64 – Dod i rym**

173. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

174. Mae is-adran (1) yn darparu y bydd Rhannau 1, 3 (gan gynnwys Rhan 2 o Atodlen 2) a 4 (yn ddarostyngedig i is-adran (2)) yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil hwn y Cydsyniad Brenhinol.

175. Mae is-adran (2) yn darparu y bydd Rhan 2 (gan gynnwys Rhan 1 o Atodlen 2 ac adrannau 53 i 58 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â'r gofrestr o dan Ran 2) yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Mae is-adran (3) yn galluogi gorchymyn o'r fath i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed a darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol (yn ogystal ag at ddibenion gwahanol).

**Adran 65 – Enw byr**

176. Mae adran 65 yn nodi enw byr y Bil, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Bil ac wrth gyfeirio ato. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Bil, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

## Atodlen 1 – Yr Wybodaeth sydd i'w Chynnwys yn y Gofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

177. Mae Atodlen 1 wedi ei chyflwyno gan adran 4.

**Paragraffau 1 i 3 – Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr**

178. Mae paragraff 1 yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid i gofnod DLlY ei chynnwys.

179. Mae paragraff 2 yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid i gofnod DLlY ei chynnwys o ran pob mangre lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.

180. Mae paragraff 3 yn nodi, pan fo ACC wedi cofrestru person o dan adran 8 o'r Bil, neu wedi gwneud newidiadau i gofnod person o dan adran 11 o'r Bil, fod rhaid i'r cofnod ddangos bod y person wedi ei gofrestru, neu fod y cofnod wedi ei newid, gan ACC a dangos pa wybodaeth sydd o dan sylw.

181. Os yw DLlY wedyn yn darparu i ACC yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i fodloni ACC bod cofnod y DLlY yn gyflawn ac yn gywir yna bydd y marciwr sy'n dangos bod cofnod DLlY yn anghyflawn yn cael ei ddileu.

**Paragraff 4 – Amgylchiadau pan nad oes angen cynnwys gwybodaeth yn y gofrestr**

182. Mae paragraff 4 yn nodi nad oes angen cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraffau 1 a 2 pan nad oes gan ACC yr wybodaeth honno neu pan fo ACC yn ystyried bod yr wybodaeth yn anghywir neu'n debygol o fod yn anghywir.

183. Os yw ACC yn dymuno cynnwys yr wybodaeth hon y mae'n ystyried ei bod yn anghywir neu'n debygol o fod yn anghywir mewn cofnod DLlY yna caiff ddangos yn y gofrestr fod yr wybodaeth hon yn anghywir neu'n debygol o fod yn anghywir.

**Paragraff 5 – Dehongli**

184. Mae paragraff 5 yn datgan, at ddiben yr Atodlen, mai cyfeiriad busnes partneriaeth yw cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig neu ei phrif swyddfa, a chyfeiriad busnes corff corfforedig neu gorff anghorfforedig yw cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa ac mai ystyr "elusen" yw elusen sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25) neu elusen esempt (o fewn yr ystyr a roddir i "exempt charity" yn y Ddeddf honno).

## Atodlen 2 – Diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
RHAN 1 DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 2 O'R DDEDDF HON

**Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6)**

185. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 wedi ei chyflwyno gan adran 26 ac mae'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 sy'n ymwneud â Rhan 2 o'r Ddeddf hon.

186. Mae paragraffau 1 i 15 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2016 er mwyn rhoi effaith i Ran 2 o'r Ddeddf hon.

187. Mae paragraff 2 yn diwygio adran 12 o Ddeddf 2016 sy'n nodi swyddogaethau ACC, gan gynnwys ei swyddogaeth gyffredinol i gasglu a rheoli trethi a swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â threthi o'r fath, er mwyn cydnabod swyddogaethau ACC o dan Ran 2.

188. Mae paragraff 3 yn diwygio adran 17 o Ddeddf 2016 er mwyn dileu "am drethdalwr" o'r ymadrodd "gwybodaeth warchodedig am drethdalwr" i ehangu'r diffiniad i gynnwys gwybodaeth a gesglir ac a reolir gan ACC yn unol â'i swyddogaethau mewn cysylltiad â'r gofrestr o lety ymwelwyr.

189. Mae paragraff 4 yn diwygio adran 18 o Ddeddf 2016 i ddileu "am drethdalwr" o'r ymadrodd "gwybodaeth warchodedig am drethdalwr" o ganlyniad i'r newid i adran 17 o Ddeddf 2016.

190. Mae paragraff 4 hefyd yn darparu dau borth rhannu gwybodaeth ychwanegol i ACC er mwyn caniatáu rhannu gwybodaeth o'r gofrestr â phrif gynghorau, ac â Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â thwristiaeth. Caiff ACC ddatgelu gwybodaeth warchodedig i brif gyngor mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau'r prif gyngor neu i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan adran 2 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969.

191. Mae paragraff 5 yn diwygio adran 20 o Ddeddf 2016 er mwyn dileu "am drethdalwr" o'r ymadrodd "gwybodaeth warchodedig am drethdalwr" o ganlyniad i'r newid i adran 17 o Ddeddf 2016.

192. Mae paragraff 6 yn diwygio adran 30 o Ddeddf 2016 er mwyn dileu'r label "Datganiad Treth" o'r datganiad a lunnir o dan adran 30, ac er mwyn rhoi "Datganiad o swm yr arian a gasglwyd gan ACC" yn lle pennawd yr adran. Mae'r newidiadau hyn yn ganlyniadol ar ehangu'r datganiad i gynnwys gwybodaeth a gesglir ac a reolir gan ACC yn unol â'i swyddogaethau mewn cysylltiad â'r gofrestr o lety ymwelwyr.

193. Mae paragraffau 7 ac 8 yn diwygio adrannau 31 a 33 o Ddeddf 2016 er mwyn rhoi "datganiad" yn lle cyfeiriadau at "Datganiad Treth" o ganlyniad i'r diwygiad i adran 30.

194. Mae paragraff 9 yn hepgor adran 35 o Ddeddf 2016 sy'n diwygio Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r adran y mae'n ei diwygio wedi ei diddymu ers hynny ac mae adran 35 bellach yn ddiangen.

195. Mae paragraff 10 yn diwygio'r rhestr o benderfyniadau apeliadwy yn adran 172(6) o Ddeddf 2016 er mwyn cynnwys hysbysiadau o dan adran 12A o'r Ddeddf.

196. Mae paragraff 11 yn diwygio adran 179(2)(b) o Ddeddf 2016, sy'n ymwneud â therfynau amser ar gyfer gwneud apêl, er mwyn eithrio penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gofrestr o DLlYau.

197. Mae paragraff 12 yn diwygio adran 182(7) o Ddeddf 2016 sy'n ymwneud â thalu cosbau yn achos adolygiad neu apêl er mwyn ychwanegu adran 20 o'r Ddeddf hon.

198. Mae paragraff 13 yn diwygio adran 183 o Ddeddf 2016, sy'n ymwneud â phenderfynu ar adolygiadau ac apelau mewn cysylltiad â hysbysiadau gwybodaeth, er mwyn cynnwys hysbysiadau o dan adran 12 o'r Ddeddf.

199. Mae paragraff 14 yn diwygio adran 187B o Ddeddf 2016 er mwyn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau ACC sy'n ymwneud â chofrestru llety ymwelwyr.

200. Mae paragraff 15 yn diwygio adran 193 o Ddeddf 2016 er mwyn dileu "am drethdalwr" o'r ymadrodd "gwybodaeth warchodedig am drethdalwr" o ganlyniad i'r diwygiad i adran 17 o Ddeddf 2016.

**Paragraff 16 – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3)**

201. Mae paragraff 16 yn diwygio adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn rhoi "datganiad a baratoir gan Awdurdod Cyllid Cymru o dan adran 30 o'r Ddeddf honno" yn lle "Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru" o ganlyniad i'r diwygiad i adran 30 o'r Ddeddf.

**Paragraff 17 – Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)**

202. Mae paragraff 17 yn diwygio Atodlen 3 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn y cofnod ar gyfer "Awdurdod Cyllid Cymru" er mwyn ychwanegu "a chofrestru" ar ôl "Trethi". Roedd angen y diwygiad hwn er mwyn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau ACC sy'n ymwneud â chofrestru llety ymwelwyr.

## Atodlen 2 – Diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

RHAN 2 DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 3 O'R DDEDDF HON

203. Mae Rhan 2 o Atodlen 2 wedi ei chyflwyno gan adran 40 ac mae'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf 2016 sy'n ymwneud â Rhan 3 o'r Ddeddf hon.

**Paragraff 19 - Diwygio cyfeiriadau at "treth ddatganoledig" etc. yn Neddf 2016**

204. Mae'r paragraff hwn yn nodi, pan fo "treth ddatganoledig" yn ymddangos yn Neddf 2016, y dylid rhoi "treth a gesglir gan ACC" yn ei le, heblaw yn yr eithriadau a restrir. Mae'r diwygiad hwn yn caniatáu i ACC reoli a chasglu'r ardoll ymwelwyr, yn ogystal â'r trethi datganoledig, o dan yr un darpariaethau yn Neddf 2016.

**Paragraffau 20 i 29 - Diwygio Rhan 2 o Ddeddf 2016**

205. Mae **paragraff 20(a)** yn diwygio adran 12(2)(b) o Ddeddf 2016 o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan baragraff 2 er mwyn galluogi ACC i ddarparu gwybodaeth a chymorth sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr, yn ogystal â'r trethi datganoledig, i drethdalwyr, eu hasiantiaid a phersonau eraill.

206. Mae **paragraff 20(b)** yn diwygio adran 12(2) er mwyn mewnosod paragraff newydd i gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau fel un o swyddogaethau penodol ACC.

207. Mae **paragraff 21** yn diwygio adran 15 o Ddeddf 2016 (sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau o natur gyffredinol i ACC) er mwyn mewnosod is-adran newydd (1A) i ddarparu, cyn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd nad yw'n ymwneud ond â swyddogaethau ACC sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr, ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, ardoll ymwelwyr.

208. Mae **paragraff 22** yn diwygio adran 18(1) o Ddeddf 2016 er mwyn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig, sef pan wneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC. Gosodir cyfyngiadau ar yr achos hwn o ddatgelu a ganiateir fel na ellir datgelu gwybodaeth warchodedig wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â threthi a gesglir gan ACC, neu faterion eraill y caiff Gweinidogion Cymru wneud gwybodaeth, cyngor neu gymorth yn eu cylch yn ofynnol o bryd i'w gilydd. Rhoddir cyfyngiad tebyg ar yr achos hwn o ddatgelu a ganiateir fel na ellir datgelu gwybodaeth warchodedig wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr i'r prif gynghorau.

209. Mae **paragraff 23** yn mewnosod adran newydd 24A yn Neddf 2016. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gynnal cyfrifon ar wahân ar gyfer enillion yr ardoll ymwelwyr ar gyfer pob sir neu fwrdeistref sirol. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC dalu'r enillion hyn i'r prif gyngor perthnasol bob blwyddyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y cytunir arno rhwng ACC a'r prif gyngor. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r taliad i'r prif gyngor fod ar ôl didynnu costau ac alldaliadau ACC y mae wedi mynd iddynt wrth arfer ei swyddogaethau. Mae is-adran (4) yn caniatáu i ACC ddidynnu unrhyw symiau y mae'n ystyried eu bod yn briodol o ran costau y gallai fynd iddynt ac alldaliadau a allai ddod yn daladwy

mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, ond ar ôl iddo dalu'r enillion ar gyfer y flwyddyn honno i'r prif gyngor. Mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi darpariaeth bellach ynghylch didynnu symiau o ran costau, neu ddidynnu alldaliadau, gan gynnwys, ymysg materion eraill, sut y mae'r costau hyn yn cael eu dosrannu, ac sy'n pennu'r mathau o gostau neu alldaliadau y caniateir, y mae rhaid, neu na chaniateir eu didynnu.

210. Mae **paragraff 24** yn diwygio adran 25 o Ddeddf 2016 er mwyn sicrhau mai dim ond derbyniadau sy'n ymwneud â threthi datganoledig (ac nid yr ardoll ymwelwyr) ddylai gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hefyd yn mewnosod is-adran newydd (3) i sicrhau bod rhaid i ACC dalu i Gronfa Gyfunol Cymru symiau a ddidynnir o enillion yr ardoll ymwelwyr ar gyfer costau.

211. Mae **paragraff 25** yn diwygio adran 26(2) o Ddeddf 2016 fel bod y Siarter yn gymwys i gyfrifoldebau ACC am y trethi datganoledig ac i'r ardoll ymwelwyr. Mae hefyd yn ychwanegu cyfeiriad at "prif gynghorau".

212. Mae **paragraff 26** yn diwygio adran 27 o Ddeddf 2016 er mwyn sicrhau, cyn y gall ACC gyflwyno'r cynllun corfforaethol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, fod rhaid i ACC ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal ar unrhyw amcanion, unrhyw ganlyniadau neu unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr.

213. Mae **paragraff 27** yn diwygio adran 29 o Ddeddf 2016 drwy fewnosod is-adran newydd (2A) sy'n gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr cyn rhoi cyfarwyddyd i ACC o dan is-adran (1)(b) nad yw'n ymwneud ond â'r ardoll ymwelwyr.

214. Mae **paragraff 28** yn diwygio adran 30 o Ddeddf 2016 er mwyn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr cyn rhoi cyfarwyddyd i ACC o dan is-adran (1) nad yw'n ymwneud ond â'r ardoll ymwelwyr.

**Paragraffau 30 ac 31 - Diwygio Rhan 3 o Ddeddf 2016**

215. Mae **paragraff 30** yn diwygio adran 40 o Ddeddf 2016 er mwyn darparu diffiniad o "dyddiad ffeilio" ar gyfer ffurflen sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr.

216. Mae **paragraff 31** yn diwygio adran 58 o Ddeddf 2016 (amodau ar gyfer gwneud asesiadau ACC). Mae'n diwygio'r amodau ar gyfer gwneud asesiadau ACC er mwyn cynnwys is-adran newydd (5), sy'n pennu yr ystyrir bod gwybodaeth wedi ei darparu i ACC os yw mewn ffurflen dreth, os yw mewn dogfennau a gyflwynir neu wybodaeth a ddarperir ar gyfer ymholiad, neu os gallai ACC gasglu yn

rhesymol ei bod yn bodoli o ffurflen dreth neu o ddogfennau a gyflwynir neu wybodaeth a ddarperir ar gyfer ymholiad, neu os yw'r trethdalwr neu ei asiant yn hysbysu ACC yn ysgrifenedig fod yr wybodaeth yn bodoli.

**Paragraffau 32 a 33 - Diwygio Rhan 3A o Ddeddf 2016**

217. Mae **paragraffau 32 a 33** yn gwneud diwygiadau i Ran 3A o Ddeddf 2016 i sicrhau bod y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi yn parhau i fod yn gymwys i'r trethi datganoledig ond nad yw'n gymwys i'r ardoll ymwelwyr.

**Paragraff 34 - Diwygio Rhan 4 o Ddeddf 2016**

218. Mae'r paragraff hwn yn diwygio adran 86 o Ddeddf 2016 i ddileu'r gofyniad i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys cyn dyroddi hysbysiad i'r trethdalwr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau. Bydd y rheol hon sydd wedi ei newid yn gymwys i'r ardoll ymwelwyr ac i'r trethi datganoledig.

**Paragraffau 35 i 46 - Diwygio Rhan 5 o Ddeddf 2016**

219. Mae **paragraff 35** yn mewnosod adran newydd 117A yn Neddf 2016 sy'n darparu diffiniadau o "darparwr llety ymwelwyr", "ffurflen ardoll ymwelwyr" a "ffurflen treth ddatganoledig" ar gyfer Rhan 5 o Ddeddf 2016. Mae hefyd yn darparu rheol ar gyfer sut y mae DLlY i'w drin o ran y math o ffurflen y mae angen i'r DLlY ei dychwelyd pan na fo erioed wedi dychwelyd ffurflen o'r blaen nac wedi datgan a oes angen iddo ddychwelyd ffurflenni blynyddol neu chwarterol. Yn y ddwy sefyllfa, mae'r DLlY i'w drin fel DLlY sy'n dychwelyd ffurflenni blynyddol.

220. Mae **paragraffau 36 i 39** yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau er mwyn darparu bod adrannau 118 i 120 o Ddeddf 2016, sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cosbau am fethiannau i ddychwelyd ffurflen, i fod yn gymwys i'r trethi datganoledig yn unig, ac nid i'r ardoll ymwelwyr.

221. Mae **paragraff 40** yn mewnosod adrannau newydd 120A i 120F yn Neddf 2016.

222. Mae adrannau 120A i 120D yn darparu rheolau'r gyfundrefn sy'n seiliedig ar bwyntiau cosb am ffeilio ffurflenni ardoll ymwelwyr blynyddol a chwarterol yn hwyr.

223. Yn achos ffurflenni blynyddol, os na ddychwelir ffurflen ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, mae'r DLlY yn agored i bwynt cosb. Mae pwynt cosb a ddyfarnwyd i DLlY mewn perthynas â methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr flynyddol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 24 mis sy'n dechrau â dyddiad ffeilio'r ffurflen y mae'r pwynt cosb yn ymwneud â hi.

224. Os yw DLlY sy'n ffeilio ffurflenni blynyddol wedi cyrraedd dau bwynt cosb, mae'r DLlY yn agored i gosb o £100. Oherwydd y rheolau ar bwyntiau cosb yn dod i ben, nid oes cosb ariannol am gael un pwynt dros gyfnod o 24 mis.

225. Yn achos ffurflenni chwarterol, os na ddychwelir ffurflen ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, mae'r DLlY yn agored i bwynt cosb. Mae pwynt cosb a ddyfarnwyd i DLlY mewn perthynas â methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr chwarterol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â dyddiad ffeilio'r ffurflen y mae'r pwynt cosb yn ymwneud â hi.

226. Os yw DLlY sy'n ffeilio ffurflenni chwarterol wedi cyrraedd pedwar pwynt cosb, mae'r DLlY yn agored i gosb o £100. Oherwydd y rheolau ar bwyntiau cosb yn dod i ben, nid oes cosb ariannol am gael hyd at dri phwynt dros gyfnod o 12 mis.

227. Ni chaiff DLlY sydd wedi cael un neu ragor o bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben newid o rwymedigaeth i ddychwelyd ffurflenni yn chwarterol i rwymedigaeth i'w dychwelyd yn flynyddol, nac i'r gwrthwyneb.

228. Yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer y system gosbau sy'n seiliedig ar bwyntiau, mae adran 120E yn darparu, yn achos y rhwymedigaethau i ddychwelyd ffurflenni yn chwarterol ac yn flynyddol, fod DLlY yn agored i gosb o £100 os yw ffurflen yn dal i fod heb ei ffeilio 6 mis ar ôl y dyddiad ffeilio.

229. Mae adran 120F yn darparu, yn ogystal â'r system gosbau sy'n seiliedig ar bwyntiau, yn achos y rhwymedigaethau i ddychwelyd ffurflenni yn flynyddol ac yn chwarterol, fod DLlY yn agored i gosb os yw ffurflen heb ei ffeilio 12 mis ar ôl y dyddiad ffeilio.

230. Pan fo'r DLlY, drwy fethu â dychwelyd y ffurflen, yn atal yn fwriadol wybodaeth a fyddai'n galluogi ACC i asesu atebolrwydd ("rhwymedigaeth" yn Neddf 2016) y DLlY am dalu'r ardoll, y gosb yw £300, neu swm uwch na hynny nad yw'n fwy na 95% o'r ardoll ymwelwyr y byddai'r DLlY wedi bod yn atebol am ei thalu pe bai'r ffurflen wedi ei dychwelyd. Pan fo'r ffurflen yn hwyr, ond na fo'r DLlY wedi atal gwybodaeth yn fwriadol, y gosb yw'r mwyaf o £300 a 5% o'r ardoll ymwelwyr y byddai'r DLlY wedi bod yn atebol am ei thalu pe bai'r ffurflen wedi ei dychwelyd.

231. Mae **paragraff 41** yn diwygio adran 121(1) o Ddeddf 2016 fel y gellir gostwng cosbau ariannol yn achos y trethi datganoledig ac yn achos yr ardoll ymwelwyr.

232. Mae **paragraff 42** yn diwygio adran 122 o Ddeddf 2016 er mwyn mewnosod rheolau ar gyfer cosbau ariannol pan fydd DLlY yn methu â thalu'r ardoll ymwelwyr i ACC erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus. Y gosb am fethu â thalu'r ardoll ymwelwyr mewn pryd yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd, ond, os yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100; ac, os yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000. Gwneir diwygiadau eraill i adran 122 sy'n ganlyniadol ar adran newydd 122B ac er mwyn mewnosod llinell newydd yn Nhabl A1 i bennu'r dyddiad cosbi mewn cysylltiad â swm o ardoll ymwelwyr.

233. Mae **paragraff 43** yn mewnosod adran newydd 122B yn Neddf 2016. Mae'r adran newydd yn darparu cosbau am barhau i fethu â thalu'r ardoll ymwelwyr. Mae DLlY yn dod yn atebol am dalu cosbau pellach am dalu'n hwyr os yw swm o ardoll ymwelwyr yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl 6 mis. Y gosb yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu, ond, os yw 5% o'r swm nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100; ac, os yw 5% o'r swm nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000. Os yw'r ardoll ymwelwyr yn parhau i fod heb ei thalu 12 mis ar ôl y dyddiad y cododd atebolrwydd am dalu'r gosb o dan adran 122 o Ddeddf 2016, yna cymhwysir cosb ar sail yr un dull cyfrifo ag ar ôl 6 mis i swm yr ardoll ymwelwyr sy'n ddyledus ar y dyddiad cosbi 12 mis.

234. Mae **paragraffau 44 i 46** yn diwygio adrannau 126, 127 a 128 o Ddeddf 2016 i gynnwys croesgyfeiriadau at gosbau'r ardoll ymwelwyr fel bod y rheolau sydd yn yr adrannau hynny yn gymwys i'r cosbau sy'n gysylltiedig â'r ardoll ymwelwyr.

**Paragraff 47 - Diwygio Rhan 8 o Ddeddf 2016**

235. Mae **paragraff 47** yn diwygio adran 172(2) o Ddeddf 2016 er mwyn mewnosod dau benderfyniad apeliadwy newydd. Y cyntaf yw penderfyniad sy'n ymwneud â phwynt cosb am fethu â dychwelyd ffurflen. Yr ail yw penderfyniad i ddyroddi hysbysiad trethdalwr, neu i gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, os nad oedd y tribiwnlys wedi cymeradwyo dyroddi'r hysbysiad.

**Paragraffau 48 i 53 - Diwygio Rhan 10 o Ddeddf 2016**

236. Mae **paragraff 48** yn mewnosod adran newydd 187B yn Neddf 2016 o ran cymhwyso i'r Goron mewn perthynas â'r gofrestr a'r ardoll ac yn sicrhau bod Deddf 2016 yn rhwymo'r Goron. Mae is-adran (2) yn datgan nad yw'n gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd ond mae'n gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron.

237. Mae **paragraff 49** yn diwygio adran 189 o Ddeddf 2016 er mwyn sicrhau bod y pŵer i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru gan adran newydd 24A o Ddeddf 2016 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan fydd y pŵer yn cael ei arfer.

238. Mae **paragraff 50** yn diwygio adran 190 o Ddeddf 2016 ynghylch dyroddi hysbysiadau gan ACC er mwyn cynnwys Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. Ymhellach, mae'r diwygiadau yn darparu bod y cyfeiriad ar gyfer y ffurflen dreth ddiweddaraf a anfonwyd i ACC hefyd yn gyfeiriad priodol at ddibenion cyflwyno hysbysiad i drethdalwr neu i berson arall. Bydd y rheol newydd hon yn gymwys i hysbysiadau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr ac â'r trethi datganoledig.

239. Mae **paragraff 51** yn diwygio adran 191 o Ddeddf 2016, sy'n ymwneud â rhoi hysbysiadau neu wybodaeth i ACC, er mwyn cynnwys Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

240. Mae **paragraff 52** yn diwygio adran 192, sef adran ddehongli Deddf 2016, er mwyn hepgor "trethdalwr datganoledig" ac i gynnwys "ardoll ymwelwyr", "prif gyngor", "treth a gesglir gan ACC" a "trethdalwr". Ychwanegir is-adran newydd er mwyn darparu diffiniad o'r adeg y mae prif gyngor wedi penderfynu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn ei ardal.

241. Mae **paragraff 53** yn diwygio adran 193 o Ddeddf 2016 er mwyn mewnosod termau ychwanegol yn y mynegai o ymadroddion a ddiffinnir, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: "ardoll ymwelwyr", "ffurflen treth ddatganoledig", "prif gyngor", "treth a gesglir gan ACC", "trethdalwr" etc.

# ATODIAD 2

# MYNEGAI O OFYNION Y RHEOLAU SEFYDLOG

Tabl 27

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalen 5-7, 13-14 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 44-49 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 17-18 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 18-24 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 24 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalen 103 - 134 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau – 41 - 44 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 44 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 27 - 40 |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Amherthnasol |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 96 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | Amherthnasol |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau | Tudalen 139 - 185 |

# ATODIAD 3

## Atodlen o ddiwygiadau

**Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN FIL LLETY YMWELWYR (COFRESTR AC ARDOLL) ETC. (CYMRU) 2025**

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, **Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019** fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 24 Mehefin 2025 yn edrych fel y'u diwygid gan Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll Etc.(Cymru) pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar 25 Tachwedd 2024.

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll Etc.(Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll Etc.(Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. <u>mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll Etc.(Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

**Darpariaethau gweinyddu a rheoli trethi sy'n effeithio ar Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**

| | |
|---|---|
| Gwneir diwygiad cyffredinol yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Ym mhob man yn y Ddeddf lle y crybwyllir "datganoledig" neu "ddatganoledig" **ac eithrio o'r rhestr isod, bydd y rhain yn cael eu disodli i ddarllen "a gesglir gan ACC".** Mae hyn er mwyn galluogi ACC i gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr, sydd yn dreth leol.<br><br>Mae'r adran yn nodi:<br>Yn lle "datganoledig" a "ddatganoledig", ym mhob lle y maent yn digwydd yn Neddf 2016 (ac yn ddarostyngedig i'r diwygiadau eraill y darperir ar eu cyfer yn yr Atodlen hon), rhodder "a gesglir gan ACC"; ond nid yn y darpariaethau a ganlyn—<br><br>(a) adran 1(ba) (trosolwg o'r Ddeddf);<br>(b) adran 12(2) (a ddiwygir gan baragraff 3) (prif swyddogaethau ACC);<br>(c) adran 18(1)(j) (datgelu a ganiateir sy'n ymwneud â threthi datganoledig yr Alban);<br>(d) adran 25 (a ddiwygir gan baragraff 7) (talu i Gronfa Gyfunol Cymru);<br>(e) adran 26(2) (a ddiwygir gan baragraff 8) (Siarter safonau a gwerthoedd);<br>(f) Rhan 3A (y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi);<br>(g) adran 117A (a fewnosodir gan baragraff 18) (dehongli a chymhwyso Rhan 5 o Ddeddf 2016 mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr);<br>(h) adrannau 118 i 120, a'r pennawd italig sy'n dod o'u blaenau (diwygir y darpariaethau hynny gan baragraffau 19 i 22) (cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth);<br>(i) yn adran 122(3), yn Nhabl A1, eitem 7 (dyddiadau cosbi sy'n ymwneud â'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi);<br>(j) adran 122A (cosbau pellach am barhau i fethu â thalu treth ddatganoledig); | **Paragraff 2 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (k) adran 136(5) (refeniw posibl a gollir: gwrthbwyso trethi datganoledig);<br>(l) yn adran 192(2) (dehongli), yn y diffiniadau o—<br>(i) "treth ddatganoledig";<br>(ii) "trethdalwr datganoledig" (a hepgorir gan baragraff x);<br>(iii) "DTTT";<br>(iv) "treth a gesglir gan ACC" (a fewnosodir gan baragraff 35(a)(ii));<br>(m) adran 193 (mynegai o ymadroddion a ddiffinnir). | |
| **Rhan 2**<br><br>**AWDURDOD CYLLID CYMRU**<br><br>*Sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, a'i statws*<br><br>*Swyddogaethau*<br><br>**12 Prif swyddogaethau**<br><br>(1) Swyddogaeth gyffredinol ACC yw casglu a rheoli trethi datganoledig.<br><br>(2) Mae gan ACC y swyddogaethau penodol a ganlyn—<br><br>(a) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i Weinidogion Cymru;<br>(b) darparu gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â ~~threthi datganoledig i drethdalwyr datganoledig~~ threthi a gesglir gan ACC i drethdalwyr, eu hasiantiaid a phersonau eraill;<br>(c) datrys cwynion ac anghydfodau yn ymwneud â threthi datganoledig;<br>(d) hybu cydymffurfedd â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi datganoledig ac amddiffyn rhag efadu trethi ac osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig.<br>(e) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.<br><br>(2A) Mae gan ACC hefyd swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Llety 10 Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00) (cofrestr o lety ymwelwyr).<br>(3) Rhaid i ACC ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth, unrhyw gyngor neu unrhyw gymorth yn ymwneud â'i swyddogaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd ar unrhyw ffurf y bydd Gweinidogion Cymru yn ei phennu. | **Paragraff 2 a 20 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (4) Yn ychwanegol at unrhyw bwerau eraill sydd ganddo, caiff ACC wneud unrhyw beth sydd, yn ei farn ef—<br>(a)yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau, neu<br>(b)yn atodol i arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol i hynny. | |
| **15 Cyfarwyddydau cyffredinol**<br><br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau o natur gyffredinol i ACC.<br><br><u>(1A) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) nad yw'n ymwneud ond â swyddogaethau ACC sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal.</u><br><br>(2) Rhaid i ACC, wrth arfer ei swyddogaethau, gydymffurfio â chyfarwyddydau a roddir o dan is-adran (1).<br><br>(3) Ni chaiff cyfarwyddydau a roddir o dan is-adran (1) ymwneud ag arfer y swyddogaethau yn adrannau 29 na 30.<br>(4) Caniateir amrywio neu ddirymu cyfarwyddydau o dan yr adran hon unrhyw bryd.<br>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddydau a roddir o dan is-adran (1). | **Paragraff 21 o Atodlen 2** |
| **17Cyfrinachedd gwybodaeth warchodedig am drethdalwr**<br>**(1)Ni chaiff unigolyn sy'n swyddog perthnasol, neu sydd wedi bod yn swyddog perthnasol, ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr oni bai bod adran 18 yn caniatáu ei datgelu.**<br>**(2)Yn yr adran hon ac yn adran 19, ystyr "swyddog perthnasol" yw unigolyn—**<br>**(a)sy'n aelod o ACC, yn aelod o bwyllgor o ACC, neu'n aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath,**<br>**(b)sy'n berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo, yn aelod o gorff y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo, yn aelod o bwyllgor o gorff o'r fath neu'n aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath, neu'n dal swydd mewn corff o'r fath,**<br>**(c)sy'n aelod o staff ACC,**<br>**(d)sy'n aelod o staff person y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo a gyflogir mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau hynny,** | **<u>Paragraff 3 o Atodlen 2</u>** |

| | |
|---|---|
| **(e)sy'n berson sy'n darparu gwasanaethau i ACC, neu**<br>**(f)sy'n berson sy'n darparu gwasanaethau i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau hynny.**<br>**(3)Yn is-adran (1) ac adran 18, ystyr "gwybodaeth warchodedig am drethdalwr" yw gwybodaeth yn ymwneud â pherson (y "person a effeithir")—**<br>**(a)a ddaeth i law ACC neu a ddaeth i law person y dirprwywyd unrhyw un neu ragor o swyddogaethau ACC iddo mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, a**<br>**(b)y gellir adnabod y person a effeithir ohoni (boed oherwydd bod yr wybodaeth yn nodi pwy yw'r person a effeithir neu oherwydd y gellir casglu pwy ydyw ohoni).**<br>**(4)Ond nid yw gwybodaeth yn "wybodaeth warchodedig am drethdalwr" os yw'n wybodaeth am drefniadau gweinyddol mewnol ACC neu berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo (pa un a yw'r wybodaeth yn ymwneud ag aelodau o staff ACC neu staff person o'r fath neu â phersonau eraill).** | |
| *Gwybodaeth*<br><br>**18 Datgelu a ganiateir**<br><br>(1) Mae'r adran hon yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig ~~am drethdalwr—~~<br><br>(za) os gwneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC, heblaw'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 12(2)(a) ac (e), a (3),<br>(a) os gwneir hynny gyda chydsyniad pob person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef,<br>(b) os gwneir hynny er mwyn cael gwasanaethau mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC,<br>(c) os gwneir hynny at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal troseddu neu ganfod trosedd,<br>(d) os gwneir hynny i gorff sydd â chyfrifoldeb am reoleiddio proffesiwn mewn cysylltiad â chamymddwyn ar ran aelod o'r proffesiwn sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau ACC,<br>(e) os gwneir hynny at ddibenion achos sifil,<br>(f) os gwneir hynny yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys,<br>(g) os gwneir hynny yn unol â deddfiad sy'n gwneud ei datgelu yn ofynnol neu'n caniatáu hynny,<br>(h) os gwneir hynny i ACC neu i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo ar gyfer ei defnyddio yn unol ag adran 16 | **Paragraff 4 a 19 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (i) os gwneir hynny i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, neu<br>(j) os gwneir hynny i Gyllid yr Alban mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad â chasglu a rheoli treth ddatganoledig o fewn yr ystyr a roddir i "devolved tax" yn Neddf yr Alban 1998 (p. 46).<br><u>(k) os yw'r datgeliad yn datgelu gwybodaeth a ddaeth i law mewn cysylltiad â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00), a 20 gwneir y datgeliad— (i) i brif gyngor mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau'r prif gyngor, neu (ii) i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan adran 2 o Ddeddf Datblygu 25 Twristiaeth 1969 (p. 51).</u><br><br>(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau. | |
| ***20 Y drosedd o ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr ar gam***<br><br>*(1)Mae unigolyn sy'n datgelu gwybodaeth yn groes i adran 17(1) yn cyflawni trosedd.*<br>*(2)Mae'n amddiffyniad i unigolyn a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (1) brofi bod yr unigolyn yn credu'n rhesymol—*<br>*(a)bod adran 18 yn caniatáu datgelu'r wybodaeth, neu*<br>*(b)bod yr wybodaeth eisoes wedi ei darparu yn gyfreithlon i'r cyhoedd.*<br>*(3)Mae unigolyn sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored—*<br>*(a)ar gollfarn ddiannod, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis neu i ddirwy (neu'r ddau);*<br>*(b)ar gollfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd neu i ddirwy (neu'r ddau).*<br>*(4)Nid yw'r adran hon yn effeithio ar y gallu i fynd ar drywydd unrhyw rwymedi na chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â thorri adran 17(1).* | **<u>Paragraff 5 o Atodlen 2</u>** |
| *Arian*<br><br>**24 Gwobrau** | |

| | |
|---|---|
| Caiff ACC roi gwobr i berson yn dâl am wasanaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.<br><br>**24A Talu enillion net yr ardoll ymwelwyr i brif gynghorau**<br>(1) Rhaid i ACC, mewn perthynas â phob sir neu fwrdeistref sirol y mae'r ardoll ymwelwyr wedi ei chyflwyno ynddi, gadw cyfrif ar wahân ar gyfer enillion yr ardoll ymwelwyr a gesglir mewn cysylltiad â'r sir neu'r fwrdeistref sirol honno.<br><br>(2) Rhaid i ACC dalu enillion yr ardoll ymwelwyr a gesglir bob blwyddyn ariannol mewn cysylltiad ag ardal prif gyngor (gan gynnwys unrhyw log ar yr enillion) i'r prif gyngor hwnnw, yn ddim hwyrach nag—<br>(a) 30 Mehefin yn y flwyddyn ariannol ganlynol, neu<br>(b) unrhyw ddyddiad arall y cytunir arno rhwng ACC a'r prif gyngor.<br><br>(3) Ond, yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran (5), rhaid i ACC wneud hynny ar ôl didynnu o'r enillion a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol unrhyw symiau y mae ACC yn ystyried eu bod yn briodol o ran y costau y mae wedi mynd iddynt mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr ar gyfer yr ardal honno.<br><br>(4) Caiff ACC hefyd, yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran (5), ddidynnu o'r enillion a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol unrhyw symiau y mae ACC yn ystyried eu bod yn briodol o ran costau y mae ACC yn ystyried y gallai fynd iddynt ac alldaliadau y mae ACC yn ystyried y gallent ddod yn daladwy—<br>(a) mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr ar gyfer yr ardal honno, ond<br>(b) ar ôl iddo dalu'r enillion ar gyfer y flwyddyn honno i'r prif gyngor.<br><br>(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch didynnu symiau o ran costau, neu ddidynnu alldaliadau, gan gynnwys darpariaeth—<br>(a) sy'n cyfyngu ar faint o gostau neu alldaliadau y caniateir i ACC eu didynnu (gan gynnwys drwy gyfeirio at ganran o'r alldaliadau neu'r costau yr eir iddynt neu at uchafswm y caniateir ei ddidynnu, neu drwy ddulliau eraill);<br>(b) ynghylch sut y mae costau ac alldaliadau i'w dosrannu rhwng prif gynghorau sydd wedi cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd; | **Paragraff 23 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (c) sy'n pennu mathau o gost neu alldaliad y caniateir, y mae rhaid, neu na chaniateir eu didynnu.<br><br>(6) At ddibenion yr adran hon—<br>(a) mae cyfeiriadau at enillion yr ardoll ymwelwyr yn cynnwys unrhyw gosbau ariannol a gesglir mewn perthynas â'r ardoll;<br>(b) nid yw taliadau i brif gynghorau o dan is-adran (2) yn alldaliadau | |
| **25 Talu derbyniadau i Gronfa Gyfunol Cymru**<br><br>(1) Rhaid i ACC dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig i Gronfa Gyfunol Cymru.<br><br>(2) Ond caiff ACC wneud hynny ar ôl didynnu alldaliadau ar ffurf ad-daliadau o drethi datganoledig (gan gynnwys llog ar ad-daliadau o'r fath) a chredydau mewn cysylltiad â threthi datganoledig.<br><br>(3) Rhaid i ACC dalu i Gronfa Gyfunol Cymru symiau a ddidynnir o dan adran 24A(3) neu (4), mewn cysylltiad â chostau, o enillion yr ardoll ymwelwyr. | **Paragraff 24 o Atodlen 2** |
| *Siarter safonau a gwerthoedd*<br><br>**26 Siarter safonau a gwerthoedd**<br><br>(1) Rhaid i ACC baratoi Siarter.<br><br>(2) Rhaid i'r Siarter gynnwys—<br>(a) safonau gwasanaeth, safonau ymddygiad a gwerthoedd y disgwylir i ACC gadw atynt wrth ymdrin â threthdalwyr ~~datganoledig~~, eu hasiantiaid, prif gynghorau a phersonau eraill wrth arfer ei swyddogaethau, a<br>(b) safonau ymddygiad a gwerthoedd y mae ACC yn disgwyl i drethdalwyr ~~datganoledig~~, eu hasiantiaid, prif gynghorau a phersonau eraill gadw atynt wrth ymdrin ag ACC.<br><br>(3) Rhaid i ACC—<br>(a) cyhoeddi'r Siarter,<br>(b) adolygu'r Siarter—<br>(i) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y Siarter, a<br>(ii) wedi hynny, o leiaf unwaith yn y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dilyn adolygiad, ac | **Paragraff 25 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (c) diwygio'r Siarter pan fo'n briodol gwneud hynny, ym marn ACC, a chyhoeddi'r Siarter ddiwygiedig.<br><br>(4) Cyn cyhoeddi'r Siarter neu Siarter ddiwygiedig rhaid i ACC ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn ei farn.<br><br>(5) Rhaid i ACC osod y Siarter ac unrhyw Siarter ddiwygiedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>(6) Rhaid cyhoeddi'r Siarter gyntaf o fewn 3 mis i'r adran hon ddod i rym. | |
| *Cynlluniau corfforaethol, adroddiadau blynyddol, cyfrifon ac ati.*<br><br>**27 Cynllun corfforaethol**<br><br>(1) Rhaid i ACC, ar gyfer pob cyfnod cynllunio, baratoi cynllun corfforaethol a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.<br><br>(2) Rhaid i'r cynllun corfforaethol nodi—<br>(a)prif amcanion ACC ar gyfer y cyfnod cynllunio,<br>(b)y canlyniadau y gellir mesur i ba raddau y cyflawnwyd y prif amcanion drwy gyfeirio atynt, ac<br>(c)y gweithgareddau y mae ACC yn disgwyl ymgymryd â hwy yn ystod y cyfnod cynllunio.<br><br><u>(2A) Cyn cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i ACC ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal ar unrhyw amcanion, unrhyw ganlyniadau neu unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr.</u><br><br>(3) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun corfforaethol yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau a gytunir rhyngddynt hwy ac ACC.<br><br>(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r cynllun corfforaethol, rhaid i ACC—<br><br>(a)cyhoeddi'r cynllun, a<br>(b)gosod copi o'r cynllun gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>(5) Caiff ACC, yn ystod y cyfnod cynllunio y mae cynllun corfforaethol yn ymwneud ag ef, adolygu'r cynllun a chyflwyno cynllun corfforaethol diwygiedig i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. | **Paragraff 26 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (6) Mae is-adrannau (2) i (4) yn gymwys i gynllun corfforaethol diwygiedig fel y maent yn gymwys i gynllun corfforaethol.<br><br>(7) Ystyr "cyfnod cynllunio" yw—<br><br>(a)cyfnod cyntaf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, a<br>(b)pob cyfnod dilynol o 3 blynedd.<br><br>(8) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau roi unrhyw gyfnod arall sy'n briodol yn eu barn hwy yn lle'r cyfnod a bennir am y tro yn is-adran (7)(b).<br><br>(9) Rhaid cyflwyno'r cynllun corfforaethol ar gyfer y cyfnod cynllunio cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo yn ddim hwyrach na 6 mis ar ôl sefydlu ACC; a rhaid cyflwyno'r cynllun corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio dilynol cyn dechrau'r cyfnod cynllunio. | |
| **29 Cyfrifon**<br><br>(1) Rhaid i ACC—<br><br>(a)cadw cofnodion cyfrifo priodol, a<br>(b)paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru.<br><br>(2) Caiff y cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru gynnwys (ymysg pethau eraill) gyfarwyddydau o ran—<br><br>(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae'r cyfrifon i'w cyflwyno;<br>(b) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i'w paratoi yn unol â hwy;<br>(c) gwybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r cyfrifon.<br><br>(2A) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1)(b) nad yw'n ymwneud ond â'r ardoll ymwelwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal."<br><br>(3) Caniateir amrywio neu ddirymu cyfarwyddydau o dan yr adran hon unrhyw bryd. | **Paragraff 27 o Atodlen 2** |
| **30 Datganiad Treth**<br><br>(1) Rhaid i ACC baratoi mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion | |

| | |
|---|---|
| Cymru, ddatganiad o swm yr arian a gasglwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau ("Datganiad Treth").<br><br>(1A) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) nad yw'n ymwneud ond â'r ardoll ymwelwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll yn ei ardal.<br><br>(2) Caniateir amrywio neu ddirymu cyfarwyddydau o dan yr adran hon unrhyw bryd. | **Paragraff 6 a 28 o Atodlen 2** |
| **31 Archwilio**<br>(1) Rhaid i ACC gyflwyno—<br>(a)y cyfrifon a baratowyd ar gyfer blwyddyn ariannol, a<br>(b)y Datganiad Treth ar gyfer blwyddyn ariannol,<br>i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddim hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ganlynol.<br><br>(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—<br>(a)archwilio, ardystio ac adrodd ar y cyfrifon a'r Datganiad Treth, a<br>(b)yn ddim hwyrach na diwedd y cyfnod o 4 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y'u cyflwynir, gosod copi o'r cyfrifon a'r Datganiad Treth ardystiedig, a'r adroddiadau arnynt, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>(3) Wrth archwilio'r cyfrifon a gyflwynir o dan yr adran hon, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru fod wedi ei fodloni yn benodol—<br>(a)yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu, a<br>(b)nad yw arian a dderbyniwyd at ddiben penodol neu at ddibenion penodol wedi ei wario ar unrhyw beth heblaw'r diben hwnnw neu'r dibenion hynny.<br><br>(4) Wrth archwilio'r Datganiad Treth a gyflwynir o dan yr adran hon, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru fod wedi ei fodloni yn benodol—<br>(a)bod yr arian a gasglwyd gan ACC, y mae'r Datganiad Treth yn ymwneud ag ef, wedi ei gasglu'n gyfreithlon, a<br>(b)bod unrhyw alldaliadau a ddidynnwyd wedi eu didynnu yn unol ag adran 24A neu 25(2). | **Paragraff 29 o Atodlen 2** |
| **33 Swyddog cyfrifo** | |

| | |
|---|---|
| **(1)Prif weithredwr ACC yw swyddog cyfrifo ACC.**<br>**(2)Mae gan y swyddog cyfrifo, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid ACC, y cyfrifoldebau a bennir am y tro gan Weinidogion Cymru.**<br>**(3)Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan yr adran hon yn cynnwys (ymysg pethau eraill)—**<br>**(a)cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon ACC a'r Datganiad Treth;**<br>**(b)cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid ACC;**<br>**(c)cyfrifoldebau am ddefnyddio adnoddau ACC yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;**<br>**(d)cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i Weinidogion Cymru neu i un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** | **Paragraff 8 a o Atodlen 2** |
| **Rhan 3**<br><br>**FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU**<br><br>**PENNOD 3**<br><br>FFURFLENNI TRETH<br>*Dyddiad ffeilio*<br><br>**40 Ystyr "dyddiad ffeilio"**<br><br>(1) Yn Neddfau Trethi Cymru —<br>(a) ystyr "dyddiad ffeilio", mewn perthynas â ffurflen dreth ar gyfer treth trafodiadau tir, yw'r diwrnod erbyn pryd y mae'n ofynnol dychwelyd y ffurflen o dan DTTT;<br>(b) mae i "dyddiad ffeilio", mewn perthynas â ffurflen dreth ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi, yr ystyr a roddir gan adran 39(4) o DTGT.<br><br><u>(2) Yn y Ddeddf hon, mae i "dyddiad ffeilio", mewn perthynas â ffurflen ardoll ymwelwyr, yr ystyr a roddir gan adran 16 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00).</u> | |
| **PENNOD 6**<br><br>Asesiadau ACC<br><br>*Gwneud asesiadau ACC*<br><br>**58 Amodau ar gyfer gwneud asesiadau ACC**<br><br>(1) O ran asesiad ACC— | |

| | |
|---|---|
| (a) caniateir ei wneud yn y **[**pedwar**]** achos a bennir yn is-adrannau **[** (2), (3) , (3A) a (3B)**]** yn unig, a<br>(b) ni chaniateir ei wneud yn yr amgylchiadau a bennir yn is-adran (4).<br><br>(2) Yr achos cyntaf yw pan fo'r sefyllfa a grybwyllir yn adran 54 neu 55 wedi ei pheri'n ddiofal neu'n fwriadol gan—<br>(a) y trethdalwr,<br>(b) person sy'n gweithredu ar ran y trethdalwr, neu<br>(c) person a oedd yn bartner yn yr un bartneriaeth â'r trethdalwr.<br><br>(3) Yr ail achos yw—<br>(a) pan fo ffurflen dreth wedi ei dychwelyd,<br>(b) pan fo hawl ACC i ddyroddi hysbysiad ymholiad i'r ffurflen dreth wedi dod i ben, neu pan fo wedi cwblhau ei ymholiadau iddi, ac<br>(c) ar yr adeg y daeth yr hawl honno ar ran ACC i ben neu y cwblhaodd yr ymholiadau hynny, na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo fod yn ymwybodol o'r sefyllfa a grybwyllir yn adran 54 na 55 ar sail gwybodaeth a ddarparwyd i ACC cyn yr adeg honno.<br><br>(3A) Y trydydd achos yw pan fo ACC yn gwneud addasiad o dan y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi (gweler Rhan 3A, ac adran 81E yn benodol).<br>(3B) Y pedwerydd achos yw pan fo ACC wedi dod i'r casgliad fod y sefyllfa a ddisgrifir yn adran 55A wedi digwydd.<br><br>(4) Ni chaniateir gwneud asesiad ACC yn yr achos cyntaf na'r ail achos —<br>(a)os gellir priodoli'r sefyllfa a grybwyllir yn adran 54 neu 55 i gamgymeriad mewn ffurflen dreth o ran ar ba sail y dylid bod wedi cyfrifo'r rhwymedigaeth i'r dreth ddatganoledig, a<br>(b)os gwnaed y camgymeriad oherwydd bod y ffurflen dreth wedi ei dychwelyd ar y sail a oedd yn bodoli ar yr adeg y'i dychwelwyd, neu yn unol â'r arfer a oedd yn bodoli'n gyffredinol bryd hynny.<br><br><u>(5) At ddibenion is-adran (3)(c), ystyrir bod gwybodaeth wedi ei darparu i ACC—</u><br><u>(a) os yw wedi ei chynnwys mewn ffurflen dreth,</u><br><u>(b) os yw wedi ei chynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynir neu unrhyw wybodaeth a ddarperir i ACC at ddibenion ymholiad i unrhyw ffurflen o'r fath, neu</u><br><u>(c) os yw'n wybodaeth—</u><br><u>(i) y gellid disgwyl yn rhesymol i ACC gasglu ei bod yn bodoli o wybodaeth sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b), neu</u> | Paragraff 31 a atodlen 2 |

| | |
|---|---|
| <u>(ii) y mae'r trethdalwr neu berson sy'n gweithredu ar ran y trethdalwr yn hysbysu ACC yn ysgrifenedig ei bod yn bodoli."</u> | |
| **Rhan 3A**<br><br>**Y RHEOL GYFFREDINOL YN ERBYN OSGOI<u>: TRETHI DATGANOLEDIG</u>** | **Paragraff 32 o Atodlen 2** |
| *Trosolwg*<br><br>**81A Ystyr "y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi" a throsolwg ohoni**<br><br>(1) Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth <u>sy'n ymwneud â threthi datganoledig</u> ar gyfer gwrthweithio manteision treth sy'n deillio o drefniadau artiffisial i osgoi trethi, gan gynnwys darpariaeth—<br>(a) ynghylch ystyr "trefniant osgoi trethi", "artiffisial" a "mantais drethiannol" (adrannau 81B i 81D);<br>(b) ynghylch pŵer ACC i wneud addasiadau i wrthweithio manteision treth a'r camau i'w cymryd gan ACC mewn cysylltiad ag addasiadau o'r fath (adrannau 81E i 81G).<br><br>(2) Enw'r rheolau yn y Rhan hon gyda'i gilydd yw "y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi".<br><br>*Trefniadau artiffisial i osgoi trethi*<br><br>**81B Trefniadau osgoi trethi**<br>(1) At ddibenion y Rhan hon, mae trefniant yn "trefniant osgoi trethi" os cael mantais drethiannol ar gyfer unrhyw berson yw'r prif ddiben, neu un o'r prif ddibenion, pam y mae trethdalwr <u>datganoledig</u> yn ymrwymo i'r trefniant.<br><br>(2) Wrth benderfynu ai prif ddiben trefniant, neu un o'i brif ddibenion, yw cael mantais drethiannol, caniateir ystyried yn benodol y swm o dreth ddatganoledig a fyddai i'w godi yn absenoldeb y trefniant.<br><br>(3) Yn y Rhan hon—<br>(a) mae "trefniant" yn cynnwys unrhyw drafodiad, unrhyw gynllun, unrhyw weithred, unrhyw weithrediad, unrhyw gytundeb, unrhyw grant, unrhyw ddealltwriaeth, unrhyw addewid, unrhyw ymgymeriad, unrhyw ddigwyddiad neu unrhyw gyfres o unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny (pa un a ellir ei orfodi neu ei gorfodi'n gyfreithiol ai peidio); | **Paragraff 33 o Atodlen 2** |

(b) mae cyfeiriadau at drefniant i'w darllen fel pe baent yn cynnwys—

(i) cyfres o drefniadau, a

(ii) unrhyw ran o drefniant neu unrhyw gam o drefniant sy'n cynnwys mwy nag un ran neu gam;

(c) ystyr "trethdalwr datganoledig" yw person sy'n agored i dreth ddatganoledig neu a fyddai'n agored iddi oni bai am y trefniant osgoi trethi o dan sylw.

**81CTrefniadau artiffisial i osgoi trethi**

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae trefniant osgoi trethi yn "artiffisial" os nad yw ymrwymo iddo neu ei gyflawni yn weithred resymol mewn perthynas â darpariaethau deddfwriaeth drethi Cymru sy'n gymwys i'r trefniadau.

(2) Wrth benderfynu pa un a yw'r trefniant osgoi trethi yn artiffisial, caniateir ystyried yn benodol—

(a)unrhyw sylwedd economaidd neu fasnachol dilys sydd i'r trefniant (ac eithrio cael mantais drethiannol);

(b)pa un ai canlyniad y trefniant yw bod swm o dreth i'w godi y mae'n rhesymol cymryd nad hwnnw oedd y canlyniad a ragwelwyd pan ddeddfwyd darpariaeth berthnasol deddfwriaeth drethi Cymru.

(3) Ond nid yw trefniant yn artiffisial os oedd, ar yr adeg yr ymrwymwyd iddo neu y'i cyflawnwyd—

(a)y trefniant yn gyson â'r arferion a oedd yn bodoli'n gyffredinol ar y pryd, a

(b)ACC wedi mynegi ei fod yn derbyn yr arfer hwnnw.

(4) Pan fo trefniant osgoi trethi yn rhan o unrhyw drefniadau eraill, rhaid rhoi sylw i'r trefniadau eraill hynny hefyd wrth benderfynu pa un a yw'r trefniant osgoi trethi yn artiffisial.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth drethi Cymru" yw—

(a)Deddfau Trethi Cymru, a

(b)unrhyw is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30)) a wneir o dan y Deddfau hynny.

**81D Ystyr "treth" a "mantais drethiannol**

At ddibenion y Rhan hon—

- ystyr "treth" ("*tax*") yw unrhyw dreth ddatganoledig.
- ystyr "mantais drethiannol" ("*tax advantage*") yw—

(a) rhyddhad rhag treth neu gynnydd mewn rhyddhad rhag treth,

| | |
|---|---|
| (b) ad-daliad treth neu gynnydd mewn ad-daliad treth,<br>(c) osgoi swm y codir treth arno neu leihau swm y codir treth arno,<br>(d) gohirio talu treth neu ddwyn ymlaen ad-daliad treth,<br>(e) osgoi rhwymedigaeth i ddidynnu treth neu roi cyfrif am dreth, ac<br>(f) credyd treth neu gredyd treth uwch.<br><br>*Gwrthweithio manteision treth*<br><br>**81E Addasiadau i wrthweithio manteision treth**<br>(1) Caiff ACC wneud unrhyw addasiadau y mae o'r farn eu bod yn deg ac yn rhesymol i wrthweithio mantais drethiannol a fyddai (gan anwybyddu'r Rhan hon) yn deillio o drefniant artiffisial i osgoi trethi.<br><br>(2) Caniateir gwneud addasiad mewn cysylltiad â'r dreth ddatganoledig o dan sylw neu unrhyw dreth ddatganoledig arall.<br>(3) Rhaid i addasiad gael ei wneud—<br>(a)pan fo'r addasiad yn ymwneud â ffurflen dreth y mae ymholiad ar y gweill mewn cysylltiad ag ef, drwy ddiwygio'r ffurflen dreth mewn hysbysiad cau a ddyroddir o dan adran 50;<br>(b)fel arall drwy asesiad ACC.<br><br>(4) Ni chaniateir i ACC wneud addasiad oni bai ei fod wedi cydymffurfio â gofynion adrannau 81F ac 81G.<br><br>**81F Hysbysiad gwrthweithio arfaethedig**<br>(1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwrthweithio arfaethedig") i drethdalwr datganoledig os yw ACC o'r farn—<br>(a) bod mantais drethiannol i berson wedi deillio o drefniant artiffisial i osgoi trethi, a<br>(b) y dylid gwrthweithio'r fantais drethiannol drwy addasiad o dan adran 81E.<br><br>(2) Rhaid i hysbysiad gwrthweithio arfaethedig—<br>(a) pennu'r trefniant osgoi trethi a'r fantais drethiannol,<br>(b) esbonio pam fod ACC o'r farn bod mantais drethiannol wedi deillio o drefniant artiffisial i osgoi trethi,<br>(c) nodi'r addasiad y mae ACC yn bwriadu ei wneud er mwyn gwrthweithio'r fantais drethiannol,<br>(d) pennu unrhyw swm y bydd yn ofynnol i'r trethdalwr datganoledig ei dalu yn unol â'r asesiad ACC arfaethedig, ac<br>(e) hysbysu'r trethdalwr datganoledig —<br>(i) bod hysbysiad gwrthweithio terfynol i'w ddyroddi ar ôl diwedd y cyfnod o 45 o | |

ddiwrnodau sy'n dechrau â diwrnod dyroddi'r hysbysiad gwrthweithio arfaethedig,

(ii) y caiff y trethdalwr datganoledig ofyn i ACC ymestyn y cyfnod 45 diwrnod hwnnw, a

(iii) y caniateir i'r trethdalwr datganoledig gyflwyno sylwadau i ACC ar unrhyw adeg cyn dyroddi'r hysbysiad gwrthweithio terfynol.

**81G Hysbysiad gwrthweithio terfynol**

(1) Rhaid i ACC, ar ôl diwedd y cyfnod o 45 o ddiwrnodau a grybwyllir yn adran 81F(2)(e)(i) neu unrhyw gyfnod hwy y mae ACC wedi cytuno iddo, ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwrthweithio terfynol") i'r trethdalwr datganoledig.

(2) Rhaid i hysbysiad gwrthweithio terfynol ddatgan pa un a yw'r fantais drethiannol sy'n deillio o'r trefniant osgoi trethi i'w gwrthweithio drwy addasiad o dan adran 81E.

(3) Wrth benderfynu pa un a yw'r fantais drethiannol i'w gwrthweithio rhaid i ACC ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wneir gan y trethdalwr datganoledig.

(4) Os yw hysbysiad gwrthweithio terfynol yn datgan bod mantais drethiannol i'w gwrthweithio drwy addasiad rhaid i'r hysbysiad hefyd—

(a) pennu'r addasiad sy'n ofynnol i roi effaith i'r gwrthweithio,

(b) pan fo'r addasiad yn ymwneud â ffurflen dreth y mae ymholiad ar y gweill mewn cysylltiad ag ef, pennu'r diwygiad i'r ffurflen dreth sydd i'w gynnwys yn yr hysbysiad cau a ddyroddir o dan adran 50 pan fydd ACC yn llunio ei gasgliadau ar yr ymholiad,

(c) pan na fo paragraff (b) yn gymwys—

(i) cynnwys gydag ef yr asesiad ACC sy'n rhoi effaith i'r addasiad, neu

(ii) pan wnaed asesiad ACC sy'n rhoi effaith i'r addasiad, pennu'r asesiad hwnnw, a

(d) pennu unrhyw swm—

(i) y bydd yn ofynnol i'r trethdalwr datganoledig ei dalu o ganlyniad i'r diwygiad a bennir o dan baragraff (b), neu

(ii) y mae'n ofynnol i'r trethdalwr ei dalu yn unol â'r asesiad ACC a grybwyllir ym mharagraff (c).

(5) Os yw hysbysiad gwrthweithio terfynol yn datgan nad yw mantais drethiannol i'w gwrthweithio rhaid iddo ddatgan y rhesymau dros benderfyniad ACC.

| | |
|---|---|
| *Achos gerbron llys neu dribiwnlys*<br><br>**81H Achos mewn cysylltiad â'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi**<br><br>Mewn achos gerbron llys neu'r tribiwnlys mewn cysylltiad â'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi, mater i ACC yw dangos—<br>(a) bod yna drefniant artiffisial i osgoi trethi, a<br>(b) bod yr addasiadau a wneir (neu sydd i'w gwneud) i wrthweithio'r fantais drethiannol sy'n deillio o'r trefniant yn deg ac yn rhesymol.<br><br>*Cychwyn a darpariaeth drosiannol*<br><br>**81I Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi: cychwyn a darpariaeth drosiannol**<br><br>(1) Mae'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drefniant osgoi trethi yr ymrwymir iddo ar y dyddiad y daw'r Rhan hon i rym neu ar ôl y dyddiad hwnnw.<br><br>(2) Pan fo trefniant osgoi trethi yn rhan o unrhyw drefniadau eraill yr ymrwymwyd iddynt cyn y diwrnod hwnnw, mae'r trefniadau eraill hynny i'w hanwybyddu at ddibenion adran 81C(4) oni bai mai canlyniad ystyried y trefniadau eraill hynny fyddai penderfynu nad oedd y trefniant osgoi trethi yn un artiffisial. | |
| **Rhan 4**<br><br>**PWERAU YMCHWILIO ACC**<br><br>**PENNOD 2**<br><br>PWERAU I WNEUD GWYBODAETH A DOGFENNAU YN OFYNNOL<br><br>**86 Hysbysiadau trethdalwr**<br><br>(1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad trethdalwr") sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ("y trethdalwr") ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen—<br>(a) os oes angen yr wybodaeth neu'r ddogfen ar ACC at ddiben gwirio sefyllfa dreth y trethdalwr, | **Paragraff 34** |

| | |
|---|---|
| (b) os yw'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen, ac<br>(c) os nad oes unrhyw beth yn adrannau 97 I 102 yn rhwystro ACC rhag ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen.<br><br>~~(2) Ond ni chaiff ACC ddyroddi hysbysiad trethdalwr heb gymeradwyaeth y tribiwnlys.~~<br><br>(2) Cyn dyroddi hysbysiad trethdalwr caiff ACC (ond nid oes angen iddo, yn ddarostyngedig i adran 97(2)) wneud cais i'r tribiwnlys am gymeradwyaeth i ddyroddi'r hysbysiad | **o Atodlen 2** |
| **Rhan 5**<br><br>**COSBAU**<br><br>**PENNOD 1**<br><br>TROSOLWG<br><br>**117 Trosolwg o'r Rhan**<br><br>(1) Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth am gosbau sy'n ymwneud â threthi datganoledig neu symiau sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredydau treth], gan gynnwys—<br>(a)cosbau sy'n ymwneud â methiannau i ddychwelyd ffurflenni treth neu i dalu trethi datganoledig,<br>(b)cosbau sy'n ymwneud ag anghywirdebau,<br>(c)cosbau sy'n ymwneud â chadw cofnodion a threfniadau talu'n ôl, a<br>(d)cosbau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau.<br><br>(2) Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch—<br>(a)yr amgylchiadau pan gyfyd rhwymedigaeth i'r cosbau hynny,<br>(b)symiau'r cosbau hynny,<br>(c)yr amgylchiadau pan ganiateir gohirio rhwymedigaeth i'r cosbau hynny neu ostwng symiau'r cosbau hynny,<br>(d)asesu'r cosbau hynny, ac<br>(e)talu'r cosbau hynny.<br><br><u>**117A Dehongli a chymhwyso'r Rhan hon mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr**</u><br><br><u>(1) Yn y Rhan hon—</u><br><u>mae i "darparwr llety ymwelwyr" ("*visitor accommodation provider*") yr un ystyr ag yn adran 3 o</u> | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Paragraff 35 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00);<br>ystyr "ffurflen ardoll ymwelwyr" ("*visitor levy return*") yw ffurflen sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr (gweler adran 16 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025);<br>ystyr "ffurflen treth ddatganoledig" ("*devolved tax return*") yw ffurflen dreth sy'n ymwneud â threth ddatganoledig.<br><br>(2) Pan na fo darparwr llety ymwelwyr erioed wedi dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr nac wedi datgan i ACC a fydd y darparwr yn dychwelyd ffurflenni blynyddol neu ffurflenni chwarterol, mae'r darparwr i'w drin at ddibenion y Rhan hon fel darparwr sy'n dychwelyd ffurflenni blynyddol." | |
| **PENNOD 2**<br><br>COSBAU AM FETHU Â DYCHWELYD FFURFLENNI NEU DALU TRETH NEU SYMIAU SY'N DALADWY MEWN CYSYLLTIAD Â CHREDYDAU TRETH<br><br>*Cosb am fethu â dychwelyd ffurflen treth ddatganoledig* | **Paragraff 36 o Atodlen 2** |
| **118 Cosb am fethu â dychwelyd ffurflen treth ddatganoledig ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny**<br><br>(1) Mae person y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen treth ddatganoledig yn agored i gosb o £100 os yw'r person yn methu â dychwelyd ffurflen dreth ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny.<br><br>(2) Ond gweler adran 118A am eithriad i'r rheol uchod. | **Paragraff 37 o Atodlen 2** |
| **119 Cosb am fethu â dychwelyd ffurflen treth ddatganoledig o fewn 6 mis wedi'r dyddiad ffeilio**<br><br>(1) Mae person y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen treth ddatganoledig yn agored i gosb os yw methiant y person i ddychwelyd ffurflen treth ddatganoledig yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio.<br><br>(2) Y gosb yw'r mwyaf o'r canlynol—<br><br>(a) 5% o swm y dreth ddatganoledig y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen dreth wedi ei dychwelyd, a | **Paragraff 38 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (b ) £300. | |
| **120 Cosb am fethu â dychwelyd ffurflen treth ddatganoledig o fewn 12 mis wedi'r dyddiad ffeilio**<br><br>(1) Mae person y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen treth ddatganoledig yn agored i gosb os yw methiant y person i ddychwelyd ffurflen treth ddatganoledig yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio.<br><br>(2) Pan fo'r person, drwy fethu â dychwelyd y ffurflen treth ddatganoledig, yn atal yn fwriadol wybodaeth a fyddai'n galluogi neu'n cynorthwyo ACC i asesu rhwymedigaeth y person i dreth ddatganoledig, y gosb yw—<br>(a) £300, neu<br>(b) swm uwch, heb fod yn fwy na 95% o'r swm o dreth ddatganoledig y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen dreth wedi ei dychwelyd.<br><br>(3) Mewn unrhyw achos nad yw'n dod o fewn is-adran (2), y gosb yw'r mwyaf o'r canlynol—<br>(a) 5% o swm y dreth ddatganoledig y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen dreth wedi ei dychwelyd, a<br>(b) £300.<br><br>*Pwyntiau cosb a chosbau am fethiannau i ddychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr*<br><br>**120A Pwynt cosb am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny**<br><br>(1) Mae darparwr llety ymwelwyr ("DLlY") yn agored i bwynt cosb os yw'r darparwr yn methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr ar ddyddiad ffeilio'r ffurflen neu cyn hynny.<br><br>(2) Pan fo DLlY yn agored i bwynt cosb, caiff ACC ddyfarnu'r pwynt cosb drwy roi hysbysiad i'r DLlY.<br><br>(3) Rhaid rhoi hysbysiad o dan is-adran (2)—<br>(a) os yw'r DLlY yn dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr blynyddol, cyn diwedd y cyfnod o 48 o wythnosau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen;<br>(b) os yw'r DLlY yn dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr chwarterol, cyn diwedd y cyfnod o 11 o wythnosau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen. | |

| | |
|---|---|
| (4) Caiff ACC dynnu pwynt cosb a ddyfarnwyd o dan yr adran hon yn ôl drwy roi hysbysiad i'r DLlY; a phan dynnir pwynt cosb yn ôl, mae'r DLlY i'w drin fel pe na bai erioed wedi cael y pwynt cosb.<br><br>**120B Cosb ariannol pan fo pwyntiau cosb wedi eu dyfarnu**<br><br>(1) Os yw DLlY, ar ôl i bwynt cosb gael ei ddyfarnu iddo, yn cyrraedd y trothwy cosbau, mae'r DLlY yn agored i gosb o £100.<br><br>(2) Y trothwy cosbau yw—<br>(a) os yw'r DLlY yn dychwelyd ffurflenni blynyddol, dau bwynt cosb, a<br>(b) os yw'r DLlY yn dychwelyd ffurflenni chwarterol, pedwar pwynt cosb.<br><br>(3) Mae DLlY sy'n dod yn agored i gosb o dan is-adran (1) yn parhau i fod yn agored i'r gosb honno ni waeth a yw unrhyw un neu ragor o'r pwyntiau cosb a ddyfarnwyd i'r DLlY yn dod i ben wedi hynny.<br><br>120C Pwyntiau cosb yn dod i ben<br><br>(1) Mae pwynt cosb a ddyfarnwyd i DLlY mewn perthynas â methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr flynyddol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 24 mis sy'n dechrau â dyddiad ffeilio'r ffurflen y mae'r pwynt cosb yn ymwneud â hi.<br><br>(2) Mae pwynt cosb a ddyfarnwyd i DLlY mewn perthynas â methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr chwarterol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â dyddiad ffeilio'r ffurflen y mae'r pwynt cosb yn ymwneud â hi.<br><br>**120D Newid pa mor aml y mae rhaid ffeilio ffurflenni pan fydd gan ddarparwr bwynt cosb**<br><br>Ni chaiff DLlY sydd ag un neu ragor o bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben newid pa mor aml y mae'n dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr (o ran hynny, gweler adran 17 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00)).<br><br>**120E Cosb ariannol am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr o fewn 6 mis wedi'r dyddiad ffeilio**<br><br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo methiant DLlY i ddychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio. | **Paragraff 39 a 40 o Atodlen 2** |

(2) Mae'r DLIY yn agored i gosb o £100 (ni waeth a ddyfarnwyd unrhyw bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben i'r DLIY, neu a yw'n agored i unrhyw bwyntiau cosb, mewn perthynas â'r ffurflen o dan sylw neu unrhyw ffurflen ardoll ymwelwyr arall).

**120F Cosb ariannol am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr o fewn 12 mis wedi'r dyddiad ffeilio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo methiant DLIY i ddychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio.

(2) Mae'r DLIY yn agored i gosb (ni waeth a ddyfarnwyd unrhyw bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben i'r DLIY, neu a yw'n agored i unrhyw bwyntiau cosb, mewn perthynas â'r ffurflen sydd o dan sylw neu ag unrhyw ffurflen ardoll ymwelwyr arall).

(3) Pan fo'r DLIY, drwy fethu â dychwelyd y ffurflen ardoll ymwelwyr, yn atal yn fwriadol wybodaeth a fyddai'n galluogi neu'n cynorthwyo ACC i asesu rhwymedigaeth y DLIY i'r ardoll ymwelwyr, y gosb yw—

(a) £300, neu

(b) swm uwch, heb fod yn fwy na 95% o'r swm o ardoll ymwelwyr y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen ardoll ymwelwyr wedi ei dychwelyd.

(4) Mewn unrhyw achos nad yw'n dod o fewn is-adran (3), y gosb yw'r mwyaf o'r canlynol—

(a) 5% o'r swm o ardoll ymwelwyr y byddai'r DLIY wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen ardoll ymwelwyr wedi ei dychwelyd, a

(b) £300.

**121 Gostwng cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth: datgelu**

(1) Caiff ACC ostwng cosb o dan adran 118, 118A, 119, ~~neu 120~~ 120, 120B, 120E neu 120F os yw'r person yn datgelu gwybodaeth sydd wedi ei hatal o ganlyniad i fethiant i ddychwelyd ffurflen dreth ("gwybodaeth berthnasol").

(2) Mae person yn datgelu gwybodaeth berthnasol drwy—

(a)dweud wrth ACC amdani,

| | |
|---|---|
| (b)rhoi cymorth rhesymol i ACC feintioli unrhyw dreth ddatganoledig nas talwyd oherwydd i'r wybodaeth gael ei hatal, ac<br>(c)caniatáu i ACC weld cofnodion at ddiben gwirio faint o dreth ddatganoledig nas talwyd fel hyn.<br><br>(3) Wrth ostwng cosb o dan yr adran hon, caiff ACC ystyried—<br>(a)pa un a oedd y datgeliad wedi ei gymell neu'n ddigymell, a<br>(b)ansawdd y datgeliad.<br><br>(4) Mae datgelu gwybodaeth berthnasol—<br>(a)yn "ddigymell" os gwneir hynny ar adeg pan nad oes gan y person sy'n datgelu unrhyw reswm i gredu bod ACC wedi darganfod yr wybodaeth berthnasol neu ei fod ar fin ei darganfod, a<br>(b)fel arall, "wedi ei gymell".<br><br>(5) Mae "ansawdd", mewn perthynas â datgelu, yn cynnwys amseriad, natur a graddau. | **Paragraff 41 o Atodlen 2** |
| **122 Cosb am fethu â thalu treth mewn pryd**<br><br>(1) Mae person yn agored i gosb os yw'r person wedi methu â thalu swm o dreth ddatganoledig ar y dyddiad cosbi neu cyn hynny mewn cysylltiad â'r swm hwnnw.<br><br>(2) Y gosb—<br>(a) mewn cysylltiad â swm o dreth trafodiadau tir, yw 5% o swm y dreth nas talwyd;<br>(b) mewn cysylltiad â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, yw 1% o swm y dreth nas talwyd.<br>(c) mewn cysylltiad â swm o ardoll ymwelwyr, yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd, ond—<br>(i) os yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100;<br>(ii) os yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000."<br><br>(2A) Ond gweler adran 122ZA am eithriad i'r rheol yn is-adran (1).<br><br>(3) Yn yr adran hon ac yn adrannau ~~122ZA neu 122A~~ 122ZA, 122A a 122B y dyddiad cosbi mewn cysylltiad â swm o dreth ddatganoledig a bennir yng ngholofn 3 o Dabl A1 yw'r dyddiad a bennir yng ngholofn 4. | **Paragraff 42 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| **D.S. TABL A1 DIWYGIEDIG AR DDIWEDD YR ATODLEN O DDIWYGIADAU**<br><br>(4) Yn yr adran hon, mae i "swm gohiriedig" yr un ystyr ag yn adran 58(6)(a) DTTT.<br><br>(5) Caiff Gweinidogion Cymru addasu Tabl A1 drwy reoliadau. | |
| **122A Cosbau pellach am barhau i fethu â thalu treth ddatganoledig**<br><br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo person yn agored i gosb o dan adran 122 **[**neu 122ZA**]** mewn cysylltiad â methu â thalu swm o dreth ddatganoledig ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw, neu cyn hynny.<br><br>(2) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r person yn agored i gosb bellach.<br><br>(3) Y gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu.<br><br>(4) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r person yn agored i ail gosb bellach.<br>(5)Yr ail gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu.<br><br><u>**122B Cosbau pellach am barhau i fethu â thalu ardoll Ymwelwyr**</u><br><br><u>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo DLIY yn agored i gosb o dan adran 122 mewn cysylltiad â methu â thalu swm o ardoll ymwelwyr ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw, neu cyn hynny.</u><br><br><u>(2) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r DLIY yn agored i gosb bellach.</u><br><br><u>(3) Y gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu, ond—</u><br><u>(a) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100;</u><br><u>(b) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000.</u> | **Paragraff 43 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (4) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r DLIY yn agored i ail gosb bellach.<br><br>(5) Yr ail gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu, ond—<br>(a) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100;<br>(b) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000 | |
| **126 Esgus rhesymol dros fethu â dychwelyd ffurflen dreth neu dalu treth neu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth**<br><br>(1) Os yw person yn bodloni ACC neu (drwy apêl) y tribiwnlys bod esgus rhesymol dros fethu â dychwelyd ffurflen dreth, nid yw'r person yn agored i gosb o dan adrannau 118 i 120, 120B, 120E neu 120F, neu (yn ôl y digwydd) i bwynt cosb o dan adran 120A mewn perthynas â'r methiant.<br><br>(2) Os yw person yn bodloni ACC neu (drwy apêl) y tribiwnlys bod esgus rhesymol dros fethu â thalu treth ddatganoledig, nid yw'r person yn agored i gosb o dan adrannau 122 i ~~122A~~ 122B mewn perthynas â'r methiant.<br><br>(2A) Os yw person yn bodloni ACC neu (drwy apêl) y tribiwnlys fod esgus rhesymol dros fethu â thalu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth, nid yw'r person yn agored i gosb o dan adran 123A mewn perthynas â'r methiant.<br><br>(3) At ddibenion is-adrannau (1), (2) a (2A)—<br>(a) nid yw prinder arian yn esgus rhesymol oni bai y gellir priodoli hynny i ddigwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y person;<br>(b) pan fo person yn dibynnu ar berson arall i wneud unrhyw beth, nid yw hynny'n esgus rhesymol oni bai bod y person cyntaf wedi cymryd gofal rhesymol i osgoi'r methiant;<br>(c) os oedd gan berson esgus rhesymol am y methiant ond bod yr esgus wedi dod i ben, mae'r person i'w drin fel pe bai wedi parhau i fod â'r esgus os caiff y methiant ei gywiro heb oedi afresymol ar ôl i'r esgus ddod i ben. | **Paragraff 44 o Atodlen 2** |
| **127 Asesu cosbau o dan Bennod 2** | |

| | |
|---|---|
| (1 ) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan y Bennod hon, rhaid i ACC—<br>(a) asesu'r gosb,<br>(b) dyroddi hysbysiad i'r person o'r gosb a aseswyd, ac<br>(c) datgan yn yr hysbysiad y cyfnod, y trafodiad neu'r swm yr aseswyd y gosb mewn perthynas ag ef.<br><br>(2) Caniateir cyfuno asesiad o gosb o dan y Bennod hon ac asesiad ar gyfer treth ddatganoledig.<br><br>(3) Caniateir gwneud asesiad atodol mewn cysylltiad â chosb o dan adrannau ~~199 neu 120~~ 120 neu 120F os oedd asesiad cynharach yn gweithredu drwy gyfeirio at danamcangyfrif o swm y dreth ddatganoledig y byddai person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai wedi dychwelyd ffurflen dreth.<br><br>(4) Os yw—<br>(a) asesiad mewn cysylltiad â chosb o dan adrannau 120 neu 120F yn seiliedig ar swm y dreth ddatganoledig y byddai person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai wedi dychwelyd ffurflen dreth, a<br>(b) ACC yn darganfod bod y rhwymedigaeth honno yn ormodol,<br>(c) caiff ACC ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n agored i'r gosb yn diwygio'r asesiad fel ei fod yn seiliedig ar y swm cywir.<br><br>(5) Caniateir gwneud asesiad atodol mewn cysylltiad â chosb o dan adran ~~122, 122ZA neu 122A~~ 122ZA, 122A neu 122B os oedd asesiad cynharach yn gweithredu drwy gyfeirio at danamcangyfrif o swm y dreth ddatganoledig a oedd yn daladwy.<br><br>(6) Os yw asesiad mewn cysylltiad â chosb o dan adran ~~122, 122ZA neu 122A~~ 122ZA, 122A neu 122B yn seiliedig ar swm o dreth sy'n daladwy y mae ACC yn darganfod ei fod yn ormodol, caiff ACC ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n agored i'r gosb yn diwygio'r asesiad fel ei fod yn seiliedig ar y swm cywir.<br><br>(6A) Caniateir gwneud asesiad atodol mewn cysylltiad â chosb o dan adran 123A os oedd asesiad cynharach yn gweithredu drwy gyfeirio at danamcangyfrif o'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r credyd treth o dan sylw.<br><br>(6B) Os yw asesiad mewn cysylltiad â chosb o dan adran 123A yn seiliedig ar swm y darganfyddir ei fod yn ormodol, caiff ACC ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n agored i'r gosb yn diwygio'r asesiad fel ei fod yn seiliedig ar y swm cywir. | **Paragraff 45 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (7) O ran diwygiad a wneir o dan is-adran (4), (6) neu (6B)—<br>(a) nid yw'n effeithio ar ba bryd y mae'n rhaid talu'r gosb, a<br>(b) caniateir ei wneud ar ôl y diwrnod olaf y gellid bod wedi gwneud yr asesiad o dan sylw o dan adran 128. | |
| **128 Terfyn amser ar gyfer asesu cosbau o dan Bennod 2**<br><br>(1) Rhaid asesu cosb o dan y Bennod hon... ar neu cyn y diweddaraf o ddyddiad A a (pan fo'n gymwys) dyddiad B.<br><br>(2) Dyddiad A yw diwrnod olaf y cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau—<br>(a) yn achos methiant i ddychwelyd ffurflen dreth, <u>heblaw pan gyfyd rhwymedigaeth i'r gosb o dan adran 120B</u> â'r dyddiad ffeilio,<br><u>(aa) yn achos rhwymedigaeth i gosb o dan adran 120B (cosb ariannol pan fo pwyntiau cosb wedi eu dyfarnu), â dyddiad ffeilio'r ffurflen y dyfarnwyd y pwynt cosb a achosodd i'r darparwr llety ymwelwyr gyrraedd y trothwy cosbau mewn perthynas â hi,</u><br>(b) yn achos methiant i dalu treth ddatganoledig, â'r dyddiad cosbi, neu<br>(c)yn achos methiant i dalu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth, â'r dyddiad cosbi.<br><br>(3) Dyddiad B yw diwrnod olaf y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau—<br>(a) yn achos methiant i ddychwelyd ffurflen dreth—<br>(i) â diwedd y cyfnod apelio ar gyfer yr asesiad o swm y dreth ddatganoledig y byddai person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen dreth wedi ei dychwelyd, neu<br>(ii) os nad oes asesiad o'r fath, â'r dyddiad y caiff y rhwymedigaeth honno ei chanfod neu'r dyddiad y canfyddir mai dim yw'r rhwymedigaeth;<br>(b) yn achos methiant i dalu treth ddatganoledig—<br>(i) â diwedd y cyfnod apelio ar gyfer yr asesiad o swm y dreth ddatganoledig yr asesir y gosb mewn cysylltiad ag ef, neu<br>(ii) os nad oes asesiad o'r fath, â'r dyddiad y canfyddir y swm hwnnw o dreth ddatganoledig.<br>(c) yn achos methiant i dalu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth, diwedd y cyfnod apelio ar gyfer yr asesiad o'r swm yr asesir y gosb mewn cysylltiad ag ef.<br><br>(4) Yn is-adran (2)(b), mae i "dyddiad cosbi" yr ystyr a roddir gan adran 122(3). | **Paragraff 46 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (4A)Yn is-adran (2)(c), mae i "dyddiad cosbi" yr ystyr a roddir gan adran 123A(3).<br><br>(5) Yn is-adran (3) ..., ystyr "cyfnod apelio" yw—<br>(a)os na wneir apêl, y cyfnod y gellid gwneud apêl, a<br>(b)os gwneir apêl, y cyfnod sy'n dod i ben pan gaiff ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl. | |
| **RHAN 8**<br><br>**ADOLYGIADAU AC APELAU**<br>**PENNOD 1**<br><br>RHAGARWEINIOL<br><br>*Penderfyniadau apeliadwy*<br><br>**172 Penderfyniadau apeliadwy**<br><br>(1) Caiff person y mae penderfyniad apeliadwy yn gymwys iddo—<br><br>(a) gofyn am adolygiad o'r penderfyniad (yn ddarostyngedig i is-adran (4)), a<br>(b) apelio yn erbyn y penderfyniad,yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Rhan hon.<br><br>(2) Mae'r penderfyniadau a ganlyn gan ACC yn benderfyniadau apeliadwy—<br>(a) penderfyniad sy'n effeithio ar ba un a yw treth ddatganoledig i'w chodi ar berson;<br>(b) penderfyniad sy'n effeithio ar y swm o dreth ddatganoledig sydd i'w godi ar berson;<br>(c) penderfyniad sy'n effeithio ar y diwrnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu swm o dreth ddatganoledig;<br>(d) penderfyniad ynglŷn â chosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig;<br><u>(da) penderfyniad sy'n ymwneud â phwynt cosb am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr (o fewn ystyr Rhan 5);</u><br><u>(db) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad trethdalwr, neu i gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, pan na chymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad;</u><br>(e) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath;<br>(f) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan baragraff 14 o Atodlen 16 i DTTT (adennill rhyddhad grŵp: | **Paragraff 10 a 47 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| hysbysiad yn gwneud taliad yn ofynnol gan un arall o gwmnïau'r grŵp neu gyfarwyddwr â rheolaeth);<br>(g) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan baragraff 9 o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno (adennill rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael: hysbysiad yn gwneud taliad yn ofynnol gan un arall o gwmnïau'r grŵp neu gyfarwyddwr â rheolaeth);]<br>(h) penderfyniad sy'n ymwneud â'r dull sydd i'w ddefnyddio gan weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig i bennu pwysau deunydd at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;]<br>(i) penderfyniad sy'n ymwneud â chofrestru person at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;]<br>(j) penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;]<br>(k) penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi grŵp o gyrff corfforaethol at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;]<br>(l) penderfyniad sy'n ymwneud â chredyd treth mewn cysylltiad â threth gwarediadau tirlenwi.]<br><br>(2A) Yn is-adran (2), mae i "gweithredwr", "safle tirlenwi awdurdodedig", "cofrestru" a "man nad yw at ddibenion gwaredu" yr un ystyr ag a roddir iddynt yn DTGT.<br><br>(3) Ond nid yw'r penderfyniadau a ganlyn yn benderfyniadau apeliadwy—<br>(a) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad ymholiad o dan adran 43 neu 74;<br>(b) penderfyniad i ddyroddi—<br>(i) hysbysiad trethdalwr <u>pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad</u>, neu<br>(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo;<br>(c) penderfyniad i gynnwys gofyniad penodol mewn—<br>(i) hysbysiad trethdalwr <u>pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad</u>, neu<br>(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo.<br><br>(4) Pan fo'r tribiwnlys wedi cymeradwyo dyroddi hysbysiad gwybodaeth, ni chaiff person ofyn am adolygiad o benderfyniad ACC i ddyroddi'r hysbysiad.<br><br>(5) Pan ganiateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad mewn hysbysiad o'r fath, caniateir gofyn amdano neu ei wneud ar y seiliau a ganlyn yn unig— | |

| | |
|---|---|
| (a) ei bod yn afresymol ei gwneud yn ofynnol i'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r gofyniad;<br>(b) bod darpariaeth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro'r hysbysiad rhag ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen;<br>(c) yn achos hysbysiad adnabod a ddyroddir o dan adran 92 neu hysbysiad cyswllt dyledwr a ddyroddir o dan adran 93, nad yw amod 4 o'r adran honno wedi ei fodloni.<br><br>(6) Yn achos penderfyniad i ddyroddi ~~hysbysiad gwybodaeth~~ neu hysbysiad o ran 12A Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, y person y mae'r penderfyniad yn gymwys iddo at ddibenion is-adran (1) yw'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo.<br><br>(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau—<br><br>(a) addasu'r adran hon er mwyn—<br>(i) ychwanegu penderfyniad at is-adran (2) neu (3);<br>(ii) amrywio'r disgrifiad o benderfyniad yn y naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny;<br>(iii) tynnu ymaith benderfyniad o'r naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny;<br>(b) diwygio'r Rhan hon er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch ar ba seiliau y caniateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad apeliadwy. | |
| **179 Terfyn amser ar gyfer gwneud apêl**<br><br>(1)Rhaid i apêl gael ei gwneud i'r tribiwnlys cyn diwedd y cyfnod perthnasol.<br>(2)Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), y cyfnod perthnasol yw—<br>(a)pan fo'r apêl yn ymwneud â phenderfyniad i ddiwygio ffurflen dreth yr apelai o dan adran 45 tra bo ymholiad yn mynd rhagddo, y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi hysbysiad cau sy'n hysbysu'r apelai fod yr ymholiad wedi ei gwblhau;<br>(b)pan fo'r apêl yn ymwneud â phenderfyniad o unrhyw fath arall, y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi'r hysbysiad sy'n hysbysu'r apelai am y penderfyniad.<br>(3)Yn ddarostyngedig i is-adran (4), pan fo ACC wedi adolygu'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef, y | **Paragraff 11 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| cyfnod perthnasol yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad i'r apelai o dan adran 176(5), (6) neu (7) mewn perthynas â'r adolygiad.<br>(4)Pan fo'r apelai wedi ymrwymo i gytundeb setlo mewn perthynas â'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef ond ei fod wedi rhoi hysbysiad wedi hynny ei fod yn tynnu'n ôl o'r cytundeb o dan adran 184(4), y cyfnod perthnasol yw—<br>(a)y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad tynnu'n ôl, neu<br>(b)os yw'n hwyrach, y cyfnod perthnasol sy'n gymwys o dan is-adran (3). | |
| **182 Talu cosbau yn achos adolygiad neu apêl**<br><br>**(1)Mae'r adran hon yn gymwys i benderfyniad sy'n ymwneud â chosb y gallai person fod yn agored iddi.**<br>**(2)Pan fo ACC yn cynnal adolygiad mewn cysylltiad â'r penderfyniad, nid yw adran 154 yn gymwys i unrhyw swm o gosb y mae anghydfod yn ei gylch ("swm y mae anghydfod yn ei gylch").**<br>**(3)Pan fo'r adolygiad yn dod i'r casgliad bod swm y mae anghydfod yn ei gylch yn daladwy, rhaid i'r person dalu'r swm hwnnw cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad i'r person o dan adran 176(5) neu (7) mewn perthynas â'r adolygiad; ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (4).**<br>**(4)Pan fo'r person yn gwneud apêl mewn cysylltiad â'r penderfyniad—**<br>**(a)nid yw adran 154 yn gymwys i unrhyw swm y mae anghydfod yn ei gylch, a**<br>**(b)nid yw is-adran (3) yn gymwys.**<br>**(5)Pan fo'r apêl yn cael ei thynnu'n ôl, rhaid i'r person dalu—**<br>**(a)unrhyw swm y mae anghydfod yn ei gylch, os nad yw'r penderfyniad wedi ei adolygu, neu**<br>**(b)os yw'r penderfyniad wedi ei adolygu, unrhyw swm y mae anghydfod yn ei gylch y daeth yr adolygiad i'r casgliad ei fod yn daladwy,**<br>**cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod tynnu'n ôl.**<br>**(6)Pan ddyfernir yn derfynol, o ganlyniad i'r apêl, fod swm y mae anghydfod yn ei gylch yn daladwy, rhaid i'r person dalu'r swm hwnnw cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyfernir yn derfynol ar yr apêl.**<br>**<u>(7)Yn yr adran hon, ystyr "dyddiad talu arferol y gosb" yw'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid talu cosb o dan—</u>**<br>**<u>(a)adran 154, neu</u>**<br>**<u>(b)adran 70 o DTGT neu</u>** | |

| | |
|---|---|
| **(c) rhan [21A] Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) (asc 00)** | **Paragraff 12 o Atodlen 2** |
| **183 Penderfynu ar adolygiadau ac apelau mewn cysylltiad â hysbysiadau Gwybodaeth**<br><br>**(1)Pan fo casgliadau adolygiad o dan adran 176 yn cadarnhau neu'n amrywio penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu ofyniad mewn hysbysiad o'r fath, rhaid i'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r gofyniad (fel y'i cadarnhawyd neu y'i hamrywiwyd) o fewn unrhyw gyfnod a bennir gan ACC.**<br>**(2)Pan fo'r tribiwnlys yn cadarnhau neu'n amrywio penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad mewn hysbysiad o'r fath, rhaid i'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r gofyniad (fel y'i cadarnhawyd neu y'i hamrywiwyd)—**<br>**(a)o fewn y cyfnod a bennir gan y tribiwnlys, neu**<br>**(b)os nad yw'r tribiwnlys yn pennu cyfnod, o fewn unrhyw gyfnod a bennir gan ACC.**<br>**(3) Yn y rhan yma, mae'r cyfeiriad at hysbysiad gwybodaeth yn cynnwys cyfeiriad at hysbysiad o dan rhan 12A Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).** | **Paragraff 13 o Atodlen** 2 |
| **RHAN 10**<br><br>**DARPARIAETHAU TERFYNOL**<br>**187A Cymhwyso i'r Goron at ddibenion Treth Trafodiadau Tir**<br><br>(1) I'r graddau y mae darpariaethau canlynol y Ddeddf hon yn gymwys i dreth trafodiadau tir, maent yn rhwymo'r Goron—<br>(a) Rhan 3;<br>(b) Rhan 4 (ac eithrio Pennod 6);<br>(c) Rhan 6 (ac eithrio adrannau 157A, 160 a 161(2)(b));<br>(d) Rhan 7 (ac eithrio adrannau 168, 169 a 170);<br>(e) Rhan 8 (ac eithrio adrannau 172(1)(d) ac (e), (3)(b) ac (c), (4), (5) a (6), 182 a 183);<br>(f) adrannau 190 a 191.<br><br>(2) Ond nid yw Rhan 4 yn gymwys i Ei Mawrhydi fel unigolyn preifat (o fewn ystyr adran 38(3) o Ddeddf Achosion yn erbyn y Goron 1947 (p. 44)).<br><br>**187B Cymhwyso i'r Goron at ddibenion yr ardoll ymwelwyr** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Paragraff 14 a 48 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| <u>(1) Mae'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn rhwymo'r Goron.</u><br><br><u>(2) Nid yw'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd, ond mae'n gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.</u><br><br><u>(3) Yn is-adrannau (1) a (2), mae cyfeiriadau at "y Ddeddf hon" yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfiad a wneir o dan y Ddeddf hon.</u> | |
| **189 Rheoliadau**<br><br>(1) Mae unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—<br>(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol, a<br>(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.<br><br>(2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 18(2), 24A(5), 122(5), 156 neu 172(7) (boed ar ei ben ei hun neu ynghyd ag unrhyw ddarpariaeth arall) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.<br><br>(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | **Paragraff 49 o Atodlen 2** |
| **190 Dyroddi hysbysiadau gan ACC**<br><br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn <u>Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00)</u>, yn Neddfau Trethi Cymru, neu mewn rheoliadau a wneir oddi tanynt, yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad i berson (pa un a ddefnyddir yr ymadrodd "dyroddi" neu unrhyw ymadrodd arall) (ond gweler is-adran (9)).<br>(1A) Rhaid i hysbysiad bennu'r dyddiad y'i dyroddir.<br><br>(1B) Os na all y person y dyroddir yr hysbysiad iddo ganfod yn rhesymol effaith yr hysbysiad oherwydd camgymeriad ynddo neu hepgoriad ohono (gan gynnwys camgymeriad neu hepgoriad sy'n ymwneud ag enw'r person), mae'r hysbysiad i'w drin fel pe na bai wedi ei ddyroddi. | |

| | |
|---|---|
| (2) Caniateir dyroddi'r hysbysiad i'r person—<br>(a) drwy ei ddanfon yn bersonol i'r person,<br>(b) drwy ei adael yng nghyfeiriad priodol y person,<br>(c) drwy ei anfon drwy'r post i gyfeiriad priodol y person, neu<br>(d) pan fo is-adran (3) yn gymwys, drwy ei anfon yn electronig i gyfeiriad a ddarparwyd at y diben hwnnw.<br><br>(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r person y mae'r hysbysiad i'w ddyroddi iddo wedi cytuno mewn ysgrifen iddo gael ei anfon yn electronig.<br><br>(4) At ddibenion is-adran (2)(a), caniateir danfon hysbysiad yn bersonol i gorff corfforaethol drwy ei roi i ysgrifennydd neu i glerc y corff hwnnw.<br><br>(5) Pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad yn y dull a grybwyllir yn is-adran (2)(b), mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei dderbyn ar yr adeg y'i gadawyd yng nghyfeiriad priodol y person oni bai y dangosir i'r gwrthwyneb.<br><br>(6) At ddibenion is-adran (2)(b) ac (c), cyfeiriad priodol person yw—<br>(a) yn achos corff corfforaethol, <u>naill ai—</u><br><u>(i) </u>cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff; neu<br><u>(ii) pan fo'r ffurflen dreth ddiweddaraf a ddychwelwyd gan y corff i ACC yn cynnwys cyfeiriad sy'n honni bod yn gyfeiriad y corff, y cyfeiriad hwnnw;</u><br>(b) yn achos person sy'n gweithredu yn rhinwedd partner mewn partneriaeth, <u>naill ai—</u><br><u>(i) cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth, neu</u><br><u>(ii) pan fo'r ffurflen dreth ddiweddaraf a ddychwelwyd gan y bartneriaeth i ACC yn cynnwys cyfeiriad sy'n honni bod yn gyfeiriad y bartneriaeth, y cyfeiriad hwnnw</u><br>(c) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys olaf y person.<br><br>(7) Pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad yn y dull a grybwyllir yn is-adran (2)(c) drwy ei anfon i gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei dderbyn 48 awr ar ôl ei anfon oni bai y dangosir i'r gwrthwyneb.<br><br>(8) Pan fo ACC yn dyroddi hysbysiad yn y dull a grybwyllir yn is-adran (2)(d), mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei dderbyn 48 awr ar ôl ei anfon oni bai y dangosir i'r gwrthwyneb. | **Paragraff 50 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (9) Nid yw'r adran hon yn gymwys i unrhyw hysbysiad y gall ACC—<br>(a) ei ddarparu i berson o dan adran 103(4) neu 105(3) gan gynnwys unrhyw hysbysiad a roddir o dan adran 103(4) fel y'i cymhwysir gan adrannau 103A(4) a 103B(5))**]** , neu<br>(b) ei roi i'r tribiwnlys.<br><br>(10) Yn yr adran hon mae "hysbysiad" yn cynnwys copi o hysbysiad. | |
| **191 Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill i ACC**<br><br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, yn Neddfau Trethi Cymru, neu mewn rheoliadau a wneir oddi tanynt, yn ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i berson ddychwelyd ffurflen dreth neu roi hysbysiad neu ddogfen arall i ACC (pa un a ddefnyddir yr ymadrodd "rhoi" neu unrhyw ymadrodd arall) (ond gweler is-adran (4)).<br><br>(2) Rhaid i'r ffurflen dreth, yr hysbysiad neu'r ddogfen arall—<br>(a) bod ar ba bynnag ffurf,<br>(b) cynnwys pa bynnag wybodaeth,<br>(c) cynnwys gydag ef neu hi ba bynnag ddogfennau eraill, a<br>(d) cael ei roi neu ei rhoi ym mha bynnag fodd,<br>a bennir gan ACC.<br><br>(3) Ond mae is-adran (2) yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth wahanol a wneir yn Neddfau Trethi Cymru, neu yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, neu oddi tanynt.<br><br>(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i unrhyw ddogfen a roddir i ACC gan Weinidogion Cymru neu'r tribiwnlys. | **Paragraff 51 o Atodlen 2** |
| **192 Dehongli**<br><br>(1) At ddibenion y Ddeddf hon, dyfernir yn derfynol ynghylch apêl neu atgyfeiriad—<br>(a) pan fo wedi ei dyfarnu neu ei ddyfarnu, a<br>(b) pan nad oes unrhyw bosibilrwydd pellach y caiff y dyfarniad ei amrywio neu ei roi o'r neilltu (gan ddiystyru unrhyw bŵer i roi caniatâd i apelio oddi allan i'r cyfnod).<br><br>(2) Yn y Ddeddf hon— | |

| | |
|---|---|
| mae i "ardoll ymwelwyr" ("*visitor levy*") yr un ystyr ag yn Rhan 3 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00);<br><br>ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw—<br>(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,<br>(b) cyngor dosbarth neu gyngor sir yn Lloegr, un o gynghorau bwrdeistref Llundain, Cyngor Cyffredin Dinas Llundain neu Gyngor Ynysoedd Scilly,<br>(c) cyngor a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994 (p. 39), neu<br>(d) cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon;<br><br>ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw—<br>(a) y cyfnod sy'n dechrau â sefydlu ACC ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol, a<br>(b) pob cyfnod dilynol o flwyddyn sy'n dod i ben â 31 Mawrth;<br><br>ystyr "credyd treth" ("*tax credit"*) yw credyd treth o dan reoliadau a wneir o dan adran 54 o DTGT;<br><br>ystyr "cyfnod treth" ("*tax period*") yw cyfnod y codir treth ddatganoledig ar ei gyfer;<br><br>ystyr "Deddfau Trethi Cymru" ("*the Welsh Tax Acts*") yw—<br>(a) y Ddeddf hon, ...<br>(b) DTTT, ac<br>(c)DTGT.<br><br>ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir) sy'n un o'r canlynol neu sydd wedi ei gynnwys mewn un o'r canlynol—<br>(a) Deddf Seneddol,<br>(b) Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu<br>(c) is-ddeddfwriaeth (o fewn yr ystyr a roddir i "subordinate legislation" yn Neddf Dehongli 1978 (p. 30)) a wnaed o dan—<br>(i) Deddf Seneddol, neu<br>(ii) Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;<br><br>ystyr "DTGT" ("*LDTA*") yw Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (dccc 3);<br><br>ystyr "DTLIG" ("*TCEA*") yw Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15); | **Paragraff 52 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| ystyr "DTTT" ("*LTTA*") yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (dccc 0);**]**<br><br>ystyr "ffurflen dreth" ("*tax return*") yw ffurflen sy'n ymwneud â threth ddatganoledig;<br><br>ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ysgrifenedig;<br><br>ystyr "partneriaeth" ("*partnership*") yw—<br>(a) partneriaeth o fewn Deddf Bartneriaeth 1890 (p. 39),<br>(b) partneriaeth gyfyngedig a gofrestrwyd o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p. 24), neu<br>(c) ffyrm neu endid tebyg ei gymeriad a ffurfiwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;<br><br>ystyr "prif gyngor" ("*principal council*") yw cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;<br><br>mae i "prynwr" ("*buyer*") yr un ystyr ag yn DTTT;<br><br>ystyr "setliad contract" ("*contract settlement*") yw cytundeb a wneir mewn cysylltiad â rhwymedigaeth unrhyw berson i wneud taliad i ACC o dan unrhyw ddeddfiad;<br><br>mae i "trafodiad tir" ("*land transaction*") yr un ystyr ag yn DTTT;<br><br>ystyr "treth a gesglir gan ACC" ("*WRA-collected tax*") yw—<br>(a) treth ddatganoledig, neu<br>(b) yr ardoll ymwelwyr;"<br><br>mae i "treth ddatganoledig" yr ystyr a roddir i "devolved tax" gan adran 116A(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);<br><br>~~ystyr "trethdalwr datganoledig" ("*devolved taxpayer*") yw person sy'n agored i dalu treth ddatganoledig;~~<br><br>ystyr "trethdalwr" ("*taxpayer*") yw person sy'n atebol am dalu treth a gesglir gan ACC<br><br>mae i "treth gwarediadau tirlenwi" ("*landfill disposals tax*") yr un ystyr ag yn DTGT;<br><br>ystyr "y tribiwnlys" ("*the tribunal*") yw—<br>(a) Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, neu<br>(b) pan bennir hynny gan neu o dan Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlys, yr Uwch Dribiwnlys. | **Paragraff 52 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (3) At ddibenion y Ddeddf hon, mae prif gyngor wedi penderfynu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr os yw wedi cyhoeddi hysbysiad o dan adran 26 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn datgan ei fod yn mynd i gyflwyno'r ardoll ymwelwyr." | |
| **193 Mynegai o ymadroddion a ddiffinnir**<br><br>Mae'r Tabl a ganlyn yn rhestru ymadroddion a ddiffinnir neu a eglurir fel arall yn y Ddeddf hon.<br><br>**D. S. MAE'R TABL 1 DIWYGIEDIG AR DDIWEDD YR ATODLEN O WELLIANNAU** | **Paragraff 15 a 53 o Atodlen 1** |

**TABL A1 Cosb am fethu â thalu treth mewn pryd**

| *Eitem* | *Y dreth ddatganoledig* | *Swm y dreth* | *Y dyddiad cosbi* |
|---|---|---|---|
| 1 | Treth trafodiadau tir | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i ffurflen dreth a ddychwelir gan y prynwr mewn trafodiad tir (oni bai bod y swm o fewn eitem 8 neu 9). | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth. |
| 2 | Treth gwarediadau tirlenwi | Swm sy'n daladwy o ganlyniad i ffurflen dreth. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth. |
| 2A | Ardoll ymwelwyr | Swm sy'n daladwy o ganlyniad i ffurflen ardoll ymwelwyr. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen ardoll ymwelwyr. |
| 3 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddyfarniad ACC a wneir yn lle ffurflen dreth. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae ACC yn credu iddi fod yn ofynnol dychwelyd y ffurflen dreth. |

| ***Eitem*** | ***Y dreth ddatganoledig*** | ***Swm y dreth*** | ***Y dyddiad cosbi*** |
|---|---|---|---|
| 4 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad ACC a wneir yn lle ffurflen dreth (oni bai bod y swm o fewn eitem 7). | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae ACC yn credu iddi fod yn ofynnol dychwelyd y ffurflen dreth. |
| 5 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad ACC a wneir pan fo ffurflen dreth wedi ei dychwelyd. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm (neu'r swm ychwanegol). |
| 6 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad neu gywiriad i ffurflen dreth. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm (neu'r swm ychwanegol). |
| 7 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm (neu swm ychwanegol) sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad ACC a wneir at ddibenion gwneud addasiad i wrthweithio mantais drethiannol (gweler Rhan 3A) mewn achos pan na fo ffurflen dreth y mae gan ACC reswm i gredu ei bod yn ofynnol ei dychwelyd wedi ei dychwelyd mewn gwirionedd. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm (neu'r swm ychwanegol). |
| 8 | Treth trafodiadau tir | Pan wneir cais gohirio o dan adran 58 o DTTT, swm gohiriedig y mae'n ofynnol ei dalu yn rhinwedd adran 61(1) o'r Ddeddf honno. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm gohiriedig. |
| 9 | Treth trafodiadau tir | Pan wneir cais gohirio o dan adran 58 o DTTT, swm a wrthodir o fewn ystyr adran 61(2)(a) o'r Ddeddf honno. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol talu'r swm a wrthodir. |
| 10 | Treth gwarediadau tirlenwi | Swm a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan adran 49 neu 50 o DTGT. | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad erbyn pryd y |

| ***Eitem*** | ***Y dreth ddatganoledig*** | ***Swm y dreth*** | ***Y dyddiad cosbi*** |
|---|---|---|---|
| | | | mae'n ofynnol talu'r swm. |
| 11 | Unrhyw dreth ddatganoledig | Swm gohiriedig o fewn ystyr adran 181G(2). | Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y mae'r cyfnod gohirio yn dod i ben (gweler adran 181G ynglŷn â chyfrifo cyfnodau gohirio). |

**193 Mynegai o ymadroddion a ddiffinnir**

Mae'r Tabl a ganlyn yn rhestru ymadroddion a ddiffinnir neu a eglurir fel arall yn y Ddeddf hon.

**TABL 1**

| *Ymadrodd* | *Adran* |
|---|---|
| ACC ("*WRA*") | adran 2(2) |
| Aelod anweithredol ("*non-executive member*") | adran 3(4)(a) |
| Aelod gweithredol ("*executive member*") | adran 3(4)(b) |
| Aelod gweithredol etholedig ("*elected executive member*") | adran 3(4)(c) |
| Ardoll ymwelwyr ("*visitor levy*") | adran 192(2) |
| Artiffisial (mewn perthynas â'r rheol gwrthweithio osgoi trethi cyffredinol) ("*artificial*") | adran 81C |
| Asedau busnes ("*business assets*") | adran 111 |
| Asesiad ACC ("*WRA assessment*") | adran 56 |
| Awdurdod lleol ("*local authority*") | adran 192(2) |

| *Ymadrodd* | *Adran* |
|---|---|
| Blwyddyn ariannol ("*financial year*") | adran 192(2) |
| Credyd treth (*"tax credit")* | adran 192(2) |
| Cyfnod treth ("*tax period*") | adran 192(2) |
| Cyfradd llog ad-daliadau ("*repayment interest rate*") | adran 163(2) |
| Cyfradd llog taliadau hwyr ("*late payment interest rate*") | adran 163(1) |
| Cytundeb setlo ("*settlement agreement*") | adran 184(1) |
| <u>Darparwr llety ymwelwyr ("*visitor accommodation provider*")</u> | <u>adran 117A(1)</u> |
| Deddfau Trethi Cymru ("*Welsh Tax Acts*") | adran 192(2) |
| Deddfiad ("*enactment*") | adran 192(2) |
| DTGT ("*LDTA* | adran 192(2) |
| Dogfennau busnes ("*business documents*") | adran 111 |
| DTLlG ("*TCEA*") | adran 192(2) |
| DTTT ("*LTTA*") | adran 192(2) |
| Dyddiad cosbi ("*penalty date*") | adran 122(2) |
| Dyddiad dechrau llog ad-daliadau ("*repayment interest start date*") | adran 161(4) |
| Dyddiad dechrau llog taliadau hwyr ("*late payment interest start date*") | adrannau 157(3), 159(2) a 160(2) |
| Dyddiad ffeilio ("*filing date*") | adran 40 |
| Dyfarniad ACC ("*WRA determination*") | adran 52(3) |
| Elusen ("*charity*") | adran 85(3) |
| <u>Ffurflen ardoll ymwelwyr ("*visitor levy return*")</u> | <u>adran 117A(1)</u> |
| Ffurflen dreth ("*tax return*") | adran 192(2) |
| <u>Ffurflen treth ddatganoledig ("*devolved tax return*")</u> | <u>adran 117A(1)</u> |

| *Ymadrodd* | *Adran* |
|---|---|
| Gwybodaeth warchodedig am drethdalwr (“*protected taxpayer information*”) | adran 17(3) a (4) |
| Hysbysiad (“*notice*”) | adran 192(2) |
| Hysbysiad adnabod (“*identification notice*”) | adran 92(1) |
| Hysbysiad am gais (“*notice of request*”) | adran 173(1) |
| Hysbysiad cau (“*closure notice*”) | dran 50(1) (mewn perthynas ag ymholiad i ffurflen dreth) ac adran 75(1) (mewn perthynas ag ymholiad i hawliad) |
| Hysbysiad cyswllt dyledwr (“*debtor contact notice*”) | adran 93(1) |
| Hysbysiad gwrthweithio arfaethedig (“*proposed counteraction notice*”) | adran 81F |
| Hysbysiad gwrthweithio terfynol (“*final counteraction notice*”) | adran 81G |
| Hysbysiad gwybodaeth (“*information notice*”) | adran 83 |
| Hysbysiad trethdalwr (“*taxpayer notice*”) | adran 86(1) |
| Hysbysiad trydydd parti (“*third party notice*”) | adran 87(1) |
| Hysbysiad trydydd parti anhysbys (“*unidentified third party notice*”) | adran 89(1) |
| Darparwr llety ymwelwyr (“visitor accommodation provider | adran 117A(1) |
| Hysbysiad ymholiad (“*notice of enquiry*”) | adran 43(1) (mewn perthynas â ffurflen dreth) ac adran 74(1) (mewn perthynas â hawliad) |
| Llog ad-daliadau (“*repayment interest*”) | adran 161(3) |
| Llog taliadau hwyr (“*late payment interest*”) | adran 157(2) |
| Mangre (“*premises*”) | adran 111 |
| Mangre busnes (“*business premises*”) | adran 111 |
| Mantais drethiannol (“*tax advantage*”) | adran 81D |
| Partneriaeth (“*partnership*”) | adran 192(2) |
| Penderfyniad apeliadwy (“*appealable decision*”) | adran 172(2) a (3) |

| *Ymadrodd* | *Adran* |
|---|---|
| Prif gyngor ("principal council") | adran 192(2) |
| Prif gyngor sydd wedi penderfynu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr ("principal council that has decided to introduce the visitor levy") | adran 192(3) |
| Prynwr ("*buyer*") | adran 192(2) |
| Refeniw posibl a gollir ("*potential lost revenue*") | adran 134 |
| Rhedeg busnes ("*carrying on a business*") | adran 85 |
| Rheol gwrthweithio osgoi trethi cyffredinol ("*general anti-avoidance rule*") | adran 81A(2) |
| Sefyllfa dreth ("*tax position*") | adran 84 |
| Setliad contract ("*contract settlement*") | adran 192(2) |
| Swyddog perthnasol ("*relevant official*") | adran 17(2) |
| Trefniant (mewn perthynas â'r rheol gwrthweithio osgoi trethi cyffredinol) ("*arrangement*") | adran 81B(3)A |
| Treth a gesglir gan ACC ("*WRA-collected tax*") | adran 192(2) |
| Treth ddatganoledig ("*devolved tax*") | adran 192(2) |
| Trethdalwr ("*taxpayer*") | adran 192(2) |
| Trethdalwr datganoledig ("*devolved taxpayer*") | ~~Adran 192(2)~~ adran 81B(3)(c) |
| Treth gwarediadau tirlenwi ("*landfill disposals tax*") | adran 192(2) |
| Trefniant osgoi trethi ("*tax avoidance arrangement*") | adran 81B |
| Y tribiwnlys ("*the tribunal*") | adran 192(2) |

Darpariaethau gweinyddu a rheoli treth yn effeithio ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

| Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | |
|---|---|
| **23 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**<br><br>(1)Rhaid talu ffioedd a symiau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cael, i SAC.<br>(2)Caiff SAC godi ffi mewn perthynas ag archwilio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon person gan yr Archwilydd Cyffredinol.<br>(3)Caiff SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol—<br>(a)ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymchwiliadau penodol i ddarbodaeth etc person wrth ddefnyddio adnoddau);<br>(b)ymchwiliad a gynhelir ar gais person o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ymchwiliadau i ddefnydd o adnoddau) neu astudiaeth a wneir ar gais person o dan adran 145A o'r Ddeddf honno (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau);<br>ba)ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru;**]**<br>(c)ymchwiliad neu astudiaeth a gynhelir neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gais person o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;<br>(ca)ymchwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy);**]** | **Paragraff 16 o Atodlen 2** |

| | |
|---|---|
| (d)unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan adran 19.<br>(4)Rhaid i SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol—<br>(a)darparu gwasanaethau i gorff o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff);<br>(b)astudiaeth ar gais corff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.<br>(5)O ran ffioedd a godir o dan yr adran hon—<br>(a)ni chaniateir iddynt gael eu codi ond yn unol â chynllun a baratoir gan SAC o dan adran 24;<br>(b)ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi;<br>(c)maent yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth a arferir yn ymwneud ag ef. | |

Darpariaethau gweinyddu a rheoli treth yn effeithio ar Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

| Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 | |
|---|---|
| <u>Atodlen 3 Awdurdodau rhestredig</u><br><br><u>*Treth a Chofrestru*</u><br><u>Adwurdod Cyllid Cymru</u> | **Paragraff 17 o Atodlen 2** |

# ATODIAD 4 - DULL CYFRIFO'R AMCANGYFRIF O REFENIW O'R ARDOLL YMWELWYR

## Dull cyfrifo

Noder efallai na fydd rhai o'r cyfrifiadau a gyflwynir isod yn gwneud cyfanswm cywir. O ran cywirdeb, mae'r cyfansymiau a gyflwynir yn seiliedig ar ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu.

## Cyfraddau'r ardoll a ragdybir mewn cyfrifiadau

**Cyfradd is:** £0.75 fesul person, fesul noson ar gyfer pebyll ar safleoedd gwersylla / llety hostel

**Cyfradd uwch:** £1.30 fesul person, fesul noson ar gyfer pob math arall o lety

## Cyfanswm Nosweithiau Cymru[82]

*O Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (2017 – 2019, cyfartaledd treigl 3 blynedd):*

**(A) Arosiadau dros nos domestig yng Nghymru** = 33.898 miliwn o nosweithiau

*O'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (2017 – 2019, cyfartaledd treigl 3 blynedd):*

**(B) Arosiadau dros nos rhyngwladol yng Nghymru** = 7.198 miliwn o nosweithiau

Felly, **cyfanswm y nosweithiau a dreulir yng Nghymru** yw = (A) + (B)

= 33.898 + 7.198

= **41.096 miliwn**

## Amcangyfrif o gyfanswm y nosweithiau mewn llety masnachol yng Nghymru

*O Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr:*

[82] Proffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol: 2017 i 2019 | LLYW.CYMRU Er y byddai diweddariad yn bosibl ar gyfer y cyfnod sy'n cwmpasu 2022 i 2024 ar gyfer twristiaeth ddomestig, nid yw ffigurau cyfatebol ar gyfer twristiaeth ryngwladol ar gyfer y cyfnod hwn ar gael ar hyn o bryd. Felly, mae'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcangyfrif refeniw a amlinellir yn yr Atodiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 3 blynedd diweddaraf y mae set gyson o ddata ar gael ar ei gyfer o ran twristiaeth ddomestig a thwristiaeth ryngwladol yng Nghymru.

Anwybyddwyd arosiadau dros nos domestig yng Nghymru sydd wedi eu labelu fel rhai sy'n digwydd yng '*Nghartref person ei hun / cartref ffrind / cartref perthynas / carafán sefydlog a berchnogir*', gan y rhagdybir eu bod y tu allan i gwmpas yr ardoll ymwelwyr. Mae'r nosweithiau hyn yn cyfrif am oddeutu 30% o'r arosiadau dros nos domestig yng Nghymru (mae'r gyfran hon yn seiliedig ar gyfartaledd o 3 blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2019).

**(D) Amcangyfrif o arosiadau dros nos <u>domestig</u> mewn llety masnachol yng Nghymru** = (A) x (1 – 30%)

= 33.898 x 70%

= 23.729 miliwn

*O'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol:*

Nid oes dadansoddiadau o arosiadau dros nos rhyngwladol yng Nghymru yn ôl math o lety ymwelwyr. Felly, defnyddiwyd data ar lefel y DU, sy'n dangos bod tua 44% o arosiadau dros nos rhyngwladol yn y DU yn nosweithiau a dreulir fel '*gwestai sy'n aros am ddim gyda pherthnasau neu ffrindiau*' neu nosweithiau a dreulir yng '*nghartref person ei hun*'. (Fel o'r blaen, mae'r gyfran hon yn seiliedig ar gyfartaledd o 3 blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2019, ac yn absenoldeb data penodol i Gymru, rhagdybir ei bod yn wir am Gymru).

**(E) Amcangyfrif o arosiadau dros nos <u>rhyngwladol</u> mewn llety masnachol yng Nghymru** = (B) x (1 – 44%)

= 7.198 x 56%

=~ 4.059 miliwn

**(F) Felly, yr amcangyfrif o gyfanswm y nosweithiau mewn llety masnachol yng Nghymru** yw = (D) + (E)

= 23.729 + 4.059

=~ **27.787 miliwn**

## Amcangyfrif o nosweithiau masnachol a dreulir mewn pebyll ar safleoedd gwersylla ac mewn hostelau yng Nghymru

*O Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr:*

O'r amcangyfrif o arosiadau dros nos domestig mewn llety masnachol yng Nghymru (gweler (D) uchod), mae data o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr ar

gyfer 2017-2019 yn awgrymu bod tua 9% o'r nosweithiau hyn yn digwydd mewn pebyll a bod 1% yn digwydd mewn hostelau. (Mae'r cyfrannau hyn yn seiliedig ar gyfartaleddau o 3 blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2019).

**(G) Amcangyfrif o nosweithiau masnachol domestig mewn pebyll a hostelau yng Nghymru** = (D) x 10%

= 23.729 x 10%

=~ 2.245 miliwn

*O'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol:*

O'r amcangyfrif o arosiadau dros nos rhyngwladol mewn llety masnachol yng Nghymru (gweler (E) uchod), defnyddiwyd data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar lefel y DU i amcangyfrif nifer y nosweithiau sy'n digwydd mewn pebyll a hostelau (gan nad oes dadansoddiadau cyfatebol ar gael ar gyfer Cymru). Mae'r data ar lefel y DU yn dangos bod tua 12% o nosweithiau rhyngwladol mewn llety masnachol yn digwydd mewn llety '*hostel / prifysgol / ysgol*' a bod 2% o nosweithiau rhyngwladol yn digwydd mewn llety '*gwersylla / carafanau*' yn y DU. (Mae'r cyfrannau hyn yn seiliedig ar gyfartaleddau o 3 blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2019, a rhagdybir eu bod yn wir am Gymru yn absenoldeb data penodol i Gymru). Rhagdybiwyd y byddai nosweithiau rhyngwladol mewn llety '*hostel / prifysgol / ysgol*' yn cael eu codi ar y gyfradd ardoll is, ac mai dim ond hanner (h.y. 50%) o'r nosweithiau rhyngwladol sy'n digwydd mewn llety '*gwersylla / carafanau*' a fyddai'n cael eu codi ar y gyfradd is[83].

**(H) Amcangyfrif o nosweithiau rhyngwladol masnachol mewn pebyll / hostelau yng Nghymru** = (E) x (12% + (0.5 x 2%))

= 4.059 x 13%

=~ 0.542 miliwn

**(I) Amcangyfrif o gyfanswm y nosweithiau masnachol a dreulir mewn pebyll ar safleoedd gwersylla ac mewn hostelau yng Nghymru**
= (G) + (H)

= 2.245 + 0.542

[83] Gellid bod wedi archwilio rhagdybiaethau eraill yma, ond gan ystyried y nifer isel o nosweithiau o dan sylw, byddai'r effeithiau ar gyfanswm y refeniw yn fach.

= 2.787 miliwn

*O Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr:*

Wrth edrych ar ddata 2017 – 2019 a ddefnyddiwyd i lywio'r amcangyfrifon refeniw a amlinellir yn yr Atodiad hwn, ceir diffyg data ynghylch nosweithiau a dreulir yng Nghymru yn ôl oedran ymwelydd. Yn absenoldeb gwybodaeth o'r fath, defnyddiwyd data mwy diweddar gan Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr fel procsi, a amcangyfrifodd fod 36% o deithiau i Gymru yn cynnwys plentyn yn y parti ymwelwyr yn 2022 (o gymharu â 32% ym Mhrydain Fawr yn ei chyfanrwydd)[84]. Yn y data ar gyfer 2017 i 2019, tybiwyd felly y gallai hyd at 36% o'r nosweithiau masnachol a dreuliwyd mewn pebyll a hosteli fod wedi cael eu cyfrif gan bobl ifanc o dan 16 oed[85]. Yn Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, diffinnir plentyn fel person o dan 16 oed yn hytrach nag o dan 18 oed, felly gall nifer y nosweithiau y gellid eu hesemptio o'r ardoll oherwydd nad yw'r gyfradd ardoll is yn daladwy i blant o dan 18 oed fod ychydig yn uwch nag a dybiwyd yma. Gan ystyried y diffyg data ynghylch arosiadau dros nos rhyngwladol yng Nghymru yn ôl oedran ymwelydd, mae'r un gyfran wedi ei thybio ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol sy'n aros mewn gwersylloedd a hosteli a gynigir yn fasnachol hefyd.

**(J) Amcangyfrif o gyfanswm y nosweithiau masnachol a dreulir mewn pebyll ar safleoedd gwersylla ac mewn hostelau yng Nghymru ar ôl caniatáu esemptiad i bobl ifanc o dan 18 oed** = (I) x (1-36%)

= 2.787 x 64%

= ~1.783

## Amcangyfrif o refeniw

**(K) Amcangyfrif o refeniw o'r gyfradd is yng Nghymru** **= (I) x £0.75** = (J) x £0.75

= 1.783 x £0.75

= £1.3 miliwn

[84] Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr (teithiau dros nos yng Nghymru): 2022 | LLYW.CYMRU

[85] Adroddodd data mwy diweddar ar gyfer 2023 fod 28% o deithiau i Gymru yn cynnwys plentyn yn y parti ymwelwyr [Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr: adroddiad blynyddol 2023 | LLYW.CYMRU]. Gan ystyried y bydd y ffigur hwn yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae'r mwyaf o'r ddau ffigur diweddar wedi ei ddefnyddio i lywio rhagdybiaethau yma. Byddai cymryd cyfartaledd (h.y. 32%) o'r ddau ffigur a adroddwyd ar gyfer 2022 a 2023 yn y cyfrifiadau yn cynyddu cyfanswm amcangyfrifedig refeniw o'r ardoll a adroddir yn (M) tua £0.1 miliwn y flwyddyn.

**(L) Amcangyfrif o refeniw o'r gyfradd uwch yng Nghymru** = ((F) – (I)) x £1.30

= (27.787 – 2.787) x £1.30

= 25.001 x £1.30

= £32.5 miliwn

**(M) Amcangyfrif o gyfanswm y refeniw o'r ardoll ymwelwyr yng Nghymru** = (K) + (L)

= £1.3 + £32.5

**= £33.8 miliwn**

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dylid ystyried yr amcangyfrif refeniw uchod fel uchafswm, gan nad yw'n cynnwys lwfans ar gyfer y canlynol:

(i) ymateb ymddygiadol gan ymwelwyr tuag at yr ardoll,
(ii) effaith unrhyw esemptiadau y gellir eu cynnwys,
(iii) y gost o gasglu'r ardoll, ac ymhellach
(iv) mae hefyd yn rhagdybio y bydd darparwyr llety ymwelwyr yn cydymffurfio'n llawn â'r ardoll.